# Cofnod y Trafodion
# The Record of Proceedings
# 10/12/2013

Cynnwys Contents


Teyrngedau i Nelson Mandela
Tributes to Nelson Mandela

Cwestiynau i'r Prif Weinidog
Questions to the First Minister

Datganiad a Chyhoeddiad Busnes
Business Statement and Announcement

Datganiad: Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr 2012
Statement: Programme for International Student Assessment 2012

Datganiad: Y Llifogydd Diweddar yng Ngogledd Cymru
Statement: Recent Flooding in North Wales

Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil Dŵr
Legislative Consent Motion on the Water Bill

Dadl ar y Gyllideb Derfynol ar gyfer 2014-15
Debate on the Final Budget 2014-15

Dadl ar yr Adroddiad Blynyddol ar Ddatblygu Cynaliadwy
Debate on the Sustainable Development Annual Report

Dadl Cyfnod 3 o dan Reol Sefydlog 26.44 ar y Bil Rheoli Ceffylau (Cymru)
Stage 3 Standing Order 26.44 Debate on the Control of Horses (Wales) Bill

Cynnig Cyfnod 4 o dan Reol Sefydlog 26.47 i Gymeradwyo'r Bil Rheoli Ceffylau (Cymru)
Stage 4 Standing Order 26.47 Motion to Approve the Control of Horses (Wales) Bill

Cyfnod Pleidleisio
Voting Time


*Cyfarfu'r Cynulliad am 13:30 gyda'r Llywydd (Rosemary Butler) yn y Gadair.*

*The Assembly met at 13:30 with the Presiding Officer (Rosemary Butler) in the Chair.*

13:30

## Y Llywydd / The Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Good afternoon. The National Assembly is now in session.

Prynhawn da. Dyma ddechrau trafodion y Cynulliad Cenedlaethol.

13:30

## Teyrngedau i Nelson Mandela

## Tributes to Nelson Mandela

Senedd.tv Fideo Video

## Y Llywydd / The Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Before we move to the formal agenda, I am honoured to lead tributes to Nelson Mandela today. He was a true visionary, and an inspiration to so many. He brought about democratic equality in his own country, through persuasion, diplomacy and the determination to do the right thing. He did not harbour ill will against those who oppressed him or his country's people. He did not seek revenge or retribution; instead, he led through collaboration and a will to change things for the better. He succeeded, and he changed attitudes—the mark of a true world leader.

Cyn i ni symud i'r agenda ffurfiol, mae'n anrhydedd i mi gael arwain teyrngedau i Nelson Mandela heddiw. Roedd yn weledydd o'r iawn ryw, ac yn ysbrydoliaeth i gymaint o bobl. Daeth â chydraddoldeb democrataidd i'w wlad ei hun, trwy berswâd, diplomyddiaeth a'r penderfyniad i wneud y peth iawn. Nid oedd yn dal dig yn erbyn y rhai â'i gormesodd ef a phobl ei wlad. Ni cheisiodd ddial; yn hytrach, arweiniodd trwy gydweithrediad ac ewyllys i newid pethau er gwell. Llwyddodd i wneud hynny, a newidiodd agweddau—nod arweinydd byd-eang o'r iawn ryw.

He touched aspects of British life in a way that very few other international figures have done. For me, as Presiding Officer, his legacy was his unwavering commitment to equality, a battle for which he fought all his adult life. On behalf of the National Assembly for Wales, our heartfelt sympathies are with his family and the people of South Africa.

Cyffyrddodd agweddau ar fywyd Prydain mewn ffordd y mae ychydig iawn o ffigyrau rhyngwladol eraill wedi ei wneud. I mi, fel Llywydd, ei etifeddiaeth oedd ei ymrwymiad diwyro i gydraddoldeb, brwydr a ymladdodd trwy gydol ei fywyd fel oedolyn. Ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru, rydym yn cydymdeimlo o waelod calon gyda'i deulu a phobl De Affrica.

I now invite the party leaders to pay their own tributes. I first of all call on Carwyn Jones, the First Minister.

Gwahoddaf arweinwyr y pleidiau i dalu eu teyrngedau eu hunain nawr. Galwaf yn gyntaf ar Carwyn Jones, y Prif Weinidog.

13:31

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Mae'n fraint ac yn anrhydedd i godi i roi teyrnged i Nelson Mandela ar ran y grŵp Llafur. Mae ein teimladau ni, wrth gwrs, gyda'i deulu ar yr amser hwn, wedi iddynt golli un a oedd mor bwysig iddynt fel teulu.

It is an honour and a privilege to rise to pay tribute to Nelson Mandela on behalf of the Labour group. Our thoughts are with his family at this time, as they have lost someone who was so important to them as a family.

Mae'n wir dweud bod Nelson Mandela yn un o ffigyrau mawr y ganrif hon a'r ganrif ddiwethaf. Cafodd fywyd hir, ac ef, wrth gwrs, oedd arlywydd democrataidd cyntaf De Affrica.

It is right to say that Nelson Mandela was one of the great figures of this century and the last. He lived a long life, and he was, of course, the first democratic president of South Africa.

Llywydd, it is an honour and a privilege to rise to pay tribute to Nelson Mandela on behalf of the Labour group. Our thoughts and feelings are very much with his family at this time, when they have suffered such a great loss.

Lywydd, mae hefyd yn fraint ac yn anrhydedd cael codi i dalu teyrnged i Nelson Mandela ar ran y grŵp Llafur. Mae ein meddyliau a'n teimladau gyda'i deulu ar yr adeg hon, pan eu bod wedi dioddef colled mor enbyd.

It is right to say, of course, that he was one of the great figures of this century and the last. He lived a long life, and he was, of course, the first democratic president of South Africa. However, he was much more than that. He showed that injustice could be overcome—in time, for him, but it could be overcome—and he also showed that reconciliation was the key to a better future. That is an example, not just to all in politics, but to all in society at large.

Mae'n iawn dweud, wrth gwrs, ei fod yn un o ffigurau mawr y ganrif hon a'r ganrif ddiwethaf. Cafodd fywyd hir, ac ef, wrth gwrs, oedd arlywydd democrataidd cyntaf De Affrica. Fodd bynnag, roedd yn llawer mwy na hynny. Dangosodd y gellid goresgyn anghyfiawnder—ar ôl cryn amser, iddo ef, ond gellid ei oresgyn—a dangosodd hefyd mai cymodi oedd yr allwedd i sicrhau dyfodol gwell. Mae hynny'n esiampl, nid yn unig i bawb ym myd gwleidyddiaeth, ond i bawb mewn cymdeithas yn gyffredinol.

He is, of course, associated intimately with the struggle against apartheid. There are many of us on these benches who were part—in a very small way—of that struggle, and were delighted to see that evil system fall. The idea of apartheid seems to us now to be incredible—unimaginable—yet there were many who defended it at the time, and saw it as a natural form of events.

Mae wedi ei gysylltu'n agos, wrth gwrs, â'r frwydr yn erbyn apartheid. Mae llawer ohonom ni ar y meinciau hyn a oedd yn rhan—mewn ffordd fechan iawn—o'r frwydr honno, ac yn falch iawn o weld cwymp y system gythreulig honno. Mae'r syniad o apartheid yn ymddangos i ni nawr yn anhygoel—yn annirnadwy—ac eto roedd llawer a oedd yn ei amddiffyn ar y pryd, ac yn ei ystyried yn ffurf naturiol ar bethau.

It is right to say that we in Wales played our part in overcoming apartheid, and I want to pay tribute to all those who, over the years, played a part in the Wales anti-apartheid movement, in order to ensure that the system eventually disappeared. I think that it is right to say that, when we look, for example, at rugby, we eventually got to a point where there was a boycott of South Africa—although it certainly took longer than it should have done. However, certainly from 1980 onwards, there were no official contacts between Wales and South Africa, certainly in the field of rugby.

Mae'n iawn dweud ein bod ni yng Nghymru wedi chwarae ein rhan i oresgyn apartheid, a hoffwn dalu teyrnged i bawb a chwaraeodd ran, dros y blynyddoedd, ym mudiad gwrth-apartheid Cymru, er mwyn sicrhau bod y system yn diflannu yn y pen draw. Rwy'n credu ei bod yn iawn i ddweud, pan edrychwn ni, er enghraifft, ar rygbi, i ni gyrraedd pwynt yn y pen draw lle'r oedd boicot o Dde Affrica—er ei bod yn sicr wedi cymryd mwy o amser nag y dylai fod wedi ei wneud. Fodd bynnag, yn bendant o 1980 ymlaen, nid oedd unrhyw gysylltiadau swyddogol rhwng Cymru a De Affrica, yn sicr ar y maes rygbi.

It is true to say that, while there were those who said that sport and politics do not mix, the reality is that it is not possible to have normal sport in an abnormal society, and the sporting boycott, of course, led ultimately—or contributed—to the downfall of apartheid.

Mae'n wir i ddweud, er bod rhai a oedd yn dweud nad yw chwaraeon a gwleidyddiaeth yn cymysgu, y gwir amdani yw nad yw'n bosibl cael chwaraeon normal mewn cymdeithas annormal, ac arweiniodd—neu fe gyfrannodd—y boicot chwaraeon, wrth gwrs, yn y pen draw, at gwymp apartheid.

In the 1980s, when I first became involved in politics, Nelson Mandela was an iconic figure, although we knew him only from a photograph that had been taken in the early 1960s. The student union building—or the guild of students building—in Aberystwyth was renamed the Mandela building, and not without opposition from some. I am sure that there are some whose youthful comments about Nelson Mandela will now come back to haunt them, and the foolishness of those comments at the time. I will leave it at that.

Yn y 1980au, pan ddechreuais i gymryd rhan mewn gwleidyddiaeth gyntaf, roedd Nelson Mandela yn ffigwr eiconig, er ein bod ond yn ei adnabod o lun a dynnwyd ar ddechrau'r 1960au. Ailenwyd adeilad undeb y myfyrwyr—neu adeilad urdd y myfyrwyr—yn Aberystwyth yn adeilad Mandela, ac nid heb wrthwynebiad gan rai. Rwy'n siŵr bod rhai y bydd eu sylwadau am Nelson Mandela fel pobl ifanc yn hunllef iddyn nhw erbyn hyn, a ffolineb y sylwadau hynny ar y pryd. Ni ddywedaf fwy am y mater.

In 1990, he emerged from prison and, although, of course, we did not expect him to look as he did in the photograph taken during the trial in the early 1960s, it was nevertheless a shock to see somebody who was obviously much older. However, he was equally as determined, having overcome apartheid, to build a new South Africa.

Ym 1990, daeth allan o'r carchar ac, er, wrth gwrs, nad oeddem ni'n disgwyl iddo edrych fel yr oedd yn y llun a dynnwyd yn ystod yr achos llys ar ddechrau'r 1960au, roedd yn sioc er hynny gweld rhywun a oedd yn amlwg yn llawer hŷn. Fodd bynnag, roedd yr un mor benderfynol, ar ôl goresgyn apartheid, i adeiladu De Affrica newydd.

He spent 27 years in captivity. Much of that time was spent at Robben Island. I have been to Robben Island; it is a prison designed to destroy the human spirit. It is offshore from Cape Town, across waters that are dangerous in terms of the currents and the fact that there are many sharks in those waters, which it is impossible to escape from. I have seen the cell where he was held in captivity. It is a tiny cell and he was called upon to sleep on the floor. The monotony and the brutality that were part of the existence of prisoners at Robben Island have been well documented, but what horrified me—because I expected to hear of the monotony and the brutality—was the degradation. It was a fact that black prisoners were expected to wear shorts, not long trousers, because in the view of the prison system, they were mere boys and not men. That was the regime under which he had to live for so long.

Treuliodd 27 mlynedd mewn caethiwed. Treuliwyd llawer o'r amser hwnnw ar Ynys Robben. Rwyf wedi bod ar Ynys Robben; mae'n garchar a gynlluniwyd i ddinistrio'r ysbryd dynol. Mae wedi ei leoli yn y môr ddim ymhell o Cape Town, ar draws dyfroedd sy'n beryglus o ran y cerrynt a'r ffaith fod llawer o siarcod yn y dyfroedd hynny, sy'n golygu ei bod yn amhosibl dianc oddi yno. Rwyf wedi gweld y gell lle cafodd ei ddal mewn caethiwed. Cell fechan ydyw ac fe'i gorfodwyd i gysgu ar y llawr. Mae pawb wedi clywed am yr undonedd a'r creulondeb a oedd yn rhan o fodolaeth carcharorion ar Ynys Robben, ond yr hyn a oedd yn arswydus i mi—gan fy mod i'n disgwyl clywed am yr undonedd a'r creulondeb—oedd y diraddio. Roedd yn ffaith bod disgwyl i garcharorion du wisgo trowsus byr, nid trowsus hir, gan mai dim ond bechgyn oedden nhw ym marn system y carchar, nid dynion. Dyna oedd y gyfundrefn y bu'n rhaid iddo fyw oddi tani gyhyd.

When he became president of South Africa, it is a marvel to me and to many others that he did not come out having experienced all that he did wanting revenge. He did not come out and say, 'These people kept me in captivity and in horrific conditions, so I want to make sure that they suffer in the future for what they did to me'; that was not the path that he chose. It is because of him that the civil war that was widely expected in South Africa in the late 1980s and early 1990s did not materialise. There was no major bloodshed in South Africa, and that was because of his example. He went out of his way to reach out to the white minority, even to the extent of ensuring that the springbok emblem was kept on the jersey of the South African rugby team—a jersey that he wore with pride at the 1995 Rugby World Cup final when South Africa, in extra time, defeated New Zealand. For him, it was an important symbol of reconciliation in society.

Pan ddaeth yn arlywydd De Affrica, mae'n rhyfeddod i mi ac i lawer o bobl eraill na ddaeth allan eisiau dial ar ôl popeth a ddigwyddodd iddo. Nid ddaeth allan a dweud, 'Cadwodd y bobl yna fi mewn caethiwed ac o dan amodau erchyll, felly rwyf am wneud yn siŵr eu bod yn dioddef yn y dyfodol am yr hyn a wnaethant i mi'; nid dyna'r llwybr a ddewisodd. O'i herwydd ef ni ddigwyddodd y rhyfel cartref a ddisgwylid yn gan lawer yn Ne Affrica ar ddiwedd y 1980au a dechrau'r 1990au. Ni fu unrhyw dywallt gwaed mawr yn Ne Affrica, ac roedd hynny oherwydd ei esiampl. Aeth allan o'i ffordd i estyn allan i'r lleiafrif gwyn, hyd yn oed i'r graddau o sicrhau bod bathodyn y springbok yn cael ei gadw ar grys rygbi tîm De Affrica—crys a wisgwyd ganddo gyda balchder yn rownd derfynol Cwpan Rygbi'r Byd 1995, pan drechodd De Affrica Seland Newydd ar ôl amser ychwanegol. Iddo fe, roedd yn symbol pwysig o gymodi mewn cymdeithas.

He steered his country in the right direction—away from its past of repression and oppression to a future where democracy would hold sway, where there would be the rule of law and government would be decided by the majority, regardless of the colour of their skin or their religion. Of course, his experiences are well-documented in his book, 'Long Walk to Freedom'.

Llywiodd ei wlad i'r cyfeiriad cywir—i ffwrdd oddi wrth ei gorffennol o ormes a gorthrwm at ddyfodol lle byddai democratiaeth yn fuddugol, lle y byddai rheolaeth y gyfraith a lle y byddai'r llywodraeth yn cael ei benderfynu gan y mwyafrif, waeth beth fo lliw eu croen na'u crefydd. Wrth gwrs, mae ei brofiadau wedi eu cofnodi'n drylwyr yn ei lyfr, 'Long Walk to Freedom'.

Ffarwel, felly, i rywun oedd yn gawr o ddyn, yn gawr o gymeriad ac yn gawr o arweinydd. Mae wedi mynd, ond mae ei esiampl yn parhau.

Farewell, then, to someone who was a giant of a man, a giant of a character and a giant of a leader. He is gone, but his example remains.

Farewell, then, to someone who was a giant of a man, a giant of a character and a giant of a leader. He is gone, but his example remains.

Ffarwel, felly, i rywun oedd yn gawr o ddyn, yn gawr o gymeriad ac yn gawr o arweinydd. Mae wedi mynd, ond mae ei esiampl yn parhau.

13:38

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I now call on Andrew R.T. Davies, the leader of the opposition.

Galwaf nawr ar Andrew R.T. Davies, arweinydd yr wrthblaid.

13:38

## Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*

It is a huge privilege for me to stand here today as the leader of the opposition and leader of the Welsh Conservatives to say a few remarks in tribute to a great icon of the twentieth century and the early part of the twenty-first century.

Mae'n fraint enfawr i mi sefyll yma heddiw fel arweinydd yr wrthblaid ac arweinydd Ceidwadwyr Cymru i ddweud ychydig o eiriau mewn teyrnged i eicon pwysig o'r ugeinfed ganrif a rhan gynnar yr unfed ganrif ar hugain.

For my formative years in the 1970s and 1980s—and into the 1990s as well—South Africa dominated the news. There was the cold war and the issues in South Africa, and the abhorrent regime of apartheid. There were then the positive developments in the 1990s, driven, I would suggest, by one man: Nelson Mandela. He was able to reach out to the people who had tormented him, his family and people from across the continent of Africa in the belief that their systems were purer than anything else. It was his fortitude and the way in which he carried himself and his colleagues in the ANC—and, indeed, many of the organisations that found a welcoming home in the United Kingdom who stood up and campaigned for so long—that brought down the walls of apartheid and the national regime in South Africa. The life of Nelson Mandela should be viewed as an example of something that we should all strive for in that we hold dear our principles and that we do not sell out those principles. Above all, we should be tolerant of other people's views and inclusive in trying to bring forward change on an inclusive agenda for people to feel part of the country of their origin.

Yn ystod fy mlynyddoedd cynnar yn y 1970au a'r 1980au —ac i mewn i'r 1990au hefyd—roedd De Affrica yn dominyddu'r newyddion. Roedd hi'n gyfnod y rhyfel oer a'r materion yn Ne Affrica, a chyfundrefn ffiaidd apartheid. Yna cafwyd y datblygiadau cadarnhaol yn y 1990au, wedi eu hysgogi, byddwn i'n awgrymu, gan un dyn: Nelson Mandela. Llwyddodd i estyn allan at y bobl a oedd wedi ei boenydio ef, ei deulu a phobl o bob rhan o gyfandir Affrica yn y gred bod eu systemau hwy yn burach nag unrhyw beth arall. Ei ddewrder a'i ymddygiad ef a'i gydweithwyr yn yr ANC—ac, yn wir, llawer o'r sefydliadau a ddaeth o hyd i gartref croesawgar yn y Deyrnas Unedig gan sefyll i fyny ac ymgyrchu cyn hired—a chwalodd muriau apartheid a'r drefn genedlaethol yn Ne Affrica. Dylid ystyried bywyd Nelson Mandela fel enghraifft o rywbeth y dylem i gyd ymdrechu tuag ato o ran bod ein hegwyddorion yn annwyl i ni ac nad ydym yn bradychu'r egwyddorion hynny. Yn anad dim, dylem fod yn oddefgar o safbwyntiau pobl eraill ac yn gynhwysol wrth geisio sicrhau newid ar agenda gynhwysol er mwyn i bobl deimlo'n rhan o'u mamwlad.

It is also, at this time, that we think of his family. As he lived to the age of 95 years, it is now a considerable family of many grandchildren and great-grandchildren. It is to them and the people who knew Nelson Mandela in the struggle that we extend our sympathy and thoughts today. It is also worth reflecting that not only was he the first democratically elected president in South Africa, from all the communities, but, when, after one term—and I would suggest that it is a very rare occasion that someone willingly gives up an office, especially on the continent of Africa—he gave up the office of the president of the South African republic, he put himself forward to champion the cause of AIDS and HIV. He had lost a son from that illness. He championed, through his charitable work, the work that needed to be done to make available the drugs and treatments required and improve the understanding of the condition so that many people could be alleviated from the condition that AIDS inflicts on so many millions across the world.

Ar yr adeg hon hefyd, rydym yn meddwl am ei deulu. Gan ei fod wedi byw i fod yn 95 oed, mae bellach yn deulu sylweddol o nifer o wyrion a wyresau a gor-wyrion a gor-wyresau. Gyda nhw a'r bobl a oedd yn adnabod Nelson Mandela yn y frwydr y mae ein cydymdeimlad a'n meddyliau ni heddiw. Mae hefyd yn werth ystyried nid yn unig mai ef oedd yr arlywydd cyntaf a etholwyd yn ddemocrataidd yn Ne Affrica, o'r holl gymunedau, ond, pan, ar ôl un tymor—a byddwn yn awgrymu mai anaml iawn y bydd rhywun yn gadael swydd o'i wirfodd, yn enwedig ar gyfandir Affrica—y gadawodd swydd arlywydd gweriniaeth De Affrica, cynigodd ei hun i hyrwyddo achos AIDS a HIV. Roedd wedi colli mab o'r salwch hwnnw. Hyrwyddodd, trwy ei waith elusennol, y gwaith yr oedd angen ei wneud i sicrhau bod y cyffuriau a'r triniaethau gofynnol ar gael a gwella'r ddealltwriaeth o'r cyflwr fel y gellid achub llawer o bobl o'r cyflwr y mae AIDS yn ei orfodi ar gymaint o filiynau o bobl ledled y byd.

He was, truly, an inspirational figure, as the First Minister touched upon, particularly in the way he harnessed sport to reach out to all communities. The example that he showed at the Rugby World Cup by wearing the springbok shirt and handing over the world cup to the successful South Africa captain encapsulated the development of the nation of South Africa. His legacy, surely, should be now that the beliefs that he held in life should continue after his death. There are many world statesmen attending the event in Soweto today and speaking finally and nobly, but, ultimately, what they should all rally behind are the beliefs that he held dear in life and should not be discarded in his death. There is one saying out of many that I have heard over the last couple of days that, I think, would stand the test of time, which, as he said,

Roedd, yn wir, yn ffigwr llawn ysbrydoliaeth, fel y dywedodd y Prif Weinidog, yn enwedig yn y ffordd yr harneisiodd chwaraeon i estyn allan i bob cymuned. Mae'r esiampl a osododd yng Nghwpan Rygbi'r Byd trwy wisgo crys y springbok a chyflwyno cwpan y byd i gapten buddugol De Affrica yn crynhoi datblygiad cenedl De Affrica. Ei etifeddiaeth nawr, yn sicr ddigon, yw y dylai'r credoau yr oedd ganddo mewn bywyd barhau ar ôl ei farwolaeth. Mae llawer o wladweinwyr y byd yn mynychu'r digwyddiad yn Soweto heddiw ac yn siarad yn derfynol ac yn fonheddig, ond, yn y pen draw, yr hyn y dylai pawb ei gefnogi yw'r credoau a oedd yn annwyl iddo mewn bywyd ac na ddylid eu rhoi o'r neilltu yn dilyn ei farwolaeth. Ceir un dywediad o lawer yr wyf wedi eu clywed yn ystod y diwrnodau diwethaf a fydd, yn fy marn i, yn sefyll prawf amser, sef, fel y dywedodd,

'Let freedom reign. The sun shall never set on so glorious a human achievement.'

Gadewch i ryddid deyrnasu. Ni wnaiff yr haul fyth fachlud ar lwyddiant dynol mor ogoneddus.

13:42

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call the leader of Plaid Cymru, Leanne Wood.

Galwaf ar arweinydd Plaid Cymru, Leanne Wood.

13:42

## Leanne Wood Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru*

Wales's role in the anti-apartheid movement was recognised by Nelson Mandela when he visited Wales in 1998. Those who were involved in the anti-apartheid struggle here should be rightly proud of the role that they played. I would like to start this brief tribute with the words that Mandela gave in a 2005 speech about poverty. He said,

Cydnabuwyd swyddogaeth Cymru yn y mudiad gwrth-apartheid gan Nelson Mandela pan ymwelodd â Chymru ym 1998. Dylai'r rhai a gymerodd ran yn y frwydr gwrth-apartheid yma fod yn haeddiannol falch o'r rhan iddynt ei chwarae. Hoffwn ddechrau'r deyrnged fer hon gyda'r geiriau a ddefnyddiwyd gan Mandela mewn araith yn 2005 am dlodi. Dywedodd,

'Overcoming poverty is not a task of charity, it is an act of justice. Like slavery and apartheid poverty is not natural. It is man-made and can be overcome and eradicated by the actions of human beings.'

Nid tasg o elusen yw goresgyn tlodi, gweithred o gyfiawnder ydyw. Fel caethwasiaeth ac apartheid, nid yw tlodi yn naturiol. Mae'n rhywbeth a grëwyd gan ddynion a gellir ei oresgyn a'i waredu trwy weithredoedd bodau dynol.

Mandela was a man of conviction who stood up for what he believed in. He was also, politically, a radical who dedicated his life to speaking out against injustice. His achievements were many and great, but they are not yet complete. Apartheid remains in Palestine. Racism has not ended. Across the world, we still see poverty and we still see violence used to justify power. That remains particularly true of the continent of Africa, but elsewhere too. Our greatest tribute is not to remember Nelson Mandela as an individual, but to take action to complete his work. It should not be just for us to say how great he was for taking on injustice. It should be about us tackling injustice ourselves. The best way to honour and extend Mandela's legacy for us in Wales is to do as he said and work towards the eradication of global man-made poverty.

Roedd Mandela yn ŵr o argyhoeddiad a safodd dros yr hyn yr oedd yn credu ynddo. Roedd hefyd, yn wleidyddol, yn radical a dreuliodd ei fywyd yn gwrthwynebu anghyfiawnder. Roedd ei lwyddiannau yn niferus ac yn wych, ond nid ydynt yn gyflawn eto. Mae apartheid yn bodoli ym Mhalesteina o hyd. Nid yw hiliaeth wedi dod i ben. Ledled y byd, rydym ni'n dal i weld tlodi ac rydym ni'n dal i weld trais yn cael ei ddefnyddio i gyfiawnhau pŵer. Mae hynny'n parhau i fod yn arbennig o wir am gyfandir Affrica, ond mewn mannau eraill hefyd. Nid cofio Nelson Mandela fel unigolyn yw ein teyrnged fwyaf, ond gweithredu i gwblhau ei waith. Ni ddylem ni ddim ond dweud pa mor wych yr oedd oherwydd iddo frwydro anghyfiawnder. Dylai ymwneud â ni'n mynd i'r afael ag anghyfiawnder ein hunain. Y ffordd orau o anrhydeddu ac ymestyn etifeddiaeth Mandela i ni yng Nghymru yw gwneud fel y dywedodd a gweithio tuag at ddileu tlodi byd-eang a grewyd gan ddynion.

Cwsg mewn hedd.

Rest in peace.

13:44

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call the leader of the Welsh Liberal Democrats, Kirsty WIlliams.

Galwaf ar arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Kirsty Williams.

13:44 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*

Last week, the world lost an inspirational leader and a truly great man. Nelson Mandela personified the struggle for freedom and equality for all. Through his courage and perseverance, he achieved what so many considered to be impossible, and brought about real change. After centuries of oppression, he liberated South Africa from the tyranny of racial apartheid and, in doing so, demonstrated to the rest of the world how to lead with compassion, humility and grace. His ability to unify communities and to deliver justice to a fractured and tormented state is unparalleled, and his legacy will continue for generations to come.

Yr wythnos diwethaf, collodd y byd arweinydd llawn ysbrydoliaeth a gŵr gwirioneddol wych. Roedd Nelson Mandela yn personoli'r frwydr dros ryddid a chydraddoldeb i bawb. Trwy ei ddewrder a'i ddyfalbarhad, cyflawnodd yr hyn yr oedd cymaint o bobl yn credu ei fod yn amhosibl, a sicrhaodd newid gwirioneddol. Ar ôl canrifoedd o ormes, rhyddhaodd De Affrica o ormes apartheid hiliol ac, wrth wneud hynny, dangosodd i weddill y byd sut i arwain gyda thosturi, gostyngeiddrwydd a gras. Mae ei allu i uno cymunedau a sicrhau cyfiawnder i wladwriaeth a oedd wed ei rhannu a'i phoenydio yn ddigyffelyb, a bydd ei etifeddiaeth yn parhau am genedlaethau i ddod.

Many of the words of Nelson Mandela have been used to pay tribute to him in the last week. Who can fail to be moved by that courageous speech he made from the dock at his trial? However, the words that mean the most to me and to my group are,

Mae llawer o eiriau Nelson Mandela wedi cael eu defnyddio i dalu teyrnged iddo yn ystod yr wythnos ddiwethaf. Pwy all fethu â chael ei effeithio gan yr araith ddewr honno a wnaeth o'r doc yn ei achos llys? Fodd bynnag, y geiriau sy'n golygu fwyaf i mi a fy ngrŵp yw,

'Education is the most powerful weapon which you can use to change the world.'

Addysg yw'r arf mwyaf pwerus y gallwch ei ddefnyddio i newid y byd.

13:46 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much. In a moment, we will observe a minute's silence, but during that time we should all remember how precious democracy is, that it is fragile and that it needs to be nurtured. Each of us is highly privileged to have been elected to this Chamber, and we have a huge responsibility to protect and promote democracy for all of the people of Wales. Each of us, not just the party leaders or spokespeople, should continue to strive to make Wales an even fairer and more just place to live, where equality is at the core of all our actions. We pay tribute to the remarkable life of Nelson Mandela. Please join me in standing for a minute's silence.

Diolch yn fawr iawn. Yn y man, byddwn yn cael munud o dawelwch, ond yn ystod y cyfnod hwnnw dylai pob un ohonom gofio pa mor werthfawr yw democratiaeth, ei bod yn fregus a bod angen ei meithrin. Mae pob un ohonom yn freintiedig iawn ein bod wedi cael ein hethol i'r Siambr hon, ac mae gennym gyfrifoldeb enfawr i ddiogelu a hyrwyddo democratiaeth i holl bobl Cymru. Dylai pob un ohonom, nid dim ond arweinwyr neu lefarwyr y pleidiau, barhau i ymdrechu i wneud Cymru yn lle hyd yn oed yn decach a mwy cyfiawn i fyw, lle mae cydraddoldeb yn ganolog i'n holl weithredoedd. Talwn deyrnged i fywyd hynod Nelson Mandela. Ymunwch â mi i sefyll am funud o dawelwch.

*Safodd Aelodau'r Cynulliad am funud o dawelwch.*

*Assembly Members stood for a minute's silence.*

13:48 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to the agenda as is on the paper and the first item on the agenda is questions to the First Minister.

Symudwn nawr at yr agenda fel y mae ar y papur, a chwestiynau i'r Prif Weinidog yw'r eitem gyntaf ar yr agenda.

# Cwestiynau i'r Prif Weinidog

# Questions to the First Minister

### Adolygu Ceisiadau Cyllido Cleifion Unigol

### Individual Patient Funding Review

13:48 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*1. A fydd adolygiad Llywodraeth Cymru o broses Adolygu Ceisiadau Cyllido Cleifion Unigol yn ymestyn i geisiadau am bob cyffur nad ydynt wedi'u cymeradwyo gan NICE neu Grwp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan eto? OAQ(4)1396(FM)*

*1. Will the Welsh Government's review of the Individual Patient Funding Review process extend to applications for all drugs which have not yet been approved by NICE or the All Wales Medicines Strategy Group? OAQ(4)1396(FM)*

13:48 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Preparatory work is currently under way in terms of the review. Detailed terms of reference will be agreed next month.

Mae gwaith paratoadol ar y gweill ar hyn o bryd o ran yr adolygiad. Bydd cylch gorchwyl manwl yn cael ei gytuno fis nesaf.

Senedd.tv
Fideo Video

13:48 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

I look forward to hearing more about that, because, last week, in challenging my assertion that Afinitor is more readily prescribed in England than in Wales, you referred to seven criteria that women in England must meet before they can receive Afinitor from the cancer drug fund. What you did not say is that only women who do not meet all the criteria have to make their case through a process akin to the individual patient funding request style of application. Women in Wales still have to go through that process whether they meet the criteria or not. Between April and September of this year, 279 women in England met the criteria, which was simply confirmed by their own consultant, and the cancer drugs fund paid for their treatment. Proportionally, you would expect 16 women in Wales to have benefited automatically from a Welsh fund. First Minister, how many women in Wales who meet those criteria have received Afinitor as a result of the IPFR, and will you consider automatic entitlement for women whose consultants confirm that they meet those seven criteria?

Edrychaf ymlaen at glywed mwy am hynny, oherwydd, yr wythnos diwethaf, wrth herio fy honiad bod Afinitor yn cael ei roi ar bresgripsiwn yn fwy parod yn Lloegr nag yng Nghymru, cyfeiriasoch at saith maen prawf y mae'n rhaid i fenywod yn Lloegr eu bodloni cyn y cânt dderbyn Afinitor o'r gronfa cyffuriau canser. Yr hyn na ddywedasoch oedd mai dim ond menywod nad ydynt yn bodloni'r holl feini prawf sy'n gorfod cyflwyno eu hachos trwy broses tebyg i gais am gyllid gan gleifion unigol. Mae'n rhaid i fenywod yng Nghymru fynd drwy'r broses honno pa un a ydynt yn bodloni'r meini prawf ai peidio. Rhwng mis Ebrill a mis Medi eleni, bodlonodd 279 o fenywod yn Lloegr y meini prawf, a gadarnhawyd yn syml gan eu hymgynghorwyr eu hunain, a thalodd y gronfa cyffuriau canser am eu triniaeth. Yn gymesur, byddech yn disgwyl i 16 o fenywod yng Nghymru fod wedi elwa'n awtomatig o gronfa yng Nghymru. Brif Weinidog, faint o fenywod yng Nghymru sy'n bodloni'r meini prawf hynny sydd wedi derbyn Afinitor o ganlyniad i'r Ceisiadau Cyllido Cleifion Unigol, ac a wnewch chi ystyried hawl awtomatig i fenywod y mae eu hymgynghorwyr yn cadarnhau eu bod yn bodloni'r saith maen prawf hynny?

Senedd.tv
Fideo Video

13:49 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I will write to the Member with the information that she requested. But, it is right to say that it simply is not the case that, somehow, there are drugs in England that are easily available as compared to Wales. There are processes that have to be followed there for the cancer drugs fund as well.

Byddaf yn ysgrifennu at yr Aelod gyda'r wybodaeth y gofynnodd amdani. Ond, mae'n iawn i ddweud nad yw'n wir, rywsut, bod cyffuriau yn Lloegr sydd ar gael yn rhwydd o'i gymharu â Chymru. Ceir prosesau y mae'n rhaid eu dilyn yno hefyd ar gyfer y gronfa cyffuriau canser.

Senedd.tv
Fideo Video

13:49 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

First Minister, I have been told by the Association of the British Pharmaceutical Industry that there is such a thing as the 'named-patient basis', which is part of the Medicines and Healthcare Products Regulatory Agency. In certain circumstances, the doctor can prescribe the medicine because the patient has a special need for it. I do not think that many people are aware of that particular process. I was wondering whether you could work with the Minister for Health and Social Services to make people more aware of it, because if they do fall through the gaps in such circumstances as those that Suzy Davies has outlined, perhaps this would be another way forward for people to seek the drugs that they need.

Brif Weinidog, fe'm hysbyswyd gan Gymdeithas Diwydiant Fferyllol Prydain fod y fath beth â'r 'sail cleifion a enwir' yn bodoli, sy'n rhan o'r Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd. Dan rai amgylchiadau, gall y meddyg roi'r feddyginiaeth ar bresgripsiwn oherwydd bod gan y claf angen arbennig amdani. Nid wyf yn credu bod llawer o bobl yn ymwybodol o'r broses benodol honno. Roeddwn i'n meddwl tybed a allech chi weithio gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i wneud pobl yn fwy ymwybodol o hynny, oherwydd os byddant yn syrthio drwy'r bylchau mewn amgylchiadau fel y rhai mae Suzy Davies wedi eu hamlinellu, efallai y byddai hon yn ffordd arall ymlaen i bobl gael gafael ar y cyffuriau sydd eu hangen arnynt.

Senedd.tv
Fideo Video

13:50 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I see no reason why that situation cannot be publicised and I will discuss the issue with the Minister for health.

Ni welaf unrhyw reswm pam na ellir rhoi cyhoeddusrwydd i'r sefyllfa honno a byddaf yn trafod y mater gyda'r Gweinidog iechyd.

Senedd.tv
Fideo Video

**Gwasanaethau Bws** | **Bus Services**

13:50 **Byron Davies** Bywgraffiad Biography | Senedd.tv Fideo Video

*2. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddatblygu gwasanaethau bws yng Nghymru? OAQ(4)1399(FM)*

*2. Will the First Minister make a statement on the development of bus services in Wales? OAQ(4)1399(FM)*

13:50 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography | Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We are committed to supporting bus services now and in the future. We are actively looking at ways to maximise value for money and secure the best possible provision of services in Wales.

Rydym wedi ymrwymo i gefnogi gwasanaethau bysiau nawr ac yn y dyfodol. Rydym yn edrych yn ymarferol ar ffyrdd o sicrhau'r gwerth gorau am arian a sicrhau'r ddarpariaeth orau bosibl o wasanaethau yng Nghymru.

13:50 **Byron Davies** Bywgraffiad Biography | Senedd.tv Fideo Video

I asked the Minister for Economy, Science and Transport last week about the concessionary fares scheme and for assurances that it would not be cut. There was expectation in the industry that an announcement would be made in the first week of December. Now, the Minister tells me that she hopes to make one in January. Could you assure this Chamber that the Government will ensure that people who hold concessionary bus passes, which we strongly support on this side of the Chamber, will actually have a bus service to use in the new year? Could you also reassure the industry at the earliest opportunity that you will properly fund concessionary passes?

Gofynnais i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yr wythnos diwethaf am y cynllun tocynnau teithio rhad ac am sicrwydd na fyddai'n cael ei dorri. Roedd disgwyliad yn y diwydiant y byddai cyhoeddiad yn cael ei wneud yn ystod wythnos gyntaf mis Rhagfyr. Nawr, mae'r Gweinidog yn dweud wrthyf ei bod yn gobeithio gwneud hynny ym mis Ionawr. A allech chi sicrhau'r Siambr hon y bydd y Llywodraeth yn sicrhau y bydd gan bobl sydd â thocynnau bws rhad, rhywbeth yr ydym ni'n ei gefnogi'n gryf ar yr ochr hon i'r Siambr, wasanaeth bws i'w defnyddio yn y flwyddyn newydd? A allech chi hefyd roi sicrwydd i'r diwydiant ar y cyfle cyntaf y byddwch yn ariannu tocynnau rhad yn briodol?

13:51 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography | Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Negotiations are ongoing. I understand that there was a meeting last week and there is a meeting due this week as well. Our aim, during the course of those negotiations, is to achieve a settlement that achieves our aims and is fair to the operators.

Mae trafodaethau'n parhau. Rwy'n deall y bu cyfarfod yr wythnos diwethaf, ac mae cyfarfod wedi ei drefnu ar gyfer yr wythnos hon hefyd. Ein nod, yn ystod y trafodaethau hynny, yw sicrhau setliad sy'n bodloni ein hamcanion ac yn deg i'r gweithredwyr.

13:51 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** Bywgraffiad Biography | Senedd.tv Fideo Video

A fyddai'r Prif Weinidog yn cytuno ei fod yn hanfodol i'w Lywodraeth gysylltu'r gwasanaeth bysiau gyda thrafnidiaeth integredig, a bod y datblygiad diweddar o'r bws cyson i Faes Awyr Caerdydd yn un allweddol bwysig i integreiddio gydag awyrennau, ond ei bod hi'r un mor bwysig i ni gael integreiddio gyda threnau ar draws Cymru?

Would the First Minister agree that it is crucial for his Government to connect bus services with an integrated transport system, that the recent development of the regular bus service to Cardiff Airport is crucially important in terms of integrating with aircraft, but that it is just as important to have integration with trains across Wales?

13:51 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography | Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Mae hynny'n wir, wrth gwrs. Mae'r system gyhoeddus fwyaf effeithiol yn dueddol o fod yn system sy'n cysylltu trenau, bysiau, meysydd awyr a phob porthladd yn y wlad, sef, wrth gwrs, Cymru.

That is true, of course. The most effective public systems are those that tend to connect trains, buses, airports and every port in the country, namely Wales, of course.

13:52 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

First Minister, you will be aware that a number of services have been cut and reduced in the Vale of Glamorgan and that this is creating difficulties for the residents who live there in getting to work and to school. You have stepped in in other parts of Wales where there has been a market failure in the bus service, and I wonder what you can do for the Vale of Glamorgan to make sure that people living in that area are still able to access an effective service.

Brif Weinidog, byddwch yn ymwybodol bod nifer o wasanaethau wedi cael eu torri a'u lleihau ym Mro Morgannwg a bod hyn yn creu anawsterau i'r trigolion sy'n byw yno o ran cyrraedd y gwaith a'r ysgol. Rydych chi wedi ymyrryd mewn rhannau eraill o Gymru lle bu methiant yn y farchnad o ran gwasanaeth bws, ac rwy'n meddwl tybed beth allwch chi ei wneud ar gyfer Bro Morgannwg er mwyn gwneud yn siŵr bod pobl sy'n byw yn yr ardal honno yn dal i allu cael mynediad at wasanaeth effeithiol.

13:52 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

The Minister is aware of the situation in the Vale of Glamorgan, as Members will be aware of what happened in Ceredigion, particularly. I know that she is monitoring the situation to see what might be possible in the future.

Mae'r Gweinidog yn ymwybodol o'r sefyllfa ym Mro Morgannwg, fel y bydd yr Aelodau'n ymwybodol o'r hyn a ddigwyddodd yng Ngheredigion, yn arbennig. Gwn ei bod yn monitro'r sefyllfa i weld beth allai fod yn bosibl yn y dyfodol.

## Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau

## Questions Without Notice from the Party Leaders

13:52 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

We now move to questions from the party leaders. First this afternoon is the leader of Plaid Cymru, Leanne Wood.

Symudwn nawr at gwestiynau gan arweinwyr y pleidiau. Arweinydd Plaid Cymru, Leanne Wood, sydd gyntaf y prynhawn yma.

13:52 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru*

Senedd.tv
Fideo Video

On Thursday this week, the results of the south Wales programme will be announced. More than 60,000 people participated in that consultation. The response will be given the day after the very last Plenary session of this term. That means that there will be no opportunity to scrutinise the announcement until the new year. First Minister, can you tell us how this is an example of transparency and can you also tell us whether your Government agreed to the timing of this announcement?

Ddydd Iau yr wythnos hon, bydd canlyniadau rhaglen de Cymru yn cael eu cyhoeddi. Cymerodd mwy na 60,000 o bobl ran yn yr ymgynghoriad hwnnw. Bydd yr ymateb yn cael ei roi y diwrnod ar ôl Cyfarfod Llawn olaf y tymor hwn. Mae hynny'n golygu na fydd unrhyw gyfle i graffu ar y cyhoeddiad tan y flwyddyn newydd. Brif Weinidog, a allwch chi ddweud wrthym sut mae hyn yn enghraifft o dryloywder ac a allwch chi hefyd ddweud wrthym a gytunodd eich Llywodraeth i amseriad y cyhoeddiad hwn?

13:53 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

This is not a Government announcement; it is a matter for the programme board. There will be ample opportunity for Members to scrutinise. First, the community health councils will need to express a view and they will, of course, arrive at their views in due course, but I am sure that Members will be fully able to scrutinise the decision before any final decision is made.

Nid yw hwn yn gyhoeddiad gan y Llywodraeth; mae'n fater i fwrdd y rhaglen. Bydd digon o gyfle i'r Aelodau graffu. Yn gyntaf, bydd angen i'r cynghorau iechyd cymuned fynegi barn a byddant, wrth gwrs, yn ffurfio eu safbwyntiau maes o law, ond rwy'n siŵr y bydd yr Aelodau yn cael craffu'n llawn ar y penderfyniad cyn i unrhyw benderfyniad terfynol gael ei wneud.

13:53 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

You did not answer the question, First Minister. I asked you whether you agreed to the timing of this announcement. Today, there has been yet another negative report on the organisation of our NHS, about Betsi Cadwaladr University Local Health Board. Yesterday, there was further criticism of poor performance in transferring from ambulances at accident and emergency departments. These are pressures that are likely to get worse under your centralisation proposals.

Nid ydych chi wedi ateb y cwestiwn, Brif Weinidog. Gofynnais i chi a wnaethoch chi gytuno i amseriad y cyhoeddiad hwn. Heddiw, bu adroddiad negyddol arall ar drefniadaeth ein GIG, am Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr. Ddoe, cafwyd beirniadaeth bellach o berfformiad gwael wrth drosglwyddo o ambiwlansys mewn adrannau damweiniau ac achosion brys. Mae'r rhain yn bwysau sy'n debygol o waethygu dan eich cynigion canoli.

The British Medical Association is saying that consultants are overworked. The Royal College of Surgeons has also called for a widespread inquiry into the Welsh NHS. Too many people are starting to see this looking like a crisis. After four years as First Minister, is this a legacy that you are proud of?

Mae Cymdeithas Feddygol Prydain yn dweud bod ymgynghorwyr yn gorweithio. Mae Coleg Brenhinol y Llawfeddygon hefyd wedi galw am ymchwiliad eang i'r GIG yng Nghymru. Mae gormod o bobl yn dechrau gweld bod hyn yn edrych fel argyfwng. Ar ôl pedair blynedd fel Prif Weinidog, a yw hon yn etifeddiaeth yr ydych chi'n falch ohoni?

13:54

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I am proud of the fact that we see improvements in cancer treatment times so that we are now in the same position as England and that we have seen improvements in ambulance waiting times. I am proud of the Human Transplantation (Wales) Act 2013 that we have put in place. I am also cognisant of the fact that the Royal College of Surgeons has called for reconfiguration. It is one thing to pull on thing that it has said and ignore another, but that is what it has said. That reconfiguration, whatever shape it takes, of course, will be crucial for a sustainable and safe NHS in the future. In answer to her previous question, if she was asking me whether the timing of the programme board's announcement was deliberate to avoid scrutiny by this Chamber, and agreed by the Government, the answer to that is 'no'.

Rwy'n falch o'r ffaith ein bod yn gweld gwelliannau mewn amseroedd trin canser fel ein bod bellach yn yr un sefyllfa â Lloegr a'n bod wedi gweld gwelliannau i amseroedd aros am ambiwlans. Rwy'n falch o Ddeddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013 yr ydym ni wedi ei sefydlu. Rwyf hefyd yn ymwybodol o'r ffaith fod Coleg Brenhinol y Llawfeddygon wedi galw am ad-drefnu. Mae'n un peth neidio ar un peth y mae wedi ei ddweud ac anwybyddu un arall, ond dyna'r hyn y mae wedi ei ddweud. Bydd yr ad-drefnu hwnnw, ar ba bynnag ffurf, wrth gwrs, yn hanfodol ar gyfer GIG cynaliadwy a diogel yn y dyfodol. I ateb ei chwestiwn blaenorol, os oedd hi'n gofyn i mi a oedd amseriad cyhoeddiad bwrdd y rhaglen yn fwriadol i osgoi craffu gan y Siambr hon, ac wedi ei gytuno gan y Llywodraeth, 'nac oedd' yw'r ateb i hynny.

13:55

## Leanne Wood Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, it sounds like you are saying to us, 'Crisis, what crisis?' You come here and you are in denial about the state of the health service every single week.

Brif Weinidog, mae'n swnio fel eich bod yn dweud wrthym, 'Argyfwng, pa argyfwng?' Rydych chi'n dod yma ac yn gwadu cyflwr y gwasanaeth iechyd bob un wythnos.

Let us look at education. An Estyn report out today says that you are not doing enough to break the link between poverty and educational attainment. Last week, the programme for international student assessment results showed Wales to be the worst ranking in western Europe. You may well have an anti-poverty Minister, but you have no anti-poverty strategy. In health, in education, and on the economy, Wales is bottom of the league.

Gadewch i ni edrych ar addysg. Mae adroddiad Estyn a gyhoeddir heddiw yn dweud nad ydych chi'n gwneud digon i dorri'r cysylltiad rhwng tlodi a chyrhaeddiad addysgol. Yr wythnos diwethaf, dangosodd y rhaglen ar gyfer canlyniadau asesiadau myfyrwyr rhyngwladol mai Cymru yw'r gwaethaf yng ngorllewin Ewrop. Efallai wir bod gennych Weinidog trechu tlodi, ond nid oes gennych strategaeth trechu tlodi. Ym maes iechyd, ym maes addysg, ac o ran yr economi, mae Cymru ar waelod y gynghrair.

First Minister, when you first became First Minister, you said that your leadership would be all about delivery. Has he delivered? After four years in charge, First Minister, when can we expect to see some evidence of delivery from you?

Brif Weinidog, pan ddaethoch yn Brif Weinidog gyntaf, dywedasoch mai cyflawni fyddai nod eich arweinyddiaeth. A yw wedi cyflawni? Ar ôl pedair blynedd wrth y llyw, Brif Weinidog, pryd allwn ni ddisgwyl gweld rhywfaint o dystiolaeth o gyflawni gennych chi?

13:56 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

The script is kept to, of course, once again. 'Crisis, what crisis?'—she should avoid clichés like the plague. We expect this week after week. When it comes to health and education, things are moving in the right direction. When it comes to the economy, it is simply untrue to say that we are bottom of the league. We are doing far better than the north-east of England, the north-west of England and the west midlands. Our unemployment rate is lower than London's. Our economic activity rate is higher than Northern Ireland's. We are in the middle in terms of the UK, and we had to, of course, undo the damage that her party did when it ran economic development, which she tries to forget, when it was in Government. The reality is that we have in place Jobs Growth Wales, the most successful scheme for recruiting young people to apprenticeships, probably in Europe, and I doubt whether there is a better one in the world, actually. You should look at what we have done with the Wales economic growth fund and the enterprise zones. We saw only this week what has happened in England with enterprise zones; all those promises of jobs have had to be scaled back by between 70% and 90% because of the wild overestimates that they put in place to begin with.

Cedwir at y sgript unwaith eto, wrth gwrs. 'Argyfwng, pa argyfwng?'—dylai osgoi ystrydebau fel y pla. Rydym ni'n disgwyl hyn wythnos ar ôl wythnos. Wrth ystyried iechyd ac addysg, mae pethau'n symud i'r cyfeiriad cywir. Wrth ystyried yr economi, mae'n gwbl anghywir dweud ein bod ar waelod y gynghrair. Rydym ni'n gwneud yn llawer gwell na gogledd-ddwyrain Lloegr, gogledd-orllewin Lloegr a gorllewin canolbarth Lloegr. Mae ein cyfradd diweithdra yn is nag un Llundain. Mae ein cyfradd gweithgarwch economaidd yn uwch nag un Gogledd Iwerddon. Rydym yn y canol o ran y DU, a bu'n rhaid i ni, wrth gwrs, ddadwneud y niwed a wnaeth ei phlaid hi pan roedd yn gyfrifol am ddatblygiad economaidd, y mae hi'n ceisio ei anghofio, pan roedd mewn Llywodraeth. Y gwir amdani yw bod Twf Swyddi Cymru ar waith gennym, sef y cynllun mwyaf llwyddiannus ar gyfer recriwtio pobl ifanc i brentisiaethau, yn Ewrop yn ôl pob tebyg, ac rwy'n amau a oes un gwell yn y byd, mewn gwirionedd. Dylech chi edrych ar yr hyn yr ydym ni wedi ei wneud gyda chronfa twf economaidd Cymru a'r ardaloedd menter. Gwelsom dim ond yr wythnos hon yr hyn sydd wedi digwydd yn Lloegr gydag ardaloedd menter; bu'n rhaid lleihau'r holl addewidion hynny o swyddi o rhwng 70% a 90% oherwydd y goramcangyfrif di-sail a gyflwynwyd ganddynt yn y lle cyntaf.

We are a Government that delivers. We are a Government that has made sure that the lives of the people of Wales are improved by the economic growth fund, enterprise zones, an expanded Flying Start, a new tackling poverty action plan, the organ donation Act, the cap on domiciliary care charges, the Active Travel (Wales) Act 2013, the Wales coastal path, the negotiation of the devolution of tax and borrowing powers, the blacklisting ban, the carrier bag charge, leading the way forward on recycling, the foundation phase, student finance support, Houses into Homes, Help to Buy Wales, 500 community support officers delivered, and the first anti-human trafficking co-ordinator in the UK. I will stop there, Llywydd, because I have already gone further than the entire length of the Plaid manifesto.

Rydym yn Llywodraeth sy'n cyflawni. Rydym yn Llywodraeth sydd wedi gwneud yn siŵr bod bywydau pobl Cymru yn cael eu gwella gan y gronfa twf economaidd, ardaloedd menter, cynllun Dechrau'n Deg estynedig, cynllun trechu tlodi newydd, y Ddeddf rhoi organau, y cap ar ffioedd gofal cartref , Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, llwybr arfordirol Cymru, y cytundeb ar ddatganoli pwerau trethu a benthyca, y gwaharddiad ar restrau gwahardd, y ffi am fagiau siopa untro, arwain y ffordd ar ailgylchu, y cyfnod sylfaen, cymorth ariannol i fyfyrwyr, Troi Tai'n Gartrefi, Cymorth i Brynu Cymru, cyflwyno 500 o swyddogion cymorth cymunedol, a chydgysylltydd atal masnachu mewn pobl cyntaf y DU. Byddaf yn rhoi'r gorau iddi yn y fan yna, Lywydd, gan fy mod i eisoes wedi mynd ymhellach na hyd cyfan maniffesto Plaid Cymru.

13:58 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

We now move to the leader of the Welsh Liberal Democrats, Kirsty Williams.

Symudwn nawr at arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Kirsty Williams.

13:58 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*

Senedd.tv
Fideo Video

First Minister, yesterday, for the second time in as many weeks, Wales made the UK news headlines for all the wrong reasons. On average, Welsh patients spent the most amount of time stuck in the back of an ambulance waiting for a bed in an accident and emergency department. In fact, between August and October this year, one ambulance took an amazing six hours to discharge a patient into hospital. Is that an example of the Assembly of delivery that you promised us?

Brif Weinidog, ddoe, am yr ail dro mewn cynifer o wythnosau, roedd Cymru ym mhenawdau newyddion y DU am y rhesymau anghywir. Ar gyfartaledd, treuliodd cleifion o Gymru y mwyaf o amser heb allu symud o gefn ambiwlans yn aros am wely mewn adran damweiniau ac achosion brys. Mewn gwirionedd, rhwng mis Awst a mis Hydref eleni, cymerodd un ambiwlans gyfnod anhygoel o chwe awr i ryddhau claf i'r ysbyty. A yw hynny'n enghraifft o'r Cynulliad yn cyflawni i chi ei addo i ni?

13:58 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

The average handover time for patients in Wales is 20 minutes, which shows that the time that she has made mention of is an exception to the rule. It is all very well picking out an extreme and trying to present that as the norm when, in fact, that is not the case. It is the case that most people wait for approximately 20 minutes, and that six hours, although difficult to explain and justify, is an exception.

20 munud yw'r amser cyfartalog ar gyfer trosglwyddo cleifion yng Nghymru, sy'n dangos bod yr amser y mae hi wedi ei grybwyll yn eithriad i'r rheol. Mae'n hawdd dewis enghraifft eithafol a cheisio cyflwyno hynny fel y norm pan, mewn gwirionedd, nad yw hynny'n wir. Mae'n wir fod y rhan fwyaf o bobl yn aros am tua 20 munud, a bod chwe awr, er ei bod yn anodd esbonio a chyfiawnhau hynny, yn eithriad.

13:59 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

The average wait for Welsh patients is longer than anywhere else in the UK, and that comes in the wake of the news that our educational results, according to PISA, were worse than those of the rest of the UK. In fact, we barely made it into the top 40, despite you promising me, time after time, that we would do better. We do have a higher jobless rate and a lower economic growth rate than the rest of the UK and, with regard to apprenticeships, First Minister, the number of apprenticeships in Wales has dropped 30% in the last five years while, at the same time, it has tripled in England. Are these yet more examples of the Assembly of delivery that you promised us?

Mae'r cyfnod aros cyfartalog i gleifion o Gymru yn hirach nag mewn unrhyw le arall yn y DU, a daw hynny yn sgil y newyddion bod ein canlyniadau addysgol, yn ôl PISA, yn waeth na rhai gweddill y DU. Mewn gwirionedd, prin y cyraeddasom ni'r 40 uchaf, er gwaethaf y ffaith i chi addo i mi, dro ar ôl tro, y byddem yn gwneud yn well. Mae gennym gyfradd diweithdra uwch a chyfradd twf economaidd is na gweddill y DU ac, o ran prentisiaethau, Brif Weinidog, mae nifer y prentisiaethau yng Nghymru wedi gostwng 30% yn y pum mlynedd diwethaf tra'i bod wedi treblu yn Lloegr ar yr un pryd. A yw'r rhain yn enghreifftiau eraill eto o'r Cynulliad sy'n cyflawni yr addawsoch i ni?

13:59 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Once again, she refers to figures that are untrue. That is, she claims that the economy in Wales is doing worse than in anywhere else. It is simply not true, on a basic reading of the figures. If you look at unemployment, if you look at employment, if you look at economic activity, we are doing better—as I have said, and I will repeat it again—than the north-east of England, the north-west of England and the west midlands. We are doing better on unemployment, for example, than London, and we are doing better in terms of economic inactivity than Northern Ireland. We sit somewhere in the middle; that is the reality of it. Our unemployment rate is 7.8%, which is just north of the UK average figure of 7.6%. So, it is simply not right to say that Wales is doing worse than any other part of the UK. That is preposterous. When it comes to education, we have accepted that there is work to be done with PISA; that much we understand. If she wants me to do so, I can read out once again what we have delivered over the course of the past year or two, because, unlike her party, we make promises that we keep, rather than breaking them a month or two into Government.

Unwaith eto, mae hi'n cyfeirio at ffigurau nad ydynt yn wir. Hynny yw, mae hi'n honni bod yr economi yng Nghymru yn gwneud yn waeth nag yn unrhyw le arall. Nid yw hynny'n wir, o ddehongliad sylfaenol o'r ffigurau. Os edrychwch chi ar ddiweithdra, os edrychwch chi ar gyflogaeth, os edrychwch chi ar weithgarwch economaidd, rydym ni'n gwneud yn well—fel yr wyf wedi ei ddweud, a byddaf yn ei ailadrodd eto—na gogledd-ddwyrain Lloegr, gogledd-orllewin Lloegr a gorllewin canolbarth Lloegr. Rydym yn gwneud yn well o ran diweithdra, er enghraifft, na Llundain, ac rydym yn gwneud yn well o ran anweithgarwch economaidd na Gogledd Iwerddon. Rydym ni rhywle yn y canol; dyna yw'r gwir amdani. 7.8% yw ein cyfradd diweithdra, sydd ychydig yn uwch na ffigur cyfartalog y DU o 7.6%. Felly, nid yw'n iawn dweud bod Cymru yn gwneud yn waeth nag unrhyw ran arall o'r DU. Mae hynny'n gwbl afresymol. O ystyried addysg, rydym ni wedi derbyn bod gwaith i'w wneud o hyd o ran PISA; rydym ni'n deall cymaint â hynny. Os hoffai i mi wneud hynny, gallaf ddarllen unwaith eto yr hyn yr ydym ni wedi ei gyflawni yn ystod y flwyddyn neu ddwy ddiwethaf, oherwydd, yn wahanol i'w phlaid hi, rydym ni'n gwneud addewidion ac yn eu cadw, yn hytrach na'u torri fis neu ddau i mewn i Lywodraeth.

14:00 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

First Minister, back in May 2011 you promised us that your Government would act with humility in the face of the problems that Wales faced. Your answers today show nothing but contempt and complacency and a selective reading of the figures. First Minister, I have seen very little evidence of humility from you in the past few weeks, but is it not the case that, with a record like your Government's on health, on education, on jobs and on economic growth, there is an awful lot for you and your Government to be humble about?

Brif Weinidog, yn ôl ym mis Mai 2011, fe wnaethoch chi addo i ni y byddai eich Llywodraeth yn gweithredu gyda gwyleidd-dra yn wyneb y problemau a oedd yn wynebu Cymru. Nid yw eich atebion heddiw yn dangos dim ond dirmyg a hunanfodlonrwydd a dehongliad detholus o'r ffigurau. Brif Weinidog, prin iawn yw'r dystiolaeth o wyleidd-dra a welais gennych chi yn ystod yr wythnosau diwethaf, ond onid yw'n wir, gyda hanes fel sydd gan eich Llywodraeth ar iechyd, ar addysg, ar swyddi ac ar dwf economaidd, bod llawer iawn i chi a'ch Llywodraeth fod yn ddiymhongar amdano?

Senedd.tv
Fideo Video

14:01 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, we are open about the problems that we face. We do not try to spin out of them. We were open about the problems with PISA and we have been open about the problems with the NHS. We have never tried to conceal them. Being lectured by the Lib Dems on this is incredible. Talk about humility: this is the party whose leader stood with a placard saying, 'There will be no student tuition fees'. It was a line that was broken within months. On the bedroom tax, there is utter silence. We see people who run the risk of being evicted because they cannot find somewhere to live, and the Lib Dems sit there in utter silence. They talk about humility: if any party wants to show humility, it is the Lib Dems, because they have much to be humble about.

Wel, rydym ni'n agored am y problemau sy'n ein hwynebu. Nid ydym yn ceisio creu straeon ohonynt. Rydym yn agored am y problemau gyda PISA, ac rydym ni wedi bod yn agored am y problemau gyda'r GIG. Nid ydym erioed wedi ceisio eu cuddio nhw. Mae cael darlith ar hyn gan y Democratiaid Rhyddfrydol yn anhygoel. Rydych chi'n sôn am wyleidd-dra: dyma'r blaid y safodd ei harweinydd gyda hysbyslen yn dweud, 'Ni fydd unrhyw ffioedd dysgu i fyfyrwyr'. Roedd yn addewid a dorrwyd o fewn misoedd. Ar y dreth ystafell wely, tawelwch llwyr. Rydym yn gweld pobl sydd mewn perygl o gael eu troi allan gan nad ydynt yn gallu dod o hyd i rywle i fyw, ac mae'r Democratiaid Rhyddfrydol yn eistedd yno mewn tawelwch llwyr. Maen nhw'n siarad am wyleidd -dra: os oes angen i unrhyw blaid ddangos gwyleidd-dra, plaid y Democratiaid Rhyddfrydol yw honno, oherwydd mae ganddynt lawer i fod yn ddiymhongar yn ei gylch.

Senedd.tv
Fideo Video

14:02 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

We now move to the leader of the opposition, Andrew R.T. Davies.

Symudwn nawr at arweinydd yr wrthblaid, Andrew R.T. Davies.

Senedd.tv
Fideo Video

14:02 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*

First Minister, how many people slept homeless in Wales last night?

Brif Weinidog, faint o bobl gysgodd yn ddigartref yng Nghymru neithiwr?

Senedd.tv
Fideo Video

14:02 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

It is impossible to answer that question, as well he knows.

Mae'n amhosibl ateb y cwestiwn yna, ac mae'n gwybod hynny'n iawn.

Senedd.tv
Fideo Video

14:02 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

It is not impossible, actually, because if your Government started to collate the data as other parts of the United Kingdom do, you would have a basic idea of the problem that you need to deal with. Last Wednesday, I had the privilege of going out with one of the charities based here in Cardiff to help on the breakfast run. The point that it made to me about homelessness in Wales was that your Government, since 2007, has failed to collate any statistics to help understand the scale of the problem in Wales. Will you today commit to your Government working with local authorities and the charities to collate these figures so that you can begin to address the problem of long-term homelessness on our streets?

Nid yw'n amhosibl, a dweud y gwir, oherwydd pe byddai eich Llywodraeth yn dechrau casglu'r data fel y mae rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig yn ei wneud, byddai gennych syniad bras o'r broblem y mae angen i chi ymdrin â hi. Ddydd Mercher diwethaf, cefais y fraint o fynd allan gydag un o'r elusennau yma yng Nghaerdydd i helpu wrth ddarparu brecwast. Y pwynt a wnaed i mi am ddigartrefedd yng Nghymru oedd bod eich Llywodraeth chi, ers 2007, wedi methu â chasglu unrhyw ystadegau i helpu i ddeall maint y broblem yng Nghymru. A wnewch chi ymrwymo eich Llywodraeth heddiw i weithio gydag awdurdodau lleol a'r elusennau i gasglu'r ffigurau hyn fel y gallwch ddechrau mynd i'r afael â'r broblem o ddigartrefedd hirdymor ar ein strydoedd?

Senedd.tv
Fideo Video

14:03 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

We already collect figures for homelessness, and they are figures that we make reference to during the course of questions and elsewhere. The reality is this: I just cannot quite believe that the leader of the opposition is standing there and telling us that he has been on the streets talking about homelessness, and yet he defends the bedroom tax. There is no policy more calculated to put people on the streets to live than his own policy of the bedroom tax. I ask you now: I wonder whether they mentioned this to him, or did they praise him and say, 'Thanks for introducing the bedroom tax; it will make homelessness better'? I doubt it very much. The reality is that his party in Government has introduced the most spiteful and most ill-thought-out policy in terms of ensuring that more people become homeless, and he has sat there mute through it all.

Rydym yn casglu ffigurau ar gyfer digartrefedd eisoes, ac maen nhw'n ffigurau yr ydym ni'n cyfeirio atynt yn ystod cwestiynau ac mewn mannau eraill. Y gwir amdani yw hyn: ni allaf gredu bod arweinydd yr wrthblaid yn sefyll yn y fan yna ac yn dweud wrthym ei fod wedi bod ar y strydoedd yn siarad am ddigartrefedd, ac eto mae'n amddiffyn y dreth ystafell wely. Nid oes unrhyw bolisi a gynlluniwyd gyda'r bwriad o roi pobl ar y strydoedd i fyw na'i bolisi treth ystafell wely ei hun. Gofynnaf i chi nawr: Tybed a wnaethant grybwyll hyn wrtho, neu a wnaethant ei ganmol a dweud, 'Diolch am gyflwyno'r dreth ystafell wely; bydd yn gwella digartrefedd '? Rwy'n amau hynny'n fawr iawn. Y gwir amdani yw bod ei blaid mewn Llywodraeth wedi cyflwyno'r polisi mwyaf maleisus a di-feddwl ar gyfer sicrhau bod mwy o bobl yn dod yn ddigartref, ac mae wedi eistedd yno'n fud drwy'r cyfan.

14:04 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I have to say that, when you hear the First Minister and his backbenchers and the parties of the left, they seem to think that they have the freehold on poverty. Well, they have the monopoly on poverty; they helped to create more poverty than any other party. When you look at the figures, more poverty was created after 14 years of Labour than under any Conservative Government. I asked you a very reasoned question, which the charities are putting forward, on the fact that, sadly, since 2007, the Welsh Government has failed to collect statistics on long-term homelessness.

Mae'n rhaid i mi ddweud, pan fyddwch chi'n clywed y Prif Weinidog a'r rhai ar ei feinciau cefn a phleidiau'r chwith, mae'n ymddangos eu bod yn meddwl bod y rhydd-ddaliad ganddynt ar dlodi. Wel, nhw sydd â'r monopoli ar dlodi; maen nhw wedi helpu i greu mwy o dlodi nag unrhyw blaid arall. Pan edrychwch chi ar y ffigurau, crëwyd mwy o dlodi ar ôl 14 mlynedd o Lafur na dan unrhyw Lywodraeth Geidwadol. Gofynnais gwestiwn rhesymol iawn i chi, y mae'r elusennau yn ei gyflwyno, am y ffaith, yn anffodus, ers 2007, bod Llywodraeth Cymru wedi methu â chasglu ystadegau ar ddigartrefedd hirdymor.

The individuals whom I spoke to last week on the streets of Cardiff were not on the streets because of the single occupancy tax; they were on the streets because of many of the problems that they faced, such as mental health problems, for example, and domestic disputes. Those were the issues that needed to be addressed. So, why on earth is your Government not working with the homeless charities to address this by undertaking a simple measure of the problem, so that your two poverty Ministers—you have two Ministers to handle poverty, after all of the initiatives that you have brought forward—can actually put something in place that will help those individuals who find themselves on the street, night after night, year after year, First Minister?

Nid oedd yr unigolion i mi siarad â nhw yr wythnos diwethaf ar strydoedd Caerdydd ar y strydoedd oherwydd y dreth meddiannaeth unigol, roedden nhw ar y strydoedd oherwydd llawer o'r problemau yr oedden nhw'n eu hwynebu, fel problemau iechyd meddwl, er enghraifft, ac anghydfodau yn y cartref. Dyna oedd y materion yr oedd angen mynd i'r afael â nhw. Felly, pam ar y ddaear nad yw eich Llywodraeth yn gweithio gyda'r elusennau digartref i fynd i'r afael â hyn trwy wneud mesur syml o'r broblem, fel y gall eich dau Weinidog tlodi—mae gennych chi ddau Weinidog i ymdrin â thlodi, ar ôl yr holl fentrau yr ydych chi wedi eu cyflwyno—roi rhywbeth ar waith a fydd yn helpu'r unigolion hynny sy'n canfod eu hunain ar y stryd, noson ar ôl noson, flwyddyn ar ôl blwyddyn, Brif Weinidog?

14:05 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I can tell you that 5,795 households were accepted as homeless across Wales in 2012-13. During the April to June quarter of 2013, a total of 1,355 households were accepted as homeless. The number of households placed in temporary accommodation decreased at the end of 2012-13. At the end of June 2013, there were 275 households placed in bed-and-breakfast accommodation. [Interruption.] There is no point in moaning about it. What he asked for was figures. He has those figures; those figures are collated. It is not good enough for him to say to the people of Wales, 'The bedroom tax has nothing to do with me.' I can tell him now, because I have met them in my surgeries, that there are people out there who will be evicted because of the bedroom tax. They will be evicted because of the bedroom tax, and because of the meanness of his party and the fact that he has done nothing to stand up for the people of Wales who face eviction.

Gallaf ddweud wrthych y derbyniwyd 5,795 o deuluoedd fel bod yn ddigartref ledled Cymru yn 2012-13. Yn ystod y chwarter rhwng Ebrill a Mehefin 2013, derbyniwyd cyfanswm o 1,355 o deuluoedd fel bod yn ddigartref. Gostyngodd nifer y teuluoedd mewn llety dros dro ar ddiwedd 2012-13. Ar ddiwedd mis Mehefin 2013, roedd 275 o deuluoedd wedi eu lleoli mewn llety gwely a brecwast. [Torri ar draws.] Nid oes diben cwyno am y peth. Gofynnodd am ffigurau. Mae'r ffigurau hynny ganddo; mae'r ffigurau hynny'n cael eu casglu. Nid yw'n ddigon da iddo ddweud wrth bobl Cymru, 'Nid oes gan y dreth ystafell wely ddim i'w wneud â mi.' Gallaf ddweud wrtho nawr, oherwydd rwyf wedi eu cyfarfod nhw yn fy nghymorthfeydd, bod yna bobl allan yna a fydd yn cael eu troi allan oherwydd y dreth ystafell wely. Byddant yn cael eu troi allan oherwydd y dreth ystafell wely, ac oherwydd mileindra ei blaid ef a'r ffaith nad yw wedi gwneud dim i sefyll dros bobl Cymru sy'n wynebu cael eu troi allan.

I have to say that I was quite amused to hear him talk about the parties of the left. I know that, in his press conference this morning, he talked about the personal chemistry that existed with the leaders of Plaid Cymru and the Lib Dems. I wonder whether flowers have changed hands across the Chamber, and I wonder whether there has been wooing that has taken place on behalf of the dynamic leader of the opposition. Perhaps the opportunity will arise over the Christmas period for the leaders of Plaid Cymru and the Lib Dems to tell us exactly what the nature of that personal chemistry is.

Mae'n rhaid i mi ddweud i mi gael fy nifyrru o'i glywed yn siarad am y pleidiau ar y chwith. Gwn iddo sôn yn ei gynhadledd i'r wasg y bore yma am y cemeg personol a oedd yn bodoli gydag arweinwyr Plaid Cymru a'r Democratiaid Rhyddfrydol. Tybed a oes blodau wedi newid dwylo ar draws y Siambr, a tybed a fu ceisio llaw ar ran arweinydd deinamig yr wrthblaid. Efallai y bydd y cyfle'n codi dros gyfnod y Nadolig i arweinwyr Plaid Cymru a'r Democratiaid Rhyddfrydol ddweud wrthym yn union beth yw natur y cemeg personol hwnnw.

14:07 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move back to the agenda. Question 3 is from Darren Millar.

Symudwn yn ôl at yr agenda nawr. Daw Cwestiwn 3 gan Darren Millar.

### Addysg

### Education

14:07 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*3. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddyfodol addysg yng Nghymru? OAQ(4)1388(FM)*

*3. Will the First Minister make a statement on the future of education in Wales? OAQ(4)1388(FM)*

14:07 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Yes. We are committed to ensuring that every learner reaches their potential. We have a range of initiatives in place to raise standards across education, and we are confident that these are the right reforms.

Gwnaf. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod pob dysgwr yn gwireddu ei botensial. Mae gennym amrywiaeth o fentrau ar waith i godi safonau ar draws maes addysg, ac rydym yn hyderus mai'r rhain yw'r diwygiadau cywir.

14:07 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

First Minister, there is no doubt that the PISA results, which showed us right down at the bottom of the UK league table, and which were published last week, are a cause for concern and, indeed, national shame here in Wales. What work are you doing with the providers of education in the faith sector in Wales to perhaps work with them to raise standards? You will be aware that faith schools generally perform better than non-faith schools, and I am sure that the diocesan offices across Wales, in both the Catholic Church and the Church in Wales, would want to work with the Government in order to improve standards across the board.

Brif Weinidog, nid oes amheuaeth bod y canlyniadau PISA, a ddangosodd ein bod ar waelod tabl cynghrair y DU, ac a gyhoeddwyd yr wythnos diwethaf, yn destun pryder ac, yn wir, cywilydd cenedlaethol yma yng Nghymru. Pa waith ydych chi'n ei wneud gyda darparwyr addysg yn y sector ffydd yng Nghymru i weithio gyda nhw efallai i godi safonau? Byddwch yn ymwybodol bod ysgolion ffydd yn perfformio'n well nag ysgolion nad ydynt yn rhai ffydd yn gyffredinol, ac rwy'n siŵr y byddai swyddfeydd yr esgobaethau ledled Cymru, yn yr Eglwys Gatholig a'r Eglwys yng Nghymru, yn awyddus i weithio gyda'r Llywodraeth er mwyn gwella safonau yn gyffredinol.

14:07 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I do not see that there is evidence that faith schools perform better. [Interruption.] I have seen the figures. There is variety in terms of the performance of all schools in every sector. I thought from the beginning of his question that he was suggesting that it was the faith schools' fault that the PISA results were as they are. Clearly, that is not the case. We will work with all providers in the state sector in order to ensure that the PISA results improve in the future. That is what we have said on many occasions. What we will not do is fragment education in Wales, and we will not cut education spending, as his party wishes to do.

Nid wyf yn gweld bod tystiolaeth bod ysgolion ffydd yn perfformio'n well. [Torri ar draws.] Rwyf wedi gweld y ffigurau. Ceir amrywiaeth o ran perfformiad pob ysgol ym mhob sector. Roeddwn i'n meddwl o ddechrau ei gwestiwn ei fod yn awgrymu mai bai ysgolion ffydd yw hi bod y canlyniadau PISA fel ag y maent. Yn amlwg, nid yw hynny'n wir. Byddwn yn gweithio gyda'r holl ddarparwyr yn y sector gwladol er mwyn sicrhau bod y canlyniadau PISA yn gwella yn y dyfodol. Dyna'r hyn yr ydym ni wedi ei ddweud ar sawl achlysur. Yr hyn na fyddwn ni'n ei wneud yw darnio addysg yng Nghymru, ac ni fyddwn yn torri gwariant ar addysg, fel y mae ei blaid ef yn dymuno ei wneud.

14:08 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Brif Weinidog, mae'r dystiolaeth sy'n cael ei chasglu yn awr gan Estyn, ac, yn enwedig, yn yr adroddiad diweddar ar ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn y cyfnod sylfaen, yn dangos bod y meini prawf a ddefnyddir yn y cyfnod sylfaen, y dulliau dysgu ac ati, yn dechrau cyflawni. Mae plant yn dechrau cyrraedd y lefel y dylent fod yn ei chyrraedd, a hynny oherwydd y technegau sy'n cael eu defnyddio. Felly, a allech addo cadw ethos y cyfnod sylfaen, er gwaethaf y pwysau angenrheidiol sydd i godi safonau ar draws y cwricwlwm?

First Minister, the evidence that is being gathered by Estyn, and, in particular, in a recent report on Welsh-medium learning in the foundation phase, demonstrates that the criteria used in the foundation phase, the learning techniques and so on, are starting to achieve their aims. Children are starting to reach the level that they should be attaining because of the techniques being adopted. Could you therefore give a pledge to keep the ethos of the foundation phase, despite the necessary pressures that exist to increase standards across the curriculum?

14:09 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Nid oes yn rhaid i un cael ei gwneud yn lle'r llall, wrth gwrs. Cefais gyfarfod y bore yma gyda Huw Lewis, y Gweinidog, a chyda Sioned Davies, sydd wedi adrodd yn ôl i ni ynglŷn â'r Gymraeg fel ail iaith. Bydd ei gwaith da hi yn bwydo i mewn hefyd i'r strwythur addysg cyfrwng Cymraeg, neu addysg i sicrhau bod pobl yn gallu siarad Cymraeg—efallai byddai'n well disgrifio fe fel hynny—yn y dyfodol. Wrth gwrs, rydym yn gweld yr hyn mae'r cyfnod sylfaen wedi'i wneud o ran tyfu a chynyddu safonau yn y Gymraeg ac ym mhob peth arall.

They do not have to be mutually exclusive, of course. I met this morning with Huw Lewis, the Minister, and Sioned Davies, who has reported back to us on the teaching of Welsh as a second language. Her good work will feed into the structure of Welsh-medium education, or education to ensure that people are able to speak Welsh—perhaps that would be a better way of putting it—in the future. Of course, we have seen what the foundation phase has done in order to grow and improve standards in Welsh and everything else.

14:09 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, yesterday it was my pleasure to visit Pembroke power station. One issue that was raised with me was the relative difficulty that RWE has experienced in recruiting key skilled workers for particular functions within that organisation. While Pembrokeshire College has strong links with RWE, it has had consistently to go further afield than Swansea or Cardiff to source candidates for its year-in-industry internship. What steps can your Government take, working in partnership with local authorities, universities and other partners, to improve the situation so that RWE can deliver for the local communities in Pembrokeshire, particularly for the highly skilled end of the market?

Brif Weinidog, cefais y pleser o ymweld â gorsaf bŵer Penfro ddoe. Un mater a godwyd gyda mi oedd yr anhawster cymharol y mae RWE wedi ei gael o ran recriwtio gweithwyr medrus allweddol ar gyfer swyddogaethau penodol o fewn y sefydliad hwnnw. Er bod gan Goleg Sir Benfro gysylltiadau cryf gyda RWE, mae wedi gorfod chwilio ymhellach i ffwrdd nag Abertawe neu Gaerdydd yn gyson i ddod o hyd i ymgeiswyr ar gyfer ei swyddi blwyddyn mewn diwydiant preswyl. Pa gamau all eich Llywodraeth eu cymryd, gan weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, prifysgolion a phartneriaid eraill, i wella'r sefyllfa fel y gall RWE ddarparu ar gyfer y cymunedau lleol yn Sir Benfro, yn enwedig ar gyfer pen medrus iawn y farchnad?

14:10 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

We have, of course, schemes such as Jobs Growth Wales and Pathways to Apprenticeships, but our further education colleges have a good record of supporting industry locally, wherever they are in Wales, and we would want to work with the college and, indeed, with Pembroke power station, to increase the number of potential candidates for the year-in-industry internship in the future. If the Member would write to me, expressing the difficulties that are felt to be there, then we will, of course, look to see how those difficulties can be addressed.

Mae gennym, wrth gwrs, gynlluniau fel Twf Swyddi Cymru a Llwybrau at Brentisiaethau, ond mae gan ein colegau addysg bellach hanes da o gefnogi diwydiant yn lleol, lle bynnag y maen nhw yng Nghymru, a byddem yn dymuno gweithio gyda'r coleg ac, yn wir, gyda gorsaf bŵer Penfro, er mwyn cynyddu nifer yr ymgeiswyr posibl ar gyfer swyddi blwyddyn mewn diwydiant preswyl yn y dyfodol. Os gwnaiff yr Aelod ysgrifennu ataf, gan fynegi'r anawsterau y teimlir sydd i'w canfod yno, yna byddwn, wrth gwrs, yn edrych i weld sut y gellir mynd i'r afael â'r anawsterau hynny.

## Treftadaeth yr Iaith Gymraeg

## Heritage of the Welsh Language

14:11 **Ann Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*4. Sut y mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod treftadaeth yr iaith Gymraeg yn cael ei dathlu? OAQ(4)1398(FM)*

*4. How is the Welsh Government ensuring that the heritage of the Welsh language is celebrated? OAQ(4)1398(FM)*

14:11 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

We support many projects in support of the heritage of the language. They include the National Eisteddfod, the Urdd Eisteddfod, and the purchase of Cae'r Gors, the home of Kate Roberts. We will be celebrating 150 years of 'y Wladfa' in Patagonia, and we had the recent WOMEX festival, in which Welsh music played a significant part.

Rydym yn cefnogi llawer o brosiectau i gefnogi treftadaeth yr iaith. Maen nhw'n cynnwys yr Eisteddfod Genedlaethol, Eisteddfod yr Urdd, a phrynu Cae'r Gors, cartref Kate Roberts. Byddwn yn dathlu 150 mlynedd o'r Wladfa ym Mhatagonia, a chawsom ŵyl WOMEX yn ddiweddar, ac roedd cerddoriaeth Gymraeg yn rhan sylweddol o hynny.

14:11 **Ann Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much for that, First Minister, and may I say thank you for meeting the town clerk and Gwynn Matthews, who delivered a lecture on the four-hundred-and-fiftieth anniversary of the translation of 'The Book of Common Prayer' into Welsh? That was an Act steered through by the then MP Humphrey Lhuyd, and I think that it has been credited as one of the things that has kept the Welsh language alive over all of those years. For me, that is an important example of how we can actually celebrate our rich culture and our heritage. Would you provide an update on what the next plans are that your Government is looking at to make sure that people understand that those fights and those struggles to protect and keep the Welsh language are very much still in the hearts of everybody across Wales, even those of us who desperately struggle to continue to learn to speak the language?

Diolch yn fawr iawn am hynna, Brif Weinidog, ac a gaf i ddiolch i chi am gyfarfod â chlerc y dref a Gwynn Matthews, a gyflwynodd ddarlith ar ddathliad pedwar cant a hanner o flynyddoedd ers cyfieithu'r 'Llyfr Gweddi Gyffredin' i'r Gymraeg? Roedd honno'n Ddeddf a lywiwyd gan yr AS bryd hynny Humphrey Lhuyd, ac rwy'n credu iddo gael clod fel un o'r pethau sydd wedi cadw'r iaith Gymraeg yn fyw dros yr holl flynyddoedd. I mi, mae honno'n enghraifft bwysig o sut y gallwn ddathlu ein diwylliant cyfoethog a'n treftadaeth mewn gwirionedd. A wnewch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynlluniau nesaf y mae eich Llywodraeth yn eu hystyried i wneud yn siŵr bod pobl yn deall y bydd y brwydrau a'r ymdrechion hynny i ddiogelu a chadw'r iaith Gymraeg yn dal i fod yng nghalonnau pawb ledled Cymru, hyd yn oed y rhai ohonom sy'n ei chael hi'n anodd iawn wrth barhau i ddysgu i siarad yr iaith?

14:12 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, I think the major opportunity arises with the one-hundred-and-fiftieth anniversary of the sailing of the Mimosa from Liverpool to what is now called Puerto Madryn in Patagonia and the establishment of—I hesitate to use the word 'colony', with the connotations that it gives—a settlement where, to this day, there are people who speak Welsh five generations on. It is a remarkable feat of survival, and there still is tremendous interest there in the Welsh language. I think that that will help us to raise awareness in Wales of what happened in 1865 and the reasoning behind their leaving Wales.

Wel, rwy'n credu bod y prif gyfle yn codi wrth ddathlu can mlynedd a hanner ers i'r Mimosa hwylio o Lerpwl i'r hyn a elwir yn Puerto Madryn bellach, ym Mhatagonia, a sefydlu —nid wyf yn hoffi defnyddio'r gair 'trefedigaeth', â'r hyn y mae hynny'n ei awgrymu—anheddiad lle, hyd heddiw, y ceir pobl sy'n siarad Cymraeg pum cenhedlaeth yn ddiweddarach. Mae'n gamp ryfeddol o oroesi, a cheir diddordeb aruthrol yno yn yr iaith Gymraeg o hyd. Rwy'n meddwl y bydd hynny'n ein helpu i godi ymwybyddiaeth yng Nghymru o'r hyn a ddigwyddodd ym 1865 a'u rhesymau dros adael Cymru.

The irony with regard to 'The Book of Common Prayer' is that, when the Bible was translated into Welsh, it was done in order to move the Welsh people away from Catholicism by Elizabeth I. When 'The Book of Common Prayer' was translated, the idea was that it was to move people away from the Welsh language. The idea behind it originally, when it was presented in Parliament, was that people could look at the Welsh version, look at the English version, and then understand English better as a result, although I suspect that the reality was that most people could not read in either language. Nevertheless, that was the irony of the translation of 'The Book of Common Prayer'.

Yr eironi o ran 'Y Llyfr Gweddi Gyffredin' yw, pan gyfieithwyd y Beibl i'r Gymraeg, y gwnaethpwyd hynny gan Elizabeth I er mwyn symud pobl Cymru oddi wrth Babyddiaeth. Pan gyfieithwyd 'Y Llyfr Gweddi Gyffredin', y syniad oedd symud pobl oddi wrth yr iaith Gymraeg. Y syniad y tu ôl iddo'n wreiddiol, pan gafodd ei gyflwyno yn y Senedd, oedd y gallai pobl edrych ar y fersiwn Gymraeg, edrych ar y fersiwn Saesneg, ac yna deall Saesneg yn well o ganlyniad, er fy mod yn amau mai'r gwir amdani oedd nad oedd y rhan fwyaf o bobl yn gallu darllen y naill iaith na'r llall. Serch hynny, dyna oedd eironi cyfieithu'r 'Llyfr Gweddi Gyffredin'.

14:13 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The heritage of the Welsh language is clearly part of the heritage of Wales, but it is also part of the heritage of the UK. Have you spoken to any representatives of the other Governments in the UK about how better to inform their nations about the Welsh language, promoting its importance here in Wales as a living language, but also as part of their stories?

Mae treftadaeth yr iaith Gymraeg yn amlwg yn rhan o dreftadaeth Cymru, ond mae hefyd yn rhan o dreftadaeth y DU. A ydych chi wedi siarad ag unrhyw gynrychiolwyr y Llywodraethau eraill yn y DU am sut i hysbysu eu gwledydd nhw'n well am yr iaith Gymraeg, gan hyrwyddo ei phwysigrwydd yma yng Nghymru fel iaith fyw, ond hefyd fel rhan o'u straeon nhw?

14:13 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

There is the work that we do with the British Council, for example. It has a role in terms of promoting Welsh heritage and the Welsh language, although the primary role is, of course, ours. Nevertheless, we always seek to promote the Welsh language, both within the UK and outside.

Ceir y gwaith yr ydym ni'n ei wneud gyda'r Cyngor Prydeinig, er enghraifft. Mae ganddo swyddogaeth o ran hyrwyddo treftadaeth Cymru a'r iaith Gymraeg, er mai ni sydd â'r brif swyddogaeth, wrth gwrs. Serch hynny, rydym ni bob amser yn ceisio hyrwyddo'r iaith Gymraeg, o fewn y DU a'r tu allan iddi.

14:14 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Brif Weinidog, yr wythnos hon, rhoddwyd 'Llyfr Aneirin' ar y we gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru—llyfr sy'n cynnwys un o'r cerddi hynaf, 'Y Gododdin', sy'n bodoli yng Nghymru. Mae'n dda gweld bod hon wedi cael ei roi ar y we, gan fod mwy o bobl—pobl ifanc, er enghraifft—yn gallu darllen yr hyn sydd yn rhan o dreftadaeth y Gymraeg. A oes gennych unrhyw syniadau am sut i ehangu ar hyn, efallai drwy fwy o 'apps' y gall pobl fynd atynt i edrych ar beth yw treftadaeth yr iaith Gymraeg, a sut i ehangu hynny ymysg y boblogaeth yn gyffredinol?

First Minister, this week the 'Book of Aneirin' was put online by the National Library of Wales, a book which includes one of the oldest poems, 'Y Gododdin', that exists in Wales. It is good to see that this has been digitised so that more people—young people, for example—can read part of what is part of Welsh language heritage. Do you have any ideas as to how to expand upon this work, perhaps by providing more apps so that people can access Welsh heritage, and how that can be expanded among the population in general?

14:14 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Rwy'n gwybod bod y Cyngor Llyfrau Cymraeg a'r llyfrgell genedlaethol, er enghraifft, wastad yn edrych am ffyrdd o ehangu gwybodaeth o etifeddiaeth yr iaith Gymraeg, ac rwy'n siŵr y byddant yn mo'yn ystyried pob ffordd o sicrhau bod mwy o bobl yn gwybod am 'Y Gododdin' ac am le y cafodd ei hysgrifennu yn y lle cyntaf a'r ffaith ei bod yn un o'r pethau cyntaf i gael ei ysgrifennu yn Gymraeg. Yr hyn sy'n hynod o ddiddorol, wrth gwrs, yw er bod canrifoedd wedi mynd heibio ers i 'Y Gododdin' gael ei hysgrifennu, mae'n bosibl, gyda thamed bach o waith, deall beth sydd gan 'Y Goddodin' i'w ddweud.

I know that the Welsh Books Council and the national library, for example, are always seeking ways of expanding the knowledge of Welsh language heritage, and I am sure that they would want to consider every way of ensuring that more people know about 'Y Gododdin' and where it was written in the first place and the fact that it is one of the first things to be written in Welsh. What is exceptionally interesting, of course, is that although centuries have passed since 'Y Gododdin' was written, it is possible, with a little bit of work, to understand what it has to say.

### Yr Eisteddfod Genedlaethol

### The National Eisteddfod

14:15 **Keith Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*5. A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am waith Llywodraeth Cymru gyda'r Eisteddfod Genedlaethol? OAQ(4)1402(FM)*

*5. Will the First Minister provide an update on the Welsh Government's work with the National Eisteddfod? OAQ(4)1402(FM)*

14:15 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad a gyflwynwyd gan y grŵp gorchwyl a gorffen, cefais gyfarfod â'r prif weithredwr ar 5 Rhagfyr i drafod argymhellion yr adroddiad. Mae'r Eisteddfod yn bartner pwysig inni a byddaf yn cyhoeddi ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y grŵp gorchwyl a gorffen yn fuan.

Following the publication of the report undertaken by the task and finish group, I met with the chief executive on 5 December to discuss the report's recommendations. The Eisteddfod is an important partner, and I will be publishing the Welsh Government's response to the task and finish group's report soon.

14:16 **Keith Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch am yr ateb. Eisteddfod sir Gâr 2014 fydd y cyntaf i gael ei chynnal gyda'r broses o gynllunio'n ystyried yn llawn y gwaith hwnnw. Un o'r themâu yn yr argymhellion yw adlewyrchu diwylliant a blas lleol. A ydych yn cytuno y bydd cynnal yr Eisteddfod yn Llanelli yn rhoi cyfle da inni arddangos yr hyn sydd gyda ni'n lleol a bod cynnal digwyddiadau drwy gydol yr wythnos honno, fel sioe lwyddiannus iawn 'Grav' gan Ysgol y Strade, yn ffordd dda o wneud hynny?

Thank you for the response. The Carmarthenshire Eisteddfod in 2014 will be the first to be held with its planning process taking full account of that work. One of the themes of the recommendations is to reflect local culture. Do you agree that holding the Eisteddfod in Llanelli will give us a good opportunity to demonstrate what we have available locally and that holding events throughout that week, such as the very successful 'Grav' show by Ysgol y Strade, is an excellent way of doing that?

14:16 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Bydd hynny, wrth gwrs, yn bwysig dros ben. Mae'r ffaith y bydd yr Eisteddfod yn cael ei chynnal mewn cae yn sir Gâr yn bwysig i'r iaith yn sir Gâr. Hefyd, mae'n bwysig i bobl ddeall etifeddiaeth Llanelli fel tref. Mae'r dref ei hun wedi colli ei Chymraeg ers degawdau, er gwaethaf yr etifeddiaeth o amgylch y dref, yn enwedig i'r gogledd. Mae'n bwysig, felly, bod pobl yn deall beth oedd etifeddiaeth tref Llanelli o ran yr iaith Gymraeg. Mae hynny'n bwysig er mwyn i bobl ddeall pa mor gryf oedd y Gymraeg yn y dref ar un adeg.

That will, of course, be exceptionally important. The fact that the Eisteddfod will be taking place in a field in Carmarthenshire is important to the language in Carmarthenshire. In addition, it is important for people to understand the heritage of Llanelli as a town. The town itself has lost its Welsh for decades, despite the heritage around the town, particularly to the north. It is therefore important that people understand the heritage of the town of Llanelli in terms of the Welsh language. That is important so that people can understand how strong the Welsh language was in the town at one time.

14:17 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Minister, I was delighted to hear your comments to Keith, because the Welsh language and Welsh culture belong to everybody, including non-Welsh speakers. What more do you think could be done by the National Eisteddfod to encourage more non-Welsh-speaking Welsh people to come along to enjoy that rich cultural event?

Weinidog, roeddwn i wrth fy modd o glywed eich sylwadau wrth Keith, gan fod yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymru yn perthyn i bawb, gan gynnwys y di-Gymraeg. Beth arall ydych chi'n ei gredu y gallai'r Eisteddfod Genedlaethol ei wneud i annog pobl di-Gymraeg o Gymru i ddod i fwynhau'r digwyddiad diwylliannol cyfoethog hwnnw?

14:17 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

I think that the Eisteddfod has done a great deal thus far. There is always more that could be done, but I think that the mould was very much broken in 1998 when the Eisteddfod was held in Newport. There had to be a change of tack in terms of promoting the Eisteddfod in an area of Wales where Welsh was, at that time, spoken by 2% of the population. Times have moved on, for example there was a time when if an organisation put up signs on the 'maes' in English, their stands would be 'rearranged', if I could put it that way. I am sure that maybe some in this building were at one time part of that 'rearrangement', but I will go no further than that. Things have changed immensely. The fact that there is translation there now and the fact that the Eisteddfod has reached out to those who are non-Welsh speakers is an immense improvement and certainly a great improvement from the way things were, particularly in the 1970s. We will continue to work with the Eisteddfod to improve its appeal to those who are not Welsh speakers.

Rwy'n credu bod yr Eisteddfod wedi gwneud llawer iawn hyd yn hyn. Mae mwy y gellir ei wneud bob amser, ond rwy'n credu y newidiwyd y sefyllfa'n llwyr ym 1998 pan gynhaliwyd yr Eisteddfod yng Nghasnewydd. Roedd yn rhaid newid cyfeiriad o ran hyrwyddo'r Eisteddfod mewn ardal o Gymru lle'r oedd y Gymraeg, ar y pryd, yn cael ei siarad gan 2% o'r boblogaeth. Mae'r oes wedi symud ymlaen, er enghraifft, roedd adeg y byddai stondinau sefydliad yn cael eu 'had-drefnu', os caf i ei roi felly, pe byddai'n rhoi arwyddion ar y 'maes' yn Saesneg,. Rwy'n siŵr bod rhai yn yr adeilad hwn efallai a oedd yn rhan o'r 'ad-drefnu' hwnnw ar un adeg, ond ni ddywedaf fwy na hynny. Mae pethau wedi newid yn aruthrol. Mae'r ffaith fod cyfieithu ar gael yno nawr a'r ffaith fod yr Eisteddfod wedi estyn allan i'r rhai sy'n ddi-Gymraeg yn welliant enfawr ac yn sicr yn welliant mawr o'r ffordd yr oedd pethau, yn enwedig yn y 1970au.Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Eisteddfod i wella ei hapêl i'r rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg.

14:18 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Gyda'r argymhelliad yn adroddiad Roy Noble i gynyddu'r cyllid i'r Eisteddfod, a ydych chi'n gweld lle i ddod ag arian i mewn o gyllidebau eraill ar wahân i'r gyllideb ddiwylliant, megis y gyllideb economi a thwristiaeth, er mwyn hyrwyddo rôl yr ŵyl o ran ei gallu i ddod â chyfoeth economaidd i Gymru yn ystod misoedd yr haf?

With the recommendation in the Roy Noble report to increase the funding for the Eisteddfod, do you see any scope to bring in funding from other budgets other than the main culture budget, such as the economy and tourism budget, in order to promote the role of the Eisteddfod in terms of its ability to bring economic benefits to Wales during the summer months?

14:18 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Mae hynny'n bwysig oherwydd y tueddiad yw i ystyried yr Eisteddfod fel rhywbeth hollol ddiwylliannol, ond mae cyfleoedd i greu swyddi ar dir yr Eisteddfod, efallai, pan fydd yn mynd i rywle. Bûm yn trafod â'r prif weithredwr ym mha ffyrdd y gallwn ni edrych ar ffynonellau eraill er mwyn ariannu'r Eisteddfod, nid yn unig yn y sector gyhoeddus ond y tu fas iddo hefyd, er mwyn cryfhau sylfaen gyllido yr Eisteddfod ei hun.

That is important because the tendency is to consider the Eisteddfod as something solely cultural, but there are opportunities to create jobs on the Eisteddfod field, perhaps, when it goes to a particular area. I discussed with the chief executive the ways that we can look at other sources of funding to fund the Eisteddfod, not only from the public sector but outside of that sector as well, in order to strengthen the funding foundation of the Eisteddfod itself.

## Digwyddiadau na Ddylent Byth Ddigwydd

## Never Events

14:19 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*6. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am osgoi digwyddiadau na ddylent byth ddigwydd mewn ysbytai? OAQ(4)1395(FM)*

*6. Will the First Minister make a statement on the avoidance of 'never events' in hospitals? OAQ(4)1395(FM)*

14:19 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

All NHS organisations must have effective systems in place to ensure that all practical steps are taken to prevent 'never events.' When these rare events happen, I expect them to be reported immediately, investigated thoroughly and for corrective actions to be taken.

Mae'n rhaid bod gan bob corff y GIG systemau effeithiol ar waith i sicrhau y cymerir pob cam ymarferol i atal digwyddiadau na ddylent fyth ddigwydd. Pan fydd y digwyddiadau prin hyn yn digwydd, rwy'n disgwyl y bydd hysbysu amdanynt ar unwaith, eu bod yn cael eu hymchwilio'n drylwyr ac i gamau unioni gael eu cymryd.

14:19 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

First Minister, as you have already identified, 'never events' are unacceptable and avoidable events in healthcare. They include, for example, wrongly prepared high-risk injections, wrong-route administration of chemotherapy, and 23 other specific events. Twelve 'never events' have occurred within the Betsi Cadwaladr health board since March. Can you tell me how many 'never events' have been reported to the Welsh Government in the last three years? Given that they should not be occurring at all, what action has been taken to improve the leadership and management of 'never events'?

Brif Weinidog, fel yr ydych chi wedi ei nodi eisoes, mae digwyddiadau na ddylent fyth ddigwydd yn ddigwyddiadau annerbyniol ac yn rhai y gellir eu hosgoi mewn gofal iechyd. Maen nhw'n cynnwys, er enghraifft, pigiadau risg uchel a baratowyd yn anghywir, darparu cemotherapi yn y ffordd anghywir, a 23 o ddigwyddiadau penodol eraill. Bu deuddeng digwyddiad na ddylent fyth ddigwydd ym mwrdd iechyd Betsi Cadwaladr ers mis Mawrth. A allwch chi ddweud wrthyf faint o ddigwyddiadau na ddylent fyth ddigwydd yr hysbyswyd Llywodraeth Cymru amdanynt yn ystod y tair blynedd diwethaf? O gofio na ddylent fod yn digwydd o gwbl, pa gamau a gymerwyd i wella'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth o ddigwyddiadau na ddylent fyth ddigwydd?

14:20 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Well, I do not know whether the figure of 12 counts as 'never events'; I think that nine 'never events' were reported in 2012-13, and seven in the first six months of this current year. I suspect that what is happening is that some events that are not technically 'never events' are treated as such because of their seriousness, and where those events are identified, even though they are not technically 'never events', I will expect them to be investigated thoroughly and for steps to be taken to correct the situation.

Wel, nid wyf yn gwybod a yw'r ffigur o 12 yn cyfrif fel digwyddiadau na ddylent fyth ddigwydd; rwy'n credu yr hysbyswyd am naw digwyddiad na ddylent fyth ddigwydd yn 2012-13, a saith yn ystod chwe mis cyntaf y flwyddyn gyfredol hon. Rwy'n amau mai'r hyn sy'n digwydd yw bod rhai digwyddiadau nad ydynt yn ddigwyddiadau na ddylent fyth ddigwydd yn dechnegol yn cael eu trin felly oherwydd eu difrifoldeb, a phan nodir y digwyddiadau hynny, er nad ydynt yn ddigwyddiadau na ddylent fyth ddigwydd yn dechnegol, byddaf yn disgwyl iddynt gael eu hymchwilio'n drylwyr ac i gamau gael eu cymryd i unioni'r sefyllfa.

14:20 **Lindsay Whittle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, you are quite right that these events are indeed devastating for the individuals, but I believe that we need to know the root causes of such serious events so that they never happen again. Is it poor communication among staff, inadequate staffing levels, or overworked surgeries? What do you think, First Minister?

Brif Weinidog, rydych chi yn llygad eich lle bod y digwyddiadau hyn yn rhai gwir ddychrynllyd i'r unigolion, ond rwy'n credu bod angen i ni wybod achosion sylfaenol digwyddiadau difrifol o'r fath fel nad ydynt fyth yn digwydd eto. Ai cyfathrebu gwael ymhlith aelodau staff, lefelau staffio annigonol, neu feddygfeydd sy'n cael eu gorweithio yw'r broblem? Beth yw eich barn chi, Brif Weinidog?

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

14:21 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I do not think that there is ever one particular reason for a 'never event'. There tend to be different reasons in different parts of Wales. They are sometimes to do with human error. They are sometimes to do with organisation, and sometimes there will be other reasons as well. What is important, of course, is that where 'never events' do occur, they are fully investigated and that steps are taken to ensure that they do not happen again. Looking at the list of 'never events' that have taken place in Wales, we see that many of them seem to be to do with human error. Some are to do with record-keeping, I would suggest, and I suppose that I am guessing at this point. Some of them may be to do with organisation, but it is probably fair to say that each event is, although rare, an event in itself in terms of circumstances. That is why it is so important, of course, that the circumstances are investigated thoroughly, because, first, they are rare, and, secondly, they tend not to be linked to each other.

Nid wyf yn credu bod byth unrhyw un rheswm penodol am ddigwyddiad na ddylai fyth ddigwydd. Mae yn tueddu i fod am wahanol resymau mewn gwahanol rannau o Gymru. Maen nhw weithiau'n ymwneud â chamgymeriadau dynol. Maen nhw weithiau'n ymwneud â threfn, ac weithiau bydd rhesymau eraill hefyd. Yr hyn sy'n bwysig, wrth gwrs, yw pan geir digwyddiadau na ddylent fyth ddigwydd, eu bod yn cael eu hymchwilio'n llawn ac y cymerir camau i sicrhau nad ydynt yn digwydd eto. O edrych ar y rhestr o ddigwyddiadau na ddylent fyth ddigwydd yng Nghymru, rydym yn gweld ei bod yn ymddangos bod llawer ohonynt yn gysylltiedig â chamgymeriad dynol. Mae rhai'n ymwneud â chadw cofnodion, byddwn yn awgrymu, ac mae'n debyg fy mod i'n dyfalu nawr. Efallai y bydd rhai ohonynt yn gysylltiedig â threfn, ond mae'n debyg ei bod yn deg i ddweud bod pob digwyddiad, er nad yw'n digwydd yn aml, yn ddigwyddiad ynddo'i hun o ran amgylchiadau. Dyna pam mae hi mor bwysig, wrth gwrs, bod yr amgylchiadau'n cael eu hymchwilio'n drylwyr, oherwydd, yn gyntaf, maen nhw'n anaml, ac, yn ail, maen nhw'n tueddu i beidio â bod yn gysylltiedig â'i gilydd.

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

14:22 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

When I raised this issue of 'never events' earlier in the year, the Welsh Government said that there was guidance in place to prevent them from happening. Could you demonstrate to me what steps your Government takes to ensure that that guidance is acted upon and followed?

Pan godais y mater hwn o ddigwyddiadau na ddylent fyth ddigwydd yn gynharach yn y flwyddyn, dywedodd Llywodraeth Cymru bod canllawiau ar waith i'w hatal rhag digwydd. A allech chi ddangos i mi pa gamau mae eich Llywodraeth yn eu cymryd i sicrhau y cymerir camau ar sail y canllawiau ac y'u dilynir?

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

14:22 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

The National Patient Safety Agency developed a number of patient safety solutions, some of which aid the prevention of 'never events'. All those solutions are monitored on a quarterly basis by us, and the results are published on the Patient Safety Wales website. The NHS delivery unit supports organisations as well to implement outstanding actions and to share best practice. Some of those solutions have been implemented on a national basis. For example, the World Health Organization surgical safety checklist patient safety alert has been implemented through the 1000 Lives Plus programme.

Datblygodd yr Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion nifer o atebion diogelwch cleifion, ac mae rhai ohonynt yn helpu i atal digwyddiadau na ddylent fyth ddigwydd. Caiff yr holl atebion hynny eu monitro gennym ni bob tri mis, a chyhoeddir y canlyniadau ar wefan Diogelwch Cleifion Cymru. Mae uned gyflawni'r GIG yn cefnogi sefydliadau hefyd i gymryd camau gweithredu y mae angen eu cymryd ac i rannu arfer gorau. Rhoddwyd rhai o'r atebion hynny ar waith ar sail genedlaethol. Er enghraifft, mae rhybudd diogelwch cleifion rhestr wirio diogelwch llawfeddygol Sefydliad Iechyd y Byd wedi cael ei roi ar waith drwy'r rhaglen 1000 o Fywydau a Mwy.

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

### Targedau Perfformiad

### Performance Targets

14:23 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*7. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am dargedau perfformiad Llywodraeth Cymru? OAQ(4)1407(FM)*

*7. Will the First Minister make a statement on Welsh Government performance targets? OAQ(4)1407(FM)*

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

14:23 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

The programme for government annual report shows that, despite the challenging financial environment, progress is being made in many areas of public service delivery.

Mae adroddiad blynyddol y rhaglen ar gyfer llywodraethu yn dangos, er gwaethaf yr amgylchedd ariannol anodd, bod cynnydd yn cael ei wneud mewn llawer o feysydd sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus.

Senedd.tv Fideo Video

14:23 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Thank you, First Minister, for that answer. We are in the last week of the autumn term. The Minister for business and enterprise confirmed, in answer to my written questions, that the key performance indicators for the enterprise zones would be made available before the end of the year. Are these figures still on target? Would you agree that it is regrettable that those figures have not been made available to Members while the Assembly is sitting, given that for the next two weeks, obviously, we will be in recess?

Diolch am yr ateb yna, Brif Weinidog. Rydym ni yn wythnos olaf tymor yr hydref. Cadarnhaodd y Gweinidog busnes a menter, wrth ateb fy nghwestiynau ysgrifenedig, y byddai'r dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer yr ardaloedd menter yn cael eu rhoi ar gael cyn diwedd y flwyddyn. A yw'r ffigurau hyn yn dal i fod ar y trywydd iawn? A fyddech chi'n cytuno ei bod yn drueni nad yw'r ffigurau hynny wedi cael eu rhoi ar gael i'r Aelodau tra bod y Cynulliad yn eistedd, o ystyried, yn ystod y bythefnos nesaf, yn amlwg, y byddwn yn y toriad?

Senedd.tv Fideo Video

14:23 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Those figures are imminent, in terms of their release. Members will be made aware of them as quickly as possible, and I am sure there will be the opportunity to scrutinise Ministers and myself on those figures when the Assembly returns.

Mae'r ffigurau hynny ar fin cael eu cyhoeddi. Sicrheir bod yr Aelodau'n ymwybodol ohonynt cyn gynted â phosibl, ac rwy'n siŵr y bydd cyfle i graffu ar Weinidogion a minnau o ran y ffigurau hynny pan fydd y Cynulliad yn dychwelyd.

Senedd.tv Fideo Video

14:23 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Will the First Minister outline any progress that has been made to improve Welsh ambulance performance results in the Rhondda Cynon Taf area and in Wales as a whole?

A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu unrhyw gynnydd a wnaed i wella canlyniadau perfformiad ambiwlansys Cymru yn ardal Rhondda Cynon Taf ac yng Nghymru yn gyffredinol?

Senedd.tv Fideo Video

14:24 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

There has been an improvement in ambulance performance in RCT, although it is still short of the target; that much has to be accepted. I can say that 46 additional paramedics have been recruited and are now operational, since September, with 22 more staff in post by the end of January. This is across Wales, I should add. These additional staff will improve service delivery and support the hard work of existing staff.

Bu gwelliant i berfformiad y gwasanaeth ambiwlans yn Rhondda Cynon Taf, er nad yw wedi cyrraedd y targed o hyd; mae'n rhaid derbyn cymaint â hynny. Gallaf ddweud bod 46 o barafeddygon ychwanegol wedi eu recriwtio ac maen nhw'n gweithio bellach, ers mis Medi, a bydd 22 o aelodau staff eraill yn eu swyddi erbyn diwedd mis Ionawr. Mae hyn ledled Cymru, dylwn ychwanegu. Bydd yr aelodau staff ychwanegol hyn yn gwella'r ddarpariaeth o wasanaethau ac yn cefnogi gwaith caled yr aelodau staff presennol.

Senedd.tv Fideo Video

14:24 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

First Minister, you have a number of targets around economic development. When do you predict that Wales will have a buoyant economy?

Brif Weinidog, mae gennych nifer o dargedau yn ymwneud â datblygu economaidd. Pryd ydych chi'n rhagweld y bydd gan Gymru economi fywiog?

Senedd.tv Fideo Video

14:24 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

A vibrant economy.

Economi ffyniannus.

Senedd.tv Fideo Video

14:24 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

A buoyant economy.

Economi fywiog.

Senedd.tv Fideo Video

14:24 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Define 'buoyant'. I think that it will be some time before we are in the position that we were pre-2008. I think that that is inevitable. I think that the UK will be a long time before it is in that position. There are so many factors that are difficult to predict. The Welsh economy is moving in the right direction, but it is moving very slowly in the right direction. What troubles me is what will fuel recovery in the future. What is needed is for people to see a real increase in their wage packets. Unless they see that, they will not be able to spend and, therefore, demand will be depressed and the economy will not be sustained. So, first, we can do what we can as a Government, from our point of view, but, secondly, it is important that the UK Government sends out a message that people do need to see real increases in their salaries and wages in order to get the economy going.

Diffiniwch 'bywiog'. Rwy'n credu y bydd cryn amser cyn ein bod yn y sefyllfa yr oeddem ni ynddi cyn 2008. Rwy'n credu bod hynny'n anochel. Rwy'n credu y bydd amser maith cyn y bydd y DU yn y sefyllfa honno. Mae cymaint o ffactorau sy'n anodd eu rhagweld. Mae economi Cymru yn symud i'r cyfeiriad cywir, ond mae'n symud i'r cyfeiriad cywir yn araf iawn. Yr hyn sy'n fy mhoeni i yw beth fydd yn sbarduno gwellhad yn y dyfodol. Yr hyn sydd ei angen yw i bobl weld codiad go iawn i'w pecynnau cyflog. Oni bai eu bod yn gweld hynny, ni fyddant yn gallu gwario ac, felly, bydd y galw yn gostwng ac ni fydd yr economi yn cael ei chynnal. Felly, yn gyntaf, gallwn wneud yr hyn a allwn fel Llywodraeth, o'n safbwynt ni, ond, yn ail, mae'n bwysig bod Llywodraeth y DU yn cyfleu'r neges bod pobl angen gweld codiad go iawn yn eu cyflogau er mwyn sbarduno'r economi.

In terms of when that might happen, some of the world's economists are saying the end of this decade. Wales cannot be divorced from the economy of the UK or Europe in general, but we need to see all levels of Government working together in order to deliver a faster recovery than has been seen in the UK thus far.

O ran pryd y gallai hynny ddigwydd, mae rhai o economegwyr y byd yn dweud mai diwedd y degawd hwn fydd hynny. Ni all Cymru gael ei gwahanu oddi wrth economi'r DU neu Ewrop yn gyffredinol, ond mae angen i ni weld pob lefel o'r Llywodraeth yn gweithio gyda'i gilydd er mwyn darparu adferiad cyflymach na'r hyn a welwyd yn y DU hyd yn hyn.

## Awdurdodau Tân

## Fire Authorities

14:25 **David Rees** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*8. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gyflenwi gwasanaethau gan awdurdodau tân Cymru? OAQ(4)1394(FM)*

*8. Will the First Minister make a statement on the delivery of services by Wales's fire authorities? OAQ(4)1394(FM)*

14:25 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Fire and rescue authorities are autonomous, independent bodies and it is for them to determine the risks and required provision of services in their geographical area.

Mae awdurdodau tân ac achub yn gyrff ymreolaethol, annibynnol a mater iddyn nhw yw penderfynu ar y risgiau a'r ddarpariaeth ofynnol o wasanaethau yn eu hardaloedd daearyddol.

14:26 **David Rees** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that answer, First Minister. Mid and West Wales Fire and Rescue Service is currently proposing changes to front-line services, including changing the shift patterns of full-time firefighters to continental-style eight-hour shift patterns, which I understand are not used by any other brigade in the UK, changing from 24-hour full-time cover to daytime-only and evening and night-time on call and closing some stations, including in Cymmer in my constituency. Such changes will undoubtedly result in increased response times and may put lives at risk. Will the Welsh Government look at these proposals by the fire authority to ensure that no additional risk to the public will result from any proposals being put forward to address budgetary constraints? Do you agree that any consultation with the public should include full details of the proposals and should be held across the area?

Diolch yn fawr i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog. Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cynnig newidiadau i wasanaethau rheng flaen ar hyn o bryd, gan gynnwys newid patrymau shifftiau diffoddwyr tân llawn amser i batrymau shifftiau wyth awr fel y ceir ar y cyfandir, ac rwy'n deall nad yw hyn yn cael eu defnyddio gan unrhyw frigâd arall yn y DU, gan newid o wasanaeth 24 awr llawn amser i wasanaeth yn ystod y dydd yn unig a gwasanaeth min nos ac yn ystod y nos ar alwad, a chau rhai gorsafoedd, gan gynnwys yn y Cymer yn fy etholaeth i. Nid oes amheuaeth y bydd newidiadau o'r fath yn arwain at amseroedd ymateb hwy ac y gallai roi bywydau mewn perygl. A wnaiff Llywodraeth Cymru edrych ar y cynigion hyn gan yr awdurdod tân i sicrhau na fydd unrhyw risg ychwanegol i'r cyhoedd yn deillio o unrhyw gynigion sy'n cael eu cyflwyno i fynd i'r afael â chyfyngiadau cyllidebol? A ydych chi'n cytuno y dylai unrhyw ymgynghori â'r cyhoedd gynnwys manylion llawn y cynigion ac y dylid eu cynnal ledled yr ardal?

14:26

## Carwyn Jones [Bywgraffiad] [Biography]

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I understand that the fire and rescue authority has said that there will be no station closures at this time, so I can give the Member that assurance, which I am sure will be welcomed by him and his constituents. It is the for fire and rescue authorities themselves to determine the risks and required provision of services in their geographical area. In doing so, they must, of course, undertake robust risk assessments to enable them to consider the impact of their decisions on the safety of the public. I would expect them to be as open as possible with the public in terms of any changes they might propose.

Rwy'n deall bod yr awdurdod tân ac achub wedi dweud na fydd unrhyw orsafoedd yn cael eu cau ar hyn o bryd, felly gallaf roi'r sicrwydd hwnnw i'r Aelod, ac rwy'n siŵr y bydd ef a'i etholwyr yn croesawu hynny. Cyfrifoldeb yr awdurdodau tân ac achub eu hunain yw penderfynu ar y risgiau a'r ddarpariaeth ofynnol o wasanaethau yn eu hardaloedd daearyddol hwy. Wrth wneud hynny, mae'n rhaid iddynt, wrth gwrs, gynnal asesiadau risg cadarn i'w galluogi i ystyried effaith eu penderfyniadau ar ddiogelwch y cyhoedd. Byddwn yn disgwyl iddyn nhw fod mor agored â phosibl gyda'r cyhoedd o ran unrhyw newidiadau y gallant eu cynnig.

Senedd.tv
[Fideo] [Video]

14:27

## William Graham [Bywgraffiad] [Biography]

Statistics show that, unfortunately, firefighters have come under attack on over 150 occasions in the past three years. More worryingly, of those 87 serious attacks, only three have led to prosecutions. What can your Government do to raise awareness of this and to show that these attacks are wrong and must stop?

Mae ystadegau'n dangos, yn anffodus, yr ymosodwyd ar ddiffoddwyr tân dros 150 o weithiau yn ystod y tair blynedd diwethaf. Yn fwy pryderus, o'r 87 o ymosodiadau difrifol hynny, dim ond tri sydd wedi arwain at erlyniadau. Beth all eich Llywodraeth ei wneud i godi ymwybyddiaeth o hyn a dangos nad yw'r ymosodiadau hyn yn dderbyniol a bod yn rhaid iddynt ddod i ben?

Senedd.tv
[Fideo] [Video]

14:27

## Carwyn Jones [Bywgraffiad] [Biography]

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

It is difficult to know what the state of the evidence was with some of these cases, but three is very low compared with the number of attacks that there have been. Let me make it absolutely clear, on behalf of the Government, that when fire officers in the fire service—and this is true of all people—are attacked, particularly in the course of their duty, I would expect to see the police take action, I would expect to see prosecutions and I would expect to see convictions. The fact that they are fire officers is neither here nor there. I take the same view with regard to NHS staff. There is no excuse whatsoever. I do not care what condition people are in, particularly if they have had too much to drink or if they are in some way distressed, because there is no excuse for attacking people who are going about their business of saving lives. I expect to see prosecutions where fire officers and others who are working to help people are concerned.

Mae'n anodd gwybod beth oedd cyflwr y dystiolaeth yn rhai o'r achosion hyn, ond mae tri yn isel iawn o'i gymharu â nifer yr ymosodiadau a fu. Gadewch i mi ei gwneud yn gwbl eglur, ar ran y Llywodraeth, pan ymosodir ar swyddogion tân yn y gwasanaeth tân—ac mae hyn yn wir am bawb—yn enwedig pan fyddant yn cyflawni eu dyletswydd, byddwn yn disgwyl gweld yr heddlu yn cymryd camau, byddwn yn disgwyl gweld erlyniadau a byddwn yn disgwyl gweld euogfarnau. Nid yw'r ffaith eu bod yn swyddogion tân yn berthnasol. Rwyf o'r un farn ynglŷn ag aelodau staff y GIG. Nid oes unrhyw esgus o gwbl. Nid oes ots gen i pa gyflwr y mae pobl ynddo, yn enwedig os ydyn nhw wedi cael gormod i yfed neu os ydyn nhw mewn rhyw fath o drallod, gan nad oes unrhyw esgus dros ymosod ar bobl sy'n gwneud eu gwaith o achub bywydau. Rwy'n disgwyl gweld erlyniadau o ran swyddogion tân ac eraill sy'n gweithio i helpu pobl.

Senedd.tv
[Fideo] [Video]

14:28

## Rhodri Glyn Thomas [Bywgraffiad] [Biography]

Brif Weinidog, mae awdurdodau tân ac achub ledled Cymru yn wynebu sefyllfa eithriadol o anodd. Maent yn gorfod gwneud penderfyniadau anodd yng nghyd-destun y toriad yn yr arian maent yn derbyn wrth Lywodraeth Cymru. A wnewch, fel Llywodraeth, dderbyn cyfrifoldeb a gweithio gyda'r awdurdodau tân ac achub ac awdurdodau lleol i sicrhau nad yw'r gwasanaethau sylfaenol sy'n achub bywydau yn ein cymunedau yn cael eu heffeithio? Nid mater i'r awdurdodau tân ac achub ar eu pennau eu hunain yw hwn; mae gennych chi fel Llywodraeth gyfrifoldeb i weithio gyda nhw i sicrhau bod y gwasanaethau hynny yn cael eu hamddiffyn.

First Minister, the fire and rescue services throughout Wales are facing an exceptionally difficult situation. They have to make difficult decisions in the context of the cutbacks in the funding that they receive from the Welsh Government. Will you, as a Government, take responsibility and work with the fire and rescue services and local authorities to ensure that the basic services that save lives in our communities are not affected? It is not just a matter for the fire and rescue services; you as a Government have a responsibility to collaborate with them to ensure that those services are defended.

Senedd.tv
[Fideo] [Video]

14:29 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Bydd y Gweinidog yn ymweld â phob awdurdod tân yn y bythefnos nesaf i drafod beth yw'r heriau yn eu hardal. Wedyn, gallwn weithio fel Llywodraeth gyda nhw.

The Minister is to visit each and every fire and rescue authority over the next few weeks to discuss what challenges they face in their area. Then, we can work with them as a Government.

Senedd.tv Fideo Video

14:29 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

First Minister, although the mid and west Wales fire authority has ruled out station closures for now, I understand that there is still the possibility of a merger between Gorseinon and Pontarddulais fire stations, which will leave both areas with a slower response from just one fire engine. What oversight does your Government have in terms of ensuring that when fire authorities make these sorts of changes, the safety of local people and their property remains paramount?

Brif Weinidog, er bod awdurdod tân canolbarth a gorllewin Cymru wedi diystyru cau gorsafoedd ar hyn o bryd, rwy'n deall bod posibilrwydd o hyd y bydd gorsafoedd tân Gorseinon a Phontarddulais yn uno, a fydd yn gadael y ddwy ardal ag ymateb arafach gan ddim ond un injan dân. Pa oruchwyliaeth sydd gan eich Llywodraeth o ran sicrhau bod diogelwch pobl leol a'u heiddo yn parhau i fod yn hollbwysig pan fydd awdurdodau tân yn gwneud y mathau hyn o newidiadau?

Senedd.tv Fideo Video

14:30 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

First of all, we expect fire and rescue authorities, of course, to have plans in place to ensure people's safety. Where there is a suggestion that that safety is being compromised, the Minister would of course look at the scenario in order to see whether that is, in fact, the case.

Yn gyntaf oll, rydym ni'n disgwyl i awdurdodau tân ac achub, wrth gwrs, fod â chynlluniau ar waith i sicrhau diogelwch pobl. Pan geir awgrym bod diogelwch yn cael ei beryglu, byddai'r Gweinidog, wrth gwrs, yn edrych ar y sefyllfa er mwyn gweld ai dyna'r achos mewn gwirionedd.

Senedd.tv Fideo Video

## Digwyddiadau Mawr

## Major Events

14:30 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

*9. Pa adroddiadau ar ddeilliannau y mae'r Prif Weinidog yn eu cael er mwyn asesu'r gwaith o lwyfannu digwyddiadau mawr sy'n cael arian cyhoeddus yng Nghymru? OAQ(4)1403(FM)*

*9. What outcome reports does the First Minister receive in order to assess the staging of publicly-funded major events in Wales? OAQ(4)1403(FM)*

Senedd.tv Fideo Video

14:30 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Mae gofyn bod pob digwyddiad sy'n derbyn cyllid grant o dan ein strategaeth digwyddiadau mawr yn cyflwyno adroddiadau ar ôl y digwyddiad yn nodi cynnydd yn erbyn y targedau y cytunwyd arnynt.

All events receiving grant funding under our major events strategy are required to submit post-event reports detailing progress against agreed targets.

Senedd.tv Fideo Video

14:30 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Diolch am hynny. Yr oedd Rali Cymru yn ddiweddar yn llwyddiant mawr, ond rwyf wedi derbyn llythyr ynglŷn â mynediad i'r anabl. A oedd unrhyw amodau ar y grant yn cael ei roi i'r sefydliad a oedd yn trefnu'r digwyddiad arbennig hwn? Mae'r person sydd wedi ysgrifennu ataf yn dweud nad oedd unrhyw gyfleusterau ar gyfer yr anabl yng nghastell y Waun nac ar lannau Dyfrdwy, a'i fod wedi teimlo'n waeth nag y mae wedi teimlo, fel person anabl, ers rhyw dair neu bum mlynedd.

Thank you for that. The Wales Rally recently was a great success, but I have received a letter about access for disabled people. Were there any conditions on the grant given to the body organising this event? The individual who has written to me says in his letter that no facilities were available for disabled people in Chirk castle or on Deeside, and that he felt worse than he has felt as a disabled person for some three to five years.

Senedd.tv Fideo Video

14:31 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Yn gyffredinol, wrth gwrs, byddwn i'n erfyn i unrhyw gorff sy'n trefnu digwyddiad fel hwn i sicrhau bod mynediad ar gael i bobl anabl. O ran y cwestiwn am ba un a oedd hyn yn un o delerau'r cytundeb ei hun, bydd yn rhaid i mi ysgrifennu at yr Aelod er mwyn ateb y cwestiwn hwnnw'n fanwl.

Generally, of course, I would expect any body that organises such an event to ensure access for disabled people. On the question of whether this was one of contract conditions, I will have to write to the Member in order to provide a detailed response.

14:31 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Many world leaders are set to meet in Newport in September of next year, when the NATO summit takes place. What lessons has the First Minister and his Government learned from the legacy of the Ryder Cup, and how can these be put into practice?

Bydd llawer o arweinwyr y byd yn cyfarfod yng Nghasnewydd ym mis Medi y flwyddyn nesaf, pan gynhelir uwchgynhadledd NATO. Pa wersi mae'r Prif Weinidog a'i Lywodraeth wedi eu dysgu o etifeddiaeth Cwpan Ryder, a sut y gellir rhoi'r rhain ar waith?

14:31 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

The NATO summit, of course, is not something that the Welsh Government is involved with in terms of organising. The Prime Minister has indicated, and we are grateful for this, that we will be able to arrange a welcome event—be it a reception—around the summit itself. However, the organisational details are very much a matter for the UK Government, as the body responsible.

Nid yw uwchgynhadledd NATO, wrth gwrs, yn rhywbeth y mae Llywodraeth Cymru yn ymwneud â hi o ran trefnu. Mae'r Prif Weinidog wedi nodi, ac rydym ni'n ddiolchgar am hyn, y byddwn yn cael trefnu digwyddiad croesawu—boed hwnnw'n dderbyniad— o gwmpas yr uwchgynhadledd ei hun. Fodd bynnag, mae'r manylion trefnu yn sicr yn fater i Lywodraeth y DU, fel y corff cyfrifol.

However, that said, we are of course fortunate to have the Celtic Manor, which successfully hosted the Ryder Cup, despite the weather, as we know, on one day in particular. We are fortunate that we are seen as having a venue that is able to host one of the world's biggest summits. That is something that we very much welcome, as a way to put Wales on the map, and, particularly, to showcase Wales among NATO leaders.

Fodd bynnag, wedi dweud hynny, rydym ni wrth gwrs yn ffodus o fod â'r Celtic Manor, a gynhaliodd Cwpan Ryder yn llwyddiannus, er gwaethaf y tywydd, fel y gwyddom, ar un diwrnod yn arbennig. Rydym yn ffodus yr ystyrir bod gennym leoliad sy'n gallu cynnal un o uwchgynadleddau mwyaf y byd. Mae hynny'n rhywbeth yr ydym ni'n ei groesawu'n fawr, fel ffordd o roi Cymru ar y map, ac, yn arbennig, i arddangos Cymru ymhlith arweinwyr NATO.

14:32 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mae denu digwyddiadau mawr ym myd chwaraeon—yn enwedig mewn rhai campau, wrth gwrs—yn dibynnu ar gael stadia addas. Mae gogledd Cymru yn ddiweddar wedi bod yn rhan o gynnal cwpan rygbi'r gynghrair y byd, wrth gwrs. Pa asesiad y mae'r Llywodraeth wedi ei wneud o stadia chwaraeon yn y gogledd, ac o'r potensial sy'n bodoli i fuddsoddi—nid yn uniongyrchol, o reidrwydd, o gyfeiriad y Llywodraeth—er mwyn adeiladu ar y seilwaith hwnnw, fel y gallwn ddenu mwy o ddigwyddiadau i'r gogledd?

Attracting major sporting events, particularly in the case of some sports, depends upon having appropriate stadia. North Wales recently played a part in the staging of the rugby league world cup, of course. What assessment has the Government made of sport stadia in north Wales and of the potential to invest—not perhaps directly from Government—in order to develop the infrastructure so that we can attract more major events to north Wales?

14:33 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Rydym wedi ystyried hyn. Ar hyn o bryd, fwy neu lai, mae dau stadiwm, sef Parc Eirias a'r Cae Ras. Y broblem gyda'r Cae Ras, wrth gwrs, yw bod cymaint o derasau yno, sy'n golygu nad yw rhai chwaraeon yn derbyn y ffaith eu bod yn mynd i rywle nad yw'n stadiwm seddi llwyr. Felly, mae hynny'n broblem o ran rygbi'r undeb, ond nid yw'n broblem o ran rygbi'r gynghrair. Mae llawer o arian wedi cael ei fuddsoddi ym Mharc Eirias o ran yr adnoddau, o ran y cae ei hun, ac o ran y stadiwm. Parc Eirias yw cartref tîm o dan 20 Cymru, sy'n chwarae yno'n rheolaidd yn awr. Rydym wedi bod yn ei ystyried sut y gallwn godi'r safon—er enghraifft, o ran seddau rhai o stadia'r gogledd—a bydd hyn yn rhywbeth y byddwn yn ei ystyried yn y dyfodol hefyd.

We have considered this, because, at present, there are two stadia, namely Parc Eirias and the Racecourse. The problem with the Racecourse, of course, is the fact that it has so many terraces, and many sport governing bodies are not prepared to use a venue that is not an all-seater stadium. That is an issue in the case of rugby union, but not in the case of rugby league. Large amounts of money have been invested in Parc Eirias in terms of its facilities, pitch and stadium, and it is now home to the Wales under-20 team, which plays there regularly. We have been considering how we can improve standards—of the seats in some of the north Wales stadia, for example—and this is something that we will be considering in the future.

14:34 **Datganiad a Chyhoeddiad Busnes** / **Business Statement and Announcement**

Senedd.tv Fideo Video

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Local Government and Government Business*

I have one change to report to this week's business. Later today, the Minister for Natural Resources and Food will make an oral statement on the recent flooding in north Wales. Business for the next three weeks is as shown on the business statement and announcement that can be found among the agenda papers, which are available to Members electronically.

Mae gennyf ddau newid i'w hadrodd i fusnes yr wythnos hon. Yn ddiweddarach heddiw, bydd y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd yn gwneud datganiad llafar ar y llifogydd diweddar yng ngogledd Cymru. Mae'r busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf fel y'i dangosir yn y datganiad a chyhoeddiad busnes, sydd i'w weld ymhlith papurau'r agenda sydd ar gael i'r Aelodau'n electronig.

14:34

## Mark Isherwood Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I wish to call for a single statement, on tourism in north Wales. I have received reference to a report from a tourism business leader in north Wales. The report is entitled 'Measuring Tourism Demand at Local Authority Level in Wales: Official Statistics and STEAM', which refers to indicative changes in the 2013-14 standard spending assessment. It suggests that Flintshire would lose £358,000, and north Wales millions in support, with the money going to south Wales authorities, despite the most economically deprived parts of Wales—west Wales and the Valleys, including four of north Wales's six counties—and despite almost one fifth of the population of Wales living within the most deprived wards in Wales being located in north Wales.

Hoffwn alw am ddatganiad unigol, ar dwristiaeth yn y gogledd. Rwyf wedi derbyn cyfeiriad at adroddiad gan arweinydd busnes twristiaeth yn y gogledd. 'Measuring Tourism Demand at Local Authority Level in Wales: Official Statistics and STEAM' yw teitl yr adroddiad, sy'n cyfeirio at newidiadau dangosol yn asesiad 2013-14 o wariant safonol. Mae'n awgrymu y byddai Sir y Fflint yn colli £358,000, a gogledd Cymru yn colli miliynau mewn cymorth, gyda'r arian yn mynd i awdurdodau yn ne Cymru, er gwaethaf y ffaith fod y rhannau mwyaf difreintiedig o Gymru yn economaidd —gorllewin Cymru a'r cymoedd, gan gynnwys pedair o chwe sir gogledd Cymru—ac er gwaethaf y ffaith fod bron i un rhan o bump o boblogaeth Cymru sy'n byw yn y wardiau mwyaf difreintiedig yng Nghymru wedi eu lleoli yn y gogledd.

14:35

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

There is a great deal of work going on around tourism right across Wales, not just in north Wales. Visit Wales has relaunched its travel trade approach, which focuses largely on international markets, and it continues to work very closely with Visit Britain internationally. There is a programme of PR and campaign activity, which I am sure will benefit north Wales.

Mae llawer iawn o waith yn cael ei wneud o ran twristiaeth ledled Cymru gyfan, nid yn unig yn y gogledd. Mae Croeso Cymru wedi ail-lansio ei ddull diwydiant deithio, sy'n canolbwyntio i raddau helaeth ar farchnadoedd rhyngwladol, ac mae'n parhau i weithio'n agos iawn gyda Visit Britain yn rhyngwladol. Ceir rhaglen o weithgareddau cysylltiadau cyhoeddus ac ymgyrchu, yr wyf yn siŵr y byddant o fudd i ogledd Cymru.

14:35

## Julie Morgan Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will the Minister arrange for the Minister for Culture and Sport to make a statement about Wales's success at cycling? In particular, my constituent, Owain Doull from Llanishen—an ex-Glantaf pupil—won gold in the scratch race at the UCI Track Cycling World Cup in Mexico over the weekend.

A wnaiff y Gweinidog drefnu i'r Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon wneud datganiad am lwyddiant beicio Cymru? Yn benodol, enillodd fy etholwr, Owain Doull o Lanisien—cyn-ddisgybl Glantaf—y fedal aur yn y ras heb handicap yng Nghwpan Beicio Trac y Byd yr UCI ym Mecsico dros y penwythnos.

14:36

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Welsh Government fully supports the development of cycling for sport, recreation and travel. I know that the Minister for Culture and Sport is particularly keen on cycling. Last night, both he and I attended the BBC Cymru Wales Sports Personality awards, where volunteers were also recognised. I know that they play a huge role in helping with pathways for instance for elite cyclists.

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi datblygu beicio ar gyfer chwaraeon, hamdden a theithio yn llawn. Gwn fod y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon yn arbennig o hoff o feicio. Neithiwr, roedd ef a minnau yn bresennol yng ngwobrau Personoliaeth Chwaraeon BBC Cymru Wales, lle cydnabuwyd gwirfoddolwyr hefyd. Rwy'n gwybod eu bod yn chwarae rhan enfawr o ran helpu gyda llwybrau ar gyfer beicwyr elitaidd, er enghraifft.

I congratulate Owain Doull on winning gold as part of the world cup event in Mexico. It was certainly a tremendous performance, and I am sure that there is much more success to come for him. Also recognised on last night's shortlist were Becky James, and Darren Tudor, the head coach of cycling.

Rwy'n llongyfarch Owain Doull ar ennill y fedal aur yn rhan o'r digwyddiad cwpan y byd ym Mecsico. Roedd yn sicr yn berfformiad ardderchog, ac rwy'n siŵr bod llawer mwy o lwyddiant i ddod iddo. Cydnabuwyd Becky James, a Darren Tudor, y prif hyfforddwr beicio, ar restr fer neithiwr hefyd.

14:36

## Elin Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Weinidog, clywodd pobl Aberteifi ddoe fod Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda yn cau gwelyau yn barhaol yn ysbyty Aberteifi. Nid oedd hyn yn rhan o'r ymgynghoriad diweddar ar ailgyflunio gwasanaethau gan y bwrdd iechyd. Bydd y penderfyniad yn cael ei wireddu i bob pwrpas dros nos a heb ymgynghoriad. A wnewch chi ofyn i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am ddatganiad a fydd yn amlinellu canllawiau Llywodraeth Cymru ar newidiadau yn yr NHS sydd yn cael eu cyflawni heb unrhyw ymgynghoriad gyda'r gymuned lleol? Yn fy marn i, mae hyn yn gwbl annerbyniol, am na fydd hyd yn oed ymgynghoriad gyda chynghorau sir lleol a fydd yn awr o dan bwysau o ran darpariaeth yn y gymuned ac mewn cartrefi gofal. Felly, rwy'n gofyn am ddatganiad o'r math hwn.

Minister, the people of Cardigan yesterday heard that the Hywel Dda Local Health Board intends to permanently close beds in Cardigan hospital. This was not part of the recent consultation on the reconfiguration of services by the health board. This decision will come into force, to all intents and purposes, overnight and without consultation. Will you ask the Minister for Health and Social Services for a statement outlining Welsh Government guidelines on changes to the NHS that are pushed through without any consultation with the local community? In my opinion, this is totally unacceptable, as there will be no consultation with even the local authorities concerned, despite the fact that they will come under pressure in terms of community provision and provision in care homes. Therefore, I am asking for a statement of that kind.

14:37

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

This is a local issue that is being taken forward by Hywel Dda Local Health Board as part of its responsibility to manage services that are safe and sustainable in its area. My understanding is that no beds will be lost in the county and that only three of the 12 beds being discussed are currently occupied. I know that the health board is also making the commitment that beds will be provided as part of the new Cardigan development project.

Mae hwn yn fater lleol y mae Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda yn bwrw ymlaen ag ef yn rhan o'i gyfrifoldeb i reoli gwasanaethau sy'n ddiogel ac yn gynaliadwy yn ei ardal. Fy nealltwriaeth i yw na fydd unrhyw welyau yn cael eu colli yn y sir ac mai dim ond tri o'r 12 gwely sy'n cael eu trafod, sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd. Gwn fod y bwrdd iechyd hefyd yn gwneud yr ymrwymiad y bydd gwelyau'n cael eu darparu yn rhan o brosiect datblygu newydd Aberteifi.

14:38

## Eluned Parrott Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, both the First Minister and the Minister for economy have said that the Cardiff Airport master plan is not being developed by Welsh Government at present, but independently by the airport itself. I wonder whether we could have a statement on the progress of this plan. Given that the airport was purchased with public money, it is right that this should be open to public scrutiny, particularly as there is currently a live local development plan consultation on the table in the Vale of Glamorgan, which relies on this master plan.

Weinidog, mae'r Prif Weinidog a Gweinidog yr economi wedi dweud nad yw cynllun meistr Maes Awyr Caerdydd yn cael ei ddatblygu gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd, ond yn annibynnol gan y maes awyr ei hun. Tybed a allem ni gael datganiad ar gynnydd y cynllun hwn. O gofio y prynwyd y maes awyr gydag arian cyhoeddus, mae'n iawn y dylai hyn fod yn agored i graffu cyhoeddus, yn enwedig gan fod ymgynghoriad ar y cynllun datblygu lleol ar waith ym Mro Morgannwg ar hyn o bryd, sy'n dibynnu ar y cynllun meistr hwn.

14:39

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It is obviously early days, and I am sure that, at the most appropriate time, the Minister for Economy, Science and Transport will come forward with a statement.

Mae'n amlwg yn ddyddiau cynnar, ac rwy'n siŵr y bydd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn cyflwyno datganiad ar yr adeg fwyaf priodol.

14:39 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Leader of the house, may we have two statements, the first from the Minister for health in relation to the prevention and treatment of lung cancer in Wales? Across the UK, there have been huge strides in the treatment of prostate, breast and bowel cancer, reducing mortality rates by 50%. Regrettably, across the UK, the incidence of lung cancer, and especially the mortality rate, have sadly proved stubbornly high. There is a whole approach, I believe, that needs to be addressed on this: prevention and public health messaging, and, when people are diagnosed, the treatment paths that they would undertake to give them the best prognosis possible. Would it be possible to have a statement from the Minister for Health and Social Services to outline what measures could be taken here in Wales to try to lower those mortality rates, as that would be very helpful?

Arweinydd y tŷ, a gawn ni ddau ddatganiad, y cyntaf gan y Gweinidog iechyd ar atal a thrin canser yr ysgyfaint yng Nghymru? Cymerwyd camau enfawr o ran y driniaeth o ganser y brostad, y fron a'r coluddyn ledled y DU, gan leihau cyfraddau marwolaethau o 50%. Yn anffodus, ledled y DU, mae nifer yr achosion o ganser yr ysgyfaint, ac yn enwedig y gyfradd marwolaethau, wedi bod yn ystyfnig o uchel yn anffodus. Ceir dull cyfannol, rwy'n credu, y mae angen mynd i'r afael ag ef yn hyn o beth: atal a negeseuon iechyd y cyhoedd, a, phan fydd pobl yn cael diagnosis, y llwybrau triniaeth y byddent yn eu dilyn i roi'r prognosis gorau posibl iddynt. A fyddai'n bosibl cael datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i amlinellu pa fesurau y gellid eu cymryd yma yng Nghymru i geisio gostwng y cyfraddau marwolaeth hynny, gan y byddai hynny'n ddefnyddiol iawn?

Secondly, yesterday, in the First Minister's press conference, he touched upon the book value of Cardiff Airport rising by some £3 million in eight months. I am sure that the Welsh taxpayer is over the moon about that, but could we have a statement from the First Minister regarding how he has magically put £3 million on the balance sheet of Cardiff Airport in a month when the Scottish Government has just bought Glasgow Prestwick Airport—which is considerably larger in size—for £1 from its owners?

Yn ail, ddoe, yng nghynhadledd i'r wasg y Prif Weinidog, soniodd am y ffaith fod gwerth ar bapur Maes Awyr Caerdydd wedi codi o tua £3 miliwn mewn wyth mis. Rwy'n siŵr bod y trethdalwr yng Nghymru wrth ei fodd am hynny, ond a allem ni gael datganiad gan y Prif Weinidog ar sut y mae wedi ychwanegu £3 miliwn, trwy ryw hud a lledrith, at fantolen Maes Awyr Caerdydd mewn mis pan mae Llywodraeth yr Alban newydd brynu Maes Awyr Glasgow Prestwick—sydd gryn dipyn yn fwy o ran maint—am £1 gan ei berchnogion?

14:40 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

In relation to lung cancer, sadly it is a very common form of the disease. However, the treatment of lung cancer is being addressed by health boards though their delivery plans and through their pathways. You will have heard my previous answer regarding Cardiff Airport. I know that the First Minister and the Minister for Economy, Science and Transport are very pleased with the progress and they are watching it closely.

O ran canser yr ysgyfaint, mae'n fath cyffredin iawn o'r clefyd yn anffodus. Fodd bynnag, mae byrddau iechyd yn mynd i'r afael â'r driniaeth o ganser yr ysgyfaint trwy eu cynlluniau cyflawni a thrwy eu llwybrau. Byddwch wedi clywed fy ateb blaenorol ynghylch Maes Awyr Caerdydd. Gwn fod y Prif Weinidog a Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn falch iawn gyda'r cynnydd ac maen nhw'n ei wylio'n ofalus.

14:41 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I would welcome a statement from the Minister for Health and Social Services to provide an update on action being taken to improve the lives of people living with arthritis and chronic pain in Wales. In particular, I would like an update on the delivery of the commissioning directives for arthritis and chronic musculoskeletal conditions and the chronic non-malignant pain documents. I would be keen to learn whether there are any plans to translate those documents into delivery plans along the lines of those that have been successfully delivered for other conditions.

Byddwn yn croesawu datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y camau sy'n cael eu cymryd i wella bywydau pobl sy'n byw gydag arthritis a phoen cronig yng Nghymru. Yn arbennig, hoffwn gael y wybodaeth ddiweddaraf am ddarpariaeth y cyfarwyddebau comisiynu ar gyfer arthritis a chyflyrau cyhyrysgerbydol cronig a'r dogfennau poen anfalaen cronig. Rwyf yn awyddus i gael gwybod a oes unrhyw gynlluniau i droi'r dogfennau hynny yn gynlluniau cyflawni, yn debyg i'r rhai sydd wedi eu cyflwyno'n llwyddiannus ar gyfer cyflyrau eraill.

14:41 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The delivery of pain services is obviously the responsibility of the local health boards across Wales, but guidance is provided in relation to the directives that you referred to. If you would like to write to the Minister for Health and Social Services with any views on the service-commissioning directives or any other pain services, that information could certainly help the ongoing discussions on the next steps that the Minister will take in relation to pain services and also the policy development.

Yn amlwg, cyfrifoldeb y byrddau iechyd lleol ledled Cymru yw darparu gwasanaethau poen, ond darperir canllawiau o ran y cyfarwyddebau y cyfeiriasoch atynt. Os hoffech chi ysgrifennu at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gydag unrhyw sylwadau ar y cyfarwyddebau comisiynu gwasanaethau neu unrhyw wasanaethau poen eraill, mae'n sicr y gallai'r wybodaeth honno helpu'r trafodaethau parhaus ar y camau nesaf y bydd y Gweinidog yn eu cymryd o ran gwasanaethau poen a datblygiad y polisi hefyd.

14:42

## Antoinette Sandbach Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Leader of the house, recently, a report has been released on the effectiveness of the rail network in Britain, and it has revealed that Wales is lagging behind the rest of the UK, particularly in terms of accessibility. It states that Wales ranks in the bottom percentile for network accessibility and there does not seem to be a clear and deliverable plan to improve services in that respect. Could we have a statement from the Minister for transport, because accessibility is key to improving rail use, which, in turn, may well have impacts on the roads and, of course, is carbon friendly and therefore will help to achieve targets in that respect as well? Can we also look at rural areas and, in particular, network services going into the rural areas, which Dafydd Elis-Thomas raised earlier during questions to the First Minister?

Arweinydd y tŷ, cyhoeddwyd adroddiad yn ddiweddar ar effeithiolrwydd y rhwydwaith rheilffyrdd ym Mhrydain, ac mae wedi datgelu bod Cymru yn llusgo ar ôl gweddill y DU, yn enwedig o ran hygyrchedd. Mae'n datgan bod Cymru yn y canradd isaf ar gyfer hygyrchedd rhwydwaith ac nid yw'n ymddangos bod cynllun eglur a chyraeddadwy ar gael i wella gwasanaethau yn hynny o beth. A allem ni gael datganiad gan y Gweinidog trafnidiaeth, gan fod hygyrchedd yn allweddol i gynyddu'r defnydd o reilffyrdd, a allai, yn ei dro, gael effaith ar y ffyrdd ac, wrth gwrs, sy'n opsiwn carbon isel ac felly'n helpu i gyrraedd targedau yn hynny o beth hefyd? A gawn ni edrych hefyd ar ardaloedd gwledig ac, yn benodol, gwasanaethau rhwydwaith yn mynd i mewn i'r ardaloedd gwledig, a godwyd gan Dafydd Elis-Thomas yn gynharach yn ystod y cwestiynau i'r Prif Weinidog?

14:43

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Minister for Economy, Science and Transport will update us early in the next term, but she is doing a great deal of work on rail infrastructure, which obviously is very important. I chair a ministerial advisory group for the Minister in north Wales. We had a meeting last week, at which it was widely recognised that a great deal of the infrastructure is not devolved, so I suggest that you also lobby your own Government in Westminster.

Bydd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni ddechrau'r tymor nesaf, ond mae hi'n gwneud llawer iawn o waith ar y seilwaith rheilffyrdd, sy'n amlwg yn bwysig iawn. Rwyf fi'n cadeirio grŵp cynghori ar ran y Gweinidog yng ngogledd Cymru. Cawsom gyfarfod yr wythnos diwethaf, pryd y cydnabuwyd yn eang nad yw llawer iawn o'r seilwaith wedi ei ddatganoli, felly rwy'n awgrymu eich bod yn lobïo eich Llywodraeth eich hun yn San Steffan hefyd.

14:43

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister.

Diolch i chi, Weinidog.

14:43

# Datganiad: Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr 2012

# Statement: Programme for International Student Assessment 2012

Senedd.tv Fideo Video

## Huw Lewis Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Addysg a Sgiliau / The Minister for Education and Skills*

We have had a week since the publication of the Programme for International Student Assessment 2012 results to take stock. As I said at the time, the results were not good enough. I asked last week for everyone in and around the educational sector to take a long, hard look in the mirror. I am clear that all of us involved in education need to take collective responsibility for the results and, more importantly, for how we improve.

Rydym wedi cael wythnos ers cyhoeddi canlyniadau'r Rhaglen ar gyfer Asesu Myfyrwyr Rhyngwladol 2012 i bwyso a mesur. Fel y dywedais ar y pryd, nid oedd y canlyniadau yn ddigon da. Gofynnais yr wythnos diwethaf i bawb yn y sector addysg ac o'i gwmpas i edrych yn hir ac yn galed arnynt hwy eu hunain. Rwy'n glir bod angen i bob un ohonom sy'n ymwneud ag addysg gymryd cyfrifoldeb ar y cyd am y canlyniadau ac, yn bwysicach, am sut yr ydym yn mynd i wella.

There has been plenty of criticism in the press, and rightly so. However, there has been a mature acceptance that we are too early into our school improvement journey to expect to see a step change in performance in this last round of PISA assessment. Indeed, Robert Hill, commenting on the PISA results, said that the PISA results show how far the Welsh education system still has to travel; that the results set the bar to which all those involved in education—pupils, parents, teachers, governors, councillors, employers and government—must aspire, but that the results should not trigger a fresh bout of soul searching.

Bu digon o feirniadaeth yn y wasg, a hynny'n ddigon teg. Fodd bynnag, bu derbyniad aeddfed ein bod yn rhy gynnar i mewn i'n taith o wella ysgolion i ddisgwyl gweld newid sylweddol mewn perfformiad yn y rownd ddiwethaf o asesiadau PISA. Yn wir, dywedodd Robert Hill, wrth roi sylwadau ar y canlyniadau PISA, fod y canlyniadau PISA yn dangos pa mor bell sydd gan y system addysg yng Nghymru i deithio o hyd; bod y canlyniadau yn gosod y bar y mae'n rhaid i bawb sy'n ymwneud ag addysg—disgyblion, rhieni, athrawon, llywodraethwyr, cynghorwyr, cyflogwyr a'r llywodraeth—fod â'r nod o'i gyrraedd, ond na ddylai'r canlyniadau sbarduno pwl newydd o hunanholi.

Much has been made about PISA not being the only measure of an education system—I agree with that—but the reason why this Government sets so much store by PISA is that it assesses learners' ability to tackle real-life situations. It is not a test of the curriculum. As young people do not spend their whole life in school, I want them to have the skills to find solutions to everyday problems. These are the skills that engineers, carpenters, electricians, and architects, to name but a few, would need if they are to succeed in their jobs. Young people must have these skills so that they are prepared for challenges and obstacles that they will face later in life.

Mae llawer wedi cael ei ddweud ynglŷn â'r ffaith nad PISA yw'r unig fesur o system addysg—rwy'n cytuno â hynny—ond y rheswm pam mae'r Llywodraeth hon yn rhoi cymaint o werth ar PISA yw ei fod yn asesu gallu dysgwyr i fynd i'r afael â sefyllfaoedd gwirioneddol bywyd. Nid yw'n brawf o'r cwricwlwm. Gan nad yw pobl ifanc yn treulio eu bywyd cyfan yn yr ysgol, rwyf eisiau iddynt gael y sgiliau i ddod o hyd i atebion i broblemau bob dydd. Dyma'r sgiliau y byddai peirianwyr, seiri, trydanwyr, a phenseiri, i enwi ond ychydig, eu hangen os ydynt i lwyddo yn eu swyddi. Rhaid i bobl ifanc gael y sgiliau hyn fel eu bod yn cael eu paratoi ar gyfer yr heriau a'r rhwystrau y byddant yn eu hwynebu'n ddiweddarach mewn bywyd.

Since the publication of the results, we have been analysing the data. One further area gives me grave concern. The student and teacher questionnaires indicate a belief by both teachers and pupils that pupils are performing better than the results show. It makes me ask what teachers are telling their learners. There seems to be too much self-congratulation in the system. Teachers have a dual role. As well as supporting their learners, they should be challenging them to constantly do better. Learners need to be stretched, teachers need to be demanding, and parents need to question how their school is delivering for their children. Our expectations should be set much, much higher.

Ers cyhoeddi'r canlyniadau, rydym wedi bod yn dadansoddi'r data. Mae un maes arall yn peri pryder mawr i mi. Mae'r holiaduron myfyrwyr ac athrawon yn nodi cred gan athrawon a disgyblion bod disgyblion yn perfformio'n well nag y mae'r canlyniadau yn ei ddangos. Mae'n gwneud i mi ofyn beth y mae athrawon yn ei ddweud wrth eu dysgwyr. Mae'n ymddangos bod gormod o hunan-longyfarch yn y system. Mae gan athrawon swyddogaeth ddeuol. Yn ogystal â chefnogi eu dysgwyr, dylent fod yn eu herio i wneud yn well yn gyson. Mae angen i ddysgwyr gael eu hymestyn, mae angen i athrawon ofyn llawer ohonynt, ac mae angen i rieni holi sut mae eu hysgol yn cyflawni ar gyfer eu plant. Dylai ein disgwyliadau gael eu gosod yn llawer, llawer uwch.

The PISA data also indicate that we perform much worse in certain mathematical content. This information chimes with the findings of the review of qualifications and its recommendation that we develop two new GCSEs for mathematics and numeracy. We are currently in the process of developing them. One of the GCSEs will assess, more thoroughly, the numerical and practical mathematical skills that translate into everyday situations. The other will extend to other aspects of mathematics, including those needed for progression to scientific, technical or further mathematical study. Most learners will take both mathematics GCSEs, and we believe that this is a proper reflection of the importance of the subject. The PISA results confirm that this is the right direction for our qualifications to take. They will be taught from September 2015.

Mae'r data PISA hefyd yn dangos ein bod yn perfformio'n llawer gwaeth mewn cynnwys mathemategol penodol. Mae'r wybodaeth hon yn cyd-fynd â chanfyddiadau'r adolygiad o gymwysterau a'i argymhelliad ein bod yn datblygu dau TGAU newydd ar gyfer mathemateg a rhifedd. Rydym ar hyn o bryd yn y broses o'u datblygu. Bydd un o'r TGAU yn asesu, yn fwy trylwyr, y sgiliau mathemategol a rhifiadol ymarferol sy'n trosi i mewn i sefyllfaoedd bob dydd. Bydd y llall yn ymestyn i agweddau eraill ar fathemateg, gan gynnwys y rhai y mae eu hangen ar gyfer symud ymlaen i astudiaethau gwyddonol, technegol, neu fathemategol pellach. Bydd y rhan fwyaf o ddysgwyr yn cymryd y ddau TGAU mathemateg, ac rydym ni'n credu bod hyn yn adlewyrchiad cywir o bwysigrwydd y pwnc. Mae'r canlyniadau PISA yn cadarnhau mai dyma'r cyfeiriad cywir i'n cymwysterau ei gymryd. Byddant yn cael eu haddysgu o fis Medi 2015 ymlaen.

The PISA 2012 analysis also provides us with a rich source of data that will be used to feed into the ongoing review of curriculum and assessment. We are all aware how important a high-class education system is to a prosperous economy. Proficient literacy and numeracy skills are what employers look for in their workforce. I cannot over-stress my commitment to improving the standards of literacy and numeracy of pupils in Wales. The Welsh Government's national programmes for literacy and numeracy, published last year, demonstrate the strength of that commitment.

Mae'r dadansoddiad PISA 2012 hefyd yn rhoi ffynhonnell gyfoethog o ddata i ni a fydd yn cael ei defnyddio i fwydo i mewn i'r adolygiad parhaus o gwricwlwm ac asesiad. Rydym i gyd yn ymwybodol pa mor bwysig yw system addysg o safon uchel i economi ffyniannus. Sgiliau llythrennedd a rhifedd hyfedr yw'r hyn y mae cyflogwyr yn chwilio amdanynt yn eu gweithlu. Nid wyf yn gallu gor-bwysleisio fy ymrwymiad i wella safonau llythrennedd a rhifedd disgyblion yng Nghymru. Mae rhaglenni cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer llythrennedd a rhifedd, a gyhoeddwyd y llynedd, yn dangos cryfder yr ymrwymiad hwnnw.

Education in Wales is undergoing ambitious reform unlike like anything this country has seen before. The policies implemented on the back of the 2009 results have not had time to feed in to the system and make a positive impact on tests such as PISA. I firmly believe that the changes that we have implemented will produce a system that delivers for our young people, and we will not be changing course.

Mae addysg yng Nghymru yn cael ei diwygio'n uchelgeisiol mewn modd gwahanol i unrhyw beth y mae'r wlad hon wedi ei weld o'r blaen. Nid yw'r polisïau a weithredwyd yn sgil canlyniadau 2009 wedi cael amser i fwydo i mewn i'r system a chael effaith gadarnhaol ar brofion megis PISA. Credaf yn gryf y bydd y newidiadau yr ydym wedi'u gweithredu yn cynhyrchu system sy'n cyflawni ar gyfer ein pobl ifanc, ac ni fyddwn yn newid cyfeiriad.

Those countries that did well in PISA 2012 have a culture of valuing education. They understand its importance to the individual, the community and the economy. Parents take pride in children's academic achievement. We need to develop the same value and pride in Wales. PISA has shown us that we have a problem and that we need to take charge of it.

Mae gan y gwledydd hynny a wnaeth yn dda yn PISA 2012 ddiwylliant o werthfawrogi addysg. Maent yn deall ei phwysigrwydd i'r unigolyn, y gymuned a'r economi. Mae rhieni yn ymfalchïo yng nghyflawniad academaidd plant. Mae angen i ni ddatblygu'r un gwerth a balchder yng Nghymru. Mae PISA wedi dangos i ni fod gennym broblem, a bod angen i ni gymryd cyfrifoldeb drosti.

As a Welsh Government, we need to work with the teaching profession to turn this around. I am very keen to work with the profession so that we do the very best for our learners. Work is ongoing and I will be saying more in the new year on how we support and challenge the teaching profession, so that it, in turn, can support and challenge its learners.

Fel Llywodraeth Cymru, mae angen i ni weithio gyda'r proffesiwn addysgu i wrthdroi hyn. Rwy'n awyddus iawn i weithio gyda'r proffesiwn fel ein bod yn gwneud ein gorau glas ar gyfer ein dysgwyr. Mae gwaith yn mynd rhagddo, a byddaf yn dweud mwy yn y flwyddyn newydd ar sut yr ydym yn cefnogi ac yn herio'r proffesiwn addysgu, fel ei fod yntau, yn ei dro, yn gallu cefnogi a herio ei ddysgwyr.

14:49

## Angela Burns Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, thank you for your statement. I do not intend to rehearse the dreadful PISA results that we received last week. What I would say is that I believe that our national soul is searched and what we need is imagination, creativity and determination to find a comprehensive solution. Contrary to the tiny bit of mischief-making by the ex-Minister last week, this member of the opposition is not seeking one particular silver bullet; I believe that we need that comprehensive package. That is my concern from listening to your statement.

Weinidog, diolch i chi am eich datganiad. Nid wyf yn bwriadu ailadrodd y canlyniadau PISA ofnadwy a gawsom yr wythnos diwethaf. Yr hyn y byddwn i'n ei ddweud yw fy mod yn credu bod hunanholi ein henaid cenedlaethol yn digwydd a'r hyn yr ydym ei angen yw dychymyg, creadigrwydd a phenderfyniad i ddod o hyd i ateb cynhwysfawr. Yn groes i'r rhywfaint bach o greu helynt gan y cyn-Weinidog yr wythnos diwethaf, nid yw'r aelod hwn o'r wrthblaid yn chwilio am un bwled arian penodol; rwy'n credu ein bod angen y pecyn cynhwysfawr. Dyna fy mhryder o wrando ar eich datganiad.

I want to ask you five specific questions. The first bounces slightly off Aled Roberts's comment on the urgent question last week, which was about structures. I know of teachers who are being identified as team leaders to go out there to try to make changes who come from schools with less than great Estyn inspection results, or from schools that are in lower banding groups. How confident are you that the structures will be in place to deliver this step change that you talk about, that we have got the right people in the right place doing it, and that you are able to check if local government is choosing the right people to carry this through and to move best practice throughout our schools?

Rwyf am ofyn pum cwestiwn penodol i chi. Mae'r cyntaf yn adlamu ychydig oddi ar sylw Aled Roberts ar y cwestiwn brys yr wythnos diwethaf, a oedd yn ymwneud â strwythurau. Gwn am athrawon sy'n dod o ysgolion sydd â chanlyniadau arolwg Estyn nad ydynt yn wych, neu o ysgolion sydd mewn grwpiau bandio is sy'n cael eu nodi fel arweinwyr tîm i fynd allan i geisio gwneud newidiadau. Pa mor hyderus ydych chi y bydd y strwythurau ar waith i gyflawni'r newid sylfaenol hwn yr ydych yn siarad amdano, bod gennym y bobl iawn yn y lle iawn yn gwneud hynny, a'ch bod yn gallu gwirio pa un a yw llywodraeth leol yn dewis y bobl gywir i gyflawni hyn ac i symud arfer gorau ledled ein hysgolion?

My second question revolves around individual education plans.

Mae fy ail gwestiwn yn ymwneud â chynlluniau addysg unigol.

14:50

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think that this is your fifth question now. 'Second topic' is probably better than 'question'.

Rwy'n credu mai dyma eich pumed cwestiwn yn awr. Mae 'ail destun', mae'n debyg, yn well na 'chwestiwn'.

14:51 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Forgive me, Presiding Officer. My second topic is individual education plans. Minister, I urge you again to bring them in with speed, and I wonder if you can give us a date. If we know what each child needs, we have a better chance of securing their future.

Maddeuwch i mi, Lywydd. Fy ail destun yw cynlluniau addysg unigol. Weinidog, rwy'n eich annog unwaith eto i ddod â nhw i mewn ar frys, ac rwy'n meddwl tybed a allwch chi roi dyddiad inni. Os ydym yn gwybod beth sydd ei angen ar bob plentyn, mae gennym well siawns o sicrhau eu dyfodol.

My third area is the definition of 'additional learning needs'. A substantial number of children within our education system have what you might term 'behavioural issues' that get in the way of their ability to enjoy being taught, accessing the national curriculum and having the proper support packages put into place. If we can identify those children—given the empirical evidence that shows a great many of them come from disadvantaged backgrounds—it might also help with your objective of trying to close the attainment gap.

Fy nhrydydd maes yw'r diffiniad o 'anghenion dysgu ychwanegol'. Mae gan nifer sylweddol o blant yn ein system addysg yr hyn y gallech eu alw'n 'broblemau ymddygiad' sy'n amharu ar eu gallu i fwynhau cael eu dysgu, cael mynediad at y cwricwlwm cenedlaethol a chael y pecynnau cymorth priodol wedi'u rhoi ar waith. Os gallwn nodi'r plant hynny—o ystyried y dystiolaeth empirig sy'n dangos bod llawer iawn ohonynt yn dod o gefndiroedd dan anfantais—gallai hefyd helpu gyda'ch amcan o geisio cau'r bwlch o ran cyrhaeddiad.

My fourth area—I am being really speedy now, Presiding Officer—is teachers. I picked up the comment there about self-congratulation. When we go to see schools, we all know about the inspiring teachers in schools that do well or are on their way up—you can smell it, you can see it; you just know that they know what they are doing. Occasionally, you can go into a school that is perhaps not quite so great, but you find that individual in a classroom. It is about the individual. What can you do, Minister, to support those teachers? You talk about bringing something forward next year; why is it taking so long? I believe that we need to do more than just support them in a loose way. What can we do about continuous professional development, and opening up the Master's degree and other such initiatives, particularly for secondary school teachers, who are doing what is probably one of the toughest jobs on the planet?

Fy mhedwerydd maes—rwy'n bod yn gyflym iawn yn awr, Lywydd—yw athrawon. Clywais y sylw am hunan-longyfarch. Pan fyddwn yn mynd i weld ysgolion, rydym i gyd yn gwybod am yr athrawon ysbrydoledig mewn ysgolion sy'n gwneud yn dda neu sydd ar eu ffordd i fyny—gallwch ei arogli, gallwch ei weld; rydych chi'n gwybod eu bod yn gwybod beth y maent yn ei wneud. O bryd i'w gilydd, gallwch fynd i mewn i ysgol nad yw efallai mor wych, ond yr ydych yn dod o hyd i'r unigolyn hwnnw mewn ystafell ddosbarth. Mae'n ymwneud â'r unigolyn. Beth allwch chi ei wneud, Weinidog, i gefnogi'r athrawon hynny? Rydych yn sôn am ddod â rhywbeth ymlaen y flwyddyn nesaf; pam y mae'n cymryd mor hir? Rwy'n credu bod angen i ni wneud mwy na dim ond eu cefnogi mewn ffordd lac. Beth allwn ni ei wneud ynghylch datblygiad proffesiynol parhaus, ac agor y radd Meistr a mentrau eraill o'r fath, yn enwedig ar gyfer athrawon ysgolion uwchradd, sydd yn gwneud yr hyn y mae'n debyg yw un o'r swyddi anoddaf ar y blaned?

Finally, what specific 2009 policies that you refer to in the statement will impact positively on tests such as PISA in the future? I am very interested to know which of those specific policies you think will have that bite.

Yn olaf, pa bolisïau penodol 2009 yr ydych chi'n cyfeirio atynt yn y datganiad fydd yn cael effaith gadarnhaol ar brofion megis PISA yn y dyfodol? Mae gennyf ddiddordeb mawr mewn cael gwybod pa rai o'r polisïau penodol hynny yn eich barn chi fydd â'r awch hwnnw.

As a final comment, I accept your ambitious target—I will not quarrel with you on it—but do not set people up to fail. That is a habit of all Governments, of all colours. I would like to see us improve our PISA results, but we can only do it with a comprehensive package.

Fel sylw olaf, rwy'n derbyn eich targed uchelgeisiol—ni fyddaf yn cweryla gyda chi amdano—ond peidiwch â chreu sefyllfa a fydd yn golygu bod pobl yn methu. Mae hynny'n arferiad gan bob Llywodraeth, o bob lliw. Hoffwn ein gweld yn gwella ein canlyniadau PISA, ond dim ond gyda phecyn cynhwysfawr y gallwn ni wneud hynny.

14:53 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am describing, and will continue to describe, that comprehensive package. On Angela Burns's final point, about 2009, we instituted the Hill review and the literacy and numeracy framework, which is the backbone of structural and curricular change in terms of the response to the results back then.

Rwy'n disgrifio, a byddaf yn parhau i ddisgrifio, y pecyn cynhwysfawr hwnnw. Ar bwynt olaf Angela Burns, ynghylch 2009, sefydlwyd adolygiad Hill a'r fframwaith llythrennedd a rhifedd gennym, sef asgwrn cefn newid strwythurol a chwricwlaidd o ran yr ymateb i'r canlyniadau bryd hynny.

In terms of confidence in the workforce, Angela Burns also touched upon the quality of teaching and learning. Of course, much needs to be done in terms of initial teacher training and continuing professional development, and I am very glad that she mentioned the Master's in educational practice. Let us remember that the Master's in educational practice is a uniquely Welsh initiative, where we will eventually see over time the teaching profession in Wales becoming a Master's-qualified profession, which is the complete opposite of the direction of travel across the border in England.

O ran hyder yn y gweithlu, crybwyllodd Angela Burns hefyd ansawdd addysgu a dysgu. Wrth gwrs, mae angen gwneud llawer o ran hyfforddiant cychwynnol athrawon a datblygiad proffesiynol parhaus, ac rwy'n falch iawn ei bod wedi sôn am y radd Meistr mewn ymarfer addysgol. Gadewch inni gofio bod y radd Meistr mewn ymarfer addysgol yn fenter unigryw i Gymru, sy'n golygu y byddwn yn y pen draw yn gweld dros gyfnod o amser y proffesiwn addysgu yng Nghymru yn dod yn broffesiwn wedi'i gymhwyso drwy radd Meistr, sef y gwrthwyneb hollol i'r cyfeiriad o deithio ar draws y ffin yn Lloegr.

As I mentioned in the statement, I will be making further statements, particularly around initial teacher training and continuing professional development in the new year. However, Angela Burns is quite right to say that the quality of teaching and learning in the classroom is, at the end of the day, the only thing that really matters in terms of us gaining traction on these issues.

Fel y soniais yn y datganiad, byddaf yn gwneud datganiadau pellach, yn enwedig o ran hyfforddiant cychwynnol a datblygiad proffesiynol parhaus athrawon yn y flwyddyn newydd. Fodd bynnag, mae Angela Burns yn llygad ei lle i ddweud mai ansawdd yr addysgu a'r dysgu yn yr ystafell ddosbarth, yn y pen draw, yw'r unig beth sy'n wirioneddol bwysig o ran ein gweld yn cael gafael ar y materion hyn.

She is also right to mention the importance of our structures around additional learning needs, and she will be aware of the considerable agenda for change in that regard. I agree with her that every child must be on the agenda here. Every child in Wales is on the agenda as far as this school improvement journey is concerned.

Mae hi hefyd yn iawn i sôn am bwysigrwydd ein strwythurau o amgylch anghenion dysgu ychwanegol, a bydd yn ymwybodol o'r agenda sylweddol ar gyfer newid yn hynny o beth. Rwy'n cytuno â hi bod yn rhaid i bob plentyn fod ar yr agenda hon. Mae pob plentyn yng Nghymru ar yr agenda cyn belled ag y mae'r daith gwella ysgolion hon yn y cwestiwn.

14:55

## Christine Chapman Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank you for your statement, Minister. The PISA report noted a link between the socio-economic status and attainment, and this was backed up by today's Estyn report into the effects of poverty, which noted inconsistencies in how schools approach tackling the effects of poverty on attainment. The challenge might not be about spending more, but about working better. How can we understand what good schools do to tackle the effects of poverty and ensure continuity in the dispersal of this best practice throughout Wales? In addition, how can we make sure that the whole school community knows what it needs to do? For example, what work has been done with governors, so that they know what their role is in this?

Diolch ichi am eich datganiad, Weinidog. Nododd yr adroddiad PISA gysylltiad rhwng statws economaidd-gymdeithasol a chyrhaeddiad, a chafodd hyn ei gefnogi gan adroddiad Estyn heddiw i effeithiau tlodi, a oedd yn nodi anghysondebau o ran sut y mae ysgolion yn mynd i'r afael ag effeithiau tlodi ar gyrhaeddiad. Efallai nad yw'r her yn ymwneud â gwario mwy, ond am weithio'n well. Sut y gallwn ni ddeall beth y mae ysgolion da yn ei wneud i fynd i'r afael ag effeithiau tlodi a sicrhau dilyniant mewn gwasgaru'r arfer gorau hwn ledled Cymru? Yn ogystal â hynny, sut allwn ni wneud yn siŵr bod y gymuned ysgol gyfan yn gwybod beth sydd angen iddi ei wneud? Er enghraifft, pa waith sydd wedi ei wneud gyda llywodraethwyr, fel eu bod yn gwybod beth yw eu swyddogaeth yn hyn?

It has also been suggested that Wales lacks single-subject science teachers and I know that the report highlights, in particular, a lack of suitably qualified mathematics teachers. How does the Minister think that we can increase the number of suitably qualified, and well qualified, mathematics teachers?

Mae hefyd wedi cael ei awgrymu bod Cymru yn brin o athrawon gwyddoniaeth pwnc sengl a gwn fod yr adroddiad yn tynnu sylw, yn enwedig, at ddiffyg athrawon mathemateg â chanddynt gymwysterau addas. Sut y mae'r Gweinidog yn credu y gallwn ni gynyddu nifer yr athrawon mathemateg â chymwysterau addas, a chymwysterau da?

On another point, Dame Mary Marsh, who was chief executive of the NSPCC, some time ago suggested that being useless at mathematics was sometimes worn as a badge of pride. I think that this suggests that there is a problem in the image of mathematics that transcends poor numeracy skills. I would be keen for the Minister's views on how this could be addressed. To pursue this theme of image, I also note that Welsh girls do significantly worse at mathematics and science and significantly better at reading than boys. Although this seems to be in line with more global trends, obviously, neither is acceptable, as this underperforming limits potential and achievement. However, I am struck by the familiarity of the gender patterns that I have spoken about here before.

Ar bwynt arall, awgrymodd y Fonesig Mary Marsh, a oedd yn brif weithredwr yr NSPCC, beth amser yn ôl fod bod yn dda i ddim mewn mathemateg weithiau'n cael ei wisgo fel bathodyn o falchder. Credaf fod hyn yn awgrymu bod problem yn y ddelwedd o fathemateg sydd y tu hwnt i sgiliau rhifedd gwael. Byddwn yn awyddus i gael barn y Gweinidog ar sut y gellid mynd i'r afael â hyn. I ddilyn y thema hon o ddelwedd, rwyf hefyd yn nodi bod merched Cymru yn gwneud yn llawer gwaeth mewn mathemateg a gwyddoniaeth ac yn sylweddol well mewn darllen na bechgyn. Er ei bod yn ymddangos bod hyn yn unol â thueddiadau mwy byd-eang, yn amlwg, nid yw'r naill na'r llall yn dderbyniol, gan fod y tanberfformio hwn yn cyfyngu ar botensial a chyflawniad. Fodd bynnag, rwy'n sylwi ar natur gyfarwydd y patrymau rhywedd yr wyf wedi siarad amdanynt yma o'r blaen.

Therefore, Minister, we need to get a better understanding of all of this. We have been talking about it for too long now. How can we get the in-depth knowledge that will allow us to transform the ingrained cultural stereotypes that suggest that mathematics is not for girls and that boys should not want to read?

Felly, Weinidog, mae angen inni gael gwell dealltwriaeth o hyn i gyd. Rydym wedi bod yn siarad am y peth am yn rhy hir nawr. Sut y gallwn ni gael y wybodaeth fanwl a fydd yn ein galluogi i weddnewid y stereoteipiau diwylliannol cynhenid sy'n awgrymu nad yw mathemateg yn rhywbeth ar gyfer merched ac na ddylai bechgyn fod eisiau darllen?

One welcome note in the PISA report was that Welsh students report better support and interest from their mathematics teachers, than is the average for Organisation of Economic Co-operation and Development countries. I welcome your commitment to working with the teaching profession. As you said, it is about teachers challenging pupils, but I am concerned that, in order to do this effectively, we must ensure that moral is kept high among teachers, because otherwise, it is going to be counter-productive. So, could you tell me a bit about your approach, as to how you will work with teachers in the coming year?

Un nodyn i'w groesawu yn yr adroddiad PISA oedd bod myfyrwyr Cymru yn adrodd am well cefnogaeth a diddordeb gan eu hathrawon mathemateg, na'r cyfartaledd ar gyfer gwledydd y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd. Rwy'n croesawu eich ymrwymiad i weithio gyda'r proffesiwn addysgu. Fel y dywedasoch, mae'n ymwneud ag athrawon yn herio disgyblion, ond rwy'n bryderus, er mwyn gwneud hyn yn effeithiol, bod yn rhaid inni sicrhau bod yr ysbryd yn cael ei gadw ar lefel uchel ymhlith athrawon, oherwydd fel arall, mae'n mynd i fod yn wrthgynhyrchiol. Felly, allech chi ddweud rhywfaint wrthyf am eich ymagwedd, o ran sut y byddwch yn gweithio gydag athrawon yn y flwyddyn sydd i ddod?

Finally, the Minister is right when he suggests that PISA assesses learners' ability to apply knowledge and to tackle real-life situations. What work is being done to ensure that mathematics and science teachers, in particular, can access placements in industry, which could assist with this? I think that the current situation is very haphazard.

Yn olaf, mae'r Gweinidog yn iawn pan mae'n awgrymu bod PISA yn asesu gallu dysgwyr i gymhwyso gwybodaeth a mynd i'r afael â sefyllfaoedd bywyd go iawn. Pa waith sy'n cael ei wneud i sicrhau bod athrawon mathemateg a gwyddoniaeth, yn arbennig, yn gallu cael mynediad at leoliadau mewn diwydiant, a allai helpu gyda hyn? Rwy'n meddwl bod y sefyllfa bresennol yn ddi-drefn iawn.

14:58

## Huw Lewis Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for Cynon Valley. First, on Estyn, I can assure the Member that I am as one alongside Estyn in terms of the concerns that it is voicing today. Indeed, they are many of the same concerns to which my predecessor and I have referred. Estyn is quite right in each and every one of the particulars of its announcements today.

Diolch i'r Aelod dros Gwm Cynon. Yn gyntaf, ynglŷn ag Estyn, gallaf sicrhau'r Aelod fy mod yn cytuno'n llwyr ag Estyn o ran y pryderon y mae'n eu mynegi heddiw. Yn wir, mae llawer ohonynt yr un pryderon ag y mae fy rhagflaenydd a minnau wedi cyfeirio atynt. Mae Estyn yn llygad ei le o ran pob un o'r manylion yn ei gyhoeddiadau heddiw.

In terms of the shorter-term approach to this, I would draw the Member's attention to the pupil deprivation grant and the considerable boost that that grant will receive. That will be felt directly by schools next year. I am currently working on guidance that will go along with that pupil deprivation grant, which is very much more rigorous than that which we have seen in the past. It will go alongside a commitment on my part to consider clawing back pupil deprivation grant money from schools that do not address the issue of under-attaining pupils in deprivation clearly and properly within the initiatives upon which they spend that cash. I do not think that we have the time or the luxury for schools to find their way towards what is clearly signposted, through Estyn guidance, through research, through the Sutton Trust and others, as to what works in terms of interventions for our most deprived pupils.

O ran yr ymagwedd tymor byrrach at hyn, hoffwn dynnu sylw'r Aelod at y grant amddifadedd disgyblion a'r hwb sylweddol y bydd y grant hwnnw'n ei dderbyn. Bydd ysgolion yn teimlo effaith hynny yn uniongyrchol y flwyddyn nesaf. Ar hyn o bryd rwy'n gweithio ar ganllawiau a fydd yn cyd-fynd â'r grant amddifadedd disgyblion, sydd yn llawer mwy trwyadl na'r hyn yr ydym wedi ei weld yn y gorffennol. Bydd yn mynd ochr yn ochr ag ymrwymiad ar fy rhan i i ystyried cymryd arian y grant amddifadedd disgyblion yn ôl oddi wrth ysgolion nad ydynt yn mynd i'r afael â'r mater o ddisgyblion mewn amddifadedd yn tangyflawni, mewn modd clir a chywir o fewn y mentrau y maent yn gwario'r arian hwnnw arnynt. Nid wyf yn credu bod gennym yr amser na'r cyfle i ysgolion ganfod eu ffordd tuag at yr hyn sy'n cael ei nodi'n glir, trwy ganllawiau Estyn, drwy ymchwil, drwy Ymddiriedolaeth Sutton ac eraill, ynghylch yr hyn sy'n gweithio o ran ymyraethau ar gyfer ein disgyblion mwyaf difreintiedig.

The Member for Cynon Valley asked how we get to understand these issues and what works. I would say that we have a great deal of understanding in terms of research about these issues, and how to counter these issues. The members of this benighted section of the school population have been researched almost to within an inch of their lives for years now, and we understand this. It is high time that every headteacher in Wales and every chair of governors, in particular, sat up and took notice of what is working around them, and it is imperative that, as good schools do— as the Member mentioned—every school recognises where it stands in relation to this issue and ensures that it adopts the best practice of those good schools around it, looks at the research, looks at the Estyn guidance and understands the guidance from the Welsh Government that is coming to it in the coming weeks. We will reinforce this, of course, and I have said these things already, through an inspection regime that is modified now to pay proper attention to the attainment gap closure that we want to see, and I have asked officials also to lift the lid on the banding mechanism and matrices to ensure that schools' banding properly recognises good work in terms of closing the attainment gap and penalises the bad.

Gofynnodd yr Aelod dros Gwm Cynon sut yr ydym yn dod i ddeall y materion hyn a beth sy'n gweithio. Byddwn yn dweud bod gennym lawer iawn o ddealltwriaeth o ran ymchwil am y materion hyn, a sut i wrthsefyll y materion hyn. Mae aelodau'r adran anwybodus hon o boblogaeth yr ysgol wedi cael eu hymchwilio i'r eithaf ers blynyddoedd bellach, ac rydym yn deall hyn. Mae'n hen bryd bod pob pennaeth yng Nghymru a phob cadeirydd llywodraethwyr, yn arbennig, yn eistedd i fyny ac yn cymryd sylw o'r hyn sy'n gweithio o'u cwmpas, ac mae'n hanfodol, fel y mae ysgolion da yn ei wneud—fel y crybwyllodd yr Aelod—bod pob ysgol yn cydnabod lle y mae hi'n sefyll o ran y mater hwn ac yn sicrhau ei bod yn mabwysiadu arfer gorau yr ysgolion da hynny sydd o'i chwmpas, yn edrych ar y gwaith ymchwil, yn edrych ar ganllawiau Estyn ac yn deall y canllawiau gan Lywodraeth Cymru a fydd yn dod yn ystod yr wythnosau nesaf. Byddwn yn atgyfnerthu hyn, wrth gwrs, ac rwyf wedi dweud y pethau hyn eisoes, drwy gyfundrefn arolygu sy'n cael ei haddasu nawr i roi sylw priodol i gau'r bwlch mewn cyrhaeddiad yr ydym yn dymuno ei weld, ac rwyf wedi gofyn i swyddogion hefyd i edrych ar y mecanwaith bandio a'r matricsau i sicrhau bod bandio ysgolion, mewn modd priodol, yn cydnabod gwaith da o ran cau'r bwlch mewn cyrhaeddiad ac yn cosbi'r gwael.

15:01 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch i'r Gweinidog am y datganiad heddiw. A gaf i ddweud ar y cychwyn ein bod ni'n falch bod y Gweinidog yn derbyn pwysigrwydd a pherthnasedd PISA i'r system addysg yng Nghymru? Nid yw'n dangos pob dim, rwy'n cytuno â hynny, ond mae'n dangos os oes rhywbeth yn mynd o'i le, neu os oes rhywbeth yn mynd yn iawn, wrth gwrs. Fel mae'r Gweinidog wedi nodi, mae'n profi yn arbennig ar gyfer y gweithle ac ar gyfer defnyddio sgiliau ar draws y cwricwlwm. Mae rhai, ers y datganiad a'r gwres yr wythnos diwethaf, sydd wedi ceisio dweud nad yw PISA mor berthnasol â hynny i'r system addysg yng Nghymru. Nid yw hynny'n wir ac rwy'n falch bod y Gweinidog wedi bod yn glir ynglŷn â hynny heddiw.

I thank the Minister for today's statement. May I say at the outset that we are pleased that the Minister has accepted the importance and relevance of PISA to the education system in Wales? It does not tell you everything, I agree with that, but it does tell you when things are going wrong, or when things are going right, of course. As the Minister has noted, it does particularly test skills for the workplace and the use of skills across the curriculum. Since the statement and the heat of last week, some have tried to say that PISA is not particularly relevant to the education system in Wales. That is not true and I am pleased that the Minister has been clear about that today.

Mae hefyd, wrth gwrs, yn wir bod PISA yn gymhariaeth—rhywbeth yr ydym yn gallu ei ddefnyddio i gymharu ein perfformiad ni â pherfformiadau'r gorffennol a gyda gwledydd eraill, yn benodol, gwledydd eraill tu mewn i'r Deyrnas Gyfunol ar hyn o bryd. Yn hynny o beth a gan edrych tua'r dyfodol, er nad wyf yn anghytuno o reidrwydd gyda nifer o bolisïau'r Llywodraeth, rwy'n gresynu'n fawr iawn ynglŷn â chyflymder gweithredu'r Llywodraeth ar hyn o bryd. Un enghraifft mae'r Gweinidog wedi sôn amdani yw'r arholi newydd mewn mathemateg. Mae'n ymddangos i mi erbyn hyn fod y Gweinidog yn dibynnu llawer ar y ffaith ym mis Medi 2015 y bydd gennym ddau arholiad mathemateg newydd. Wrth gwrs, bydd hynny lot yn rhy hwyr i geisio darbwyllo ac addysgu ein plant i ddelio yn well â phrofion PISA yn 2015.

It is also true, of course, that PISA is a comparator—something that we can use to compare our performance against the performances of the past and to compare our performance with that of other nations, particularly other nations currently within the UK. In that regard and in looking to the future, although I do not disagree necessarily with many of the Government's policies, I do very much regret the speed of implementation of action by the Government at present. One example that the Minister has referred to is the new exams in mathematics. It appears to me now that the Minister is dependent on the fact that, in September 2015, we will have two new mathematics qualifications. Of course, that will be far too late in order to educate our children to deal better with the PISA tests in 2015.

Felly, y cwestiwn cyntaf sydd gennyf yw: beth yn wir, wythnos yn ddiweddarach erbyn hyn, yw targed y Llywodraeth ar gyfer y canlyniadau PISA nesaf? Er fy mod eisiau gweld Cymru ymysg yr 20 gwlad gorau yng nghanlyniadau PISA, rwy'n meddwl bod hynny'n afrealistig erbyn hyn. Felly, byddai canlyniad neu darged mwy realistig yn dderbyniol fel rhywbeth dros dro. Yn benodol, oni fyddai'n well i'r Gweinidog edrych ar y sgôr, sef y nifer o bwyntiau ychwanegol sydd eisiau i ddisgyblion Cymru eu hennill, yn hytrach nag edrych ar y safle?

So, the first question I have is: a week after the publication of the results, what is the Government's real target for the next set of PISA results? Although I want to see Wales among the top-20 performing countries in the PISA results, I think that that is now unrealistic. Therefore, a more realistic result or target would be acceptable in the interim. Specifically, would it not be better for the Minister to look at the score, that is, the number of additional points that pupils in Wales need to achieve, rather than looking at the position?

Yr ail beth rwyf eisiau troi ato yw adroddiad Estyn, sydd newydd gael ei grybwyll, a oedd yn dangos nifer o bethau da ymysg y ffyrdd yr ydym ni'n ceisio torri'r ddolen rhwng amddifadedd a chyrhaeddiad plant, ond nifer o bethau a oedd yn fy mhoeni hefyd. Rwy'n poeni yn arbennig nad yw'n ymddangos bod gan bob ysgol, prifathro na llywodraethwr grap go iawn ar yr angen a'r dulliau sydd eu hangen i dorri'r ddolen hon. Felly, yng nghyd-destun hyfforddiant, a'r hyfforddiant gradd Meistr yn arbennig, a wnaiff y Gweinidog gadarnhau ei fod yn bwriadu gwneud yn siŵr bod hyfforddiant athrawon yng Nghymru—ymarfer dysgu a'r cwrs Meistr—yn cynnwys yn llawn y gwersi sydd wedi eu dysgu dros y blynyddoedd, fel y mae wedi sôn amdanynt, ynglŷn â thorri'r ddolen rhwng tlodi a chyrhaeddiad? Dyma un maes lle rwyf i a'r Gweinidog yn gytûn am ei bwysigrwydd ar gyfer y system addysg yng Nghymru.

The second thing that I want to turn to is the Estyn report, which has just been mentioned, and which demonstrated a number of positives in terms of how we are trying to break that link between poverty and attainment, but there were also a number of things that concerned me. I am particularly concerned that it appears that not every school, headteacher and governing body has a real grasp of the need and the methods needed to break that link. Therefore, in the context of training, and the Master's degree training in particular, will the Minister confirm that it is his intention to ensure that teacher training in Wales—teaching practice and the Master's degree—will include in full the lessons that have been learnt over the years, which he has mentioned, in terms of breaking that link between poverty and attainment? This is one area where the Minister and I are agreed on its importance to the education system in Wales.

Mae profiad yr Alban, sydd wedi dechrau torri'r ddolen hon, yn dangos bod ymyrraeth gynnar yn hynod o bwysig ac felly mae'n destun pryder i mi fod adroddiad Estyn yn dweud bod anghysondebau tu fewn i'r gyfundrefn addysg yng Nghymru ynglŷn â dilyn hynt a helynt pob plentyn.

The Scottish experience, where strides have been made to break this link, shows that early intervention is extremely important and therefore it is a cause for concern for me that the Estyn report states that there are inconsistencies within the education system in Wales in terms of tracking individual pupil progress.

Mae yna enghreifftiau da. Rwy'n gwybod o ran y sir lle rwyf i'n byw a lle cafodd fy mhlant eu haddysg, sef Ceredigion, mae system dda, ond mae angen gweld cysondeb ar draws Cymru. Yn y cyd-destun hwnnw, felly, pa dystiolaeth neu ganllawiau ychwanegol a fydd y Gweinidog yn eu rhoi yng nghyd-destun y grant amddifadedd disgyblion, sy'n grant hynod o bwysig yn y cyd-destun hwn? Rwyf innau'n rhannu rhai o'r pryderon y mae'r Gweinidog wedi cyffwrdd â nhw, nad yw pob ysgol yn deall yn iawn o hyd sut i ddefnyddio'r arian hwn yn y ffordd fwyaf effeithiol a'r ffordd a fydd yn cael yr effaith fwyaf ar y plant.

There are some good examples. I know that in the county where I live, where my children were educated, that is, Ceredigion, there is a good system in place, but we need to see consistency across Wales. In that context, therefore, what evidence or additional guidance will the Minister provide in the context of the pupil deprivation grant, which is extremely important in this context? I share some of the concerns that the Minister touched upon, that not every school fully understands how this funding should be used in the most effective and efficient way in order to have the greatest impact on pupils.

Mae'r cwestiwn olaf yr wyf am ei ofyn ar anrhydeddu addysg. Mae'r Gweinidog wedi dweud bod y gwledydd hynny sy'n llwyddo yn fawr iawn yn anrhydeddu addysg mewn ffordd arbennig. Rwy'n cytuno â hynny ac rwyf wedi gweld hynny yn y dystiolaeth, ond dyma, mae'n rhaid dweud, genhedlaeth gyfan o bobl sydd wedi eu haddysgu o dan Weinidogion Llafur erbyn hyn; dyma eu canlyniadau nhw, a dyma nhw yn siomedig iawn. Felly, a yw'r Gweinidog yn barod nawr i ymddiheuro am adael cenhedlaeth gyfan i lawr?

My final question is on giving education the respect it deserves. The Minister has said that those nations that have succeeded place education on a pedestal. I agree with that and we have seen that in evidence, but, it must be said, this is a whole generation of people who have been educated under Labour Ministers; these are their results, and they are very disappointing. Therefore, is the Minister willing now to apologise for letting a whole generation down?

15:06

## Huw Lewis Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank Simon Thomas for those points. As he says, PISA does have worth; it does not have universal worth, but it is something that we need to pause and consider. It is more than the test results themselves also, to which I have attempted to draw attention this afternoon. There is a measure within PISA that is very interesting of attitudinal issues within the educational system. I think that we see a system that is extremely supportive of its young people, but lacking in terms of challenge and grit, if you like, in terms of committing to stretch young people. There is a commitment to say, 'That is fantastic', and 'That is a fantastic piece of work', but then a reluctance to say, 'Right, you have done that really well; now, we move on to this. What about this?' This is the kind of attitude that needs to be built in: support and challenge moving side by side.

Diolch i Simon Thomas am y pwyntiau yna. Fel y dywed, mae gan PISA werth; nid oes ganddo werth cyffredinol, ond mae'n rhywbeth sy'n golygu bod angen i ni bwyllo a'i ystyried. Mae'n fwy na'r canlyniadau prawf eu hunain hefyd, ac yr wyf wedi ceisio tynnu sylw at hynny y prynhawn yma. Mae mesur o fewn PISA sy'n ddiddorol iawn o ran materion yn ymwneud ag agwedd o fewn y system addysg. Rwy'n credu ein bod yn gweld system sy'n hynod gefnogol o'i phobl ifanc, ond yn ddiffygiol o ran herio a dycnwch, os mynnwch chi, o ran ymrwymo i ymestyn pobl ifanc. Mae ymrwymiad i ddweud, 'Mae hynna'n wych', ac 'Mae hwnna'n ddarn gwych o waith', ond hefyd amharodrwydd i ddweud, 'Iawn, rydych chi wedi gwneud hynna'n dda iawn; yn awr, rydym ni'n symud ymlaen i hyn. Beth am hyn? ' Dyma'r math o agwedd y mae angen ei hymgorffori: cymorth a her yn symud ochr yn ochr â'i gilydd.

In terms of the lateness of the GCSEs, I do not know whether Simon Thomas is being mischievous here, but I hope that he would not have me react in a knee-jerk fashion to such issues and attempt to emulate Michael Gove, who has had around four to five different proposals—although I lose count now—for the reform of GCSEs in England over the last couple of years, most of which come to naught. Simon Thomas will know that changing such critical exams has to be done properly. It has to be done in a way that does not destabilise the system; it has to be done alongside proper consultation; and it needs to be thorough. Although PISA is what it is, we cannot precipitately destabilise our qualification system because of one set of test results, even if they are PISA.

O ran hwyrni'r TGAU, nid wyf yn gwybod a yw Simon Thomas yn bod yn ddireidus yma, ond rwy'n gobeithio na fyddai'n dymuno fy ngweld yn ymateb mewn modd difeddwl i faterion o'r fath a cheisio efelychu Michael Gove, y bu ganddo tua 4-5 gwahanol gynnig—er fy mod wedi colli cyfrif erbyn hyn—ar gyfer diwygio TGAU yn Lloegr yn ystod y flwyddyn neu ddwy ddiwethaf, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi mynd i'r gwellt. Bydd Simon Thomas yn gwybod bod yn rhaid i newid arholiadau hanfodol o'r fath gael ei wneud yn iawn. Mae'n rhaid iddo gael ei wneud mewn ffordd nad yw'n ansefydlogi'r system; mae'n rhaid iddo gael ei wneud ochr yn ochr ag ymgynghori priodol, ac mae angen iddo fod yn drylwyr. Er bod PISA yr hyn ydyw, ni allwn ansefydlogi ein system gymwysterau yn fyrbwyll oherwydd un gyfres o ganlyniadau prawf, hyd yn oed os mai PISA ydynt.

In terms of targets, we aspire to be in that top 20, as I have often repeated over the last week or so, although he does make an interesting point around that sort of 500 club, which I believe it is called. Most of the top-20 countries look at that. I would very much like to be, at the moment, in the position where Wales was a 500-points nation. If we could get to that stage, we would quite rightly have cause to congratulate ourselves on a journey well-travelled. However, we still aspire to be a top-20 PISA country.

O ran targedau, rydym â'r nod o fod yn yr 20 uchaf, fel yr wyf wedi ailadrodd yn aml dros yr wythnos neu ddwy ddiwethaf, er ei fod yn gwneud pwynt diddorol ynglŷn â math rhyw fath o glwb 500, fel y'i gelwir rwy'n credu. Mae'r rhan fwyaf o'r gwledydd 20 uchaf yn edrych ar hynny. Hoffwn yn fawr iawn fod, ar hyn o bryd, mewn sefyllfa lle mae Cymru yn genedl 500 pwynt. Pe gallem gyrraedd y cam hwnnw, byddai gennym, yn gwbl briodol, achos i longyfarch ein hunain ar daith a gafodd ei theithio'n dda. Fodd bynnag, rydym yn dal â'r nod o fod yn wlad 20 uchaf PISA.

15:08 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Weinidog, rwy'n meddwl bod llawer iawn o gytuno ynglŷn â'r negeseuon sy'n deillio o ganlyniadau PISA wythnos diwethaf. Rwy'n meddwl bod nifer fawr ohonom yn teimlo rhywfaint o rwystredigaeth ein bod ni'n canfod ein hunain yn y fath sefyllfa rhyw 12 mlynedd ar ôl datganoli. Ond, wrth ddweud hynny, nid wyf yn credu fel Simon Thomas mai cyflymder yw'r unig sialens sydd yn ein hwynebu ni fel gwlad. Rwy'n meddwl bod angen i ni fod yn wyliadwrus iawn nad yw'r holl sylw yn syrthio ar athrawon, a'n bod ni hefyd, fel gwleidyddion a swyddogion, yn derbyn ein cyfrifoldebau ni wrth edrych ar y sefyllfa. Rwyf am ofyn a ydych yn fodlon ar hyn o bryd efo'r modd—nid yn unig efo'r cyflymder, ond y modd—y mae rhai o'r polisïau newydd hyn, yn ystod y tair neu bedair blynedd diwethaf, wedi cael eu cyflwyno ar lawr gwlad.

Minister, I think that there is a great deal of agreement in terms of the messages that stem from the PISA results last week. I think that a great many of us feel some frustration that we find ourselves in this kind of situation some 12 years after devolution. However, having said that, I do not think, as Simon Thomas said, that speed is the only challenge to face us a country. I think that there is a need for us to be very vigilant so that not all attention falls on teachers, but that we as politicians and officials also accept our responsibilities in looking at the situation. I want to ask whether you are currently content with the way—not just the speed, but the way—in which some of these new policies, during the last three or four years, have been implemented at grass-roots level.

I was at a governors' meeting last Thursday as I am still the chair of the governors in a school. I think that there is concern that some of the reforms, perhaps, are not bedding in as well as might be considered. I would like to ask you whether you are satisfied with regard to some of the feedback that you have had from some of the PISA workshops that were organised, and whether those are delivering as well as they may have done. I would also like to ask whether the literacy tests, in particular, are robust enough, and whether the baseline has been pitched at a level that ensures that we have confidence that the measures that the Government has put in place will deliver the improvement that we all want, regardless of our political opinions.

Roeddwn mewn cyfarfod llywodraethwyr ddydd Iau diwethaf gan fy mod yn dal i fod yn gadeirydd y llywodraethwyr mewn ysgol. Rwy'n meddwl bod pryder nad yw rhai o'r diwygiadau, efallai, yn cael eu hymsefydlu cystal ag y gellid ei ystyried. Hoffwn ofyn i chi a ydych yn fodlon o ran peth o'r adborth yr ydych wedi'i gael gan rai o'r gweithdai PISA a drefnwyd, ac a oedd y rheini'n cyflawni cystal ag y gallant fod wedi'i wneud. Hoffwn hefyd ofyn a yw'r profion llythrennedd, yn arbennig, yn ddigon cadarn, ac a yw'r llinell sylfaen wedi ei gosod ar lefel sy'n sicrhau bod gennym hyder y bydd y mesurau y mae'r Llywodraeth wedi'u rhoi ar waith yn cyflawni'r gwelliant yr ydym i gyd ei eisiau, ni waeth beth yw'n safbwyntiau gwleidyddol.

I also have to say that there are still issues, as Angela Burns mentioned, with regard to the consortia. I am aware that there are system leaders who have been appointed who have very little recent experience in schools. Certainly, in the north, we still have some vacancies as far as those system leader positions are concerned. It is about having confidence with regard to the reforms. I accept what you say about having to stick with what we have at the moment. We must also give a clear message, as an Assembly, that we think that PISA has validity. However, given the Estyn report that we have had today, it is about having confidence as to whether these reforms are being accepted throughout the profession. We need to have regard, in particular, to the fact that, for the last three years, we have been giving a clear message that the individual tracking of pupil progress is essential, and yet we still read in the Estyn report that that individual tracking is not happening in all schools.

Rhaid i mi hefyd ddweud bod problemau o hyd, fel y soniodd Angela Burns, o ran y consortia. Rwy'n ymwybodol bod arweinwyr systemau sydd wedi eu penodi sydd ag ychydig iawn o brofiad diweddar mewn ysgolion. Yn sicr, yn y gogledd, mae gennym rai swyddi gwag cyn belled ag y mae swyddi'r arweinyddion system hynny yn y cwestiwn. Mae'n ymwneud â bod yn hyderus o ran y diwygiadau. Rwy'n derbyn yr hyn a ddywedwch am orfod aros gyda'r hyn sydd gennym ar hyn o bryd. Rhaid i ni hefyd roi neges glir, fel Cynulliad, ein bod yn credu bod gan PISA ddilysrwydd. Fodd bynnag, o ystyried yr adroddiad Estyn yr ydym wedi'i gael heddiw, mae'n ymwneud â chael hyder a yw'r diwygiadau hyn yn cael eu derbyn ar draws y proffesiwn. Mae angen i ni roi sylw, yn arbennig, i'r ffaith ein bod, am y tair blynedd diwethaf, wedi bod yn rhoi neges glir bod yr olrhain unigol o gynnydd disgyblion yn hanfodol, ac eto rydym yn dal i ddarllen yn adroddiad Estyn nad yw'r olrhain unigol hwnnw'n digwydd ym mhob ysgol.

15:11 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank Aled Roberts. There is a great deal of agreement across the Chamber, despite party politics as we know and love them. I am grateful for that common ground and agreement. I think that it is a strength within the Welsh system and that it bodes well for the journey that we travel. I also share Aled Roberts's frustration. There are issues that need to be tackled here. He is right to say that I do not regard teachers alone as being responsible for taking on this burden. It is for everyone, from myself to governors, to the wider educational family, as I have said. However, teachers are far from exempt in terms of the burdens and responsibilities that have to be shouldered if this journey is going to be a success—particularly leaders in schools, and headteachers above all.

Diolchaf i Aled Roberts. Mae llawer iawn o gytuno ar draws y Siambr, er gwaethaf gwleidyddiaeth plaid fel yr ydym yn ei hadnabod ac wrth ein boddau â hi. Rwy'n ddiolchgar am y tir cyffredin a'r cytuno hwnnw. Rwy'n meddwl ei fod yn gryfder o fewn system Cymru a'i fod yn argoeli'n dda ar gyfer y daith yr ydym yn ei theithio. Rwyf hefyd yn rhannu rhwystredigaeth Aled Roberts. Ceir materion y mae angen mynd i'r afael â nhw yma. Mae'n iawn wrth ddweud nad wyf yn ystyried mai athrawon yn unig sy'n gyfrifol am ymgymryd â'r baich hwn. Mae'n fater i bawb, o fi fy hun i lywodraethwyr, i'r teulu addysgol ehangach, fel y dywedais. Fodd bynnag, mae athrawon yn bell o fod wedi'u heithrio o ran y beichiau a'r cyfrifoldebau y mae'n rhaid eu hysgwyddo os yw'r daith hon yn mynd i fod yn llwyddiant —yn enwedig arweinwyr mewn ysgolion, a phenaethiaid yn anad dim.

It is true that many of these reforms have been signalled repeatedly. Guidance has been issued repeatedly. Everything has been done except to write some of these basic issues in neon letters that are 20 feet tall. It really is time that every headteacher in Wales showed a real grasp of this and showed that commitment, firstly and primarily, by making sure that the pupil deprivation grant money is used for the purpose for which it was intended. That is why I have announced to the Chamber today that I will be serious about the clawback of that cash from those schools and heads that do not address the issues squarely and head-on, with the honesty and commitment that we need in this situation. I will work tirelessly to make sure that these reforms are bedded in. We need to work alongside heads and school leaders, in particular, to make sure that there is no doubt left in anybody's mind that these are the key issues that we need to address. That is the job of work, as I see it, for myself, for next year and for the remainder of this Assembly term.

Mae'n wir y cyfeiriwyd at lawer o'r diwygiadau hyn dro ar ôl tro. Cyhoeddwyd canllawiau dro ar ôl tro. Mae popeth wedi ei wneud ac eithrio ysgrifennu rhai o'r materion sylfaenol mewn llythrennau llachar sy'n 20 troedfedd o daldra. Mae wir yn amser i bob pennaeth yng Nghymru ddangos dirnadaeth wirioneddol ynglŷn â hyn a dangos yr ymrwymiad angenrheidiol, yn gyntaf ac yn bennaf, drwy wneud yn siŵr bod yr arian grant amddifadedd disgyblion yn cael ei ddefnyddio at y diben y'i bwriadwyd ar ei gyfer. Dyna pam yr wyf wedi cyhoeddi i'r Siambr heddiw y byddaf o ddifrif ynglŷn ag adfachu'r arian hwnnw oddi ar yr ysgolion a'r penaethiaid hynny nad ydynt yn mynd i'r afael â'r materion yn deg ac yn uniongyrchol, gyda'r gonestrwydd a'r ymrwymiad sydd eu hangen arnom yn y sefyllfa hon. Byddaf yn gweithio'n ddiflino i wneud yn siŵr bod y diwygiadau hyn yn cael eu hymsefydlu. Mae angen i ni weithio ochr yn ochr â phenaethiaid ac arweinwyr ysgolion, yn arbennig, i wneud yn siŵr nad oes unrhyw amheuaeth ar ôl ym meddwl neb o ran bod y rhain yn faterion allweddol y mae angen inni fynd i'r afael â nhw. Dyna'r gwaith, fel yr wyf fi'n ei weld, ar gyfer fy hun, ar gyfer y flwyddyn nesaf ac ar gyfer gweddill y tymor Cynulliad hwn.

15:13 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Did the Minister see Andreas Schleicher on the BBC last week, saying that, from his perspective, as the person in charge of these PISA tests, there was no way that the reforms introduced after the 2009 PISA results could have had an impact on the results this time? Does he also agree with me that what has become evident over this last week is that no-one is coming forward with any alternative policies, that there now appears to be considerable consistency and consensus around the policies that have been implemented, and that the only debate is around detail and sometimes pace?

A welodd y Gweinidog Andreas Schleicher ar y BBC yr wythnos diwethaf, yn dweud, o'i safbwynt ef, fel y person sy'n gyfrifol am y profion PISA, nad oedd unrhyw ffordd y gallai'r diwygiadau a gyflwynwyd ar ôl y canlyniadau PISA 2009 fod wedi cael effaith ar y canlyniadau y tro hwn? A yw hefyd yn cytuno â mi mai'r hyn sydd wedi dod i'r amlwg dros yr wythnos ddiwethaf yw nad oes neb yn dod ymlaen ag unrhyw bolisïau amgen, a'i bod yn ymddangos bellach bod cysondeb a chonsensws sylweddol o gwmpas y polisïau sydd wedi cael eu rhoi ar waith, ac mai'r unig ddadl yw ynghylch manylder ac weithiau cyflymder?

15:14 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I agree with the Member for the Rhondda. Everyone knows—everyone here, regardless of party political colour—that the reforms of 2009 have not had long enough to bed in, and to have shown marked increases in the PISA scores this summer. Everyone knows in their heart of hearts that that is true. I am also very reassured by factors aside from the now suddenly absent demand from the Welsh Conservatives that we return to the grammar school system, which seems to have disappeared the way of most of Michael Gove's proposals. I will leave it at that, because I am very glad—

Rwy'n cytuno â'r Aelod dros y Rhondda. Mae pawb yn gwybod—pawb sydd yma, ni waeth beth fo lliw eu plaid wleidyddol—nad yw diwygiadau 2009 wedi cael ddigon o amser i ymsefydlu, ac i fod wedi dangos cynnydd nodedig yn y sgorau PISA yn ystod yr haf. Mae pawb yn gwybod yn nwfn eu calonnau fod hynny'n wir. Rwyf hefyd wedi fy nghysuro'n fawr gan ffactorau heblaw am y galw sy'n awr yn sydyn yn absennol gan y Ceidwadwyr Cymreig ein bod yn dychwelyd i'r system ysgol ramadeg, sy'n ymddangos i fod wedi diflannu'r un ffordd â'r rhan fwyaf o gynigion Michael Gove. Fe'i gadawaf ar hynny, oherwydd rwy'n falch iawn—

15:15 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

That was not in your statement, Minister. If you could stick to your statement, that would be helpful.

Nid oedd hynny yn eich datganiad, Weinidog. Pe gallech gadw at eich datganiad, byddai hynny o gymorth.

15:15 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Okay. I am very glad, and I genuinely welcome, that there is consensus around critical issues here. The issue is: how do you move forward a complex machinery at sufficient pace to carry people along with us, from my office right through to the classroom, and ensure that we consistency and commitment at every stage of that process? That is the complexity of the political job to be accomplished, and that is what I intend to dedicate myself to over the coming months.

Iawn. Rwy'n falch iawn, ac rwyf yn wirioneddol groesawu, fod consensws ynghylch materion allweddol yma. Y cwestiwn yw: sut ydych chi'n symud peirianwaith cymhleth ymlaen ar gyflymder digonol i gario pobl gyda ni, o fy swyddfa i i'r ystafell ddosbarth, a sicrhau ein bod yn dangos cysondeb ac ymrwymiad ar bob cam o'r broses honno? Dyna gymhlethdod y swydd wleidyddol sydd i'w chyflawni, a dyna'r hyn yr wyf yn bwriadu ymroi iddo dros y misoedd nesaf.

*Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 15:15.*

*The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 15:15.*

15:15 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, some of the points that I was going to make have already been made. I just want to ask you about the inverse learning law, whereby the children who are having most difficulty learning are often being taught by those who are least experienced and least qualified, and I wonder how we address that issue. I am very pleased, however, to hear you say that you are going to be very robust on how we deal with the pupil deprivation grant, because that may be a way of ensuring that those who are most disadvantaged get the best remunerated teachers. So, that was one specific question that I had.

Weinidog, mae rhai o'r pwyntiau yr oeddwn i'n mynd i'w gwneud eisoes wedi'u gwneud. Rwyf am ofyn i chi am y ddeddf dysgu gwrthgyfartal, lle mae'r plant sydd yn profi'r anhawster mwyaf wrth ddysgu yn aml yn cael eu dysgu gan y rhai hynny sydd leiaf profiadol a lleiaf cymwysedig, ac rwy'n meddwl tybed sut yr ydym ni am fynd i'r afael â'r mater hwnnw. Rwy'n falch iawn, fodd bynnag, o'ch clywed yn dweud eich bod yn mynd i fod yn gadarn iawn o ran y modd yr ydym yn ymdrin â'r grant amddifadedd disgyblion, oherwydd gallai hynny fod yn fodd o sicrhau bod y rhai sydd fwyaf difreintiedig yn cael yr athrawon sy'n cael y tâl gorau. Felly, dyna un cwestiwn penodol a oedd gennyf.

15:16 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank Jenny Rathbone for that insightful point. It is true to say that, if we look at the experience of the pupil deprivation grant as it has been up until now, a large proportion of that cash has been expended by headteachers on the recruitment of learning assistants—classroom assistants. On the face of it, that would seem to everyone to be a good thing. Unfortunately, what is coming back to us in research and advice from Estyn is that, quite often, there is an unintended consequence here, in that those pupils struggling the most, as you say, tend to spend most of their time with the teaching assistant, who happens to be the least experienced and least qualified adult in the room. The guidance going out from my office this year on the pupil deprivation grant is crystal clear: we cannot have a repetition of that form of spend when we are talking about £900 per pupil going out in a considerable boost to the prospects of those young people for this coming year. We know, in terms of research and evidence-based activity, that what works is very often much cheaper than the employment of extra staff—much, much cheaper—and much more effective. I will hold schools to the announcement that I have made today. This guidance will be unprecedented in its rigour, as regards the disbursement of this money, and I will reserve the right to claw back cash from schools that ignore that guidance.

Diolch i Jenny Rathbone am y pwynt craff yna. Mae'n wir dweud, os edrychwn ar brofiad y grant amddifadedd disgyblion fel y mae wedi bod hyd yn hyn, bod cyfran fawr o'r arian wedi cael ei wario gan benaethiaid ar recriwtio cynorthwywyr dysgu—cynorthwywyr ystafell ddosbarth. Ar yr olwg gyntaf, byddai hynny'n ymddangos i bawb i fod yn beth da. Yn anffodus, yr hyn sy'n dod yn ôl i ni mewn ymchwil a chyngor gan Estyn yw, yn aml iawn, bod canlyniad anfwriadol yma, gan fod y disgyblion hynny sy'n ei chael hi'n fwyaf anodd, fel y dywedwch, yn tueddu i dreulio'r rhan fwyaf o'u hamser gyda'r cynorthwy-ydd addysgu, sy'n digwydd bod yr oedolyn lleiaf profiadol a lleiaf cymwysedig yn yr ystafell. Mae'r canllawiau sy'n mynd allan o fy swyddfa i eleni ar y grant amddifadedd disgyblion yn gwbl glir: ni allwn dderbyn ailadrodd o'r math hwnnw o wariant pan fyddwn yn sôn am £900 y disgybl yn mynd allan i roi hwb sylweddol i ragolygon y bobl ifanc hynny ar gyfer y flwyddyn i ddod. Rydym yn gwybod, o ran ymchwil a gweithgaredd seiliedig ar dystiolaeth, bod yr hyn sy'n gweithio yn aml iawn yn llawer rhatach na chyflogi staff ychwanegol—llawer, llawer rhatach—a llawer iawn mwy effeithiol. Byddaf yn dal ysgolion i gyfrif ar gyfer y cyhoeddiad yr wyf wedi'i wneud heddiw. Bydd y canllawiau hyn yn ddigynsail yn eu trylwyredd, o ran gwario'r arian hwn, a byddaf yn cadw'r hawl i adfachu'r arian yn ôl oddi wrth ysgolion sy'n anwybyddu'r canllawiau hynny.

15:18

## Datganiad: Y Llifogydd Diweddar yng Ngogledd Cymru

## Statement: Recent Flooding in North Wales

Senedd.tv
Fideo Video

**Alun Davies** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd / The Minister for Natural Resources and Food*

On Thursday, 5 December, a 1m storm surge caused by a very deep low-pressure system combined with high winds and a very high spring tide to raise sea levels in the Irish and North seas. The surge hit the north Wales coastline, causing extensive flooding and damage. A gold command response was instigated by North Wales Police early on Thursday morning, after flood forecast models predicted significant flooding. At this time, severe flood warnings were issued in Flintshire at Point of Ayr, around Talacre, and Greenfield to Bagillt, with some homes evacuated as a precaution. Sandbags were also placed on the coast road in Rhyl, which helped to limit the extent of the flooding.

Ar ddydd Iau, 5 Rhagfyr, cyfunodd ymchwydd storm 1m a achoswyd gan system gwasgedd isel ddofn iawn gyda gwyntoedd uchel a llanw mawr iawn i godi lefel y dŵr ym môr Iwerddon a môr y Gogledd. Tarodd yr ymchwydd arfordir gogledd Cymru, gan achosi llifogydd a difrod helaeth. Cafodd ymateb gorchymyn aur ei ysgogi gan Heddlu Gogledd Cymru yn gynnar ar fore dydd Iau, ar ôl i fodelau rhagolwg llifogydd ragweld llifogydd sylweddol. Ar yr adeg hon, cyhoeddwyd rhybuddion llifogydd difrifol yn Sir y Fflint yn y Parlwr Du, o gwmpas Talacre, ac o Faes-glas i Fagillt, gyda rhai cartrefi yn cael eu gwacáu rhag ofn i'r llifogydd daro. Gosodwyd bagiau tywod hefyd ar ffordd yr arfordir yn y Rhyl, a gynorthwyodd i gyfyngu ar raddfa'r llifogydd.

At around 11 a.m. on the Thursday, the high spring tides and the surge arrived along the north Wales coast. One of the worst affected areas was Rhyl, where around 150 properties were flooded with sea water. The properties flooded were predominantly bungalows, with 400 people evacuated to a rest centre at Rhyl leisure centre. Denbighshire County Council has found temporary accommodation for 54 people, while the remainder found alternative accommodation with friends and relatives. Ysgol Bryn Hedydd was evacuated as a precautionary measure and the children were also taken to the rest centre. Around 2,000 properties across north Wales lost power, with 780 of these being in Rhyl, although some of these were due to the power supply being switched off for safety reasons. Denbighshire County Council set up an information point for flood victims at Rhyl community fire station the following morning, which I visited later on Friday afternoon and spoke with some of those affected. As the recovery continues, a community recovery group is being planned and a relief fund has been set up by Rhyl Town Council.

Am oddeutu 11 o'r gloch y bore ar y dydd Iau, cyrhaeddodd y llanw mawr a'r ymchwydd ar hyd arfordir gogledd Cymru. Un o'r ardaloedd yr effeithiwyd arnynt waethaf oedd y Rhyl, lle cafodd tua 150 eiddo eu gorlifo â dŵr y môr. Byngalos oedd yr adeiladau dan ddŵr yn bennaf, a symudwyd 400 o bobl i ganolfan orffwys yng Nghanolfan Hamdden y Rhyl. Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi dod o hyd i lety dros dro i 54 o bobl, tra bod y gweddill wedi dod o hyd i lety arall gyda ffrindiau a pherthnasau. Cafodd Ysgol Bryn Hedydd ei gwacáu rhag ofn ac aethpwyd â'r plant hefyd i'r ganolfan orffwys. Roedd tua 2,000 eiddo ar draws Gogledd Cymru wedi colli pŵer, gyda 780 o'r rhain yn y Rhyl, er bod rhai o'r rhain o ganlyniad i ddiffodd y cyflenwad pŵer am resymau diogelwch. Sefydlodd Cyngor Sir Ddinbych bwynt gwybodaeth i ddioddefwyr llifogydd yng ngorsaf dân gymunedol y Rhyl y bore canlynol, ac ymwelais ag ef yn nes ymlaen brynhawn dydd Gwener a siarad gyda rhai o'r bobl yr effeithiwyd arnynt. Wrth i'r adferiad barhau, mae grŵp adfer cymunedol yn cael ei gynllunio ac mae cronfa gymorth wedi'i sefydlu gan Gyngor Tref y Rhyl.

Although Rhyl experienced the worst effects to homes, other areas also saw significant damage to property and infrastructure. Extensive damage was caused to the sea wall around Mostyn and along the north Wales main line. Debris carried by floodwater was left on the line, requiring clearance and repair. The line was expected to re-open today, 10 December. The Conwy Valley rail line between Llandudno and Blaenau Ffestiniog was closed due to ballast being washed away at Tal-y-cafn. It is likely to remain closed until Thursday of this week while repairs continue to be made. At Kinmel Bay in Conwy, six properties were flooded and a rest centre set up as a precaution. Three properties were flooded in Llandulas and one in Red Wharf Bay on Anglesey. This was an extraordinary event and it is fortunate that lives were not lost. This was thanks to the existing defences, effective forecasting and the co-ordinated efforts of the emergency services and Natural Resources Wales, as well as of local authorities.

Er mai'r Rhyl a brofodd yr effeithiau gwaethaf i gartrefi, roedd ardaloedd eraill hefyd wedi gweld difrod sylweddol i eiddo a seilwaith. Achoswyd difrod helaeth i'r morglawdd o amgylch Mostyn ac ar hyd prif reilffordd gogledd Cymru. Cafodd sbwriel a gariwyd gan lifddwr ei adael ar y lein, ac roedd angen ei chlirio a'i hatgyweirio. Roedd disgwyl i'r lein ail-agor heddiw, 10 Rhagfyr. Caewyd rheilffordd Dyffryn Conwy rhwng Llandudno a Blaenau Ffestiniog oherwydd i falast gael ei olchi i ffwrdd yn Nhal-y-cafn. Mae'n debygol o aros ar gau tan ddydd Iau yr wythnos hon tra bod gwaith atgyweirio yn parhau. Ym Mae Cinmel yng Nghonwy, cafodd chwe eiddo eu gorlifo a sefydlwyd canolfan orffwys. Cafodd tri eiddo eu gorlifo yn Llanddulas ac un yn Nhraeth Coch ar Ynys Môn. Roedd hwn yn ddigwyddiad anghyffredin ac mae'n ffodus na chollwyd bywydau. Roedd hyn diolch i'r amddiffynfeydd presennol, rhagolygon effeithiol ac ymdrechion cydlynol y gwasanaethau brys a Chyfoeth Naturiol Cymru, yn ogystal ag awdurdodau lleol.

Under the Flood and Water Management Act 2010, a local authority should investigate flooding in its area. On this occasion, I have asked for an investigation into this coastal flood event to be co-ordinated by Natural Resources Wales and for the report to involve all of the north Wales authorities affected. As the flooding affected a large part of the north Wales coast, I feel that, on this occasion, one comprehensive report is better than three or four separate reports by the relevant local authorities. The source of the flooding is already fairly well understood, but this report will consider where and why any breaches occurred, show where improvements can be made, and help us to plan ahead to improve our resilience and response to such events in the future. We are currently investing over £240 million in flood and coastal erosion risk management over the life of this Government. In addition to this, we will receive over £60 million from the European regional development fund and central capital allocation over the period. This will reduce the risk for over 7,000 homes and businesses across Wales.

O dan Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, dylai awdurdod lleol ymchwilio i lifogydd yn ei ardal. Ar yr achlysur hwn, rwyf wedi gofyn i Gyfoeth Naturiol Cymru gyd-drefnu ymchwiliad i'r digwyddiad llifogydd arfordirol hwn ac i'r adroddiad gynnwys pob un o'r awdurdodau yn y Gogledd yr effeithiwyd arnynt. Gan fod y llifogydd wedi effeithio ar ran helaeth o arfordir gogledd Cymru, rwy'n teimlo bod un adroddiad cynhwysfawr, ar yr achlysur hwn, yn well na thri neu bedwar adroddiad ar wahân gan yr awdurdodau lleol perthnasol. Mae gennym ddealltwriaeth eithaf da eisoes o ffynhonnell y llifogydd, ond bydd yr adroddiad hwn yn ystyried ble a pham y digwyddodd unrhyw doriadau, yn dangos lle y gellir gwneud gwelliannau, ac yn ein helpu i gynllunio ymlaen llaw i allu gwrthsefyll digwyddiadau o'r fath yn well ac ymateb yn well iddynt yn y dyfodol. Ar hyn o bryd rydym yn buddsoddi dros £240 miliwn mewn rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yn ystod oes y Llywodraeth hon. Yn ogystal â hyn, byddwn yn derbyn dros £60 miliwn o'r gronfa datblygu rhanbarthol Ewrop a'r dyraniad cyfalaf canolog dros y cyfnod. Bydd hyn yn lleihau'r risg ar gyfer dros 7,000 o gartrefi a busnesau ledled Cymru.

Since 2011, the Welsh Government has provided £20 million for the significant recent improvements to coastal defences along the north Wales coast, and a further £9 million of works are planned. In particular, the west Rhyl coastal defence scheme, which I visited on Friday, is benefitting from £10 million of funding. This scheme, when complete, will reduce the risk to 2,700 properties and undoubtedly helped to avoid further impacts from last week's flood event. In addition, £11 million has also been invested in the recently completed Colwyn Bay coastal defence, with further phases planned. This provides greater protection to around 200 properties, the A55, the north Wales rail line and other key infrastructure. In addition to investment in flood infrastructure, Natural Resources Wales has recently carried out a flood awareness campaign in north Wales, working with communities and individuals on what action to take in the event of a flood. Five community and 24 business and caravan park flood plans have been completed, reaching over 4,000 people.

Ers 2011, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu £20 miliwn ar gyfer y gwelliannau diweddar sylweddol i amddiffynfeydd arfordirol ar hyd arfordir gogledd Cymru, ac mae gwerth £9 miliwn arall o waith ar y gweill. Yn benodol, mae cynllun amddiffyn arfordirol gorllewin y Rhyl, yr ymwelais ag ef ddydd Gwener, yn elwa o £10 miliwn o gyllid. Ar ôl ei gwblhau, bydd y cynllun hwn yn lleihau'r risg i 2,700 o dai ac yn ddi-os fe gynorthwyodd i osgoi rhagor o effeithiau gan lifogydd yr wythnos diwethaf. Yn ogystal, mae £11 miliwn hefyd wedi cael ei fuddsoddi mewn cynllun a gwblhawyd yn ddiweddar i amddiffyn yr arfordir ym Mae Colwyn, gyda rhagor o gamau yn yr arfaeth. Mae hwn yn amddiffyn yn well tua 200 eiddo, yr A55, reilffordd gogledd Cymru a seilwaith allweddol arall. Yn ogystal â buddsoddi mewn seilwaith llifogydd, cynhaliodd Cyfoeth Naturiol Cymru yn ddiweddar ymgyrch ymwybyddiaeth llifogydd yng ngogledd Cymru, gan weithio gyda chymunedau ac unigolion ynghylch y camau i'w cymryd os ceir llifogydd. Mae pum cynllun cymunedol a 24 o gynlluniau llifogydd busnesau a pharciau carafannau wedi eu cwblhau, gan gyrraedd dros 4,000 o bobl.

I will finish by repeating my thanks to all those who were involved in dealing with the event and who continue to work on the recovery. Being near Christmas, it is particularly difficult for those who have lost their homes or possessions in these floods. I am pleased to hear that Denbighshire is making sure that appropriate support is available throughout the Christmas period.

Rwyf am gloi trwy ailadrodd fy niolch i bawb a fu'n ymwneud â delio â'r digwyddiad ac sy'n parhau i weithio ar yr adferiad. Gan fod y Nadolig yn agos, mae'n arbennig o anodd i bobl sydd wedi colli eu cartrefi neu eiddo yn y llifogydd hyn. Rwy'n falch o glywed bod Sir Ddinbych yn gwneud yn siŵr bod cymorth priodol ar gael drwy gydol cyfnod y Nadolig.

15:24

## Ann Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Minister for his oral statement this afternoon and also for his visit to Rhyl and the flooded area on Friday. I think that the residents whom you spoke to and the emergency services, certainly, were very grateful that somebody had come up there. I also want to pay tribute, as you have done, to the emergency services, to the fire service, the police, the ambulance service, the Royal National Lifeboat Institution and the coastguards and to Denbighshire County Council itself, some of whose staff went over and above what was expected of them from the resilience plans, and also the wider community of Rhyl, which got together very quickly and has now started to try to support those people, many of whom are elderly people who, as you quite rightly say, being in bungalows, have lost virtually everything that they had.

Diolch i'r Gweinidog am ei ddatganiad llafar brynhawn heddiw a hefyd am ei ymweliad â'r Rhyl a'r ardal dan ddŵr ddydd Gwener. Credaf fod y trigolion y siaradoch chi â nhw a'r gwasanaethau brys, yn sicr, yn ddiolchgar iawn bod rhywun wedi dod i fyny yno. Rwyf hefyd am dalu teyrnged, fel yr ydych chi wedi'i wneud, i'r gwasanaethau brys, y gwasanaeth tân, yr heddlu, y gwasanaeth ambiwlans, Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub a gwylwyr y glannau ac i Gyngor Sir Ddinbych ei hun, yr aeth rhai o'r staff ymhell y tu hwnt i'r hyn a ddisgwylid ganddynt, a hefyd i gymuned ehangach y Rhyl, a ddaeth at ei gilydd yn gyflym iawn ac sydd yn awr wedi dechrau ceisio cefnogi'r bobl hynny, y mae llawer ohonynt yn bobl oedrannus ac sydd, fel y dywedwch yn briodol, o fod mewn byngalos, wedi colli bron popeth a oedd ganddynt.

The clear-up operation is now under way, and I think what we will have to try to do is make sure that resources are still there for those people who will need them. One of the issues that is starting to emerge from preliminary talks with people is the fact that the communications appeared not to have worked as successfully as people were saying. There were people telling us that they were unable to find sandbags. People have started to tell us that they believe that the flood wardens were not alerted to the fact—the problem being that the modelling produced said that this tidal surge would miss Rhyl, and, unfortunately, it did not. There seems have been some lack of communication. People were left not knowing where the rest centre would be, and, even late on the Friday evening, when some homes had not had power restored, people were trying to find out where they could go to get some information.

Mae'r gwaith glanhau bellach ar waith, ac rwy'n meddwl mai'r hyn y bydd yn rhaid i ni geisio ei wneud yw gwneud yn siŵr bod adnoddau yn dal i fod yno ar gyfer y bobl hynny a fydd eu hangen. Un o'r materion sy'n dechrau dod i'r amlwg o'r trafodaethau rhagarweiniol gyda phobl yw'r ffaith nad yw'n ymddangos bod y cyfathrebu wedi gweithio mor llwyddiannus ag yr oedd pobl yn ei ddweud. Roedd pobl yn dweud wrthym nad oeddent yn gallu dod o hyd i fagiau tywod. Mae pobl wedi dechrau dweud wrthym eu bod yn credu nad oedd y wardeiniaid llifogydd wedi cael gwybod am y ffaith—y broblem yw bod y modelu a gynhyrchwyd yn dweud y byddai'r ymchwydd llanw hwn yn methu'r Rhyl, ac, yn anffodus, ni wnaeth. Mae'n ymddangos y bu rhywfaint o ddiffyg cyfathrebu. Roedd pobl wedi'u gadael heb wybod lle byddai'r ganolfan orffwys, a hyd yn oed yn hwyr ar y nos Wener, pan nad oedd rhai cartrefi wedi cael adfer eu pŵer, roedd pobl yn ceisio canfod i ble y gallent fynd i gael rhywfaint o wybodaeth.

I am pleased that you are going to have a co-ordinated report, Minister, and I think that that is indeed a worthwhile thing to do, but I would like to see the report widened out to include not only those people who were flooded, but the many others who were affected by the power cut from where the substations are placed. I think that there are some wider issues around the future planning of where substations are located.

Rwy'n falch eich bod yn mynd i gael adroddiad cydlynol, Weinidog, ac rwy'n credu bod hynny wir yn beth gwerth chweil i'w wneud, ond hoffwn i weld yr adroddiad yn cael ei ehangu i gynnwys nid yn unig y bobl hynny a ddioddefodd lifogydd, ond llawer o rai eraill a gafodd eu heffeithio gan y toriad trydan o ble y mae'r is-orsafoedd wedi'u lleoli. Credaf fod rhai materion ehangach o amgylch cynllunio lle i leoli is-orsafoedd yn y dyfodol.

The other thing that we need to know is that we have the insurance companies on board as well. Many people who had lost power as a result of the flooding at the substation are having great difficulty with insurance companies now because, basically, they were not flooded, and yet they are suffering. So, I wonder whether, when you do talk to your officials, and perhaps to Ministers across the Cabinet, you would look at the whole of this episode. Of course, it is just 20 years since the previous flood, and there are many who have now been flooded for the second time, and they will want to have answers to some very serious questions. That is not for today; that is for later.

Y peth arall y mae angen i ni wybod yw bod y cwmnïau yswiriant yn gefnogol yn ogystal. Mae llawer o bobl a oedd wedi colli pŵer o ganlyniad i'r llifogydd yn yr is-orsaf yn cael anhawster mawr gyda chwmnïau yswiriant yn awr oherwydd, yn y bôn, nid chawsant lifogydd, ac eto maent yn dioddef. Felly, tybed, pan fyddwch yn siarad â'ch swyddogion, ac efallai â Gweinidogion ar draws y Cabinet, a fyddech yn edrych ar y digwyddiad hwn yn ei gyfanrwydd? Wrth gwrs, dim ond 20 mlynedd sydd ers y llifogydd blaenorol, ac mae llawer bellach wedi cael llifogydd am yr ail dro, a byddant yn awyddus i gael atebion i rai cwestiynau difrifol iawn. Nid yw hynny'n ar gyfer heddiw, mae hynny yw ar gyfer yn nes ymlaen.

Once again, I am sure that the whole community of Rhyl is very grateful to you for your quick action in coming out and walking the patch with me. Like you, I think I have kept shoe companies in existence, because I have had to use that much polish to try to get the muck off my shoes—but that is the least of the worries. There are a lot of people who have lost an awful lot, and what we have to do is be there to support them throughout this difficult period.

Unwaith eto, rwy'n siŵr bod y gymuned gyfan yn y Rhyl yn ddiolchgar iawn i chi am ymateb yn gyflym a dod allan a cherdded yr ardal gyda mi. Fel chi, rwy'n meddwl fy mod wedi cadw cwmnïau esgidiau mewn busnes, oherwydd fy mod wedi gorfod defnyddio gymaint o bolish i geisio cael y baw oddi ar fy esgidiau—ond dyna yw'r lleiaf o'r pryderon. Mae llawer o bobl sydd wedi colli llawer iawn, a'r hyn y mae'n rhaid inni ei wneud yw bod yno i'w cefnogi drwy'r cyfnod anodd hwn.

15:27

## Alun Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank the Member for the Vale of Clwyd for her very kind remarks. Again, I will echo the remarks that she made in relation to the work of the emergency services and other agencies involved in responding to events at the end of last week. It may be useful if the Member were to write to me with regard to some of the issues that she has brought up there. Certainly those wider, contextual issues are important in terms of understanding what happened last week and how we can deal with it in the future. Those wider issues are ones that I would very much welcome correspondence from the Member on, from her experience talking to the community at the time.

Diolch i'r Aelod dros Ddyffryn Clwyd am ei sylwadau caredig iawn. Unwaith eto, hoffwn adleisio sylwadau a wnaeth mewn cysylltiad â gwaith y gwasanaethau brys ac asiantaethau eraill a fu'n ymateb i ddigwyddiadau ar ddiwedd yr wythnos diwethaf. Gall fod yn ddefnyddiol pe byddai'r Aelod yn ysgrifennu ataf ynglŷn â rhai o'r materion y mae hi wedi eu codi. Yn sicr mae'r materion ehangach, cyd-destunol yn bwysig o ran deall yr hyn a ddigwyddodd yr wythnos diwethaf a sut y gallwn ymdrin â hyn yn y dyfodol. Byddwn yn croesawu gohebiaeth gan yr Aelod yn fawr iawn ar y materion ehangach hyn, o'i phrofiad o siarad â'r gymuned ar y pryd.

I felt Denbighshire County Council responded very well to what happened last week. Certainly, Denbighshire has found itself in significant difficulties recently with the events in Ruthin and St Asaph, and we recognise the work that the local authority has done in responding to that, but also the way that the wider community in Rhyl responded to events, taking those affected into their hearts and taking care of those people. I think everybody who was affected feels that sense of community within the town, and I think that is something which is appreciated.

Roeddwn yn teimlo bod Cyngor Sir Ddinbych wedi ymateb yn dda iawn i'r hyn a ddigwyddodd yr wythnos diwethaf. Yn sicr, mae Sir Ddinbych wedi'i chael ei hun mewn anawsterau sylweddol yn ddiweddar gyda digwyddiadau yn Rhuthun a Llanelwy, ac rydym yn cydnabod y gwaith y mae'r awdurdod lleol wedi'i wneud wrth ymateb i hynny, ond hefyd y ffordd y mae'r gymuned ehangach yn y Rhyl wedi ymateb i ddigwyddiadau, gan gymryd y rhai yr effeithiwyd arnynt i'w calonnau a gofalu am y bobl hynny. Rwy'n meddwl bod pawb a gafodd eu heffeithio yn teimlo bod ymdeimlad o gymuned yn y dref, a chredaf fod hynny'n rhywbeth sy'n cael ei werthfawrogi.

I spoke to nearly everybody I met about resources. I was told that there were sufficient resources in the area to deal both with the event itself and the immediate aftermath. Clearly, if there are ongoing issues, those are issues that we would be very happy to discuss at that time, when we are aware of what those wider resource claims might be.

Siaradais â bron pawb y cyfarfûm â nhw am adnoddau. Dywedwyd wrthyf bod digon o adnoddau yn yr ardal i ymdrin â'r digwyddiad ei hun a'r canlyniadau uniongyrchol. Yn amlwg, os oes materion parhaus, byddem yn hapus iawn i'w trafod bryd hynny, pan fyddwn yn ymwybodol o'r hyn y gallai rhai o'r honiadau ehangach fod o ran adnoddau.

In terms of how we understood what was happening, you are certainly right—the modelling did indicate that the biggest impact would be further along the coast, and, certainly, as the events of last week unfolded, our expectation was that we would see a bigger effect in Flintshire than in Denbighshire and Conwy, where we actually saw that. My view is that this modelling does give us indications, but, quite often, even the most sophisticated modelling cannot absolutely accurately predict the impact of nature. The modelling itself enabled us to plan a response, but we obviously need to have the capacity to respond to exactly what happens, as it happens.

O ran ein dealltwriaeth o'r hyn a oedd yn digwydd, rydych yn sicr yn iawn—roedd y modelu yn dangos y byddai'r effaith mwyaf ymhellach ar hyd yr arfordir, ac, yn sicr, wrth i ddigwyddiadau'r wythnos diwethaf ddatblygu, ein disgwyliad oedd y byddem yn gweld effaith fwy yn Sir y Fflint nag yn Sir Ddinbych a Chonwy, lle gwelwyd hynny mewn gwirionedd. Fy marn i yw bod y modelu hwn yn rhoi arwyddion i ni, ond, yn eithaf aml, ni all hyd yn oed y modelu mwyaf soffistigedig ragweld effaith natur yn gwbl gywir. Fe wnaeth y modelu ei hun ein galluogi i gynllunio ymateb, ond yn amlwg mae angen inni fod â'r gallu i ymateb i beth yn union sy'n digwydd, wrth ido ddigwydd.

The final point that I would like to make in answer to the questions is on infrastructure. I know that we and Chris Ruane visited part of the infrastructure that had been damaged by the flooding episode, namely an electricity substation right by the sea wall. Now, one of the lessons from the Gloucestershire floods, some time ago, was that we need to ensure that infrastructure exists in a protected environment. That is something that I think, and I hope, will figure in the reports that are written on this event, and something that we will be taking into consideration in the future.

Mae'r pwynt olaf yr hoffwn ei wneud wrth ateb y cwestiynau yn ymwneud â seilwaith. Rwy'n gwybod ein bod ni a Chris Ruane wedi ymweld â rhan o'r seilwaith a ddifrodwyd gan y llifogydd, sef is-orsaf drydan yn union ger y morglawdd. Nawr, un o'r gwersi o lifogydd Swydd Gaerloyw, beth amser yn ôl, oedd bod angen inni sicrhau bod y seilwaith yn bodoli mewn amgylchedd a ddiogelir. Mae hynny'n rhywbeth rwy'n meddwl, ac rwy'n gobeithio, fydd yn nodwedd yn yr adroddiadau sy'n cael eu hysgrifennu ar y digwyddiad hwn, ac yn rhywbeth y byddwn yn ei ystyried yn y dyfodol.

15:30

## Darren Millar Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Minister, for your statement. Like the Member for the Vale of Clwyd, I want to thank you for taking an interest in my constituency, and for visiting so soon after the events, and for taking the time to come to Kinmel Bay on Friday to meet with businesses and residents on the ground. I, too, want to pay tribute to the very effective work of the emergency services, and, indeed, to Conwy County Borough Council, as well as the voluntary organisations, which stepped up to the plate and delivered, in terms of the work that they were doing—many of them going above and beyond their usual call of duties. I also want to thank Natural Resources Wales, actually, for the way in which it kept me, as an Assembly Member, informed about the problems that were occurring on the ground, throughout the time the drama was unfolding.

Diolch ichi, Weinidog am eich datganiad. Fel yr Aelod dros Ddyffryn Clwyd, rwyf am ddiolch ichi am ddangos diddordeb yn fy etholaeth, ac am ymweld mor fuan ar ôl y digwyddiadau, ac am gymryd yr amser i ddod i Fae Cinmel ddydd Gwener i gyfarfod â busnesau a thrigolion ar lawr gwlad. Rwyf innau, hefyd, am dalu teyrnged i waith effeithiol iawn y gwasanaethau brys, ac, yn wir, i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, yn ogystal â'r mudiadau gwirfoddol, a gymerodd gyfrifoldeb ac a gyflawnodd, o ran y gwaith yr oeddent yn ei wneud—aeth llawer ohonynt y tu hwnt i'w dyletswyddau arferol. Rwyf hefyd am ddiolch i Gyfoeth Naturiol Cymru, mewn gwirionedd, am y ffordd y rhoddodd y wybodaeth ddiweddaraf imi, fel Aelod Cynulliad, am y problemau a oedd yn digwydd ar lawr gwlad, wrth i'r ddrama ddatblygu.

I am a person who has lived through the devastation of flooding—in 1990, in Towyn, when the sea wall was breached there. I know how devastating it is, and I know how disruptive it is. My heart goes out to all of those homes and businesses that have been affected in the run-up to the festive period. We know how difficult flooding is to deal with at any time of the year, but I think that it is particularly difficult around Christmas time.

Rwy'n rhywun sydd wedi byw trwy ddinistr llifogydd—ym 1990, yn Nhowyn, pan fethodd y morglawdd yno. Rwy'n gwybod pa mor ddinistriol ydyw, ac rwy'n gwybod faint o anhrefn y mae'n ei achosi. Mae fy nghalon yn gwaedu dros bob un o'r cartrefi a'r busnesau hynny sydd wedi cael eu heffeithio yn y cyfnod yn arwain at y Nadolig. Rydym yn gwybod pa mor anodd yw ymdopi â llifogydd ar unrhyw adeg o'r flwyddyn, ond rwy'n meddwl ei bod yn arbennig o anodd o gwmpas adeg y Nadolig.

We were fortunate that lives were not lost. I think that the fact that the flooding took place during the daytime was a major factor in that; had it happened in the midnight hour, at the time of the following high tide, the situation could have been very different.

Roeddem yn ffodus na chollwyd bywydau. Rwy'n meddwl fod y ffaith i'r llifogydd ddigwydd yn ystod y dydd yn ffactor bwysig o ran hynny; pe bai wedi digwydd ar hanner nos, ar adeg y llanw uchel dilynol, gallai'r sefyllfa fod wedi bod yn wahanol iawn.

The Rhyl area, of course, suffered the worst impact of the flooding event, as a result of the breach of the secondary defences. However, there were homes in my constituency—in Llanddulas and, indeed, in Kinmel Bay, on the Sandy Cove estate—that were affected. I think that it is also important to remember that, in a local holiday caravan park in Kinmel Bay, residential plots had to be evacuated—eight of them, in all—and those people had to be found alternative accommodation.

Ardal y Rhyl, wrth gwrs, wnaeth ddioddef effaith waethaf y llifogydd, oherwydd i'r amddiffynfeydd eilaidd fethu. Fodd bynnag, roedd cartrefi yn fy etholaeth i—yn Llanddulas ac, yn wir, ym Mae Cinmel, ar ystad Sandy Cove—a gafodd eu heffeithio. Rwy'n meddwl ei bod hefyd yn bwysig cofio y bu raid gwacáu plotiau preswyl mewn parc carafannau gwyliau lleol ym Mae Cinmel—cyfanswm o wyth ohonynt—ac roedd yn rhaid dod o hyd i lety arall i'r bobl hynny.

I very much welcome, Minister, the announcement of the joint investigation. I think that that is absolutely the right way forward, given that this was a north-Wales-wide event, and that it was not confined to a single local authority area. I would appreciate to know the timeline by which you expect that investigation to be completed; so, if that is something that you have available at the moment, that would be useful.

Rwy'n croesawu'n fawr iawn, Weinidog, y cyhoeddiad am yr ymchwiliad ar y cyd. Credaf mai dyna'n sicr yw'r ffordd gywir o fynd ati, o ystyried bod hwn yn ddigwyddiad a effeithiodd ar ogledd Cymru gyfan, ac nad oedd yn gyfyngedig i ardal awdurdod lleol unigol. Byddwn yn gwerthfawrogi cael gwybod erbyn pryd yr ydych yn disgwyl i'r ymchwiliad hwnnw gael ei gwblhau; felly, os yw hynny'n rhywbeth sydd ar gael gennych ar hyn o bryd, byddai hynny'n ddefnyddiol.

I want to make a few observations in terms of the experience of my constituents on the ground, having met with a few of them, about the problems that they encountered. I think that there is a question about the adequacy of the flood warning system that we have. We know that many residents have registered with Floodline, and received e-mails and text message alerts, as well as telephone calls, to alert them to the fact that there may be a flooding incident on its way. In fact, I received one for my home address. However, not all businesses, not all homeowners, and not all householders received those alerts. Unfortunately, in spite of the fact that we have flood wardens on the ground in parts of the Towyn and Kinmel Bay area, some of those flood wardens were not even given a notice to say that a flood was imminent.

Rwyf am wneud ychydig o sylwadau o ran profiad fy etholwyr ar lawr gwlad, ar ôl cyfarfod â rhai ohonynt, am y problemau y daethant ar eu traws. Credaf fod cwestiwn ynglŷn â digonolrwydd y system rhybuddio rhag llifogydd sydd gennym. Gwyddom fod llawer o drigolion wedi cofrestru gyda Rhybuddion Llifogydd, ac wedi derbyn rhybuddion e-bost a negeseuon testun, yn ogystal â galwadau ffôn, i roi gwybod iddynt y gallai llifogydd fod ar eu ffordd. Yn wir, derbyniais un ar gyfer fy nghyfeiriad cartref. Fodd bynnag, ni wnaeth pob busnes, pob perchennog tŷ, a phob deiliaid tŷ dderbyn y rhybuddion hynny. Yn anffodus, er bod gennym wardeiniaid llifogydd ar lawr gwlad mewn rhannau o ardal Towyn a Bae Cinmel, roedd rhai o'r wardeiniaid llifogydd hynny heb hyd yn oed gael hysbysiad i ddweud bod llifogydd ar fin digwydd.

I do think that we need to work harder. I appreciate the effort that has gone in by Natural Resources Wales to communicate about the availability of flood alerts, and the flood warning system, but I think that we need to make a more concerted effort to ensure that we get the message out that these tools are available to people to help them prepare.

Rwy'n credu bod angen inni weithio'n galetach. Rwy'n gwerthfawrogi'r ymdrech gan Gyfoeth Naturiol Cymru i roi gwybod i bobl bod rhybuddion llifogydd, a'r system rhybuddio rhag llifogydd, ar gael ond credaf fod angen i ni wneud ymdrech fwy pendant i sicrhau ein bod yn lledaenu'r neges bod y pethau hyn ar gael i bobl i'w helpu i baratoi.

However, that said, even the people who did receive warnings, and who tried then to access some support in order to help them prepare their own properties for the potential flood, were told that there was no availability of sandbags, and that there were no floodgates that they could put on their doors. That is a cause for concern. I think that there is a joint responsibility here, in terms of local authorities and Natural Resources Wales, to make sure that those resources are available on the ground, in those vulnerable areas.

Fodd bynnag, wedi dweud hynny, dywedwyd hyd yn oed wrth y bobl a dderbyniodd rybuddion, ac a geisiodd wedyn gael rhywfaint o gefnogaeth er mwyn eu helpu i baratoi eu heiddo eu hunain ar gyfer y llifogydd posibl, nad oedd bagiau tywod ar gael, ac nad oedd unrhyw lifddorau y gallent eu rhoi ar eu drysau. Mae hynny'n peri pryder. Rwy'n meddwl fod cyfrifoldeb ar y cyd yma, o ran awdurdodau lleol a Chyfoeth Naturiol Cymru, i sicrhau bod yr adnoddau hynny ar gael ar lawr gwlad, yn yr ardaloedd hynny sy'n agored i niwed.

I mentioned that there was a holiday park affected by the floods in my constituency. I know that you saw the damage that had been caused on that park to some of the caravans, which had been smashed up, literally, as a result of them floating on the sea water. One thing that the caravan park manager told me was that they were not aware of the place of safe refuge that they were supposed to relocate the individuals on the park to when the flood came. It is quite clear that there are some inadequacies in some of the caravan park flood plans, certainly in my constituency, which is densely populated with holiday caravan parks. I would appreciate some reassurance, Minister, that you will ensure that the investigation that will now take place looks at that aspect in particular to ensure that things are adequate. We are fortunate that it is the out-of-season period at the moment in north Wales, but had this flood occurred at a time when those holiday parks were fully occupied, you would find that the outcome could have been very tragic indeed.

Soniais fod parc gwyliau wedi'i effeithio gan y llifogydd yn fy etholaeth. Gwn eich bod wedi gweld y difrod a achoswyd yn y parc i rai o'r carafanau, a chwalwyd, yn llythrennol, o ganlyniad i arnofio ar ddŵr y môr. Un peth a ddywedodd rheolwr y parc carafannau wrthyf oedd nad oeddent yn ymwybodol o ble'r oedd y lloches yr oeddent i fod i symud unigolion yn y parc iddi pan ddaeth y llifogydd. Mae'n eithaf clir bod rhai diffygion yn rhai o gynlluniau llifogydd y parciau carafannau, yn sicr yn fy etholaeth i, sydd â llawer iawn o barciau carafannau gwyliau. Byddwn yn gwerthfawrogi rhywfaint o sicrwydd, Weinidog, y byddwch yn sicrhau bod yr ymchwiliad a gynhelir yn awr yn ystyried yr agwedd honno yn enwedig i sicrhau bod popeth yn ddigonol. Rydym yn ffodus nad ydym yng nghanol y tymor gwyliau ar hyn o bryd yn y gogledd, ond pe byddai'r llifogydd hyn wedi digwydd ar adeg pan oedd y parciau gwyliau hynny'n llawn, byddech yn gweld y gallai'r canlyniad fod wedi bod yn drist iawn yn wir.

I have one final point. I acknowledge the significant investment that has gone into flood defences in my constituency. The flooding would have been much worse had that investment not gone in. There is one part of the coastline in my constituency that is particularly vulnerable, and that is the Old Colwyn flood defences on the coastal stretch, which is a shared responsibility between the local authority, Network Rail and the Welsh Government. Minister, will you now seek to focus attention on that part of the coastline to ensure that vital infrastructure, such as the A55 and the north Wales line, receives even greater protection than it currently has?

Mae gennyf un pwynt olaf. Rwy'n cydnabod yr arian sylweddol sydd wedi'i fuddsoddi mewn amddiffynfeydd rhag llifogydd yn fy etholaeth. Byddai'r llifogydd wedi bod yn llawer gwaeth heb y buddsoddiad hwnnw. Mae un rhan o'r arfordir yn fy etholaeth i sy'n arbennig o agored i niwed, sef amddiffynfeydd rhag llifogydd Hen Golwyn ar y darn arfordirol, ac mae'r awdurdod lleol, Network Rail a Llywodraeth Cymru yn rhannu'r cyfrifoldeb am y rhain. Weinidog, a wnewch chi'n awr geisio canolbwyntio sylw ar y rhan honno o'r arfordir i sicrhau bod seilwaith hanfodol, megis yr A55 a rheilffordd gogledd Cymru, yn cael ei amddiffyn yn well hyd yn oed nag ar hyn o bryd?

15:36

## Alun Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank Darren Millar for his kind remarks. I am sure that he will lose no opportunity to focus my attention on those matters. I will ensure that the transcript of this discussion is made available to NRW in co-ordinating a report on this event. All the issues raised by Members will be captured by that transcript. I will ask NRW to take all of those comments into account in preparing the report.

Diolch i Darren Millar am ei sylwadau caredig. Rwy'n siŵr na fydd yn colli unrhyw gyfle i ganolbwyntio fy sylw ar y materion hynny. Byddaf yn sicrhau bod trawsgrifiad o'r drafodaeth hon ar gael i Gyfoeth Naturiol Cymru wrth gydlynu adroddiad ar y digwyddiad. Bydd yr holl faterion a godwyd gan yr Aelodau yn cael eu cofnodi yn y trawsgrifiad. Byddaf yn gofyn i Gyfoeth Naturiol Cymru ystyried yr holl sylwadau hynny wrth baratoi'r adroddiad.

I will say to Members that I felt that the communications, the flood warnings and the flood plans, had worked reasonably well. However, it is clear from comments made by both Members that that perhaps is not the case. I will draw that to the attention of NRW when it responds. I know that a great deal of investment has gone into those communications mechanisms. I have spoken to people who work or live on caravan parks in north Wales and my feeling was that that investment was beginning to pay off. Clearly, if that is not the case, then we need to review what is being done there and we need to improve how we manage those mechanisms. I give an undertaking that I will draw that to NRW's attention.

Byddaf yn dweud wrth yr Aelodau fy mod yn teimlo bod y cyfathrebu, y rhybuddion llifogydd a'r cynlluniau llifogydd, wedi gweithio'n weddol dda. Fodd bynnag, mae'n amlwg o'r sylwadau a wnaed gan Aelodau nad yw hynny o bosibl yn wir. Byddaf yn tynnu sylw Cyfoeth Naturiol Cymru at hynny pan mae'n ymateb. Gwn fod llawer iawn o arian wedi'i fuddsoddi yn y mecanweithiau cyfathrebu hynny. Rwyf wedi siarad â phobl sy'n gweithio neu'n byw mewn parciau carafannau yn y gogledd a'm teimlad i oedd bod y buddsoddiad yn dechrau dwyn ffrwyth. Yn amlwg, os nad yw hynny'n wir, mae angen i ni adolygu'r hyn sy'n cael ei wneud yno ac mae angen inni wella'r ffordd yr ydym yn rheoli'r mecanweithiau hynny. Rhoddaf addewid y byddaf yn tynnu sylw Cyfoeth Naturiol Cymru at hynny.

Like others, I was very impressed with the way in which emergency services worked together with voluntary services and local authorities to provide an almost seamless response to people in need. I would like to say a particular word about NRW. In many ways, this was the first emergency test for NRW since its establishment in the spring. I met with Emyr Roberts, chief executive, while I was in Rhyl and Kinmel Bay, and I felt that the work done by members of staff of NRW was first class. I took the time to visit members of staff locally to thank those who had been working there at the time.

Fel eraill, gwnaed argraff fawr arnaf gan y ffordd y gweithiodd y gwasanaethau brys gyda gwasanaethau gwirfoddol ac awdurdodau lleol i ddarparu ymateb di-dor bron i bobl mewn angen. Hoffwn ddweud gair penodol am Gyfoeth Naturiol Cymru. Mewn sawl ffordd, hwn oedd y prawf argyfwng cyntaf i Gyfoeth Naturiol Cymru ers ei sefydlu yn y gwanwyn. Cyfarfûm ag Emyr Roberts, y prif weithredwr, tra'r oeddwn yn y Rhyl a Bae Cinmel, ac roeddwn yn teimlo bod y gwaith a wneir gan aelodau o staff Cyfoeth Naturiol Cymru o'r radd flaenaf. Cymerais yr amser i ymweld ag aelodau o staff yn lleol i ddiolch i'r rhai a oedd wedi bod yn gweithio yno ar y pryd.

I do not have a report timescale available to me at the moment, but I will write to all north Wales Members with the latest estimate.

Nid oes amserlen ar gael imi ar gyfer yr adroddiad ar hyn o bryd, ond byddaf yn ysgrifennu at holl Aelodau gogledd Cymru gyda'r amcangyfrif diweddaraf.

In terms of the wider damage, I was taken aback by the level of damage both at Sandy Cove and at the caravan park that we visited together. It is only at times like this that we understand the real power of the sea. Ann Jones said that the sea can be a great servant but a terrible master. As was said, the events took place during daylight, which undoubtedly led to lives being saved. Anyone who has experienced the power of the waves and the power of the sea at night-time will know that it is a truly frightening thing. The impact of this storm surge has affected many thousands of people across the whole north Wales coast.

O ran y difrod ehangach, roeddwn wedi synnu gan lefel y difrod yn Sandy Cove ac yn y parc carafannau yr ymwelsom ni â nhw gyda'n gilydd. Dim ond ar adegau fel hyn yr ydym yn deall gwir rym y môr. Dywedodd Ann Jones y gall y môr fod yn was gwych, ond yn feistr ofnadwy. Fel y dywedwyd, digwyddodd y llifogydd yn ystod golau dydd, a achubodd fywydau yn sicr. Bydd unrhyw un sydd wedi profi grym y tonnau a grym y môr yn y nos yn gwybod ei fod yn beth gwirioneddol frawychus. Mae effaith yr ymchwydd storm wedi effeithio ar filoedd o bobl ar draws arfordir y gogledd.

15:39

## Llyr Gruffydd Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Ar ran Plaid Cymru, hoffwn estyn ein cydymdeimlad â'r unigolion a'r teuluoedd sydd wedi'u heffeithio â'r digwyddiadau hyn, yn ogystal â diolch i'r holl wasanaethau brys, y cyngor sir, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r llu o grwpiau, mudiadau a gwirfoddolwyr lleol sydd wedi tynnu ynghyd mewn ymateb i'r digwyddiadau hyn. Mae nifer o sylwadau ynglŷn â rhai o'r pethau mwyaf 'immediate' wedi eu gwneud, felly hoffwn ffocysu ychydig yn fwy ar yr hirdymor. Rydym i gyd yn gwybod, wrth gwrs, bod yr holl ystadegau yn dangos mai mynd yn waeth y bydd y sefyllfa gydag amser. Byddwn yn gweld mwy a mwy o ddigwyddiadau tywydd eithafol fel hyn yn y blynyddoedd i ddod. Mae lefelau'r môr yn mynd i barhau i godi ac mae'r 'Met Office' wedi dangos y bydd 22% yn fwy o law yn disgyn yn ddyddiol erbyn 2050.

On behalf of Plaid, I would like to extend our sympathies to the individuals and families that have been affected by these events, as well as express our thanks to all of the emergency services, the county council, Natural Resources Wales and the host of local groups, organisations and volunteers who have come together in response to these events. Many of the comments on some of the most immediate issues have been made, so I would like to focus a little on the longer term. We all know, of course, that all the statistics demonstrate that the situation is going to get worse over time. We will see more and more extreme weather events of this kind in the ensuing years. Sea levels are going to continue to rise and the Met Office has demonstrated that 22% more rain will fall on a daily basis by 2050.

Rwy'n croesawu, wrth gwrs, y ffaith bod y Llywodraeth yn buddsoddi £240 miliwn dros bum mlynedd y Llywodraeth hon, ond mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi dangos y bydd angen gwario rhyw £135 miliwn bob blwyddyn erbyn 2035, jest i gynnal y lefel bresennol o amddiffynfeydd. Felly, mae cwestiwn sylfaenol, rwy'n meddwl, ynglŷn â pha mor gynaliadwy yw buddsoddi fel y dylem, neu fel sydd angen, i allu mynd i'r afael â'r her sydd yn ein hwynebu yn y tymor hir. Byddwn yn licio clywed sylwadau gan y Gweinidog ynglŷn â pha mor realistig yw hi i gyrraedd y lefel o wariant y mae Cyfoeth Naturiol Cymru, er enghraifft, yn awgrymu sydd ei angen yn yr hirdymor, a pha waith y mae'r Llywodraeth yn ei wneud i ddatblygu datrysiadau mwy meddal. Rydym yn clywed, wrth gwrs, am y bwriad i fod yn fwy strategol o safbwynt y ffordd yr ydym yn rheoli'r adnoddau yng Nghymru. Gwn fod y cyd-destun ychydig yn wahanol o safbwynt y môr nag ydyw yng nghyd-destun rheoli llifogydd ar dir, ond mae cwestiynau yn codi ynglŷn â phethau fel 'managed retreats'—yn amlwg, mae hynny yn digwydd i raddau, ond ar ba bwynt y mae'r Llywodraeth yn teimlo y bydd yn rhaid inni edrych o ddifrif ar y llefydd lle mae pobl yn byw? Ni fydd hynny'n digwydd yn y tymor byr, na'r tymor canol, ond, yn sicr, bydd y pwynt yn dod lle bydd Llywodraeth yn y dyfodol yn gorfod datblygu strategaethau ar hyd y llinellau hynny.

I of course welcome the fact that the Government is investing £240 million over the five years of this Government, but Natural Resources Wales has demonstrated that some £135 million will need to be spent per annum by 2035, just to maintain the current level of flood defences. So, there is a fundamental question, I think, as to how sustainable investing as we should, or is required, is in order to tackle the huge challenges facing us in the longer term. I would like to hear some comments from the Minister as to how realistic it is to reach the level of expenditure that Natural Resources Wales, for example, suggests is needed in the long term, and what work the Government is undertaking to develop softer solutions. We hear, of course, of the intention to be more strategic in the way in which we manage resources in Wales. I know that the context is a little different in terms of the sea than it is in the context of managing terrestrial flooding, but questions do arise in terms of things like managed retreats—obviously, that happens to a certain extent, but at which point does the Government feel that we need to look seriously at the areas where people live? That will not happen in the short or the medium term, but, certainly, we will reach a point where a future Government will have to develop strategies along those lines.

Gan ein bod yn sôn am lefelau cyllidebau, mae'r Llywodraeth yn dweud wrthym yn gyson y bydd yn edrych i gyfeiriad y sector preifat i gynorthwyo gydag ysgwyddo peth o'r gost. Mae cyfeirio wedi bod at gwmnïau yswiriant, cwmnïau trafnidiaeth ac yn y blaen, ond bach iawn o gynnydd, rwy'n teimlo, y gwelwn yn y cyfeiriad hynny. Efallai y gall y Gweinidog roi diweddariad inni ar hynny. Pwy sy'n arwain ar y trafodaethau—y Llywodraeth neu Gyfoeth Naturiol Cymru? Ble ydych chi arni? Oes tebygolrwydd y gwelwn ni ddatblygiadau arwyddocaol yn y blynyddoedd nesaf?

Given that we are talking about budgets, the Government regularly tells us that it will be looking to the private sector to shoulder some of the cost. Reference has been made to insurance companies, transport companies and so on, but there has been very little progress in that regard, in my opinion. Perhaps the Minister could give us an update on that. Who is leading on those negotiations—the Government or Natural Resources Wales? Where are we with this? Is there a possibility that we will see significant developments over the next few years?

Rwy'n falch fod y Llywodraeth mewn sefyllfa i gael mynediad at bres Ewropeaidd i ategu at y buddsoddiad y mae'r Llywodraeth yn ei wneud. Rwy'n meddwl ei bod yn bwysig i ni gyd gofio fod hynny'n deillio'n uniongyrchol o sgîl y ffaith bod Cymru yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd, ac felly yn cael budd uniongyrchol.

I am pleased that the Government is in a position to access European funding to enhance the investment that the Government is making. I think that it is important that we all bear in mind that that is directly as a result of the fact that Wales is a member of the European Union, and therefore benefits directly as a result.

Mae Plaid Cymru yn y gorffennol wedi codi'r angen am fforwm llifogydd cenedlaethol—'national flood forum'—i Gymru. Roedd y Llywodraeth yn dweud bod trafodaethau yn digwydd i edrych ar y posibilrwydd, a byddwn yn licio clywed pa gynnydd sydd wedi bod yn hynny o beth, oherwydd mae'r angen am gyngor ac am gefnogaeth yn cael ei danlinellu o fis i fis pan fo digwyddiadau fel hyn yn digwydd. Byddai'r fforwm yn gallu darparu cyngor ymarferol am gyfarpar atal llifogydd i dai unigol. Roeddwn yn clywed am 'issues' gydag argaeledd sachau tywod, ac am enghreifftiau o bobl yn defnyddio sachau tatws a glo i drio cadw'r llifogydd allan o'r tŷ—dyna pa mor druenus oedd y diffyg o ran sachau tywod.

Plaid Cymru in the past has raised the need for a national flood forum for Wales. The Government said that discussions were ongoing to look at this possibility, and I would like to hear what progress has been made in that regard, because the need for advice and support is highlighted on a monthly basis when these sorts of events happen. A forum could provide practical advice on flood prevention equipment for individual homes. We heard of issues with the availability of sandbags, and of examples of people using sacks of potatoes or coal to try to keep the flood away from their home—such was the deficiency in terms of sandbags.

Byddai fforwm, wrth gwrs, yn gallu helpu gyda delio â chanlyniadau digwyddiadau fel hyn, nid yn unig o safbwynt mynd ati i wella'r sefyllfa o ran y difrod sydd wedi cael ei wneud a chynorthwyo unigolion gyda cheisiadau yswiriant ac yn y blaen, ond hefyd o safbwynt delio â phroblemau mwy hirdymor. Er enghraifft, mae ystadegau yn dangos bod lefelau uwch o broblemau iechyd meddwl yn datblygu yn sgîl digwyddiadau fel hyn.

A forum would, of course, assist in dealing with the outcomes of such events, not only from the point of view of putting right any damage that has been made and assisting individuals with insurance claims and so on, but also in terms of dealing with the more long-term problems. For example, there are statistics that demonstrate that higher levels of mental health problems develop as a result of events such as these.

Yn olaf, Ddirprwy Lywydd, er nad yw hi'n hawdd, efallai, gwneud hyn yng nghyd-destun y ffaith bod pobl newydd brofi trychineb o'r fath, mae'n rhaid i ni drio manteisio ar gyfleoedd positif sydd yn deillio o waith a fydd yn dod yn sgîl cynlluniau atal llifogydd. Mae cyfeiriadau wedi bod eisoes at y gwaith sydd wedi digwydd ym Mae Colwyn ac sydd wedi dod â buddiannau economaidd, hamdden, twristiaeth a thrafnidiaeth. Mae'n bwysig inni weld bod yna gyfleoedd a bod datrysiadau eraill yn gallu dod wrth fynd i'r afael â llifogydd. Un o'r rheini, wrth gwrs, yng nghyd-destun yr ardaloedd sydd wedi eu heffeithio yr wythnos hon, yw'r trafod ar y posibilrwydd o ddatblygu lagŵn llanw yn ardal Bae Colwyn. Byddai hynny, wrth gwrs, yn dod â nifer o fuddion, ac un o'r rheini fyddai'r posibilrwydd o gyfrannu at risg llifogydd. Byddwn yn falch iawn i glywed sylwadau'r Gweinidog ar y posibilrwydd hwnnw hefyd.

Finally, Deputy Presiding Officer, while it is not easy perhaps to achieve this in the context of the fact that people have just experienced such a disaster, we do have to try to take advantage of positive opportunities that emerge from work that will be done as a result of flood prevention plans. There has already been reference to the work that has happened in Colwyn Bay, which has brought economic, leisure, tourism and transport benefits. It is important that we see that there are opportunities and other solutions that can emerge when we tackle flooding. One of those, of course, in the context of the areas recently affected, is the discussion on the possibility of developing a tidal lagoon in the Colwyn Bay area. That would, of course, bring a number of benefits, and one of those would be the possibility of contributing to flood risk. I would be very pleased to hear the comments of the Minister on that possibility, too.

15:45

## Alun Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Nid wyf am gamu i mewn i'r drafodaeth honno'r prynhawn yma, ond rwy'n cytuno gyda lot fawr o'r pwyntiau y mae'r Aelod wedi eu gwneud. Yn arbennig, rwy'n cytuno gyda'r pwyntiau y bu ichi eu gwneud am yr hirdymor. Dyna'r union bwynt yr oeddwn yn trio ei wneud ar Radio Cymru ar ddydd Gwener, ond nid wyf yn gwybod a lwyddais ai peidio. Fodd bynnag, yn amlwg, rydym yn trafod llawer o ddigwyddiadau sy'n ymwneud â'r tywydd. Er enghraifft, bu inni drafod hyn yr wythnos diwethaf. Rydym yn trafod hyn yn fwy cyson yn awr ac rydym i gyd yn gweld bod hyn yn rhywbeth sydd yn mynd i barhau, felly mae'n rhaid inni sicrhau bod gennym y 'resilience' yr ydym i gyd wedi ei ddisgrifio eisoes. Felly, mae hyn yn rhywbeth sy'n bwydo i mewn i'r drafodaeth ac yn creu'r cyd-destun ar gyfer y rhaglen fuddsoddi sydd gennym fel Llywodraeth.

I do not want to step into that discussion this afternoon, but I agree with a great many of the points that the Member has made. In particular, I agree with the points that you made about the long term. That is exactly the point that I was trying to make on Radio Cymru on Friday, but I do not know whether I succeeded in doing so, or not. However, obviously, we are discussing many events that relate to the weather. For example, we discussed this last week. We are discussing this more frequently now and we all realise that this is something that is going to continue, therefore we have to ensure that we have the resilience that we have all described on previous occasions. Therefore, this has to be something that feeds into the discussion and creates the context for the investment programme that we have as a Government.

Bu ichi sôn am y strwythur meddal yn lle'r strwythur caled yr ydym yn ei drafod fel arfer. Nid wyf yn siŵr y byddai hynny wedi bod yn llawer o help y tro hwn oherwydd rydym yn sôn am lifogydd o'r môr. Pan ydych yn sôn am brosiectau meddal, rydych yn sôn am y math o lifogydd sy'n dod o afonydd ac efallai o ganlyniad i ddŵr wyneb. Felly, efallai roeddwn yn sôn am bethau gwahanol yr wythnos diwethaf. Fodd bynnag, y pwynt am raglen hirdymor yw'r pwynt pwysig, ac mae hyn yn rhywbeth y byddaf yn trio ei bwysleisio wrth inni symud ymlaen a thrafod y gyllideb derfynol yn nes ymlaen y prynhawn yma. Credaf fod pob un ohonom am weld y buddsoddiad yn cael ei wneud lle mae'r angen mwyaf.

You talked about the soft structure instead of the hard structure that we normally discuss. I am not sure that that would have been much help this time because we are talking about floods from the sea. When you talk about soft projects, you are talking about the type of floods that stem from rivers and perhaps as a result of surface water. Therefore, perhaps I was talking about different things last week. However, it is the point about the long-term programme that is important, and this is also something that I will try to emphasise as we move forward and discuss the final budget later this afternoon. I believe that each one of us wants to see the investment being made in the area of greatest need.

Un peth rwy'n awyddus i'w wneud y tro nesaf—ac rwy'n credu fy mod yn cwrdd â Chyfoeth Naturiol Cymru yfory, fel mae'n digwydd—yw sicrhau bod gennym raglen fuddsoddi a fydd yn adlewyrchu'r angen i atal y llifogydd hyn rhag cael impact ar dai a chartrefi pobl, cymunedau ac 'infrastructure' y wlad. Dyna un union sut yr ydym am weld y cronfeydd Ewropeaidd yn cael eu defnyddio yn y dyfodol. Byddwch yn cofio imi wneud datganiad ar hynny cyn y 'reshuffle', ac mae hyn yn rhywbeth y mae Jane Hutt wedi pwysleisio ers hynny—hynny yw, rydym am weld y buddsoddiad hwn i sicrhau'r 'infrastructure' sydd gennym yng Nghymru. Fodd bynnag, edrychaf ymlaen at gael sgwrs am y math o fframwaith cenedlaethol yr ydych yn awgrymu sydd ei angen arnom. Rwy'n tueddu i gytuno â hynny, a dyna'n union y math o waith yr wyf yn disgwyl a gobeithio y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei arwain.

One thing that I am keen to do this time—and I believe that I am meeting Natural Resources Wales tomorrow, as it happens—is to ensure that we have an investment programme that will reflect the need to prevent these floods from having an impact on people's houses and homes, communities and the infrastructure of the country. That is exactly how we want to see the European funds being used in the future. You will remember that I made a statement on that prior to the reshuffle, and this is something that Jane Hutt has emphasised since then—that is, that we want to see this investment being made in order to secure the infrastructure that we have in Wales. However, I look forward to haing a discussion about the type of national framework you suggest it is necessary for us to have. I tend to agree with that, and that is exactly the type of work that I expect and home Natural Resources Wales to lead.

15:48

## Aled Roberts Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Hoffwn i ychwanegu cydymdeimlad fy ngrŵp â'r holl deuluoedd a busnesau a gafodd eu heffeithio gan y sefyllfa yr wythnos diwethaf. Fel y mae pawb eisoes wedi ei ddweud, roedd yr amgylchiadau yn rhai eithafol, ac mae'n debyg nad oedd yn bosibl i unrhyw asiantaeth wneud rhyw lawer iawn, ond credaf y gallwn ymfalchïo yn y ffordd y bu i'r holl asiantaethau ymateb i'r sefyllfa. Rwy'n diolch iddynt am eu gwaith, gan gynnwys y gwasanaethau brys, yr awdurdodau lleol ac, yn wir, fel y dywedodd Ann Jones, y gymdeithas leol a ymatebodd mewn ffordd mor hael.

I would like to extend my group's sympathy to all those families and businesses affected by last week's events. As everyone has already said, the circumstances were extreme, and it appears that it was not possible for any agency to do very much, but I believe that we can take pride in the way in which all of the agencies responded to the situation. I thank them for their work, including the emergency services, local authorities and, as Ann Jones has said, the local community, which responded in such a generous way.

Mae cwestiynau yn yr hirdymor i ni fel sefydliad. Felly hoffwn ofyn ichi sut yn union y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cydlynu. Mae cwestiynau'n codi ynglŷn â'r modelu yr ydych wedi sôn amdano. Mae angen inni gael rhywfaint o annibyniaeth o ran y ffordd y mae'r adolygiad hwn yn cael ei gwblhau. Mae hefyd cwestiynau yn codi, fel dywedodd Llyr Huws Gruffydd, ynglŷn â chost yr amddiffynfeydd i gyd. Mae'r cynllun eleni yn dangos, o'r gwariant o ryw £240 miliwn, fod £24 miliwn wedi ei wario i amddiffyn rhyw 1,500 o dai, ac eto mae'r adroddiad yn dweud bod dros 229,000 o dai mewn perygl. Felly, mae maint y bygythiad yn un sylweddol. Fodd bynnag, fel y dywedodd Llyr, wrth inni weld newid yn yr hinsawdd, hwyrach fod y bygythiad yn tyfu'n fwy ac yn fwy bob blwyddyn.

There are questions for the longer term for us as an organisation. Therefore, I would like to ask you how exactly Natural Resources Wales will co-ordinate activities. Questions arise regarding all the modelling that you have already made reference to. We need to have some level of independence with regard to the way in which this review is completed. Questions also arise, as Llyr Huws Gruffydd has said, regarding the cost of all of these defences. The scheme this year shows that, of the expenditure of some £240 million, £24 million was spent to defend around 1,500 houses, while the report states that over 229,000 houses are at risk. Therefore, the scale of the threat is significant. However, as Llyr said, as we experience climate change, perhaps the threat will grow annually.

O ran y gymdeithas ehangach yn y gogledd, mae cwestiynau'n codi ynglŷn â'r system drafnidiaeth. Roedd y llifogydd wedi effeithio ar reilffordd y gogledd. Mae rheilffordd yn nyffryn Conwy lle mae dros £7 miliwn wedi'i wario gan Network Rail eisoes, ond, eto mae'r swm yn annigonol o ran y sefyllfa y mae'n ei hwynebu. Felly, a oes problem sylfaenol o ran y llwybrau hyn yr ydym yn dibynnu arnynt yn y gogledd a sut gallwn ni, wrth feddwl bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn cydlynu ac yn cynllunio hefyd, gael hyder bod rhywfaint o ddiffuantrwydd ac annibyniaeth o ran unrhyw adroddiad a gyflwynir i chi fel Llywodraeth?

In terms of the wider community in north Wales, questions arise as to the transport system. The flooding affected the north Wales main line. There is also the Conwy valley line, where more than £7 million has been spent by Network Rail already, but, that sum is inadequate in terms of the situation that is faced. Therefore, is there a fundamental problem in terms of these routes that we are so dependent upon in north Wales, and how can we, bearing in mind that NRW is co-ordinating and planning for these events, have confidence that there is some sincerity and independence in relation to any report put to you as a Government?

15:50 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Bydd yr Aelod yn ymwybodol bod fforwm sy'n trafod y peth hyn yn y gogledd. Bydd yr Aelod hefyd yn deall bod daearyddiaeth arfordir y gogledd yn golygu bod y risg yn fwy—gan fod yr arfordir yn gul, mae'r drafnidiaeth ar yr A55 ynghyd â'r rheilffordd mewn ardal cymharol fach ac yn agos iawn at y môr. Felly, mae 'vulnerabilities' yno. Mae'r gwahanol awdurdodau yn cydweithio i drio sicrhau ein bod yn lleihau'r risg i drafnidiaeth a'r 'infrastructure' yn y gogledd. Er hyn, rwy'n cytuno bod perygl mawr o hyd ac mae'n rhaid i ni reoli hynny. Fel yr ydych chi, ac Aelodau eraill, wedi awgrymu, mae mwy o angen nag sydd o arian ar gael. Rwy'n tueddu meddwl y byddai hynny'n wir mewn unrhyw fath o gyd-destun cyllidebol, ond wrth sôn am y cyd-destun presennol, mae hynny'n fwy pwysig a real. Mae hynny'n golygu bod yn rhaid inni flaenoriaethu. Mae'n rhaid inni edrych ar le mae'r risg ar ei mwyaf, lle mae risg i bobl, cartrefi a chymunedau, ac edrych ar le gallwn wneud y buddsoddiadau a fydd yn lleihau'r risg. Mae gennyf hyder bod NRW yn gwneud hynny. Mae gennyf hyder bod NRW yn gallu arwain y broses o gydlynu, ond, ar ddiwedd y dydd, mae'n rhaid inni wneud dewisiadau ac mae'n rhaid inni flaenoriaethu lle yr ydym yn mynd i wneud y buddsoddiadau hyn.

The Member will be aware that there is a forum in north Wales discussing this matter. The Member will also understand that the geography of the north Wales coast means that the risk is greater—because the coast is narrower, the traffic on the A55 and the railways are within a relatively small area that is very close to the sea. Therefore, there are vulnerabilities in that area. The different local authorities are collaborating in order to try to ensure that we minimise the risk to transport and infrastructure in north Wales. Even so, I agree that there is still a great deal of risk, and we must manage that risk. As you, and other Members, have suggested, the demand outweighs the funding available. I tend to think that that would be the case in any kind of budgetary context, but when we talk about the current context, it is even more important and real. It means that we have to prioritise. We have to look at where the risk is greatest, where there is risk to people, homes and communities, and where we can make investment that will mitigate that risk. I am confident that NRW is doing that, and I am confident that NRW can lead the process of co-ordination, but, at the end of the day, we have to make choices and we have to prioritise where we are going to make that investment.

15:52 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Given the great importance of this matter to north Wales, I intend to extend the time to call all Members who wish to speak. Can you help me now by just limiting yourself to one or two very succinct questions please? I call on Russell George.

O ystyried paa mor bwysig yw'r mater hwn i ogledd Cymru, rwy'n bwriadu ymestyn yr amser i alw'r holl Aelodau sy'n dymuno siarad. Allwch chi fy helpu nawr trwy gyfyngu eich hun i un neu ddau gwestiwn cryno iawn os gwelwch yn dda? Galwaf ar Russell George.

15:52 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. I thank the Minister for his statement today. I echo the comments praising our emergency services that other Members have put across today. There will be, of course, a lot of trauma for those coming to terms with what has happened. Being a victim of flood damage is a difficult process at any time of the year, but particularly so at this time of the year, leading up to Christmas. It is incumbent on all of us as national politicians to show leadership, not only to help people get back to normality as quickly as possible, but to mitigate potential flood risks in the future. I was pleased, Minister, to hear your comments on a co-ordinated report. However, close collaboration and clear roles and functions between organisations are also crucial to ensure that there is no contradiction or duplication of work or approach. How did the relationship between the risk-management authorities and Natural Resources Wales work in this instance? Are there any lessons to be learnt from that co-ordination?

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Diolch i'r Gweinidog am ei ddatganiad heddiw. Ategaf y sylwadau yn canmol ein gwasanaethau brys y mae Aelodau eraill wedi'u cyflwyno heddiw. Bydd llawer o drawma, wrth gwrs, i'r rheini sy'n dod i delerau â'r hyn sydd wedi digwydd. Mae dioddef difrod llifogydd yn broses anodd ar unrhyw adeg o'r flwyddyn, ond yn arbennig felly ar yr adeg hon o'r flwyddyn, yn arwain at y Nadolig. Mae'n ddyletswydd ar bob un ohonom fel gwleidyddion cenedlaethol i ddangos arweiniad, i helpu pobl i ddod yn ôl i sefyllfa normal cyn gynted ag y bo modd, ond hefyd i liniaru peryglon llifogydd posibl yn y dyfodol. Roeddwn yn falch, Weinidog, i glywed eich sylwadau ar adroddiad cydlynol. Fodd bynnag, mae'n hanfodol hefyd bod sefydliadau'n cydweithio'n agos a bod eu rolau a'u swyddogaethau eglur, er mwyn sicrhau nad oes unrhyw anghysondeb neu ddyblygu gwaith. Sut gwnaeth y berthynas rhwng yr awdurdodau rheoli risg a Chyfoeth Naturiol Cymru weithio yn yr achos hwn? A oes unrhyw wersi i'w dysgu o'r cydgysylltu hwnnw?

15:54 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I welcome the Member for Montgomeryshire to this debate.

Rwy'n croesawu'r Aelod dros Sir Drefaldwyn i'r ddadl hon.

15:54 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order. I heard other Members mutter, 'Is this Member from north Wales?' You are not from north Wales either, Minister, and there are people in this Chamber who have responsibility—[Interruption.]

Trefn. Clywais Aelodau eraill yn mwmian, 'A yw'r Aelod hwn o ogledd Cymru?' Nid ydych chi'n dod o ogledd Cymru chwaith, Weinidog, ac mae pobl yn y Siambr hon sydd â chyfrifoldeb—[Torri ar draws.]

Order—for the scrutiny of Government across the whole of this country. I call Members as I see fit, Minister.

Trefn— am graffu ar y Llywodraeth ar draws y wlad gyfan. Galwaf ar Aelodau fel yr wyf yn gweld yn dda, Weinidog.

15:54

## Alun Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I apologise, Deputy Presiding Officer. I said it with a smile on my face. I did not anticipate it to be taken as a slight in any way, and I apologise to anybody who considered it to be so.

Ymddiheuraf, Ddirprwy Lywydd. Dywedais hynny â gwên ar fy wyneb. Nid oeddwn yn rhagweld y byddai'n cael ei gymryd fel dirmyg mewn unrhyw ffordd, ac rwy'n ymddiheuro i unrhyw un a oedd yn ei ystyried felly.

I will say that the co-ordination of these matters is something that is critical and central to the sort of report that I would anticipate and expect from NRW. I have to say that I have heard what Members have said in the Chamber this afternoon and I have made it clear already that I will ensure that the transcript is made available to relevant people who are leading this process. I hope and expect that co-ordination to be excellent. I have no reason to believe that it has fallen down on this occasion. The co-ordination that I saw when I visited last Friday worked very well, but I take on board the points made by other Members this afternoon, and I will ask NRW to respond in that way.

Dywedwn fod y gwaith o gydgysylltu'r materion hyn yn rhywbeth sy'n hanfodol ac yn ganolog i'r math o adroddiad y byddwn yn ei ragweld ac yn ei ddisgwyl gan Gyfoeth Naturiol Cymru. Mae'n rhaid imi ddweud fy mod wedi clywed yr hyn a ddywedodd Aelodau yn y Siambr brynhawn heddiw ac rwyf wedi'i gwneud yn glir eisoes y byddaf yn sicrhau bod y trawsgrifiad ar gael i bobl berthnasol sy'n arwain y broses hon. Rwy'n gobeithio ac yn disgwyl i'r cydgysylltu fod yn rhagorol. Nid oes gennyf unrhyw reswm i gredu ei fod wedi methu ar yr achlysur hwn. Roedd y cydgysylltu a welais pan ymwelais ddydd Gwener diwethaf yn gweithio'n dda iawn, ond rwy'n derbyn y pwyntiau a wnaed gan Aelodau eraill y prynhawn yma, a byddaf yn gofyn i Gyfoeth Naturiol Cymru ymateb yn y ffordd honno.

15:55

## Sandy Mewies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I want to associate myself with the remarks made about Natural Resources Wales, the emergency departments and Flintshire County Council. There were many others also involved in this. My constituency was affected; as you said, flood defences and sea walls were breached in Mostyn and Bagillt, and Talacre and Ffynnongroyw also had issues. Thankfully, they were not as bad as was first expected. However, looking to the future, I am very glad that there will be a co-ordinated approach to look at what happened and what can be done in future. Just because my constituency was not as badly affected as it could have been, every part of the areas affected should be included in future plans. You said that £240 million is being invested in flood and coastal erosion management, and, of course, there is investment proposed in my constituency in Mold, but not for coastal flooding. We must ensure, Minister, that these plans go ahead apace, because the problem that we have now is that there seems to be a constant challenge to everyone involved, and that means that there is a constant worry to local residents.

Rwyf am gysylltu fy hun â'r sylwadau a wnaed am Gyfoeth Naturiol Cymru, yr adrannau achosion brys a Chyngor Sir y Fflint. Roedd llawer o bobl eraill hefyd yn rhan o hyn. Effeithiwyd ar fy etholaeth i; fel y dywedasoch, methodd amddiffynfeydd rhag llifogydd a morgloddiau ym Mostyn a Bagillt, ac roedd problemau yn Nhalacre a Ffynnongroyw hefyd. Diolch byth, nid oeddent mor ddrwg ag a ddisgwylwyd ar y cychwyn. Fodd bynnag, gan edrych i'r dyfodol, rwy'n falch iawn y dilynir dull cydlynol o ystyried beth ddigwyddodd a beth y gellir ei wneud yn y dyfodol. Dim ond oherwydd na chafodd fy etholaeth i ei heffeithio mor ddrwg ag y gallai, dylai pob rhan o'r ardaloedd yr effeithiwyd arnynt gael eu cynnwys yn y cynlluniau ar gyfer y dyfodol. Dywedasoch fod £240 miliwn yn cael ei fuddsoddi mewn rheoli llifogydd ac erydiad arfordirol, ac, wrth gwrs, mae cynnig i fuddsoddi yn fy etholaeth yn yr Wyddgrug, ond nid ar gyfer llifogydd arfordirol. Mae'n rhaid inni sicrhau, Weinidog, bod y cynlluniau hyn yn mynd rhagddynt ar frys, gan mai'r broblem sydd gennym yn awr yw ei bod yn ymddangos y ceir her gyson i bawb dan sylw, ac mae hynny'n golygu bod pryder cyson i drigolion lleol.

15:56 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I take on board those points. We discussed the flood-management investments taking place in and around Mold; you have invited me there, and that is an invitation that I am happy to accept. On that Thursday morning, the expectation was that your constituency would be far more significantly affected than it turned out to be. That demonstrates the importance of modelling, planning and forecasting, and the sense that we need to understand that when we see these storms, we take seriously the planning for these events, and that we ensure that we have in place contingency plans and an ability to respond. We should also ensure that we have in place agility in terms of how we respond to these events, so that when nature does not follow the plans and models as well as we would have hoped it would, we are able to move and change our response with speed and agility.

Rwy'n derbyn y pwyntiau hynny. Buom yn trafod y buddsoddiadau rheoli llifogydd yn yr Wyddgrug a'r cyffiniau; rydych wedi fy ngwahodd yno, ac mae hwnnw'n wahoddiad yr wyf yn hapus i'w dderbyn. Ar y bore dydd Iau hwnnw, y disgwyl oedd y byddai eich etholaeth yn cael ei heffeithio'n llawer mwy nag a ddigwyddodd. Mae hynny'n dangos pwysigrwydd modelu, cynllunio a rhagweld, a'r ymdeimlad bod angen i ni ddeall ein bod yn cymryd y gwaith cynllunio ar gyfer y digwyddiadau hyn o ddifrif, a'n bod yn sicrhau bod gennym gynlluniau wrth gefn a'r gallu i ymateb pan fyddwn yn gweld stormydd hyn. Dylem hefyd sicrhau bod gennym ystwythder o ran ein hymateb i'r digwyddiadau hyn, fel bod modd inni symud a newid ein hymateb yn gyflymder ac ystwyth pan nad yw natur yn dilyn y cynlluniau a'r modelau cystal ag y byddem wedi gobeithio.

15:57 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Minister, when you have your conversations tomorrow, will you consider the Flood Re insurance scheme that will be coming up that will not apply to houses built after 2009? I appreciate that, in this incident, there might be a limited number of such houses, because I know that some of the housing stock in Rhyl and Kinmel Bay would have been built before that date, but it is something that you will have to look to in the future.

Weinidog, pan fyddwch yn cael eich sgyrsiau yfory, a wnewch chi ystyried y cynllun ailyswirio Flood Re a fydd yn dod i fyny, na fydd yn berthnasol i dai a adeiladwyd ar ôl 2009? Rwy'n sylweddoli y bydd nifer gyfyngedig o dai o'r fath, efallai, yn y digwyddiad hwn, gan fy mod yn gwybod y byddai rhywfaint o'r stoc dai yn y Rhyl a Bae Cinmel wedi cael eu hadeiladu cyn y dyddiad hwnnw, ond mae'n rhywbeth y bydd yn rhaid i chi ei ystyried yn y dyfodol.

Secondly, one of the major issues is the reconnection to power. You mentioned in your statement, or in answers to questions, that one of the substations is right by the sea, as it were, and other Members have echoed concerns about infrastructure, particularly around the rail and road networks. I wonder if you could update us on what you intend to raise tomorrow in relation to those issues, particularly in getting power reconnected, because that is something that will be affecting people at the moment. If it is reconnected quickly, they may be able to get back into their homes more quickly.

Yn ail, un o'r prif broblemau yw'r ailgysylltu'r pŵer. Roeddech yn sôn yn eich datganiad, neu mewn atebion i gwestiynau, bod un o'r is-orsafoedd yn union ger y môr, fel petai, ac mae Aelodau eraill wedi adleisio pryderon ynghylch seilwaith, yn enwedig o amgylch y rhwydweithiau rheilffyrdd a ffyrdd. Tybed a allech roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am yr hyn yr ydych yn bwriadu ei godi yfory mewn cysylltiad â'r materion hynny, yn enwedig o ran ailgysylltu'r pŵer, oherwydd bod hynny'n rhywbeth a fydd yn effeithio ar bobl ar hyn o bryd. Os yw'n cael ei ailgysylltu'n gyflym, efallai y byddant yn gallu mynd yn ôl i'w cartrefi yn gyflymach.

15:58 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I think the debate on Flood Re is probably a debate to be had under the next item rather than this item, as it is a matter for the water Bill and the United Kingdom Government. It is something on which we have been working very closely, and I will be asking Members during the next debate to endorse a legislative consent motion to enable us to take these matters forward.

Rwy'n meddwl bod y ddadl ar Flood Re yn ôl pob tebyg yn ddadl i'w chael o dan yr eitem nesaf yn hytrach na'r eitem hon, gan ei fod yn fater ar gyfer y Bil Dŵr a Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Mae'n rhywbeth yr ydym wedi bod yn gweithio'n agos iawn arno, a byddaf yn gofyn i Aelodau yn ystod y ddadl nesaf gymeradwyo cynnig cydsyniad deddfwriaethol er mwyn ein galluogi i fwrw ymlaen â'r materion hyn.

In terms of power outages and the response to the recovery phase of an emergency of this sort, there are clearly issues around the location of infrastructure. As I said earlier, lessons were learnt in Gloucestershire which need to be relearnt possibly. We need to look at how we ensure that people are allowed back into their homes and that reconnecting energy is done in a way that is understood and safe.

O ran toriadau pŵer a'r ymateb i'r cyfnod adfer mewn argyfwng o'r math hwn, mae'n amlwg bod materion yn ymwneud â lleoliad seilwaith. Fel y dywedais yn gynharach, dysgwyd gwersi yn Swydd Gaerloyw sydd angen eu hailddysgu o bosibl. Mae angen inni ystyried sut yr ydym yn sicrhau bod pobl yn cael dychwelyd i'w cartrefi a bod ynni'n cael ei ailgysylltu mewn ffordd sy'n ddealladwy ac yn ddiogel.

15:59 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

You refer to the investigation. Denbighshire County Council has said that this will seek to identify the flood-risk management defences needed in future. Once those defences are identified, what action does the Welsh Government intend to take to put them in place?

Rydych yn cyfeirio at yr ymchwiliad. Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi dweud y bydd hwn yn ceisio nodi'r amddiffynfeydd fydd eu hangen yn y dyfodol er mwyn rheoli'r risg rhag llifogydd. Unwaith y bydd amddiffynfeydd yn cael eu nodi, pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu cymryd i'w rhoi ar waith?

Finally, you referred to the sea wall collapse around Mostyn; I think that more than 200 metres collapsed, forcing the closure of the rail line between Chester and Rhyl. The sea defence road and embankment between Mostyn and Llannerch-y-Môr are owned by Network Rail. What co-ordination existed then and will exist with Network Rail to address both the immediate problem and the longer-term solution?

Yn olaf, cyfeiriasoch at gwymp y morglawdd o amgylch Mostyn; rwy'n meddwl bod mwy na 200 metr wedi cwympo, gan orfodi'r rheilffordd rhwng Caer a'r Rhyl i gau. Mae'r ffordd a'r arglawdd amddiffyn rhag y môr rhwng Mostyn a Llannerch-y-Môr yn eiddo i Network Rail. Pa gydgysylltu oedd yn bodoli bryd hynny ac a fydd yn bodoli gyda Network Rail i fynd i'r afael â'r broblem ar unwaith a'r ateb yn y tymor hwy?

16:00 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think that I said, in answer to Aled Roberts's question, that there is already a forum in place in north Wales, where these different matters are discussed, and where joint planning already takes place. I have no reason to believe that that is in any way deficient. I am happy for that structure to continue to ensure that different public bodies and other agencies continue to work together to ensure that we have the levels of protection needed for essential infrastructure.

Rwy'n meddwl imi ddweud, mewn ateb i gwestiwn Aled Roberts, bod fforwm ar waith eisoes yng ngogledd Cymru, lle mae'r materion gwahanol hyn yn cael eu trafod, a lle mae cynllunio ar y cyd eisoes yn digwydd. Nid oes gennyf unrhyw reswm i gredu bod hynny'n ddiffygiol mewn unrhyw ffordd. Rwy'n hapus i'r strwythur hwnnw barhau i sicrhau bod gwahanol gyrff cyhoeddus ac asiantaethau eraill yn parhau i weithio gyda'i gilydd i ofalu bod seilwaith hanfodol yn cael e i warchod i'r lefelau sydd eu hangen.

In terms of other matters that the Member raised regarding flood defences, until we understand exactly how the defences were breached or, in some cases, overwhelmed, it is difficult for me to give a definitive response this afternoon. However, the area of Rhyl that I visited with Ann Jones and Chris Ruane showed that the primary flood defences were intact, but that the secondary defences were destroyed. The problem with the primary defences was that they were simply overwhelmed by the power of the storm. So, there will be different responses needed in different places, as a consequence of the different experiences of that storm.

O ran materion eraill a gododd yr Aelod ynghylch amddiffynfeydd rhag llifogydd, tan ein bod yn deall yn union sut y cafodd yr amddiffynfeydd eu torri, neu, mewn rhai achosion, eu boddi, mae'n anodd i mi roi ymateb pendant brynhawn heddiw. Fodd bynnag, mae'r ardal o'r Rhyl yr ymwelais â hi gydag Ann Jones a Chris Ruane yn dangos bod yr amddiffynfeydd rhag llifogydd cyntaf yn gyfan, ond bod yr amddiffynfeydd eilaidd wedi eu dinistrio. Y broblem gyda'r amddiffynfeydd cyntaf oedd bod nerth y storm, yn syml iawn, wedi bod yn ormod iddynt. Felly, bydd angen gwahanol ymatebion mewn gwahanol leoedd, o ganlyniad i wahanol brofiadau o'r storm.

## Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil Dŵr

Cynnig NDM5303 Alun Davies

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno mai Senedd y DU ddylai ystyried darpariaethau'r Bil Dŵr fel y'i cyflwynwyd yn Nhŷ'r Cyffredin ar 27 Mehefin 2013, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

## Legislative Consent Motion on the Water Bill

Motion NDM5303 Alun Davies

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 29.6, agrees that provisions of the Water Bill as introduced in the House of Commons on 27 June 2013, in so far as they fall within the legislative competence of the National Assembly for Wales, should be considered by the UK Parliament.

16:01 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd / The Minister for Natural Resources and Food*

I move the motion.

Cynigiaf y cynnig.

I will not detain Members for too long, I hope. I would like to briefly explain the background to the legislative consent motion on the UK Water Bill. I would like to record my thanks to the National Assembly for Wales's Environment and Sustainability Committee for its report, which I enjoyed reading, on the work that it did on scrutinising the legislative consent motion. I will address the points raised by the committee in that report.

Ni chadwaf yr Aelodau'n rhy hir, rwy'n gobeithio. Hoffwn egluro yn gryno gefndir y cynnig cydsyniad deddfwriaethol ar Fil Dŵr y DU. Hoffwn gofnodi fy niolch i Bwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru am ei adroddiad ar y gwaith a wnaeth yn craffu ar y cynnig cydsyniad deddfwriaethol. Roedd yn bleser ei ddarllen. Byddaf yn mynd i'r afael â'r pwyntiau a godwyd gan y pwyllgor yn yr adroddiad hwnnw.

This consent motion is longer than normal, because of the complexity of the devolution settlement for water. I understand and I appreciate the committee's comments in paragraph 7.1, to identify only those specific parts of a Bill's clauses considered to be within the legislative competence of the Assembly in any future memoranda. However, in this case, given the number of clauses in the Bill, we felt that the approach taken was the most appropriate way in which to deal with this individual LCM. However, I understand and accept the point made by the committee and I will undertake to provide more clarity on this matter in any future memoranda.

Mae'r cynnig cydsyniad hwn yn hirach nag arfer, oherwydd cymhlethdod y setliad datganoli ar gyfer dŵr. Rwy'n deall ac yn gwerthfawrogi sylwadau'r pwyllgor ym mharagraff 7.1, na ddylid ond nodi'r rhannau penodol hynny o gymalau'r Bil yr ystyrir eu bod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad mewn unrhyw femoranda yn y dyfodol. Fodd bynnag, yn yr achos hwn, o ystyried nifer y cymalau yn y Bil, roeddem yn teimlo mai'r dull gweithredu a gymerwyd oedd y ffordd fwyaf priodol i ymdrin â'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol unigol hwn. Fodd bynnag, rwy'n deall ac yn derbyn y pwynt a wnaed gan y pwyllgor a byddaf yn ymrwymo i fod yn fwy eglur ynglŷn â'r mater hwn mewn unrhyw femoranda yn y dyfodol.

I am also grateful to the committee for highlighting that clause 5 was not referred to in the memorandum. This was because the detail and the subject matter for the competence analysis were included in the Schedule itself. We will ensure that, in any future memoranda, the clause giving effect to the Schedule is also included.

Rwyf hefyd yn ddiolchgar i'r pwyllgor am dynnu sylw at y ffaith na chyfeiriwyd at gymal 5 yn y memorandwm. Roedd hyn oherwydd bod y manylion a'r pwnc ar gyfer y dadansoddiad cymhwysedd wedi'u cynnwys yn yr Atodlen ei hun. Byddwn yn sicrhau, mewn unrhyw femoranda yn y dyfodol, bod y cymal sy'n rhoi grym i'r Atodlen yn cael ei gynnwys hefyd.

Members will be aware that ministerial responsibility for water falls along water company lines, rather than the national border between Wales and England. Welsh Ministers exercise executive functions in relation to those water companies that are mainly based in Wales, that is Dee Valley Water and Dŵr Cymru Welsh Water, while Severn Trent Water falls to the Secretary of State in the UK Government.

Bydd yr Aelodau'n ymwybodol bod y cyfrifoldeb gweinidogol dros ddŵr yn dilyn llinellau cwmnïau dŵr, yn hytrach na'r ffin genedlaethol rhwng Cymru a Lloegr. Mae Gweinidogion Cymru yn arfer swyddogaethau gweithredol mewn perthynas â'r cwmnïau dŵr hynny sydd wedi'u lleoli yn bennaf yng Nghymru, sef Dee Valley Water a Dŵr Cymru Welsh Water, tra bod Severn Trent Water yn gyfrifoldeb i'r Ysgrifennydd Gwladol yn Llywodraeth y DU.

This Bill mainly focuses on reforms to the licensing and regulatory framework to enable non-domestic water users to change water suppliers in England, and provides Welsh Ministers with powers to implement the changes in relation to companies wholly or mainly in Wales.

Mae'r Bil hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar ddiwygiadau i'r fframwaith trwyddedu a rheoleiddio i alluogi defnyddwyr dŵr annomestig i newid cyflenwyr dŵr yn Lloegr, ac yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru weithredu'r newidiadau o safbwynt cwmnïau sy'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru.

The other key area of the Bill is to provide access to affordable insurance for households in high-risk flood areas from the financial impacts of flooding. This, we believe, would benefit at least 45,000 Welsh homeowners who live in significant flood-risk areas, as well as many more who live in moderate to high-risk areas.

Maes allweddol arall y Bil yw galluogi aelwydydd yn yr ardaloedd sydd â risg uchel o lifogydd i gael yswiriant fforddiadwy rhag effeithiau ariannol lifogydd. Byddai hyn, yn ein barn ni, o fudd i o leiaf 45,000 o berchnogion tai yng Nghymru sy'n byw mewn ardaloedd â risg sylweddol o lifogydd, yn ogystal â llawer mwy sy'n byw mewn ardaloedd â risg cymedrol i uchel.

In response to points raised by the Environment and Sustainability Committee, I will and can confirm that we have had discussions with the United Kingdom Government on flood clauses, but we are not involved in the preparation of the memorandum of understanding between the United Kingdom Government and the insurance industry. In July, I wrote to the United Kingdom Government's Parliamentary Under Secretary of State for Natural Environment, Water and Rural Affairs and Minister for Flooding requesting that the memorandum take into account flood-risk management and planning policy in Wales. We are continuing to pursue this matter with the UK Government.

Mewn ymateb i bwyntiau a godwyd gan y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, gallaf gadarnhau ein bod wedi cael trafodaethau gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar gymalau llifogydd, ond nid ydym yn cymryd rhan yn y gwaith o baratoi'r memorandwm dealltwriaeth rhwng Llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r diwydiant yswiriant. Ym mis Gorffennaf, ysgrifennais at Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Llywodraeth y Deyrnas Unedig dros yr Amgylchedd Naturiol, Dŵr a Materion Gwledig a'r Gweinidog dros Lifogydd yn gofyn bod y memorandwm yn ystyried polisi cynllunio a rheoli risg rhag llifogydd yng Nghymru. Rydym yn parhau i fynd ar drywydd y mater hwn gyda Llywodraeth y DU.

Other measures in the Bill include improving the water resource management process by giving Welsh Ministers powers to modernise and integrate the planning and consultation process, as well as technical changes to legislation to facilitate the greater use of sustainable drainage systems.

Mae mesurau eraill yn y Bil yn cynnwys gwella'r broses o reoli adnoddau dŵr trwy roi pwerau i Weinidogion Cymru foderneiddio ac integreiddio'r broses o gynllunio ac ymgynghori, yn ogystal â newidiadau technegol i ddeddfwriaeth i'w gwneud yn haws defnyddio mwy ar systemau draenio cynaliadwy.

16:05 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mae natur drawsffiniol y diwydiant dŵr, wrth gwrs, yn ei gwneud yn faes dyrys ac rwy'n meddwl, fel mae'r Gweinidog wedi dweud, bod natur y setliad datganoli presennol yn gwneud pethau hyd yn oed yn fwy cymhleth. Mae Plaid Cymru, ers degawdau, wedi dadlau dros ddatganoli pob agwedd ar bolisi dŵr yn llawn ac rwy'n falch ein bod wedi llwyddo i berswadio Llywodraeth Cymru i gytuno y dylai'r Cynulliad gael hawliau deddfwriaethol llawn dros ddŵr hyd at y ffin ddaearyddol â Lloegr. Byddai hynny, wrth gwrs, yn gwneud i ffwrdd â'r elfen hon o 'yn gyfan neu'n bennaf', pan mae'n dod i gwmnïau dŵr. Byddai hynny'n caniatáu i Lywodraeth Cymru reoleiddio agweddau ar y diwydiant dŵr mewn rhannau o Loegr heb atebolrwydd democrataidd i etholwyr yr ardaloedd hynny, sydd efallai'n haeddu mwy o sylw.

The cross-border nature of the water industry, of course, makes it a complex issue and I think, as the Minister has said, that the nature of the current devolution settlement makes things even more complex. For decades, Plaid Cymru has argued for the full devolution of all aspects of water policy, and I am pleased that we have been able to persuade the Welsh Government to agree that the Assembly should have full legislative powers over water right up to the geographic border with England. That would, of course, do away with the 'wholly or mainly' aspect when it comes to water companies. It would allow the Welsh Government to control aspects of the water industry in England with no democratic accountability to the electorate in those areas, which deserves more attention perhaps.

Mae cynsail mewn meysydd eraill o ran edrych ar ffiniau. O ran polisi amgylcheddol, mae busnesau, cyrff a mudiadau yn gorfod gweithredu yn ôl rheoliadau gwahanol ar sail ffiniau daearyddol. Mae rheoliadau cynllunio hefyd yn gwneud yr un peth; bydd hynny'n dod hyd yn oed yn fwy arwyddocaol, byddwn i'n tybio, ar ôl i'r Bil cynllunio gael ei fabwysiadu.

There is precedent in other areas in terms of looking at borders. In environmental policy, businesses and organisations have to comply with different regulations based on geographic borders. The same is also true of planning regulations; that will, I am sure, become even more significant when the planning Bill is adopted.

Mae llawer o waith i'w wneud ar ddatganoli cyfrifoldebau llawn am ddŵr, yn amlwg. Mae llawer o waith angen ei wneud ar ddiwygio'r Bil Dŵr ei hun, ond mater i San Steffan yn bennaf fydd hynny. Ni fyddwn yn gwrthwynebu'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol, ond byddwn yn gwahodd y Gweinidog a'r Llywodraeth i weithredu ar yr angen i wireddu datganoli'r materion hyn i Gymru drwy roi pwysau ar Aelodau Seneddol Llafur i gefnogi gwelliannau Plaid Cymru i'r Bil Dŵr yn Nhŷ'r Cyffredin. Byddai hynny wedyn yn eu galluogi i greu'r sefyllfa mae'r Llywodraeth wedi galw amdani yn ei thystiolaeth i Silk rhan 2.

Clearly, much work remains to be done on the devolution of full responsibility for water. Much work remains on amending the Water Bill itself, but that will mainly be for Westminster. We will not oppose the legislative consent motion, but we would invite the Minister and the Government to act on the need to devolve these issues to Wales by urging Labour Members of Parliament to support Plaid Cymru amendments to the Water Bill in the House of Commons. That would then allow for the situation that the Government has called for in its evidence to Silk part 2.

16:07 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd / The Minister for Natural Resources and Food*

Senedd.tv Fideo Video

That is probably a temptation that I will try to resist. The main burden of Llyr's speech is something with which I would certainly agree. The conversations around this Bill and the Welsh Government's position on it were the subject of some very intensive conversations with the UK Government in June, around the time of the agreements on the common agricultural policy. I certainly made the case, and I will continue to make the case, that we wish to see the devolution of responsibility for water and the recognition of the national border between Wales and England. That is certainly the policy of this Government and the policy that this Government has sought to support through the Silk process. This is an opportunity for me to ask you to support that process and perhaps we will find more consensus than we might expect.

Mae'n debyg y byddaf yn ceisio gwrthsefyll y demtasiwn honno. Byddwn yn sicr yn cytuno prif fyrdwn araith Llyr. Roedd y Bil hwn a safbwynt Llywodraeth Cymru yn ei gylch yn destun rhai sgyrsiau dwys iawn gyda Llywodraeth y DU ym mis Mehefin, o gwmpas adeg y cytundebau ar y polisi amaethyddol cyffredin. Roeddwn yn sicr yn dadlau'r achos, a byddaf yn parhau i ddadlau'r achos, ein bod yn dymuno gweld y cyfrifoldeb ar gyfer dŵr yn cael ei ddatganoli, a chydnabod y ffin genedlaethol rhwng Cymru a Lloegr. Dyna'n sicr bolisi'r Llywodraeth hon a'r polisi y mae'r Llywodraeth hon wedi ceisio ei gefnogi trwy broses Silk. Mae hwn yn gyfle i mi ofyn i chi gefnogi'r broses honno ac efallai y byddwn yn dod o hyd i fwy o gonsensws nag y byddem yn ei ddisgwyl.

We believe and, as a Government, completely support the idea that the National Assembly for Wales should have full legislative competence in relation to water. Llyr talked about water, but we would also talk about sewerage within the boundaries of Wales. We will continue to have these conversations with the United Kingdom Government. The UK Bill reflects UK Government policy in relation to England. We have obtained equivalent powers for Wales so that any legislation that we make in the future will suit Wales's needs.

Rydym yn credu ac, fel Llywodraeth, yn llwyr gefnogi'r syniad y dylai Cynulliad Cenedlaethol Cymru gael cymhwysedd deddfwriaethol llawn ym maes dŵr. Siaradodd Llyr am ddŵr, ond byddem hefyd yn sôn am garthffosiaeth o fewn ffiniau Cymru. Byddwn yn parhau i gael y sgyrsiau hyn gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Mae Bil y DU yn adlewyrchu polisi Llywodraeth y DU o safbwynt Lloegr. Rydym wedi cael pwerau cyfatebol ar gyfer Cymru fel y bydd unrhyw ddeddfwriaeth a wnawn yn y dyfodol yn addas i anghenion Cymru.

16:08 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that the motion be agreed. Does any Member object? There are no objections, therefore the motion is agreed.

Felly, y cwestiwn yw bod y cynnig yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod sy'n gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad, felly, caiff y cynnig ei dderbyn.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

## Dadl ar y Gyllideb Derfynol ar gyfer 2014-15

## Debate on the Final Budget 2014-15

Cynnig NDM5382 Lesley Griffiths

Motion NDM5382 Lesley Griffiths

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 20.25:

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 20.25:

Yn cymeradwyo'r Gyllideb Flynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2014-2015 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno gan y Gweinidog Cyllid ar 3 Rhagfyr 2013.

Approves the Annual Budget for the financial year 2014-2015 laid in the Table Office by the Minister for Finance on 3 December 2013.

16:09 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Cyllid / The Minister for Finance*

Senedd.tv Fideo Video

I move the motion.

Cynigiaf y cynnig.

The final budget has been shaped by the Welsh Government's priorities for Wales, which have been set in the context of the most difficult financial times since devolution. Despite the challenges, we have ensured that our spending plans continue to reflect those areas that matter most to the people of Wales.

Mae'r gyllideb derfynol wedi cael ei siapio gan flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru, a hynny yng nghyd-destun y cyfnod ariannol anoddaf ers datganoli. Er gwaethaf yr heriau, rydym wedi sicrhau bod ein cynlluniau gwariant yn parhau i adlewyrchu'r meysydd hynny sydd bwysicaf i bobl Cymru.

In health, we are investing an additional £570 million over three years—the largest ever health budget for Wales—to reflect needs and priorities. In schools, we are maintaining our commitment to protect investment in front-line spending, including an additional £35 million for the pupil deprivation grant to enhance educational attainment, as a result of our budget agreement. We are supporting growth and jobs, through an additional £657.5 million capital injection, which will create or support up to 11,000 construction jobs over three years. We are investing in our young people by extending Jobs Growth Wales, with an additional £12.5 million to create more than 4,000 extra job opportunities for 16 to 25-year-olds in 2015-16, with major support from the European social fund. We are supporting children, families and deprived communities through doubling the number of children benefiting from Flying Start and ensuring that an extra 500 police community support officers continue to serve communities in 2015-16.

Ym maes iechyd, rydym yn buddsoddi £570 miliwn ychwanegol dros dair blynedd—y gyllideb iechyd fwyaf erioed i Gymru—i adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau. Mewn ysgolion, rydym yn cynnal ein hymrwymiad i ddiogelu buddsoddiad mewn gwariant rheng flaen, gan gynnwys swm ychwanegol o £35 miliwn ar gyfer y grant amddifadedd disgyblion i wella cyrhaeddiad addysgol, o ganlyniad i'n cytundeb cyllideb. Rydym yn cefnogi twf a swyddi, drwy swm cyfalaf ychwanegol o £657.5 miliwn, a fydd yn creu neu'n cefnogi hyd at 11,000 o swyddi adeiladu dros dair blynedd. Rydym yn buddsoddi yn ein pobl ifanc trwy ymestyn Twf Swyddi Cymru, gyda £12.5 miliwn ychwanegol i greu mwy na 4,000 o gyfleoedd swyddi ychwanegol ar gyfer rhai 16 i 25 mlwydd oed yn 2015-16, gyda chefnogaeth sylweddol gan gronfa gymdeithasol Ewrop. Rydym yn cefnogi plant, teuluoedd a chymunedau difreintiedig trwy ddyblu nifer y plant sy'n elwa o Dechrau'n Deg ac yn sicrhau bod 500 ychwanegol o swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu yn parhau i wasanaethu cymunedau yn 2015-16.

Our final budget also includes an additional £30 million of capital injection in 2015-16 as part of a £200 million funding boost for schools. This funding package will ensure that we deliver £1.4 billion investment in our twenty-first century schools programme by 2018-19, two years sooner than previously planned, supporting around 23,000 jobs over the construction period. The local government borrowing initiative is being extended to allow us to accelerate this delivery of the flagship twenty-first century schools programme.

Mae ein cyllideb derfynol hefyd yn cynnwys swm cyfalaf ychwanegol o £30 miliwn yn 2015-16 fel rhan o hwb ariannol o £200 miliwn ar gyfer ysgolion. Bydd y pecyn cyllid hwn yn sicrhau ein bod yn buddsoddi £1.4 biliwn yn ein rhaglen ysgolion ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain erbyn 2018-19, ddwy flynedd yn gynt nag a gynlluniwyd yn flaenorol, gan gefnogi tua 23,000 o swyddi dros y cyfnod adeiladu. Mae'r fenter benthyca llywodraeth leol yn cael ei hymestyn i'n galluogi i gyflymu'r broses o gyflawni'r rhaglen flaenllaw ysgolion ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain.

The local government borrowing initiative, unique to Wales, has been a major success in delivering highway improvements, and will enable local authorities to finance a total of around £170 million over the next three years in their twenty-first century schools programmes. Most importantly, this new funding package will ensure that, across Wales, we will see investment in our schools to provide the best environment for learners, as I witnessed yesterday at Awel y Môr Primary School in the Sandfields estate in Port Talbot. I learned there that this brilliant new twenty-first century school was already transforming attendance, motivation and morale among pupils, teachers, parents and the community.

Mae'r fenter benthyca llywodraeth leol, sy'n unigryw i Gymru, wedi bod yn llwyddiant mawr o ran cyflwyno gwelliannau i briffyrdd, a bydd yn galluogi awdurdodau lleol i ariannu cyfanswm o tua £170 miliwn dros y tair blynedd nesaf yn eu rhaglenni ysgolion ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain. Yn bwysicaf oll, bydd y pecyn ariannu newydd yn sicrhau, ar draws Cymru, y byddwn yn gweld buddsoddi yn ein hysgolion i ddarparu'r amgylchedd gorau ar gyfer dysgwyr, fel y gwelais ddoe yn Ysgol Gynradd Awel y Môr ar ystad Sandfields ym Mhort Talbot. Dysgais yno fod yr ysgol wych newydd hon ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain eisoes yn trawsnewid presenoldeb, cymhelliant a morâl ymhlith disgyblion, athrawon, rhieni a'r gymuned.

Last week, I published the latest edition of the Wales infrastructure investment plan, 'Project Pipeline', which demonstrates our continued commitment to supporting strategic investment, increasing certainty to our delivery partners, particularly in local government and the construction sector, as they plan for the future, and to maximising opportunities for collaboration.

Yr wythnos diwethaf, cyhoeddais y rhifyn diweddaraf o'r cynllun buddsoddi mewn seilwaith i Gymru, 'Project Pipeline', sy'n dangos ein hymrwymiad parhaus i gefnogi buddsoddiad strategol, rhoi mwy o sicrwydd i'n partneriaid cyflawni, yn enwedig ym maes llywodraeth leol a'r sector adeiladu, wrth iddynt gynllunio ar gyfer y dyfodol, a sicrhau'r cyfleoedd gorau posibl ar gyfer cydweithredu.

Our final budget proposals also include an additional £5 million in 2014-15, building on a £5 million investment in the current year, to provide a repayable loan for investment in improvements to Cardiff Airport for facilities, services and access to the terminal. With CBI Wales giving 100% backing in support of the airport, this will be welcome news.

Mae ein cynigion cyllideb terfynol hefyd yn cynnwys £5 miliwn yn ychwanegol yn 2014-15, gan adeiladu ar fuddsoddiad o £5 miliwn yn y flwyddyn gyfredol, er mwyn darparu benthyciad ad-daladwy ar gyfer buddsoddi mewn gwelliannau i Faes Awyr Caerdydd o ran cyfleusterau, gwasanaethau a mynediad i'r derfynfa. Gyda CBI Cymru yn 100% o blaid y maes awyr, bydd hyn yn newyddion da.

The announcement in our final budget takes our total additional capital investment announced as part of our spending plans to £657.5 million, including £70.5 million for immediate investment. Since we debated our draft budget proposals last month, we have also made good progress in developing proposals for the intermediate care fund, and the health technology and telemedicine fund, as a result of the shared budget priorities identified and developed with Plaid Cymru and the Welsh Liberal Democrats. The Deputy Minister for Social Services has updated Members today on progress with the intermediate care fund and is due to make a further statement next month.

Mae'r cyhoeddiad yn ein cyllideb derfynol yn golygu bod cyfanswm ein buddsoddiad cyfalaf ychwanegol a gyhoeddwyd fel rhan o'n cynlluniau gwariant yn £657.5 miliwn, gan gynnwys £70.5 miliwn ar gyfer buddsoddi ar unwaith. Ers i ni drafod ein cynigion cyllideb drafft y mis diwethaf, rydym hefyd wedi gwneud gwaith da o ran datblygu cynigion ar gyfer y gronfa gofal canolraddol, a'r gronfa technoleg iechyd a thelefeddygaeth, o ganlyniad i nodi a datblygu blaenoriaethau cyllideb cyffredin gyda Phlaid Cymru a Democratiaid Rhyddfrydol Cymru. Mae'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol wedi rhoi'r newyddion diweddaraf i'r Aelodau heddiw am yr hyn a gyflawnwyd gyda'r gronfa gofal canolraddol a disgwylir iddo wneud datganiad arall y mis nesaf.

Despite a series of challenging budgets, we are determined to promote and progress policies that boost growth and jobs, protect our health service and invest in our children and young people. These priorities are reflected in our spending plans. They are also reflected in our legislative proposals, which seek to address the issues that the people of Wales care deeply about, including housing and social services reform.

Er gwaethaf cyfres o gyllidebau heriol, rydym yn benderfynol o hyrwyddo a datblygu polisïau sy'n hybu twf a swyddi, diogelu ein gwasanaeth iechyd a buddsoddi yn ein plant a'n pobl ifanc. Mae'r blaenoriaethau hyn yn cael eu hadlewyrchu yn ein cynlluniau gwariant. Maent hefyd yn cael eu hadlewyrchu yn ein cynigion deddfwriaethol, sy'n ceisio mynd i'r afael â'r materion sydd o'r pwys mwyaf i bobl Cymru, gan gynnwys diwygio gwasanaethau cymdeithasol a thai.

*Daeth y Llywydd i'r Gadair am 16:13.*

*The Presiding Officer took the Chair at 16:13.*

## Jane Hutt [Bywgraffiad] [Biography]

In developing our plans, we recognised the importance of assessing the impact of our decisions on the legislative programme and ensuring that new legislation is appropriately funded, as evidenced by making nearly £5 million available for the Housing (Wales) Bill in 2015-16. Our spending plans support the delivery of our legislative proposals, but I will consider how we can build on the steps that we have taken this year in future budgets. Clearly, we will also want to reflect on the work that the Finance Committee plans to undertake in relation to the affordability of legislation.

Wrth ddatblygu ein cynlluniau, rydym yn cydnabod pa mor bwysig yw asesu effaith ein penderfyniadau ar y rhaglen ddeddfwriaethol a sicrhau bod deddfwriaeth newydd yn cael ei hariannu'n briodol, fel y dangosir trwy sicrhau bod bron i £5 miliwn ar gael ar gyfer y Bil Tai (Cymru) yn 2015-16. Mae ein cynlluniau gwariant yn cefnogi'r broses o gyflwyno ein cynigion deddfwriaethol, ond byddaf yn ystyried sut y gallwn adeiladu ar y camau yr ydym wedi'u cymryd eleni o ran cyllidebau yn y dyfodol. Yn amlwg, byddwn hefyd yn awyddus i fyfyrio ar y gwaith y mae'r Pwyllgor Cyllid yn bwriadu ymgymryd ag ef o ran fforddiadwyedd deddfwriaeth.

I responded formally to the Finance Committee's report on the draft budget last week and I have shared this response with Members. There are a number of themes, which emerged during scrutiny, that I will consider in the context of future budgets. I look forward to the ongoing, constructive dialogue with the committee to take this work forward.

Ymatebais yn ffurfiol i adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar y gyllideb ddrafft yr wythnos diwethaf ac rwyf wedi rhannu'r ymateb hwn gyda'r Aelodau. Mae nifer o themâu, a ddaeth i'r amlwg yn ystod y gwaith craffu, y byddaf yn eu hystyried yng nghyd-destun cyllidebau yn y dyfodol. Edrychaf ymlaen at y ddeialog barhaus ac adeiladol gyda'r pwyllgor er mwyn bwrw ymlaen â'r gwaith hwn.

Throughout our preparations for this budget we have been clear that, in the current financial climate, difficult decisions would have to be made. We have responded to this challenge as a firm and principled Government, which seeks to deliver on our shared priorities wherever possible. We have developed budget proposals that are realistic and financially prudent, but also ambitious in achieving the outcomes that we want to see for Wales now and in the longer term. These will seek to secure a balanced economic recovery that delivers skills and job opportunities for our young people and supports our businesses and disadvantaged communities

Drwy gydol ein paratoadau ar gyfer y gyllideb hon rydym wedi dweud yn glir y byddai'n rhaid gwneud penderfyniadau anodd, yn yr hinsawdd ariannol bresennol. Rydym wedi ymateb i'r her hon fel Llywodraeth gadarn ac egwyddorol, sy'n ceisio cyflawni'r blaenoriaethau yr ydym yn eu rhannu, lle bynnag y bo modd. Rydym wedi datblygu cynigion cyllideb sy'n realistig a doeth yn ariannol, ond sydd hefyd yn uchelgeisiol o ran cyflawni'r canlyniadau yr ydym am eu gweld ar gyfer Cymru yn awr ac yn y tymor hwy. Bydd y rhain yn ceisio sicrhau adferiad economaidd cytbwys sy'n cyflwyno sgiliau a chyfleoedd gwaith ar gyfer ein pobl ifanc ac yn cefnogi ein busnesau a'n cymunedau dan anfantais.

Constructing Excellence in Wales has applauded the efforts that the Welsh Government has already made to improve Wales's economic prospects through the Wales infrastructure investment plan. Llamau has welcomed the steps taken to mitigate reductions to the Supporting People programme for the benefit of the vulnerable young people whom it supports.

Mae Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru wedi canmol yr ymdrechion y mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi'u gwneud i wella rhagolygon economaidd Cymru drwy'r cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru. Mae Llamau wedi croesawu'r camau a gymerwyd i liniaru gostyngiadau i'r rhaglen Cefnogi Pobl er budd y bobl ifanc agored i niwed y mae'n eu cefnogi.

Last week's autumn statement has done little to change the challenging public finance outlook for Wales, despite increases to our revenue and capital budgets. The total budget in 2015-16 will be 10% lower in real terms than in 2010-11. Therefore, the work to deliver our priorities for Wales will be driven forward by this Government in that challenging context, with a commitment to working to working with our partners in health, local government, business and across the third sector, and to translating our spending decisions into effective investment in our economic and public services infrastructure and programmes.

Nid yw datganiad yr hydref yr wythnos diwethaf wedi gwneud llawer i newid y rhagolygon heriol ar gyfer Cymru o safbwynt cyllid cyhoeddus, er gwaethaf cynnydd yn ein cyllidebau refeniw a chyfalaf. Bydd cyfanswm y gyllideb yn 2015-16 10% yn is mewn termau real nag yn 2010-11. Felly, bydd y gwaith i gyflawni ein blaenoriaethau ar gyfer Cymru yn cael ei yrru ymlaen gan y Llywodraeth hon yn y cyd-destun heriol hwnnw, gydag ymrwymiad i weithio gyda'n partneriaid ym maes iechyd, llywodraeth leol, busnes ac ar draws y trydydd sector, ac i drosi ein penderfyniadau gwariant yn fuddsoddiad effeithiol yn ein seilwaith a'n rhaglenni gwasanaethau economaidd a chyhoeddus.

Wales has its own Government, making policies and laws for our country, for which we are held to account by this Assembly. We have come a long way since 1999, with a budget that has doubled in cash terms in the past 15 years. However, it has been under threat and has been cut back for the past three and a half years. We are determined to protect and boost our finances with all the levers and powers that we have at our disposal. I have valued the constructive scrutiny of this budget, and I welcome the agreement that we have reached on shared priorities. It is in that spirit that I bring our final budget for 2014-15 to you today for approval, and for your support for the annual budget motion.

Mae gan Gymru ei Llywodraeth ei hun, sy'n gwneud polisïau a chyfreithiau ar gyfer ein gwlad, ac mae'r Cynulliad hwn yn ein dwyn i gyfrif amdanynt. Rydym wedi dod ymhell ers 1999, gyda chyllideb sydd wedi dyblu yn nhermau arian parod yn ystod y 15 mlynedd diwethaf. Fodd bynnag, bu dan fygythiad a chafodd ei chwtogi yn ystod y tair blynedd a hanner diwethaf. Rydym yn benderfynol o ddiogelu a hybu ein cyllid gyda'r holl ddulliau a phwerau sydd ar gael inni. Rwyf wedi gwerthfawrogi'r craffu adeiladol ar y gyllideb hon, ac rwy'n croesawu'r cytundeb a gyrhaeddwyd ar flaenoriaethau cyffredin. Yn yr ysbryd hwnnw rwy'n cyflwyno ein cyllideb derfynol ar gyfer 2014-15 i chi heddiw i'w chymeradwyo, ac am eich cefnogaeth i'r cynnig cyllideb blynyddol.

16:16

## Paul Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am grateful for the opportunity to respond to the Government's budget this afternoon on behalf of the Welsh Conservatives. The Minister will not be surprised that we on this side of the Chamber will not be supporting the Government's budget, given that we believe that it fails to deliver for the people of Wales. It is also disappointing to see Plaid Cymru and the Welsh Liberal Democrats propping up this Labour administration, given the deal that they struck even before the draft budget had been published.

Rwy'n ddiolchgar am y cyfle i ymateb i gyllideb y Llywodraeth brynhawn heddiw ar ran y Ceidwadwyr Cymreig. Ni fydd y Gweinidog yn synnu na fyddwn ni ar yr ochr hon i'r Siambr yn cefnogi cyllideb y Llywodraeth, o gofio ein bod yn credu ei bod yn methu â chyflawni dros bobl Cymru. Mae hefyd yn siomedig gweld Plaid Cymru a Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn cynnal y weinyddiaeth Lafur, o ystyried y fargen y gwnaethant ei tharo hyd yn oed cyn i'r gyllideb ddrafft gael ei chyhoeddi.

Last week, the Chancellor's autumn statement again reinforced the UK Government's commitment to Wales. As a result of spending decisions this autumn, the Welsh Government will receive positive Barnett consequentials of around £233 million. I hope that the Welsh Government will ensure value for money for the taxpayer in the way that it intends to spend these additional funds. Through measures announced in last week's autumn statement, and alongside its recent response to the Silk commission report, the UK Government is ensuring that Wales has access to all of the tools that it needs to ensure that the recovery that we have already seen this year continues and gets stronger.

Yr wythnos diwethaf, roedd datganiad hydref y Canghellor eto'n atgyfnerthu ymrwymiad Llywodraeth y DU i Gymru. O ganlyniad i benderfyniadau gwariant yr hydref hwn, bydd Llywodraeth Cymru yn derbyn symiau canlyniadol Barnett cadarnhaol o tua £233 miliwn. Rwy'n gobeithio y bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau gwerth am arian i'r trethdalwr yn y ffordd y mae'n bwriadu gwario'r arian ychwanegol hwn. Trwy fesurau a gyhoeddwyd yn natganiad yr hydref yr wythnos diwethaf, ac ochr yn ochr â'i hymateb diweddar i adroddiad comisiwn Silk, mae Llywodraeth y DU yn sicrhau bod yr holl arfau angenrheidiol ar gael i Gymru i sicrhau bod yr adferiad yr ydym eisoes wedi ei weld eleni yn parhau ac yn cryfhau.

It is clear that this Labour Government's previous budgets have failed to deliver significant outcomes in health, education and the economy. One only has to look at the latest PISA results, released last week, to see that our education standards are continuing to slip, leaving a whole generation of young people unequipped for the global race. In health, accident and emergency waiting time targets have not been met since 2009; cancer waiting time targets have been missed every month since 2008; and, ambulance response time targets have been met only once in the past year and a half. Welsh exports have fallen by 3.5% over the past year, demonstrating that the Welsh Government has failed to create the conditions for private sector growth in which businesses can prosper and compete for international contracts to sell their goods and services. Let us just say that confidence in this Labour administration's ability to deliver an effective budget is not exactly high. However, do not take my word for it. The Finance Committee report on the draft budget, which Members from all parties in the Chamber have endorsed, states:

Mae'n amlwg bod cyllidebau blaenorol y Llywodraeth Lafur hon wedi methu â sicrhau canlyniadau sylweddol mewn iechyd, addysg a'r economi. Nid oes ond rhaid edrych ar y canlyniadau PISA diweddaraf, a gyhoeddwyd yr wythnos diwethaf, i weld bod ein safonau addysg yn parhau i lithro, gan adael cenhedlaeth gyfan o bobl ifanc heb yr adnoddau ar gyfer y ras fyd-eang. Ym maes iechyd, ni fodlonwyd targedau amser aros damweiniau ac achosion brys ers 2009; methwyd â bodloni targedau amser aros ym maes canser bob mis ers 2008; ac nid yw targedau amser ymateb ambiwlansys ond wedi cael eu bodloni unwaith yn ystod y flwyddyn a hanner ddiwethaf. Mae allforion o Gymru wedi gostwng 3.5% dros y flwyddyn ddiwethaf, gan ddangos bod Llywodraeth Cymru wedi methu â chreu'r amgylchiadau ar gyfer twf y sector preifat lle y gall busnesau ffynnu a chystadlu am gytundebau rhyngwladol i werthu eu nwyddau a'u gwasanaethau. Gadewch inni ddweud nad yw hyder yng ngallu'r weinyddiaeth Lafur hon i gyflwyno cyllideb effeithiol yn uchel. Fodd bynnag, peidiwch â chymryd fy ngair i am hynny. Mae adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar y gyllideb ddrafft, y mae Aelodau o bob plaid yn y Siambr wedi'i gymeradwyo, yn datgan:

'We remain sceptical, based largely on past failures, that all health boards have the correct plans in place to ensure they can live within their budgets as an aging population puts greater demands on them.'

'Yn seiliedig i raddau helaeth ar fethiannau'r gorffennol, rydym yn parhau'n amheus a yw'r cynlluniau cywir ar waith gan bob bwrdd iechyd i sicrhau eu bod yn cadw o fewn eu cyllidebau wrth i boblogaeth sy'n heneiddio greu mwy a mwy o alw am eu gwasanaethau.'

Therefore, I again put it to the Minister that the Government must protect the health budget in real terms. Naturally, I am pleased that the Welsh Government has finally accepted our argument and has put some more money into the health service—something that we on this side of the Chamber have been tirelessly calling for. While I accept that the Government has provided an additional £150 million in this financial year, the NHS budget is not being protected in real terms and has, unfortunately, been brought to the brink of crisis. However, despite the tireless work of dedicated NHS staff, capacity constraints, bed shortages and blockages at A&E departments are all exacerbated by this Government's record-breaking health budget cuts. Sadly, the year-on-year real-term cuts to the Welsh NHS by this Labour Government are now coming back to haunt us today.

Felly, rwyf unwaith eto yn awgrymu i'r Gweinidog bod yn rhaid i'r Llywodraeth amddiffyn y gyllideb iechyd mewn termau real. Yn naturiol, rwy'n falch bod Llywodraeth Cymru wedi derbyn ein dadl o'r diwedd ac wedi rhoi mwy o arian i'r gwasanaeth iechyd—rhywbeth yr ydym ni ar yr ochr hon i'r Siambr wedi bod yn galw'n ddiflino amdano. Er fy mod yn derbyn bod y Llywodraeth wedi darparu £150 miliwn yn ychwanegol yn y flwyddyn ariannol hon, nid yw cyllideb y GIG yn cael ei gwarchod mewn termau real ac, yn anffodus, mae wedi dod yn agos at argyfwng. Fodd bynnag, er gwaethaf gwaith diflino staff ymroddedig y GIG, mae toriadau cyllideb mwy nag erioed y Llywodraeth hon yn dwysáu'r cyfyngiadau ar allu i ymdopi â'r llwyth gwaith, prinder gwelyau a rhwystrau mewn adrannau Damweiniau ac Achosion Brys. Yn anffodus, mae'r toriadau mewn termau real i GIG Cymru flwyddyn ar ôl blwyddyn gan y Llywodraeth Lafur hon yn awr yn dod yn ôl i wneud bywyd yn anodd heddiw.

Last year, the Minister confirmed in evidence to the Finance Committee that the Welsh Government would be looking at new ways to lever in private finance, and that there would be partnerships with the private sector in order to improve the economy. That was something that we on this side of the Chamber particularly welcomed. However, there is still uncertainty in this budget about the use of innovative financing models, and we need to see more detail about the types of models that the Welsh Government is looking at. It is essential that the Government uses the levers that it currently has at its disposal to maximise its resources and to lever in additional funds when it can, especially in the current financial climate. It is imperative that the Welsh Government links funding allocations via the budget with clear outputs and outcomes. There needs to be a greater focus on delivering value for money in each policy area.

Y llynedd, cadarnhaodd y Gweinidog mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor Cyllid y byddai Llywodraeth Cymru'n ystyried ffyrdd newydd o ddenu cyllid preifat, ac y byddai partneriaethau'n cae eu sefydlu â'r sector preifat er mwyn gwella'r economi. Roedd hynny'n rhywbeth yr oeddem ni ar yr ochr hon i'r Siambr yn ei groesawu'n arbennig. Fodd bynnag, ceir ansicrwydd yn y gyllideb hon o hyd ynglŷn â'r defnydd o fodelau ariannu arloesol, ac mae angen inni weld mwy o fanylion am y mathau o fodelau y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried. Mae'n hanfodol bod y Llywodraeth yn defnyddio'r dulliau sydd ar gael iddi ar hyn o bryd i fanteisio i'r eithaf ar ei hadnoddau ac i ddenu arian ychwanegol pan fydd yn gallu, yn enwedig yn yr hinsawdd ariannol bresennol. Mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn cysylltu dyraniadau cyllid, trwy'r gyllideb, â deilliannau a chanlyniadau clir. Mae angen pwysleisio mwy ar sicrhau gwerth am arian ym mhob maes polisi.

I am sure that the Minister will agree with me that planning ahead is also vital to securing stability within budgets. Given that Cardiff Airport was purchased under an emergency procedure that did not give this Chamber the opportunity to properly scrutinise the nationalisation, I very much hope that the Minister can now commit to greater planning and more transparency in future budgets. Therefore, in closing, we on this side of the Chamber will be voting against today's budget. We are not convinced that the budget currently before us will lead to significant improvements in health, educational standards and economic productivity. Therefore, I urge Members to vote against this motion.

Rwy'n siŵr y bydd y Gweinidog yn cytuno â mi ei bod hefyd yn hanfodol cynllunio ymlaen llaw er mwyn sicrhau sefydlogrwydd o fewn cyllidebau. O ystyried bod Maes Awyr Caerdydd wedi cael ei brynu dan weithdrefn frys na roddodd gyfle i'r Siambr hon graffu'n briodol ar y gwladoli, rwy'n gobeithio'n fawr y gall y Gweinidog yn awr ymrwymo i fwy o gynllunio a mwy o dryloywder mewn cyllidebau yn y dyfodol. Felly, wrth gloi, byddwn ni ar yr ochr hon i'r Siambr yn pleidleisio yn erbyn y gyllideb heddiw. Nid ydym yn argyhoeddedig y bydd y gyllideb ger ein bron ar hyn o bryd yn arwain at welliannau sylweddol mewn iechyd, safonau addysgol a chynhyrchiant economaidd. Felly, rwy'n annog yr Aelodau i bleidleisio yn erbyn y cynnig hwn.

16:21 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

You will not be surprised to know that I am going to ask Members to support this budget. What we are doing today is allocating the resources agreed by the Treasury for the Welsh block grant for the financial year 2014-15. We have had the ultra-left organisations criticising the Welsh Government for not setting a budget above the block grant. That would be the politics of the playground. We would then return to set a legal and balanced budget a few weeks later. The amount that we have to distribute between various departments is fixed and not increased in any meaningful way, as the income raised by rents and other payments to Welsh Government is relatively small. The criticisms that I have encountered are to blame the Welsh Government for these reductions. The blame lies firmly with one body: the Tories and Liberal Democrats at Westminster. Their cuts have made their way here. It is the Tory Westminster cuts that have made their way here that are making their way to other bodies, such as local government and health.

Ni fyddwch yn synnu i wybod fy mod i'n mynd i ofyn i Aelodau gefnogi'r gyllideb hon. Yr hyn yr ydym yn ei wneud heddiw yw dyrannu adnoddau y cytunwyd arnynt gan y Trysorlys ar gyfer grant bloc Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol 2014-15. Mae'r sefydliadau chwith eithafol wedi beirniadu Llywodraeth Cymru am beidio â gosod cyllideb uwchben y grant bloc. Gwleidyddiaeth yr iard chwarae fyddai hynny. Byddem wedyn yn dychwelyd i osod cyllideb gyfreithiol a chytbwys ychydig wythnosau'n ddiweddarach. Mae'r swm sydd gennym i'w ddosbarthu rhwng gwahanol adrannau yn sefydlog ac ni ellir ei gynyddu mewn unrhyw ffordd ystyrlon, gan fod yr incwm a godir gan renti a thaliadau eraill i Lywodraeth Cymru yn gymharol fach. Mae'r feirniadaeth yr wyf wedi dod ar ei thraws yn beio Llywodraeth Cymru am y gostyngiadau hyn. Mae'r bai yn gorwedd yn gadarn ar ysgwyddau un corff: y Torïaid a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn San Steffan. Mae eu toriadau wedi gwneud eu ffordd yma. Toriadau Torïaid San Steffan sydd wedi gwneud eu ffordd yma sy'n gwneud eu ffordd i gyrff eraill, megis llywodraeth leol ac iechyd.

The reduction in the amount of money that Welsh councils will have to spend next year has been reduced. The Welsh Government has acknowledged that the financial settlement is extremely challenging, but it says that it has shielded local authorities from the full effects of the Westminster cuts for the last three years. Just look at what has happened in England.

Mae'r gostyngiad yn y swm o arian y bydd gan gynghorau Cymru i wario y flwyddyn nesaf wedi cael ei ostwng. Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod bod y setliad ariannol yn heriol iawn, ond mae'n dweud ei bod wedi gwarchod awdurdodau lleol rhag effeithiau llawn toriadau San Steffan am y tair blynedd diwethaf. Edrychwch ar yr hyn sydd wedi digwydd yn Lloegr.

A number of Members here have identified areas that they do not want local authorities to cut. I still await a suggestion that does not include increased efficiency or a reduction in bureaucracy and that identifies services that Members here want to cut. On health, the Conservatives seem to think, 'For health: see hospitals'. Health is not just about hospitals; it is about keeping people fit, healthy eating, giving up smoking and an opportunity to have home care. There is a whole range of things, many of which are provided by local authorities. If we had pumped an extra £1 billion into hospitals, we would probably have had exactly the same report from the Finance Committee. The problem is that the health budget, which is now up to 43% of the Welsh block grant, is likely to keep on going up and up. It cannot exceed 100%, as that is all we have got. We could end up just being a health department, rather than a Welsh Government.

Mae nifer o Aelodau yma wedi nodi meysydd nad ydynt am i awdurdodau lleol eu torri. Rwy'n dal i aros am awgrym nad yw'n cynnwys gweithio'n fwy effeithlon neu leihau biwrocratiaeth ac sy'n nodi gwasanaethau y mae Aelodau yma am eu torri. O ran iechyd, mae'n ymddangos bod y Ceidwadwyr yn meddwl, 'Ar gyfer iechyd: gweler ysbytai'. Nid yw iechyd yn ymwneud yn unig ag ysbytai; mae'n ymwneud â chadw pobl yn ffit, bwyta'n iach, rhoi'r gorau i ysmygu a chyfle i gael gofal yn y cartref. Mae ystod eang o bethau, y mae llawer ohonynt yn cael eu darparu gan awdurdodau lleol. Pe byddem wedi pwmpio £1 biliwn yn ychwanegol i mewn i ysbytai, byddem yn ôl pob tebyg wedi cael union yr un adroddiad gan y Pwyllgor Cyllid. Y broblem yw bod y gyllideb iechyd, sydd bellach hyd at 43% o grant bloc Cymru, yn debygol o barhau i godi a chodi. Ni all fynd yn fwy na 100%, gan mai dyna'r cyfan sydd gennym. Gallem yn y pen draw fod yn ddim ond adran iechyd, yn hytrach na Llywodraeth Cymru.

We have also had the Conservatives in the past saying that there is no role for local education authorities, and that we should just give the money directly to schools and let the headteachers and governing bodies decide how to spend it. If that is your view, then it lacks a complete understanding of how the education system works. As anyone who worked in further education before and after they were taken out of local authority control can tell you, what occurred at that point was a huge increase in the number of administrative staff and in the cost of the contracts required to replace the services previously carried out by the local education authorities. I believe that there are several roles for the LEA. Without such a body, the cost to the education budget would be higher, or the number of teachers and teaching support workers would be reduced, as each school attempted to duplicate the functions currently carried out by the local education authority centrally.

Mae'r Ceidwadwyr yn y gorffennol hefyd wedi dweud nad oes rôl ar gyfer awdurdodau addysg lleol, ac y dylem roi'r arian yn uniongyrchol i ysgolion a gadael i'r penaethiaid a chyrff llywodraethu benderfynu sut i'w wario. Os mai dyna eich barn chi, yna nid ydych yn deall sut mae'r system addysg yn gweithio. Fel y gall unrhyw un a oedd yn gweithio mewn addysg bellach cyn ac ar ôl i'r sefydliadau gael eu cymryd o reolaeth yr awdurdod lleol ddweud wrthych, yr hyn a ddigwyddodd yr adeg honno oedd cynnydd enfawr yn nifer y staff gweinyddol ac yng nghost y contractau yr oedd eu hangen yn lle'r gwasanaethau a ddarperid yn flaenorol gan yr awdurdodau addysg lleol. Rwy'n credu bod sawl rôl ar gyfer yr AALl. Heb gorff o'r fath, byddai'r gost i'r gyllideb addysg yn uwch, neu byddai nifer yr athrawon a gweithwyr cymorth dysgu yn lleihau, wrth i bob ysgol geisio dyblygu swyddogaethau a gyflawnir gan yr awdurdod addysg lleol yn ganolog ar hyn o bryd.

The first is the organisation of funding for school transport. It is not only for rural areas, but for Welsh-medium and denominational schools, and for children with special educational needs. To delegate the money would be a complex process, because it would have to be delegated per child to avoid creating major winners and losers. Each school would then have to tender for bus and taxi contracts in isolation or join together and create the equivalent of an LEA transport department, albeit one run jointly by the schools and not by the local education authority.

Y cyntaf yw trefnu cyllid ar gyfer cludiant ysgol. Nid ar gyfer ardaloedd gwledig yn unig, ond ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg ac enwadol, ac ar gyfer plant ag anghenion addysgol arbennig. Byddai'n gymhleth dirprwyo'r arian, oherwydd y byddai'n rhaid ei ddirprwyo fesul plentyn er mwyn osgoi creu enillwyr a chollwyr mawr. Byddai'n rhaid i bob ysgol wedyn dendro am gontractau bysiau a thacsis ar wahân neu ymuno gyda'i gilydd a chreu rhywbeth sy'n cyfateb i adran drafnidiaeth yr AALl, ond yn un a fyddai'n cael ei rhedeg ar y cyd gan yr ysgolion ac nid gan yr awdurdod addysg lleol.

The second is investment in school buildings. Who will decide which schools should be either rebuilt, remodelled or have extensions? The Minister talked about additional money for new schools: how would that be decided if not by LEAs? How would the costs be allocated if there is not an LEA to make the decision? Who would choose where the building work would be done? How would such a decision be made? If the cost was allocated to each school, unless it was reflected in the school budget, the new school would have a problem with funding immediately.

Yr ail yw buddsoddi mewn adeiladau ysgol. Pwy fydd yn penderfynu pa ysgolion y dylid naill ai eu hailadeiladu neu eu hailfodelu, neu gael estyniadau? Soniodd y Gweinidog am yr arian ychwanegol ar gyfer ysgolion newydd: sut y byddai hynny'n cael ei benderfynu os nad gan AALl? Sut y byddai'r costau yn cael eu dyrannu os nad oes AALl i wneud y penderfyniad? Pwy fyddai'n dewis lle byddai'r gwaith adeiladu yn cael ei wneud? Sut fyddai penderfyniad o'r fath yn cael ei wneud? Pe byddai'r gost yn cael ei dyrannu i bob ysgol, oni bai ei bod yn cael ei hadlewyrchu yng nghyllideb yr ysgol, byddai gan yr ysgol newydd broblem o ran cyllid ar unwaith.

The third is specialist services. Surely, services such as the ethnic minority language service, services for Travellers, Welsh-language services, psychological services, including SEN statementing and support, and education other than in school are better dealt with by an LEA. For an individual school to attempt to provide these services would be both expensive and time-consuming for senior management. Therefore, either the schools get together and reinvent the local education authority or—more likely—they will say that they would like to go back to where they were.

Y trydydd yw gwasanaethau arbenigol. Yn sicr, mae'n well bod AALl yn ymdrin â gwasanaethau fel y gwasanaeth iaith leiafrifol ethnig, gwasanaethau ar gyfer Teithwyr, gwasanaethau iaith Gymraeg, gwasanaethau seicolegol, gan gynnwys datganiadau a chymorth AAA, ac addysg heblaw yn yr ysgol. Byddai'n ddrud ac yn cymryd llawer o amser i uwch reolwyr pe byddai pob ysgol unigol yn ceisio darparu'r gwasanaethau hyn. Felly, naill ai mae ysgolion yn dod at ei gilydd ac yn ailddyfeisio'r awdurdod addysg lleol neu—yn fwy tebygol—byddant yn dweud y byddent yn hoffi mynd yn ôl i lle'r oedden nhw.

We are looking at a situation where times are hard—they have been made hard by the Conservative and Liberal Democrat Government at Westminster—and let us not blame the Welsh Government for trying to do its best with what it has in very difficult times. I urge people to support the budget and to realise that the Labour Government is doing its best, despite what the Tories are doing to us in Wales.

Rydym yn edrych ar sefyllfa lle mae amseroedd yn anodd—mae Llywodraeth y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn San Steffan wedi eu gwneud yn anodd—a gadewch inni beidio â beio Llywodraeth Cymru am geisio gwneud ei gorau â'r hyn sydd ganddi mewn cyfnod anodd iawn. Rwy'n annog pobl i gefnogi'r gyllideb ac i sylweddoli bod y Llywodraeth Lafur yn gwneud ei gorau, er gwaethaf yr hyn y mae'r Torïaid yn ei wneud i ni yng Nghymru.

16:26 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Last week's very disappointing PISA results tell us that much more attention must be given to our children's education. We know, from a variety of studies, that there is a clear link between poverty and low educational attainment. While funding can never be the whole answer, it is perhaps more important than ever for the pupil deprivation grant to be doubled to £918 per child next spring. It is, though, imperative that we see good outcomes from this additional money and, in particular, that we see improvements among the least well-off students in the very basics.

Mae canlyniadau PISA siomedig iawn yr wythnos diwethaf yn dweud wrthym bod yn rhaid rhoi llawer mwy o sylw i addysg ein plant. Rydym yn gwybod, o amrywiaeth o astudiaethau, bod cysylltiad clir rhwng tlodi a chyrhaeddiad addysgol isel. Er na all cyllid fyth fod yr ateb cyfan, efallai ei fod yn fwy pwysig nag erioed i'r grant amddifadedd disgyblion gael ei ddyblu i £918 y plentyn y gwanwyn nesaf. Fodd bynnag, mae'n hanfodol ein bod yn gweld canlyniadau da o'r arian ychwanegol hwn ac, yn benodol, ein bod yn gweld gwelliannau ymhlith y myfyrwyr lleiaf cefnog yn y pethau hollol sylfaenol.

The close-to-home healthcare package will assist people across Wales, helping to reduce the pressure pinch points in the health service. The intermediate care fund will integrate services provided by social services and local health boards to allow people to continue living in their own homes. The aim for this is to reduce delays and bedblocking. Technological improvements through investment in telemedicine and e-health will save time for patients and doctors by allowing patients to access appointments over video phones when an in-person meeting is not required. Investment in da Vinci robots for prostate cancer treatment will mean that patients in Wales will not have to pay fees of up to £15,000 for their treatment across the border. All of this will mean that Welsh patients will be able to be treated closer to home—a principle that the Government should perhaps reflect upon in relation to its centralisation programme.

Bydd y pecyn gofal iechyd yn agos at y cartref yn cynorthwyo pobl ar draws Cymru, gan helpu i leihau'r pwysau yn y gwasanaeth iechyd. Bydd y gronfa gofal canolraddol yn integreiddio gwasanaethau a ddarperir gan y gwasanaethau cymdeithasol a byrddau iechyd lleol i alluogi pobl i barhau i fyw yn eu cartrefi eu hunain. Y nod ar gyfer hyn yw lleihau achosion o oedi a blocio gwelyau. Bydd gwelliannau technolegol drwy fuddsoddi mewn telefeddygaeth ac e-iechyd yn arbed amser ar gyfer cleifion a meddygon trwy ganiatáu i gleifion gael apwyntiadau dros ffonau fideo pan nad oes angen cyfarfod personol. Trwy fuddsoddi mewn robotiaid da Vinci ar gyfer triniaeth canser y brostad, ni na fydd yn rhaid i gleifion yng Nghymru dalu ffioedd o hyd at £15,000 ar gyfer eu triniaeth ar draws y ffin. Bydd hyn i gyd yn golygu y bydd cleifion Cymru yn gallu cael triniaeth yn agosach at y cartref—egwyddor y dylai'r Llywodraeth ei hystyried o bosibl o safbwynt ei rhaglen o ganoli.

We in Plaid Cymru are pleased that we were able to negotiate reductions in the planned cuts to the Supported People programme. This supports those people who are at risk of becoming homeless, including women suffering from domestic abuse and those who are leaving care.

Rydym ni ym Mhlaid Cymru yn falch ein bod wedi gallu trafod gostyngiadau yn y toriadau arfaethedig i'r rhaglen Cefnogi Pobl. Mae hon yn cefnogi'r bobl hynny sydd mewn perygl o fod yn ddigartref, gan gynnwys menywod sy'n dioddef camdriniaeth ddomestig a'r rhai sy'n gadael gofal.

We will, however, be abstaining on this vote today. We do not endorse the entire budget, but our negotiations mean that we will allow the budget to pass. We accept that the minority Labour Government's position is not of its own making. This budget has been handed down from Westminster. However, the Government's position is not helped by the fact that it is reluctant to take responsibility for sharing income tax powers. It is also regrettable that the Government party will not commit to the introduction of a fair funding formula for Wales if it wins the next Westminster elections.

Byddwn, fodd bynnag, yn ymatal ar y bleidlais hon heddiw. Nid ydym yn cymeradwyo'r gyllideb gyfan, ond mae ein trafodaethau yn golygu y byddwn yn caniatáu i'r gyllideb basio. Rydym yn derbyn nad y Llywodraeth Lafur leiafrifol sy'n gyfrifol am ei sefyllfa. Mae'r gyllideb hon wedi cael ei throsglwyddo o San Steffan. Fodd bynnag, nid yw safbwynt y Llywodraeth yn cael ei helpu gan y ffaith ei bod yn amharod i gymryd cyfrifoldeb am rannu pwerau treth incwm. Mae hefyd yn anffodus na fydd plaid y Llywodraeth yn ymrwymo i gyflwyno fformiwla ariannu deg i Gymru os bydd yn ennill yr etholiadau nesaf yn San Steffan.

Questions that have gone unanswered remain from this budget. We have yet to hear what impact assessments have been carried out on the effect of local government cuts on Welsh Government priorities. How, for example, will cutting education provision for three to five-year-olds in one of the local authorities with some of the highest levels of deprivation tackle child poverty or, indeed, improve economic outcomes? Some people are taking multiple hits from these cuts, losing out due to the bedroom tax as well as rising food and fuel prices, transport costs and so on.

Mae cwestiynau yn parhau heb eu hateb yn sgil y gyllideb hon. Rydym yn dal heb glywed pa asesiadau effaith sydd wedi cael eu cynnal ar effaith toriadau llywodraeth leol ar flaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Sut, er enghraifft, y gellir mynd i'r afael â thlodi plant neu, yn wir, wella canlyniadau economaidd trwy gwtogi'r ddarpariaeth addysg ar gyfer rhai tair i bump oed yn un o'r awdurdodau lleol â rhai o'r lefelau amddifadedd uchaf? Mae rhai pobl yn dioddef sawl ergyd gan y toriadau hyn, oherwydd y dreth ystafell wely yn ogystal â chynnydd mewn prisiau bwyd a thanwydd, costau cludiant ac ati.

I would like to finish my contribution with a brief word on the future of the Welsh language in relation to this budget. We have heard the First Minister say that he wants to defend the Welsh language, but how can this be possible while cutting back on Welsh language services? We have seen an 8% cut in the Welsh for adults budget. How will this help parents to learn Welsh alongside their children? How will it help new Welsh citizens to integrate into their Welsh-language communities? Have these questions even been seriously considered?

Hoffwn orffen fy nghyfraniad gyda gair byr ar ddyfodol yr iaith Gymraeg mewn perthynas â'r gyllideb hon. Rydym wedi clywed y Prif Weinidog yn dweud ei fod am amddiffyn yr iaith Gymraeg, ond sut y gall hyn fod yn bosibl a ninnau'n cwtogi ar wasanaethau iaith Gymraeg? Rydym wedi gweld toriad o 8% yn y gyllideb Cymraeg i oedolion. Sut bydd hyn yn helpu rhieni i ddysgu Cymraeg ochr yn ochr â'u plant? Sut bydd yn helpu dinasyddion newydd Cymru i integreiddio i'w cymunedau iaith Gymraeg? A yw'r cwestiynau hyn hyd yn oed wedi cael eu hystyried o ddifrif?

This is a difficult budget. Plaid Cymru has tried to improve it, as we did last year with additional funding for higher-quality apprenticeship places. We can influence, but, like last year, this is the Government's budget. Where Plaid Cymru can make a difference, we will. Where we could make a difference, we did.

Mae hon yn gyllideb anodd. Mae Plaid Cymru wedi ceisio ei gwella, fel y gwnaethom y llynedd gyda chyllid ychwanegol ar gyfer prentisiaethau o safon uwch. Gallwn ddylanwadu, ond, fel y llynedd, cyllideb y Llywodraeth yw hon. Lle y gall Plaid Cymru wneud gwahaniaeth, fe wnawn. Lle y gallem wneud gwahaniaeth, fe wnaethom.

16:31

## Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

If I could start where Leanne Wood left off, this is a difficult budget, and it is made more difficult by the fact that we are in a very difficult economic situation. Mike Hedges referred to the money we are getting from Westminster. On the basis of Alastair Darling's 2009 budget, of course, we would have got even less money, and the cuts would have been even deeper. However, that is not really the point in terms of this budget. The point here is what we can do with the money that we get, and how we can spend that money to the best possible effect.

Pe gallwn ddechrau lle y gorffennodd Leanne Wood, mae hon yn gyllideb anodd, ac mae'n cael ei gwneud yn fwy anodd gan y ffaith ein bod mewn sefyllfa economaidd anodd iawn. Cyfeiriodd Mike Hedges at yr arian yr ydym yn ei gael gan San Steffan. Ar sail cyllideb 2009 Alastair Darling, wrth gwrs, byddem wedi cael llai fyth o arian, a byddai'r toriadau wedi bod yn ddyfnach fyth. Fodd bynnag, nid dyna'r pwynt o ran y gyllideb hon. Y pwynt yma yw'r hyn y gallwn ei wneud â'r arian a gawn, a sut y gallwn wario'r arian yn y ffordd orau bosibl.

In response to Paul Davies, yes, the Welsh Labour Government is failing in terms of education and health, but it is our job as opposition parties—and it is a job that the Welsh Liberal Democrats take very seriously—to work constructively to put things right. That is why I felt it was important—I know that Jocelyn Davies, who worked with me on negotiations with the Welsh Liberal Democrats and the Plaid Cymru group, also felt it was important—that we did work to try to improve this budget, and to get concessions from the Government that would improve things in terms of both health and education, and start to direct the money where it should be directed. That is a far more constructive approach than carping from the sidelines, as the Welsh Conservatives seem to have done throughout this budget process. What is important in terms of any budget process are the outputs—not the money you put in, but how you spend the money, and what comes out of that.

Mewn ymateb i Paul Davies, ydy, mae Llywodraeth Lafur Cymru yn methu o ran addysg ac iechyd, ond ein gwaith ni fel gwrthbleidiau—ac mae'n waith y mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn ei gymryd o ddifrif—yw gweithio'n adeiladol i unioni pethau. Dyna pam fy mod yn teimlo ei bod yn bwysig—rwy'n gwybod bod Jocelyn Davies, a weithiodd gyda mi ar drafodaethau gyda Democratiaid Rhyddfrydol Cymru a grŵp Plaid Cymru, hefyd yn teimlo ei bod yn bwysig—ein bod yn gwneud gwaith i geisio gwella'r gyllideb hon, ac i gael consesiynau gan y Llywodraeth a fyddai'n gwella pethau o ran iechyd ac addysg, a dechrau cyfeirio'r arian i'r mannau lle y dylid ei gyfeirio. Mae hwnnw'n ddull llawer mwy adeiladol na chwyno o'r ymylon, fel y mae'n ymddangos bod y Ceidwadwyr Cymreig wedi'i wneud trwy gydol y broses gyllideb hon. Yr hyn sy'n bwysig o ran unrhyw broses gyllideb yw'r allbynnau—nid yr arian yr ydych yn ei roi i mewn, ond sut y byddwch yn gwario'r arian, a'r hyn sy'n deillio o hynny.

We feel particularly strongly that the intermediate care fund, details of which were released in a statement earlier today, will make a big difference in terms of integrating health and social care in local communities, giving local councils control of that money in terms of how they bid for it and use it. We feel very strongly that the extra money for the health technology fund, for telemedicine and for the cancer equipment will make a big difference in terms of improving outcomes for patients across Wales. We feel particularly strongly that the extra money for the pupil deprivation grant, the Liberal Democrats' pupil premium, will make a huge difference to outcomes for young people and schools, and I think that is reinforced by the Estyn report today, which says that we should be focusing funding on that particular cohort. However, there are issues about consistency and making sure that lessons are learned from school to school as to how best to use that money to improve outcomes for the most deprived and poorest pupils in schools, whose educational outcomes remain unsatisfactory.

Rydym yn teimlo'n arbennig o gryf y bydd y gronfa gofal canolraddol, y rhyddhawyd ei manylion mewn datganiad yn gynharach heddiw, yn gwneud gwahaniaeth mawr o ran integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol mewn cymunedau lleol, gan roi rheolaeth i gynghorau lleol o ran sut y maent yn gwneud cais am arian ac yn ei ddefnyddio. Rydym yn teimlo'n gryf iawn y bydd yr arian ychwanegol ar gyfer y gronfa technoleg iechyd, telefeddygaeth ac ar gyfer yr offer canser yn gwneud gwahaniaeth mawr o ran gwella canlyniadau i gleifion ledled Cymru. Teimlwn yn arbennig o gryf fod yr arian ychwanegol ar gyfer y grant amddifadedd disgyblion, premiwm disgyblion y Democratiaid Rhyddfrydol, yn gwneud gwahaniaeth mawr i ganlyniadau ar gyfer pobl ifanc ac ysgolion. Credaf fod hynny'n cael ei atgyfnerthu gan adroddiad Estyn heddiw, sy'n dweud y dylem fod yn canolbwyntio cyllid ar y garfan benodol honno. Fodd bynnag, ceir materion yn ymwneud â chysondeb a sicrhau y dysgir gwersi o ysgol i ysgol ynghylch y ffordd orau i ddefnyddio'r arian hwnnw i wella canlyniadau ar gyfer y disgyblion tlotaf a mwyaf difreintiedig mewn ysgolion, y mae eu canlyniadau addysgol yn parhau i fod yn anfoddhaol

We were pleased to work with the Welsh Government to put our key values into place and secure that increased investment in education to secure that better future for pupils from deprived backgrounds, to secure that extra money for health and social care, and, effectively, to double the money that is available for that pupil deprivation grant.

Roeddem yn falch o weithio gyda Llywodraeth Cymru i roi ein gwerthoedd allweddol ar waith a sicrhau'r buddsoddiad ychwanegol hwnnw mewn addysg i sicrhau'r gwell dyfodol hwnnw ar gyfer disgyblion o gefndiroedd difreintiedig, i sicrhau'r arian ychwanegol hwnnw ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, ac, i bob pwrpas, i ddyblu'r arian sydd ar gael ar gyfer y grant amddifadedd disgyblion.

The recent PISA results have highlighted the importance of investment in education. We are lagging behind every other nation in the UK. We have dropped from twenty-second in science to joint thirty-sixth. We have dropped 10 places in maths and fallen from twenty-ninth in reading to forty-first. The investment that is going through as part of our pupil deprivation grant will help to put that right, along with the fact that we have had, as part of this budget deal, as part of this budget settlement, 1% on top of the block also guaranteed. The Minister gave us assurances as part of the draft budget debate that local government would not be able to use the pupil deprivation grant to offset that 1% extra that is also going into education. I certainly hope that the Minister is able to target that and ensure that that continues to happen.

Mae'r canlyniadau PISA diweddar wedi tynnu sylw at bwysigrwydd buddsoddi mewn addysg. Rydym yn llusgo y tu ôl i bob cenedl arall yn y DU. Rydym wedi gostwng o'r ail safle ar hugain mewn gwyddoniaeth i safle cydradd dri deg chwech. Rydym wedi gostwng 10 lle mewn mathemateg ac wedi gostwng o'r nawfed safle ar hugain mewn darllen i safle pedwar deg un. Bydd y buddsoddiad sydd yn mynd trwyddo fel rhan o'n grant amddifadedd disgyblion yn helpu i unioni hynny, ynghyd â'r ffaith ein bod hefyd wedi cael gwarantu 1% ar ben y bloc, fel rhan o'r cytundeb cyllideb hwn, fel rhan o setliad y gyllideb hon. Rhoddodd y Gweinidog sicrwydd fel rhan o'r ddadl ar y gyllideb ddrafft na fyddai llywodraeth leol yn gallu defnyddio'r grant amddifadedd disgyblion i wneud iawn am yr 1% ychwanegol sydd hefyd yn mynd i addysg. Rwy'n sicr yn gobeithio bod y Gweinidog yn gallu targedu hynny a sicrhau bod hynny'n parhau i ddigwydd.

The Welsh Liberal Democrats will also abstain on this budget, not because we want to wash our hands of it, effectively, as the other opposition party has done, but because, as Leanne Wood has said, this is not our budget, it is the Welsh Government's budget. However, we have got a significant improvement to it, which makes us feel comfortable in allowing the budget to go through, because of those extra inputs. We believe those will produce outputs that are worth having and will make sure that, in terms of education and health, we will be able to see significant improvements as a result of that investment and make sure that local government, health boards and other bodies are able to work together much more closely in delivering those improvements that we hope to see over the next few years. Of course, Welsh Government Ministers will retain responsibility for delivering those particular policies and making sure that those improvements come about, but, in terms of the budget deal that we have had, and the extra £100 million we have put into this budget in partnership with Plaid Cymru, making sure that that money is being directed in the way we think it should be directed, will give them the tools that they need to do that job.

Bydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru hefyd yn ymatal ar y gyllideb hon, nid oherwydd ein bod am olchi ein dwylo ohoni, i bob pwrpas, fel y mae'r wrthblaid arall wedi'i wneud, ond oherwydd nad ein cyllideb ni mohoni, fel y mae Leanne Wood wedi dweud, cyllideb Llywodraeth Cymru yw hi. Fodd bynnag, rydym wedi llwyddo i'w gwella'n sylweddol, sy'n gwneud i ni deimlo'n gyfforddus yn caniatáu i'r gyllideb fynd basio, oherwydd y cyfraniadau ychwanegol hynny. Rydym yn credu y bydd y rhain yn cynhyrchu allbynnau sy'n werth eu cael ac yn gwneud yn siŵr, o ran addysg ac iechyd, y byddwn yn gallu gweld gwelliannau sylweddol o ganlyniad i'r buddsoddiad hwnnw a sicrhau bod llywodraeth leol, byrddau iechyd a chyrff eraill yn gallu gweithio gyda'i gilydd yn llawer agosach wrth gyflwyno'r gwelliannau hynny yr ydym yn gobeithio eu gweld yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf. Wrth gwrs, bydd Gweinidogion Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn gyfrifol am gyflwyno'r polisïau penodol hynny a gwneud yn siŵr bod y gwelliannau hynny'n digwydd, ond bydd y cytundeb cyllideb yr ydym wedi'i gael, a'r £100 miliwn ychwanegol yr ydym wedi ei roi yn y gyllideb hon mewn partneriaeth â Phlaid Cymru, gan wneud yn siŵr bod yr arian yn cael ei gyfeirio yn y ffordd y credwn y dylid ei gyfeirio, yn rhoi'r offer sydd eu hangen arnynt i wneud y gwaith hwnnw.

16:36 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

As a result of this UK Government's policy of fiscal prudence and deficit reduction, rather than buying votes today at the expense of our children tomorrow, the UK's austerity squeeze has been one of the smallest in the western world. Based on OECD figures, the UK has had the fifth smallest austerity programme among the top 20 developed nations, with Greece at the bottom. Those countries that followed a path of borrow, bust and bailout—with bailout conditional on externally imposed commitments to greater austerity measures—have faced far greater cuts and squeeze on living standards. Contrast Greece—where inspectors from Greece's bailout creditors restarted talks on further spending reforms last month—with the UK, which now has the fastest growth of all G7 countries.

O ganlyniad i'r polisi hwn gan Lywodraeth y DU o arfer pwyll cyllidol a lleihau'r diffyg, yn hytrach na phrynu pleidleisiau heddiw ar draul ein plant yfory, mae gwasgfa'r DU wedi bod yn un o'r lleiaf yn y byd gorllewinol. Yn seiliedig ar ffigurau'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, mae rhaglen lymder y DU wedi bod y pumed lleiaf ymhlith yr 20 gwlad ddatblygedig uchaf, gyda Gwlad Groeg ar y gwaelod. Mae'r gwledydd hynny a ddilynodd lwybr o fenthyca, mynd i'r wal a chael cyllid i'w hachub—gyda'r cyllid hwnnw'n amodol ar ymrwymiadau i fesurau llymach fyth a osodwyd o'r tu allan —wedi wynebu llawer mwy o doriadau a gwasgfa waeth ar safonau byw. Cyferbynnwch Wlad Groeg—lle'r ailgychwynnodd arolygwyr drafodaethau ar ran credydwyr Gwlad Groeg ar ragor o ddiwygiadau gwariant y mis diwethaf—gyda'r DU, sydd bellach â'r twf cyflymaf o holl wledydd y G7.

The International Monetary Fund board disagreed with its previous effort to pressure George Osborne into changing his fiscal plans. Figures from the job vacancies index, the Recruitment and Employment Confederation and KPMG, confirmed that, last month, the growth in UK job vacancies hit the fastest rate in 15 years and salaries for permanent staff rose at the highest rate since November 2007.

Roedd bwrdd y Gronfa Ariannol Ryngwladol yn anghytuno â'i hymdrech flaenorol i roi pwysau ar George Osborne i newid ei gynlluniau cyllidol. Roedd ffigurau o'r mynegai swyddi gwag, y Cydffederasiwn Recriwtio a Chyflogaeth a KPMG, yn cadarnhau, y mis diwethaf, bod twf mewn swyddi gwag yn y DU wedi cyrraedd y gyfradd gyflymaf mewn 15 mlynedd a bod cyflogau staff parhaol wedi codi ar y gyfradd uchaf ers mis Tachwedd 2007.

While Labour scaremongered about double-dip and triple-dip recessions, it turned out that the only real recession was Labour's great recession of 2008-09, now confirmed by the Office for National Statistics to have been deeper than initially feared, when the UK suffered one of the sharpest falls in national income of any world economy. That is why this UK Government set out a long-term economic plan and took the difficult decisions needed to fix the economy. Thanks to the sacrifice and endeavour of people in Wales and across the UK the recovery is under way, with £858 million of additional capital spending granted to the Welsh Government in UK budgets and £100 million extra following the Chancellor's autumn statement last week. However, the job is not yet done.

Tra bod Llafur yn codi bwganod am ddirwasgiadau dwbl a thriphlyg, yr unig ddirwasgiad go iawn oedd dirwasgiad mawr 2008-09 dan y Llywodraeth Lafur. Cadarnhaodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol bellach ei fod yn ddyfnach nag yr ofnwyd i ddechrau, pan ddioddefodd y DU un o'r gostyngiadau cyflymaf mewn incwm cenedlaethol o blith unrhyw economi yn y byd. Dyna pam fod Llywodraeth y DU wedi pennu cynllun economaidd hirdymor ac wedi gwneud y penderfyniadau anodd sydd eu hangen i adfer yr economi. Diolch i aberth ac ymdrech pobl yng Nghymru a ledled y DU mae'r adferiad ar y gweill, gyda £858 miliwn o wariant cyfalaf ychwanegol wedi'i roi i Lywodraeth Cymru yng nghyllidebau'r DU a £100 miliwn ychwanegol yn dilyn datganiad yr hydref gan y Canghellor yr wythnos diwethaf. Fodd bynnag, nid yw'r gwaith ar ben.

For too long, Labour let public finances run out of control, leaving Britain with the largest deficit in our peacetime history.

Am gyfnod rhy hir, mae Llafur wedi gadael i arian cyhoeddus fynd allan o reolaeth, gan adael Prydain gyda'r diffyg mwyaf yn ein hanes mewn cyfnod o heddwch.

16:38 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will you give way?

A wnewch chi ildio?

16:38 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

With pleasure.

Â phleser.

16:38 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Do you accept that, from 1997 to 2007, under the Labour Government, we had the highest period of sustained growth in generations? In 2007, public borrowing was only 0.1% higher than it was in 1997. Do you accept also that, if Labour had not bailed out the banks, we would have gone into a depression? Do you accept that, at that time, Labour borrowed for actual growth, which you then cut? It is only now that growth is beginning to appear, because you started restoring some of our public spending commitments in infrastructure.

A ydych yn derbyn inni gael y cyfnod uchaf o dwf parhaus mewn cenedlaethau rhwng 1997 a 2007, o dan y Llywodraeth Lafur? Yn 2007, nid oedd benthyca cyhoeddus ond 0.1% yn uwch nag yr oedd ym 1997. A ydych hefyd yn derbyn y byddem wedi mynd i ddirwasgiad, pe na byddai Llafur wedi achub croen y banciau? A ydych yn derbyn bod Llafur, ar y pryd, wedi benthyca ar gyfer twf gwirioneddol, a dorrwyd wedyn gennych chi? Dim ond yn awr y mae twf yn dechrau ymddangos, oherwydd eich bod wedi dechrau adfer rhai o'n hymrwymiadau gwariant cyhoeddus mewn seilwaith.

16:39 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I accept that Gordon Brown turned the Keynesian rules on their head and applied light-touch regulation to the banking sector, which led to the scale of the crash we are all paying for now.

Rwy'n derbyn bod Gordon Brown wedi troi'r rheolau Keynesaidd ar eu pen ac wedi rheoleiddio'r sector bancio yn llai trylwyr, gan arwain at raddfa'r chwalfa yr ydym i gyd yn talu amdani ar hyn o bryd.

The job is not done, however. Labour is in denial about its culpability for the economic crash and the resultant hit on living standards and has no long-term plan to remedy this. As Labour's Ken Livingstone has said, the Labour Party was guilty of cowardice for building up billions in debt rather than taking difficult decisions on tax and spending. As Labour's Ann Clwyd said, after reading a number of testimonies to the House of Commons detailing a lack of care and compassion experienced by patients and their families in the NHS, all these came from Wales. Only the devolved Welsh NHS suffered real-term budget cuts from 2010. Also, Labour's Alan Milburn found that pupils eligible for free school meals in England are 50% more likely to obtain five good GCSEs than their counterparts in Wales. Yet, when challenged on last week's PISA results, showing 15-year-olds in Wales were faring worse than those in the rest of the UK in reading, maths and science, and with the Confederation of British Industry Wales warning of a skills shortage, this First Minister referred to Welsh Conservative spending plans rather than apologising. My party's 2011 manifesto for this Assembly proposed a 12% reduction, not dissimilar to Labour's post 2011 election budgets.

Nid yw'r gwaith ar ben, fodd bynnag. Mae'r blaid Lafur yn gwadu ei heuogrwydd am y chwalfa economaidd a'r ergyd i safonau byw o ganlyniad, ac nid oes ganddi unrhyw gynllun hirdymor i gywiro hyn. Fel y dywedodd Ken Livingstone o'r blaid Lafur, roedd y Blaid Lafur yn euog o lwfrdra am greu biliynau mewn dyled yn hytrach na gwneud penderfyniadau anodd ar dreth a gwariant. Fel y dywedodd Ann Clwyd o'r blaid Lafur, ar ôl darllen sawl dogfen dystiolaeth i Dŷ'r Cyffredin yn trafod diffyg gofal a thosturi a brofwyd gan gleifion a'u teuluoedd yn y GIG, daeth y rhain i gyd o Gymru. Dim ond GIG datganoledig Cymru a ddioddefodd doriadau yn y gyllideb mewn termau real o 2010. Hefyd, canfu Alan Milburn o'r blaid Lafur fod disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn Lloegr 50% yn fwy tebygol o gael pum TGAU da na'u cyfoedion yng Nghymru. Eto i gyd, pan gafodd ei herio'r wythnos diwethaf ar ganlyniadau PISA, a oedd yn dangos bod disgyblion 15 mlwydd oed yng Nghymru yn gwneud yn waeth na'r rhai yng ngweddill y DU mewn darllen, mathemateg a gwyddoniaeth, a chyda Chydffederasiwn Diwydiant Prydain yng Nghymru yn rhybuddio am brinder sgiliau, cyfeiriodd y Prif Weinidog hwn at gynlluniau gwariant y Ceidwadwyr Cymreig yn hytrach nag ymddiheuro. Roedd maniffesto 2011 fy mhlaid ar gyfer y Cynulliad hwn yn cynnig 12% o ostyngiad, nid annhebyg i gyllidebau Llafur ar ôl etholiad 2011.

The Council of Mortgage Lenders reported in May that 84% of adults in Wales wish to be home owners within the next 10 years, which is greater than the overall figure for the UK. Yet earlier this year, Redrow said that in Wales

Nododd y Cyngor Benthycwyr Morgeisi ym mis Mai fod 84% o oedolion yng Nghymru yn dymuno bod yn berchnogion cartref o fewn y 10 mlynedd nesaf, sy'n fwy na'r ffigur cyffredinol ar gyfer y DU. Eto yn gynharach eleni, dywedodd Redrow, yng Nghymru

'we are not seeing the same stimulus to the new-homes market evident in England.'

nad ydym yn gweld yr un ysgogiad i'r farchnad cartrefi newydd ag sy'n amlwg yn Lloegr.

In June, some of Wales's biggest house builders said that:

Ym mis Mehefin, dywedodd rhai o adeiladwyr tai mwyaf Cymru fod:

'The delays from the Welsh Government in announcing any assistance to home buyers is having a continued negative effect on the market in Wales.'

Yr oedi gan Lywodraeth Cymru o ran cyhoeddi unrhyw gymorth i brynwyr cartrefi yn cael effaith negyddol barhaus ar y farchnad yng Nghymru.

With growth in house building in England now the fastest in 10 years, Wales is still going backwards. The Minister for Finance has announced £174.5 million in financial transaction funding to help home buyers and increase housing supply, but this only happened because it was ring fenced for housing capital investment by the UK Treasury. In reality, Wales has suffered years of Welsh Government inaction while help for home buyers was available in England and Scotland.

Mae'r twf mewn adeiladu tai yn Lloegr ar ei gyflymaf mewn 10 mlynedd bellach, ond mae Cymru yn dal i fynd tuag yn ôl. Mae'r Gweinidog Cyllid wedi cyhoeddi £174.5 miliwn mewn cyllid trafodion ariannol i helpu prynwyr cartrefi a chynyddu'r cyflenwad tai, ond yr unig reswm y digwyddodd hyn oedd ei fod wedi'i neilltuo ar gyfer buddsoddiad cyfalaf tai gan Drysorlys y DU. Mewn gwirionedd, mae Cymru wedi dioddef blynyddoedd o ddiffyg gweithredu gan Lywodraeth Cymru tra bod cymorth i brynwyr cartrefi ar gael yn Lloegr a'r Alban.

This Welsh Government only knows two things: making people afraid of something and then blaming someone for it. Government, however, is about something much more: it is about taking responsibility and getting things done. Democracy is also about something much more: it is about the people taking responsibility and holding Government to account. That compact has been broken in Wales, and Wales has been going backwards.

Nid yw'r Llywodraeth hon yng Nghymru ond yn gwybod dau beth: codi ofn ar bobl ac yna beio rhywun. Mae Llywodraeth, fodd bynnag, yn ymwneud â rhywbeth llawer mwy: mae'n ymwneud â chymryd cyfrifoldeb a sicrhau bod pethau'n cael eu gwneud. Mae democratiaeth hefyd yn ymwneud â rhywbeth llawer mwy: mae'n ymwneud â'r bobl yn cymryd cyfrifoldeb ac yn dwyn y Llywodraeth i gyfrif. Mae'r cytundeb hwnnw wedi'i dorri yng Nghymru, ac mae Cymru wedi bod yn mynd tuag yn ôl.

16:41 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

There is a context, of course, for this debate, and it is the context that was set by the Office for Budget Responsibility last week, when it said that government would be smaller as a proportion of national output than at any time since 1948—in other words, the year in which the NHS was founded. I am not saying that public spending as a share of national output is lower than it was then, because, of course, welfare payments, including pensions, housing benefit and unemployment benefit, are not included, but that includes virtually everything else—day-to-day spending, infrastructure and debt interest. The Office for Budget Responsibility says that:

Mae cyd-destun, wrth gwrs, i'r ddadl hon, sef y cyd-destun a osodwyd gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yr wythnos diwethaf, pan ddywedodd y byddai llywodraeth yn llai fel cyfran o allbwn cenedlaethol nag ar unrhyw adeg ers 1948—mewn geiriau eraill, y flwyddyn y cafodd y GIG ei sefydlu. Nid wyf yn dweud bod gwariant cyhoeddus fel cyfran o allbwn cenedlaethol yn is nag yr oedd bryd hynny, oherwydd, wrth gwrs, nid yw taliadau lles, gan gynnwys pensiynau, budd-dal tai a budd-dal diweithdra, yn cael eu cynnwys, ond mae hynny'n cynnwys bron popeth arall—gwariant o ddydd i ddydd, seilwaith a llog ar ddyledion. Dywed y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol:

'This will take government consumption of goods and services—a rough proxy for day-to-day spending on public services and administration—to its smallest share of national income at least since 1948'.

Bydd hyn yn gostwng defnydd y llywodraeth o nwyddau a gwasanaethau—procsi bras ar gyfer gwariant o ddydd i ddydd ar wasanaethau cyhoeddus a gweinyddu—i'w gyfran leiaf o incwm cenedlaethol o leiaf ers 1948.

The political reality, of course, is that over 80% of the action to reduce the budget deficit has been coming from spending cuts and not increased revenues from taxation. Indeed, cuts in spending in the next parliament will be worse than in this parliament. The Institute for Fiscal Studies says that cuts have been 2.3% a year in this parliament and will be 3.7% in the next parliament. It is no wonder that David Cameron says that, if the Conservatives stay in power, austerity is here to stay—and for what? The Office for Budget Responsibility says that it expects public sector net debt to peak at 80% of GDP in 2015-16—double its pre-crisis level. So the Government will not balance its books by 2015, as David Cameron and George Osborne originally promised in 2010, and national debt as a percentage of GDP is not now forecast to start falling until 2016-17, by what the Office for Budget Responsibility calls a 'statistically and fiscally insignificant margin'.

Y realiti gwleidyddol, wrth gwrs, yw bod dros 80% o'r camau i leihau'r diffyg yn y gyllideb wedi dod o doriadau mewn gwariant ac nid o gynnydd mewn refeniw o drethi. Yn wir, bydd toriadau mewn gwariant yn y senedd nesaf yn waeth nag yn y senedd hon. Yn ôl y Sefydliad Astudiaethau Cyllid, cafwyd toriadau o 2.3% y flwyddyn yn y senedd hon a byddant yn 3.7% yn y senedd nesaf. Nid yw'n syndod bod David Cameron yn dweud bod llymder yma i aros os yw'r Ceidwadwyr yn aros mewn grym—ac i beth? Dywed y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ei bod yn disgwyl i ddyled net y sector cyhoeddus gyrraedd uchafbwynt o 80% o CMC yn 2015-16—dwbl ei lefel cyn yr argyfwng. Felly ni fydd y Llywodraeth yn mantoli ei llyfrau erbyn 2015, fel yr addawodd David Cameron a George Osborne yn wreiddiol yn 2010, ac ni ragwelir y bydd dyled genedlaethol fel canran o CMC yn awr yn dechrau gostwng tan 2016-17, gan yr hyn y mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn ei alw'n 'swm ystadegol a chyllidol ddibwys'.

By this financial year, Osborne wanted the deficit down to £60 billion; in fact, it is £111 billion. Borrowing over the lifetime of this parliament by the coalition is going to be over £200 billion more than was forecast in 2010. That is the reality.

Erbyn y flwyddyn ariannol hon, roedd Osborne am weld y diffyg yn cael ei ostwng i £60 biliwn; mae'n £111 miliwn. Mae benthyca dros oes y senedd hon gan y glymblaid yn mynd i fod dros £200 biliwn yn fwy na'r hyn a ragwelwyd yn 2010. Dyna yw'r sefyllfa.

Now, I was slightly disappointed when I heard the leader of Plaid Cymru talking earlier about some of the cuts that are having to be made in local government. So, I thought that I would remind her of what happened when her party ran Rhondda Cynon Taf council—not in the bad times, but at a time when local government budgets were being increased significantly by a Welsh Labour Government. RCT, when it was run by Plaid Cymru, had the worst class sizes in primary schools, it was one of the worst councils for passing money through to schools, it used the £3.8 million deprivation grant that it got to keep down—

Nawr, roeddwn braidd yn siomedig pan glywais arweinydd Plaid Cymru yn siarad yn gynharach am rai o'r toriadau sy'n cael eu gwneud mewn llywodraeth leol. Felly, meddyliais y byddwn yn ei hatgoffa o'r hyn a ddigwyddodd pan oedd ei phlaid hi yn rhedeg cyngor Rhondda Cynon Taf—nid yn yr amseroedd drwg, ond ar adeg pan oedd cyllidebau llywodraeth leol yn cael eu cynyddu'n sylweddol gan Lywodraeth Lafur Cymru. Pan oedd Rhondda Cynon Taf yn cael ei redeg gan Blaid Cymru, roedd ganddo'r maint dosbarthiadau gwaethaf mewn ysgolion cynradd, roedd yn un o'r cynghorau gwaethaf am drosglwyddo arian i ysgolion, defnyddiodd y grant amddifadedd o £3.8 miliwn a gafodd i gadw—

16:44 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will you give way?

A wnewch chi ildio?

16:44

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

In a moment. To keep down council tax—[Interruption.]

Mewn munud. I gadw'r dreth gyngor i lawr— [Torri ar draws.]

16:44

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

In a moment. He will take an intervention in a moment.

Mewn munud. Bydd yn cymryd ymyriad mewn munud.

16:44

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rather than investing in services.

Yn hytrach na buddsoddi mewn gwasanaethau.

I will take an intervention.

Byddaf yn cymryd ymyriad.

16:44

## Leanne Wood Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Labour controlled Rhondda Cynon Taf council is proposing to cut education provision for three to five-year-olds. You have been remarkably silent on that, considering that the Rhondda is meant to be your top priority. Would you like to make a statement now condemning the council for making those cuts?

Mae Cyngor Rhondda Cynon Taf a reolir gan Lafur yn bwriadu cwtogi'r ddarpariaeth addysg ar gyfer rhai tri i bump oed. Rydych wedi bod yn hynod o dawel ynglŷn â hynny, o ystyried mai'r Rhondda yw eich prif flaenoriaeth i fod. A fyddech yn hoffi gwneud datganiad yn awr yn condemnio'r cyngor am wneud y toriadau hynny?

16:45

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I actually said in the Chamber a week or so back that the cuts being proposed were regrettable. However, let me just remind the leader of Plaid Cymru of some of the other things that her party did when it ran Rhondda Cynon Taf. It saddled future administrations with an ongoing private finance initiative bill for the building of Garth Olwg school, it closed day centres, it increased meals on wheels charges, it raised charges for sports fields and, of course, it also cut back home-to-school transport—and those were in the good days. The reality is that the local authorities run by Plaid Cymru in Ceredigion and Gwynedd are also having to look at similar cuts at the present time. The reality is that we have been able, as a Government, to protect local government until now. What is being demanded of councillors in local authorities all over Wales is probably the most difficult set of decisions that any councillors have ever had to make. That applies to all parties in all parts of Wales.

A dweud y gwir, dywedais yn y Siambr wythnos neu ddwy yn ôl fod y toriadau a gynigir yn destun gofid. Fodd bynnag, gadewch imi atgoffa arweinydd Plaid Cymru o rai o'r pethau eraill a wnaeth ei phlaid pan oeddent yn rhedeg Rhondda Cynon Taf. Gadawodd weinyddiaethau'r dyfodol â bil parhaus y fenter cyllid preifat ar gyfer adeiladu ysgol Garth Olwg, caeodd ganolfannau dydd, cynyddodd daliadau pryd ar glud, cododd daliadau am feysydd chwaraeon ac, wrth gwrs, cwtogodd gludiant o'r cartref i'r ysgol—a hynny yn ystod y dyddiau da. Y gwir amdani yw bod yr awdurdodau lleol sy'n cael eu rhedeg gan Blaid Cymru yng Ngheredigion a Gwynedd hefyd yn gorfod ystyried toriadau tebyg ar hyn o bryd. Y gwir amdani yw ein bod, fel Llywodraeth, wedi gallu amddiffyn llywodraeth leol hyd yn hyn. Gofynnir i gynghorwyr mewn awdurdodau lleol ledled Cymru wneud, yn ôl pob tebyg, y penderfyniadau anoddaf y bu raid i unrhyw gynghorwyr erioed eu gwneud. Mae hynny'n berthnasol i bob plaid ym mhob rhan o Gymru.

I do not believe that most people in the progressive side of politics came into politics to make cuts; maybe the Conservatives did, although I notice that the leader of Conservative-run Monmouthshire does not agree with his own party on education cuts. However, the reality is that non-statutory services are facing cuts in local government all over Wales. The parties that signed up to the budget deal did not ask for more money for those non-statutory services that are being cut. That is the reality.

Nid wyf yn credu bod y rhan fwyaf o bobl ar ochr flaengar gwleidyddiaeth wedi dod i wleidyddiaeth i wneud toriadau; efallai y gwnaeth y Ceidwadwyr, er fy mod yn sylwi nad yw arweinydd Sir Fynwy sy'n cael ei rhedeg gan y Ceidwadwyr yn cytuno â'i blaid ei hun ynglŷn â thoriadau addysg. Fodd bynnag, y gwir amdani yw bod gwasanaethau anstatudol yn wynebu toriadau mewn llywodraeth leol ledled Cymru. Ni wnaeth y pleidiau a ymrwymodd i'r cytundeb ar y gyllideb ofyn am fwy o arian ar gyfer y gwasanaethau anstatudol sy'n cael eu torri. Dyna'r sefyllfa.

I welcome our budget—[Interruption.] I took an intervention, Llywydd.

Rwy'n croesawu ein cyllideb—[Torri ar draws.] Cymerais ymyriad, Lywydd.

Our budget, of course, allocates additional money for the health service. I welcome the additional money for capital for schools and I welcome the money for the independent treatment grant. However, it is time to recognise what is going on across the whole of Wales, and the leader of Plaid Cymru needs to decide whether she is the leader of the Party of Wales and responsible for what her party is doing in local government as well.

Mae ein cyllideb, wrth gwrs, yn dyrannu arian ychwanegol ar gyfer y gwasanaeth iechyd. Rwy'n croesawu'r arian ychwanegol ar gyfer cyfalaf i ysgolion ac rwy'n croesawu'r arian ar gyfer y grant triniaeth annibynnol. Fodd bynnag, mae'n bryd cydnabod yr hyn sy'n digwydd trwy Gymru gyfan, ac mae angen i arweinydd Plaid Cymru benderfynu a yw hi'n arweinydd ar Blaid Cymru ac yn gyfrifol am yr hyn y mae ei phlaid yn ei wneud mewn llywodraeth leol yn ogystal.

16:47

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order. I did not need reminding that you had taken an intervention, and I did not tell you that your time was up; I was just indicating that you were coming towards its conclusion. [Interruption.] Order. I am sorry, we will not have a conversation across the Chamber. I call on the Minister for Finance to respond to the debate.

Trefn. Nid oedd angen fy atgoffa eich bod wedi cymryd ymyriad, a wnes i ddim dweud wrthych bod eich amser ar ben; roeddwn yn nodi'n unig eich bod yn dod tuag at y terfyn. [Torri ar draws.] Trefn. Mae'n ddrwg gennyf, ni fyddwn yn cael sgwrs ar draws y Siambr. Galwaf ar y Gweinidog Cyllid i ymateb i'r ddadl.

16:47

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Cyllid / The Minister for Finance*

Our final budget proposals have been shaped by our priorities, as I said in my opening remarks, and they reflect the tough decisions that we have made as a responsible Government standing up for the interests of Wales. Throughout the scrutiny of our budget proposals, the challenge that we face in managing our priorities within a reducing budget have been widely—[Interruption.]

Mae ein cynigion terfynol ar gyfer y gyllideb wedi cael eu ffurfio gan ein blaenoriaethau, fel y dywedais yn fy sylwadau agoriadol, ac maent yn adlewyrchu'r penderfyniadau anodd yr ydym wedi'u gwneud fel Llywodraeth gyfrifol sy'n sefyll o blaid buddiannau Cymru. Trwy gydol y broses o graffu ar ein cynigion cyllidebol, mae'r her sy'n ein hwynebu wrth reoli ein blaenoriaethau o fewn cyllideb sy'n lleihau wedi cael ei—[Torri ar draws.]

16:48

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order. I am sorry to intervene, Minister. I am particularly interested to hear the Minister's reply to this debate, so could you please be a little less rowdy so that I can hear?

Trefn. Mae'n ddrwg gennyf ymyrryd, Weinidog. Mae gennyf ddiddordeb arbennig mewn clywed ymateb y Gweinidog i'r ddadl hon, felly a allech fod ychydig yn llai swnllyd fel y gallaf glywed?

16:48

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

As I was saying, Llywydd, throughout the scrutiny of our budget proposals—and Peter Black recognised this in his contribution this afternoon—the challenge that we face in managing our priorities within a reducing budget has been widely acknowledged. Of course, last week's autumn statement does not take away the challenges that we face, and Leighton Andrews clearly described what the impact of that will be in terms of future constraints on our public finances. Therefore, there were no surprises this afternoon in the Welsh Conservatives' responses. They clearly do not want to hear the good news about the £200 million boost across the whole of Wales and the new schools that will be built in their communities, despite the cuts imposed by their Government in Westminster.

Fel yr oeddwn yn ei ddweud, Lywydd, trwy gydol y broses o graffu ar ein cynigion cyllidebol—ac roedd Peter Black yn cydnabod hyn yn ei gyfraniad y prynhawn yma—mae'r her sy'n ein hwynebu wrth reoli ein blaenoriaethau o fewn cyllideb sy'n lleihau wedi cael ei chydnabod yn eang. Wrth gwrs, nid yw datganiad yr hydref yr wythnos diwethaf yn cael gwared ar yr heriau sy'n ein hwynebu, a disgrifiodd Leighton Andrews yn glir beth fydd effaith hynny o ran cyfyngiadau yn y dyfodol ar ein cyllid cyhoeddus. Felly, nid oedd unrhyw beth annisgwyl y prynhawn yma yn ymatebion y Ceidwadwyr Cymreig. Mae'n amlwg nad ydynt eisiau clywed y newyddion da am yr hwb o £200 miliwn ar draws Cymru gyfan a'r ysgolion newydd a fydd yn cael eu hadeiladu yn eu cymunedau, er gwaethaf y toriadau a orfodir gan eu Llywodraeth yn San Steffan.

16:49

## Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, will you take an intervention?

Weinidog, a wnewch chi dderbyn ymyriad?

16:49

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

In a moment. The overall departmental expenditure limit in 2015-16 is down 10% in real terms and yet, despite that, we are managing to lever in this funding in partnership with local government and I am sure that the leader of Monmouthshire would be very supportive of this twenty-first century schools announcement today. We are managing to do that to deliver as a responsible and principled Government.

Mewn munud. Mae'r terfyn gwariant adrannol cyffredinol yn 2015-16 wedi gostwng 10% mewn termau real, ac eto, er gwaethaf hynny, rydym yn llwyddo i ychwanegu'r arian hwn mewn partneriaeth â llywodraeth leol ac rwy'n siŵr y byddai arweinydd Sir Fynwy yn gefnogol iawn o'r cyhoeddiad hwn heddiw ynghylch ysgolion yr unfed ganrif ar hugain. Rydym yn llwyddo i wneud hynny i gyflawni fel Llywodraeth gyfrifol ac egwyddorol.

16:49

## Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister, for taking an intervention. I would be grateful if you could outline how you believe the £43 million reduction that you are making to further education will impact upon vocational courses, as you do not seem to have focused at all in your budget contribution today on that. Therefore, if you could spend some time outlining that, we would be grateful for that information.

Diolch, Weinidog am ganiatáu imi ymyrryd. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech amlinellu sut yr ydych yn credu y bydd y gostyngiad o £43 miliwn yr ydych yn ei wneud i addysg bellach yn effeithio ar gyrsiau galwedigaethol, gan nad yw'n ymddangos eich bod wedi canolbwyntio ar hynny o gwbl yn eich cyfraniad ynglŷn â'r gyllideb heddiw. Felly, pe gallech dreulio ychydig o amser yn amlinellu hynny, byddem yn ddiolchgar am y wybodaeth honno.

16:49

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

In terms of the impact of the 10% cut to our budget, the £1.6 billion cut to our budget over the last three years is as a result of your Government in Westminster. Clearly, there are pressures on our budget, but, of course, in terms of our commitment to 16-18 year-olds in further education, we are making sure that our young people and our most vulnerable young people get the skills that they need.

O ran effaith y toriad o 10% i'n cyllideb, mae'r toriad o £1.6 biliwn i'n cyllideb dros y tair blynedd diwethaf wedi digwydd o ganlyniad i'ch Llywodraeth chi yn San Steffan. Yn amlwg, mae pwysau ar ein cyllideb, ond, wrth gwrs, o ran ein hymrwymiad i bobl ifanc 16-18 oed mewn addysg bellach, rydym yn gwneud yn siŵr bod ein pobl ifanc a'n pobl ifanc mwyaf agored i niwed yn cael y sgiliau y mae arnynt eu hangen.

I am pleased that Paul Davies welcomed our £570 million investment in the Welsh national health service. I am sure that you will also welcome the £50 million intermediate care fund grant. That will, of course, ensure that we can start to integrate health and social care and housing at the point of need. As Mike Hedges clearly articulated, our commitment to the NHS is at the heart of our budget proposals. We will continue, and we are proud in the Welsh Labour Government, to ensure that our health service remains true to Aneurin Bevan's principles of healthcare free at the point of delivery. That is why we are prioritising investment in this vital public service. However, the additional funding that we have announced—£570 million over three years—will not remove the need for change in the NHS, nor will it relieve all pressures that the service faces. However, it will give the NHS the resources that it needs to respond to the challenges that health services face across western Europe.

Rwy'n falch bod Paul Davies yn croesawu ein buddsoddiad o £570 miliwn yng ngwasanaeth iechyd gwladol Cymru. Rwy'n siŵr y byddwch hefyd yn croesawu grant y gronfa gofal canolraddol o £50 miliwn. Bydd hynny, wrth gwrs, yn sicrhau y gallwn ddechrau integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol a thai yn y man lle mae ei angen. Fel y mae Mike Hedges wedi'i fynegi'n glir, mae ein hymrwymiad i'r GIG wrth wraidd ein cynigion ar gyfer y gyllideb. Byddwn yn parhau, ac rydym yn falch o hynny yn Llywodraeth Lafur Cymru, i sicrhau bod ein gwasanaeth iechyd yn aros yn ffyddlon i egwyddorion Aneurin Bevan, sef gofal iechyd am ddim yn y man darparu. Dyna pam yr ydym yn blaenoriaethu buddsoddiad yn y gwasanaeth cyhoeddus hanfodol hwn. Fodd bynnag, ni fydd yr arian ychwanegol yr ydym wedi'i gyhoeddi—£570 miliwn dros dair blynyedd—yn dileu'r angen am newid yn y GIG, ac ni fydd yn lleddfu'r holl bwysau y mae'r gwasanaeth yn ei wynebu. Fodd bynnag, bydd yn rhoi'r adnoddau sydd eu hangen ar y GIG i ymateb i'r heriau y mae gwasanaethau iechyd yn eu hwynebu ar draws gorllewin Ewrop.

16:51

## Nick Ramsay Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will you give way?

A wnewch chi ildio?

16:51

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

No, I will continue. I will come back to you in a minute.

Na, byddaf yn parhau. Dof yn ôl atoch mewn munud.

I appreciate the point that has been made by the Welsh Liberal Democrats that they were prepared to work constructively in line with our shared priorities. As well as the intermediate care fund, the health technology and telemedicine fund will bring the total investment in health technology and telemedicine to £35 million over the period 2012-13 to 2014-15.

Rwy'n gwerthfawrogi'r pwynt a wnaed gan Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru eu bod yn barod i weithio'n adeiladol yn unol â'r blaenoriaethau yr ydym yn eu rhannu. Yn ogystal â'r gronfa gofal canolraddol, bydd y gronfa technoleg iechyd a thelefeddygaeth yn dod â chyfanswm y buddsoddiad mewn technoleg iechyd a thelefeddygaeth i £35 miliwn dros y cyfnod 2012-13 i 2014-15.

We must remember the fact that we have allocated an additional £35 million in 2014-15 to boost the pupil deprivation grant. You are absolutely right that we need to ensure that that extra investment is targeted in a way that will deliver for those pupils to break that link between poverty and educational attainment. Again, this is a shared priority. We have also, of course, extended support for the pupil deprivation grant in 2015-16 from £450 per pupil to £918. We must learn the lessons. We will take the message from the Minister for Education and Skills this afternoon regarding the challenge that he has put to schools and authorities in terms of delivering on outcomes for that investment.

Rhaid inni gofio ein bod wedi dyrannu £35 miliwn yn ychwanegol yn 2014-15 i roi hwb i'r grant amddifadedd disgyblion. Rydych yn llygad eich lle bod angen inni sicrhau bod y buddsoddiad ychwanegol hwnnw'n cael ei dargedu mewn modd a fydd yn cyflawni ar gyfer y disgyblion hynny ac yn torri'r cysylltiad rhwng tlodi a chyrhaeddiad addysgol. Unwaith eto, mae hon yn flaenoriaeth a rennir. Rydym hefyd, wrth gwrs, wedi ymestyn cymorth ar gyfer y grant amddifadedd disgyblion yn 2015-16 o £450 y disgybl i £918. Rhaid inni ddysgu'r gwersi. Byddwn yn gwrando ar neges y Gweinidog Addysg a Sgiliau brynhawn heddiw ynglŷn â'r her y mae wedi'i chyflwyno i ysgolion ac awdurdodau o ran cyflawni canlyniadau ar gyfer y buddsoddiad hwnnw.

I believe that these are all shared priorities, but they are Labour priorities. Where are the Welsh Conservatives in terms of their priorities? We only have to look back. All they have to offer this afternoon is for us to reflect on their so-called budget. This is the budget that we had sight of and which they shared with us back in 2010. It would have resulted in a 12% cut to education, children and lifelong learning and a 30% cut in economy and transport. Where would you stand with regard to my announcements on twenty-first century schools initiative today?

Rwy'n credu bod y rhain i gyd yn flaenoriaethau a rennir, ond blaenoriaethau'r blaid Lafur ydynt. Ble mae'r Ceidwadwyr Cymreig o ran eu blaenoriaethau? Nid oes ond rhaid inni edrych yn ôl. Y cyfan sydd ganddynt i'w gynnig y prynhawn yma yw myfyrio ar eu cyllideb fel y'u gelwir. Dyma'r gyllideb y cawsant olwg arni ac a rannwyd gyda ni ôl yn 2010. Byddai wedi arwain at doriad o 12% i addysg, plant a dysgu gydol oes a thoriad o 30% i'r economi a thrafnidiaeth. Ble byddech chi'n sefyll o ran fy nghyhoeddiadau ar fenter ysgolion yr unfed ganrif ar hugain heddiw?

As far as the Welsh language is concerned, I am of course glad to clarify the position in terms of funding. All of our programme for government commitments will continue to be met as far as the Welsh learning budget is concerned. Of course, this will ensure that all departments that have a responsibility, not just in relation to the Welsh in education budget, will support the language.

O safbwynt yr iaith Gymraeg, yr wyf, wrth gwrs, yn falch i egluro'r sefyllfa o ran cyllid. Bydd ein rhaglen gyfan ar gyfer ymrwymiadau'r llywodraeth yn parhau i gael ei chyflawni o ran y gyllideb ar gyfer dysgu Cymraeg. Wrth gwrs, bydd hyn yn sicrhau bod pob adran sydd â chyfrifoldeb, nid yn unig o ran y gyllideb Cymraeg mewn addysg, yn cefnogi'r iaith.

It is important that we just comment briefly on Mark Isherwood's contribution. Regarding his so-called 'commitment to housing', we have been in the position where we have had to put an extra £20 million into the social housing grant to build smaller properties. This is because of the impact of their party's iniquitous, cruel and callous bedroom tax, which, of course, has resulted in people being made homeless and needing that investment.

Mae'n bwysig ein bod yn cyfeirio'n gryno at gyfraniad Mark Isherwood. O ran ei 'ymrwymiad i dai' fel y'i gelwir, rydym wedi bod mewn sefyllfa lle'r ydym wedi gorfod rhoi £20 miliwn yn ychwanegol i'r grant tai cymdeithasol i adeiladu tai llai o faint. Mae hyn oherwydd effaith treth ystafell wely anghyfiawn, creulon a dideimlad eu plaid nhw sydd, wrth gwrs, wedi arwain at wneud pobl yn ddigartref ac wedi golygu bod angen y buddsoddiad hwnnw.

Over the past few years, we have faced a series of cuts to our budget for Wales. That challenge is set to continue. We welcome the more positive growth forecast for the economy, but little has been done as a result of the autumn statement to challenge the public finance outlook for Wales. After three and a half years of budget cuts and the weakest and slowest recovery in history from recession, we face tough decisions in delivering our priorities for growth and jobs. The Chancellor—your Chancellor—George Osborne is determined to shrink the state to pre-1948 levels. He wants to denigrate and undermine our public services. However, we, as a Welsh Labour Government, want to boost and back our public services and our public servants in the NHS, in social care, in schools and in our public estate. That is why I want to continue to invest in state-of-the-art cancer equipment at Velindre Cancer Centre and to expand the supply of quality affordable social housing. I want to see the product of a multimillion pound investment in Glan Clwyd Hospital, with the construction company saying that it is the best experience of the private sector investing its company's skills in the best health facilities in the UK. That is why I am determined to remain true to our principles as a Welsh Labour Government and our priorities of social justice with a balanced economic recovery. It is on that basis that I commend the final budget for 2014-15 to the Assembly.

Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, rydym wedi wynebu cyfres o doriadau i'n cyllideb ar gyfer Cymru. Mae'r her honno'n debygol o barhau. Rydym yn croesawu'r rhagolygon twf mwy cadarnhaol ar gyfer yr economi, ond ychydig sydd wedi'i wneud o ganlyniad i ddatganiad yr hydref i herio'r rhagolygon cyllid cyhoeddus ar gyfer Cymru. Ar ôl tair blynedd a hanner o doriadau yn y gyllideb a'r adferiad gwannaf ac arafaf a welwyd erioed, rydym yn wynebu penderfyniadau anodd er mwyn gallu cyflawni ein blaenoriaethau ar gyfer twf a swyddi. Mae'r Canghellor—eich Canghellor chi—George Osborne yn benderfynol o grebachu'r wladwriaeth i lefelau cyn 1948. Mae eisiau difrïo a thanseilio ein gwasanaethau cyhoeddus. Fodd bynnag, rydym ni, fel Llywodraeth Lafur Cymru, yn awyddus i hybu a chefnogi ein gwasanaethau cyhoeddus a'n gweision cyhoeddus yn y GIG, ym maes gofal cymdeithasol, mewn ysgolion ac yn ein hystâd gyhoeddus. Dyna pam yr wyf yn awyddus i barhau i fuddsoddi mewn offer canser o'r radd flaenaf yng Nghanolfan Ganser Felindre ac ehangu'r cyflenwad o dai cymdeithasol fforddiadwy o ansawdd. Rwyf am weld canlyniad buddsoddiad o filiynau o bunnoedd yn Ysbyty Glan Clwyd, gyda'r cwmni adeiladu'n dweud mai dyna'r profiad gorau o'r sector preifat yn buddsoddi sgiliau ei gwmni yn y cyfleusterau iechyd gorau yn y DU. Dyna pam yr wyf yn benderfynol o aros yn ffyddlon i'n hegwyddorion fel Llywodraeth Lafur Cymru a'n blaenoriaethau cyfiawnder cymdeithasol ag adferiad economaidd cytbwys. Ar y sail honno rwy'n cymeradwyo'r gyllideb derfynol ar gyfer 2014-15 i'r Cynulliad.

16:55

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? I see that there is objection, therefore I defer all voting on this item until voting time.

Y cynnig yw ein bod yn derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod sy'n gwrthwynebu? Gwelaf fod gwrthwynebiad; felly, byddaf yn gohirio'r holl bleidleisiau ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

*Daeth y Dirprwy Lywydd i'r Gadair am 16:56.*

*The Deputy Presiding Officer took the Chair at 16:56.*

# Dadl ar yr Adroddiad Blynyddol ar Ddatblygu Cynaliadwy

# Debate on the Sustainable Development Annual Report

*Detholwyd y gwelliant canlynol: gwelliannau 1, 2, 7, 8 a 9 yn enw William Graham, and amendments 3, 4, 5 a 6 yn enw Aled Roberts.*

*The following amendment has been selected: amendments 1, 2, 7, 8 and 9 in the name of William Graham, and amendments 3, 4, 5 and 6 in the name of Aled Roberts.*

Cynnig NDM5381 Lesley Griffiths

Motion NDM5381 Lesley Griffiths

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

Yn nodi'r cynnydd a wnaed o ran hyrwyddo datblygu cynaliadwy yn 2012-13, fel y'i nodir yn Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru ar y Cynllun Datblygu Cynaliadwy, a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 3 Rhagfyr 2013.

Notes the progress made on promoting sustainable development in 2012-13, as set out in the Welsh Government's Annual Report of the Sustainable Development Scheme, which was laid before the National Assembly for Wales on 3 December 2013.

16:56

## Jeff Cuthbert Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty*

I move the motion.

Cynigiaf y cynnig.

Last week, I was pleased to present the Welsh Government's sustainable development annual report for 2012-13. The report details the positive actions that we have taken to make Wales a more sustainable and fairer nation. It builds on the actions that this Welsh Government has taken in delivering our programme for government, which has sustainable development at its heart.

Yr wythnos diwethaf, yr oeddwn yn falch o gyflwyno adroddiad blynyddol Llywodraeth Cymru ar ddatblygu cynaliadwy ar gyfer 2012–13. Mae'r adroddiad yn rhoi manylion y camau cadarnhaol yr ydym wedi'u cymryd i wneud Cymru'n genedl fwy cynaliadwy a thecach. Mae'n adeiladu ar y camau y mae Llywodraeth Cymru wedi eu cymryd wrth gyflawni ein rhaglen lywodraethu, y mae datblygu cynaliadwy wrth ei gwraidd.

Members will be aware that this is the first sustainable development report for which I have had responsibility. It is important to highlight that my Cabinet colleagues play an equal role in delivering against the statutory sustainable development scheme, and putting into practice our commitment to make sustainable development our central organising principle. Indeed, in my previous role as Deputy Minister for Skills, I led the Jobs Growth Wales programme to help address the issues of youth unemployment.

Bydd yr Aelodau'n ymwybodol mai hwn yw'r adroddiad datblygu cynaliadwy cyntaf yr wyf wedi bod yn gyfrifol amdano. Mae'n bwysig tynnu sylw at y ffaith bod gan fy nghydweithwyr yn y Cabinet swyddogaeth gyfartal o safbwynt cyflawni yn erbyn y cynllun datblygu cynaliadwy statudol, a rhoi ar waith ein hymrwymiad i sicrhau mai datblygu cynaliadwy yw ein prif egwyddor drefniadol. Yn wir, yn fy swyddogaeth flaenorol fel Dirprwy Weinidog dros Sgiliau, bûm yn arwain y rhaglen Twf Swyddi Cymru i helpu i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â diweithdra ymhlith pobl ifanc.

As Welsh Ministers, we can take pride in this unique reporting process. Few Governments in the world can claim to report on the actions that they are taking to advance sustainable development, and it is to the credit of the National Assembly for Wales that we are able to hold a debate of this type. The debates and discussions that we have had over the years will serve us well when I introduce the future generations Bill to the Assembly in the summer of next year.

Gallwn, a ninnau'n Weinidogion Cymru, ymfalchïo yn y broses adrodd unigryw hon. Ychydig iawn o Lywodraethau yn y byd a all honni eu bod yn cyflwyno adroddiadau ar y camau y maent yn eu cymryd i hybu datblygu cynaliadwy, ac mae'n glod i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ein bod yn gallu cynnal dadl o'r fath. Bydd y dadleuon a'r trafodaethau yr ydym wedi'u cael dros y blynyddoedd yn fuddiol iawn inni pan fyddaf yn cyflwyno Bil cenedlaethau'r dyfodol i'r Cynulliad yn yr haf y flwyddyn nesaf.

I see this reporting process continuing with the future generations Bill, as scrutiny and challenge are important tools to drive this agenda forward. The report itself deals with the Welsh Government's work in promoting sustainable development, and is written to closely reflect the structure and content of the sustainable development scheme. The scheme, published in 2009, provides the context for how we will promote sustainable development, by setting out the opportunities and actions to strengthen our economy, use resources more efficiently, improve our environment, safeguard our society and improve the wellbeing of Wales.

Rwyf yn gweld y broses adrodd hon yn parhau â Bil cenedlaethau'r dyfodol, gan fod craffu a herio yn arfau pwysig i yrru'r agenda hon yn ei blaen. Mae'r adroddiad ei hun yn ymdrin â gwaith Llywodraeth Cymru i hyrwyddo datblygu cynaliadwy, ac fe'i hysgrifennwyd i adlewyrchu'n agos strwythur a chynnwys y cynllun datblygu cynaliadwy. Mae'r cynllun, a gyhoeddwyd yn 2009, yn darparu cyd-destun ar gyfer sut y byddwn yn hyrwyddo datblygu cynaliadwy, drwy nodi'r cyfleoedd a'r camau gweithredu i gryfhau ein heconomi, i ddefnyddio adnoddau yn fwy effeithlon, i wella ein hamgylchedd, i ddiogelu ein cymdeithas ac i wella lles Cymru.

As in previous years, we have continued to provide an account of the steps that we have taken as a Government to improve our internal operations, ranging from staff wellbeing to volunteering and energy efficiency. We have included further details of how we have built on the 2012 effectiveness review of the scheme. We have acted on the helpful advice that it provided for us, and how to improve the way in which we embed sustainable development at the heart of what we do.

Fel mewn blynyddoedd a fu, rydym wedi parhau i roi gwybod am y camau yr ydym wedi'u cymryd fel Llywodraeth i wella ein gweithrediadau mewnol, o les staff i wirfoddoli ac effeithlonrwydd ynni. Rydym wedi cynnwys rhagor o fanylion ynglŷn â'r ffordd yr ydym wedi adeiladu ar adolygiad effeithiolrwydd 2012 o'r cynllun. Rydym wedi gweithredu ar y cyngor defnyddiol a ddarparodd inni, a sut i wella'r ffordd yr ydym yn rhoi datblygu cynaliadwy wrth wraidd yr hyn a wnawn.

I would like to draw Members' attention to the commentary provided by Peter Davies, the independent Commissioner for Sustainable Futures. I would like to convey my thanks to him for his independent assessment and for the important role that he is playing in the development of the future generations Bill. Last year, Members understandably focused their views largely on the commentary, and I expect that many will wish to do so again. I want to use this opportunity to reflect on what the commissioner has said.

Hoffwn dynnu sylw'r Aelodau at y sylwebaeth a ddarparwyd gan Peter Davies, y Comisiynydd annibynnol ar Ddyfodol Cynaliadwy. Hoffwn ddiolch iddo am ei asesiad annibynnol ac am ei swyddogaeth bwysig o ran datblygu Bil cenedlaethau'r dyfodol. Y llynedd, canolbwyntiodd yr Aelodau i raddau helaeth yn eu sylwadau, a hynny'n ddealladwy, ar y sylwebaeth, a disgwyliaf y bydd llawer un yn dymuno gwneud hynny eto. Rwyf am achub ar y cyfle hwn i fyfyrio ar yr hyn y mae'r comisiynydd wedi ei ddweud.

We welcome the challenge that Peter sets out in the report. Members will be aware that Wales is the only devolved administration that holds itself open to this level of scrutiny. It is a reflection of our commitment to transparency that we have retained a commissioner role. Furthermore, we are committed to putting this role on a statutory basis as part of the future generations Bill.

Rydym yn croesawu'r her y mae Peter yn ei nodi yn yr adroddiad. Bydd yr Aelodau'n gwybod mai Cymru yw'r unig weinyddiaeth ddatganoledig sy'n ei chynnig ei hun i'r lefel hon o graffu. Mae'r ffaith ein bod wedi cadw swyddogaeth y comisiynydd yn adlewyrchu ein hymrwymiad i dryloywder. Ar ben hynny, rydym wedi ymrwymo i roi sail statudol i'r swyddogaeth hon fel rhan o Fil cenedlaethau'r dyfodol.

As Peter says, his commentary brings a discipline and accountability to the Welsh Government's commitment for a more sustainable Wales. While this independent view is critical, we should also reflect on the opportunity that the future generations Bill provides for a wider look at the performance of Wales as a whole, in addition to what we do as a Government.

Fel y dywed Peter, mae ei sylwebaeth yn dod â disgyblaeth ac atebolrwydd i ymrwymiad Llywodraeth Cymru i Gymru fwy cynaliadwy. Tra bo'r farn annibynnol hon yn allweddol, dylem hefyd ystyried y cyfle y mae Bil cenedlaethau'r dyfodol yn ei ddarparu i edrych yn ehangach ar berfformiad Cymru gyfan, yn ogystal â'r hyn yr ydym yn ei wneud fel Llywodraeth.

Our aim is for the future generations Bill to help us to futureproof our communities by reinforcing the fundamental role and purpose of public services in Wales. It will focus on a much needed step change in the delivery of outcomes for people and communities in Wales, both now and in the future. It is our unique opportunity to legislate to ensure that the Welsh public service works together to achieve our shared long-term goals. Through these, we will collectively improve the lives of people now, leaving a better legacy for our children and grandchildren.

Ein nod yw i Fil cenedlaethau'r dyfodol ein helpu i ddiogelu ein cymunedau at y dyfodol drwy atgyfnerthu swyddogaeth a diben sylfaenol y gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Bydd yn canolbwyntio ar y newid sylweddol y mae mawr ei angen o ran darparu canlyniadau i bobl a chymunedau yng Nghymru, yn awr ac yn y dyfodol. Dyma gyfle unigryw inni i ddeddfu er mwyn sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus Cymru'n gweithio gyda'i gilydd i gyflawni ein nodau hirdymor a rennir. Drwy'r rhain, byddwn ar y cyd yn gwella bywydau pobl heddiw, ac yn gadael etifeddiaeth well i'n plant a'n hwyrion.

I made a statement to Members in November about one aspect of our proposal for the Bill: the improvement in the way in which people and communities are engaged in setting and realising a better Wales. Effective engagement of people in the decisions that affect them is a key characteristic of how we do things differently in Wales. Peter reflected on the importance of engagement in his commentary, and, as Members will be aware, I have asked Peter to trial a series of conversations about Wales's future. I want to involve people across Wales in conversations on the most important issues for them in improving their lives and those of their families and communities.

Gwneuthum ddatganiad i'r Aelodau ym mis Tachwedd am un agwedd ar ein cynnig ar gyfer y Bil, sef gwella'r ffordd y mae pobl a chymunedau'n rhan o sicrhau a gwireddu Cymru well. Mae sicrhau bod pobl yn cymryd rhan effeithiol yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt yn nodwedd allweddol o'r ffordd yr ydym yn gwneud pethau'n wahanol yng Nghymru. Mae Peter yn sôn yn ei sylwebaeth am bwysigrwydd ymgysylltu, ac, fel y gŵyr yr Aelodau, rwyf wedi gofyn i Peter dreialu cyfres o sgyrsiau am ddyfodol Cymru. Rwyf am gynnwys pobl ledled Cymru mewn sgyrsiau am y materion sydd bwysicaf iddynt o ran gwella eu bywydau a bywydau eu teuluoedd a'u cymunedau.

The programme for government sets out clearly our account of sustainable development. The commissioner has outlined, quite rightly, the importance of connecting our overriding Government programme with the sustainable development scheme.

Mae'r rhaglen lywodraethu'n nodi'n glir yr hyn y mae datblygu cynaliadwy'n ei olygu inni. Mae'r comisiynydd wedi amlinellu, yn gwbl briodol, bwysigrwydd cysylltu prif raglen y Llywodraeth â'r cynllun datblygu cynaliadwy.

I want to turn to the amendments. I am content to support amendments 1, 3, 5, 6, 7, 8 and 9. These recognise the need to continue to strengthen the governance structures for sustainable development in Wales; to acknowledge the important role of education; to engage effectively; to build, through the future generations Bill, measures of how Wales is moving towards being a more sustainable nation; to acknowledge the unique and valuable role that a commissioner of this type brings; to continually improve upon our reporting regime for sustainable development; and to produce a future generations Bill that is strong and effective.

Rwyf am droi at y gwelliannau. Rwyf yn fodlon cefnogi gwelliannau 1, 3, 5, 6, 7, 8 a 9. Mae'r rhain yn cydnabod yr angen i barhau i gryfhau'r strwythurau llywodraethu ar gyfer datblygu cynaliadwy yng Nghymru; cydnabod swyddogaeth bwysig addysg; ymgysylltu'n effeithiol; adeiladu, drwy Fil cenedlaethau'r dyfodol, ddulliau o fesur sut y mae Cymru'n symud tuag at fod yn genedl fwy cynaliadwy; cydnabod y swyddogaeth unigryw a gwerthfawr sydd gan gomisiynydd o'r math hwn; gwella'n barhaus ein trefn o gyflwyno adroddiadau ar ddatblygu cynaliadwy; a llunio Bil cenedlaethau'r dyfodol sy'n gryf ac yn effeithiol.

I must, however, oppose amendment 2, as progress has been made last year in promoting sustainable development and I would wish Members to acknowledge that. I also oppose amendment 4 on the basis that, in respect of food labelling, it does not recognise the actions that we are taking.

Rhaid imi, fodd bynnag, wrthwynebu gwelliant 2, gan fod cynnydd wedi ei wneud y llynedd o ran hyrwyddo datblygu cynaliadwy a hoffwn i'r Aelodau gydnabod hynny. Rwyf hefyd yn gwrthwynebu gwelliant 4 oherwydd, mewn perthynas â labelu bwyd, nad yw'n cydnabod y camau yr ydym yn eu cymryd.

Therefore, to conclude, I will be looking at opportunities for us to draw the sustainable development report and programme for government reporting cycles more closely together. This will help us to illustrate more clearly the difference that we are making to people in Wales. I recognise the cross-party commitment to the sustainable development duty, and I hope that Members will acknowledge the positive actions featured in this year's report. We will continue to look for ways to improve how we report on our actions next year by building on the recommendations of the commissioner, the good practice that we develop ourselves, and the advice that we receive from the advisory and reference group. This will be all the more important as the passing of the future generations Bill nears. I welcome the views of Members today on the content of this report.

Felly, i gloi, byddaf yn edrych ar gyfleoedd inni i dynnu'r adroddiad datblygu cynaliadwy a chylchoedd adrodd y rhaglen lywodraethu'n agosach at ei gilydd. Bydd hyn yn ein helpu i ddangos yn fwy eglur y gwahaniaeth yr ydym yn ei wneud i bobl yng Nghymru. Rwyf yn cydnabod yr ymrwymiad trawsbleidiol i'r ddyletswydd datblygu cynaliadwy, ac rwyf yn gobeithio y bydd yr Aelodau'n cydnabod y camau cadarnhaol a nodir yn yr adroddiad eleni. Byddwn yn parhau i chwilio am ffyrdd o wella'r ffordd yr ydym yn cyflwyno adroddiadau ar ein camau gweithredu y flwyddyn nesaf drwy adeiladu ar argymhellion y comisiynydd, yr arfer da yr ydym yn ei ddatblygu ein hunain, a'r cyngor a gawn gan y grŵp cynghori a chyfeirio. Bydd hyn hyd yn oed yn fwy pwysig wrth i gyfnod pasio Bil cenedlaethau'r dyfodol agosáu. Croesawaf farn yr Aelodau heddiw ar gynnwys yr adroddiad hwn.

17:04

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwyf wedi dethol y naw gwelliant i'r cynnig, a galwaf ar Russell George i gynnig gwelliannau 1, 2, 7, 8 a 9, a gyflwynwyd yn enw William Graham.

I have selected the nine amendments to the motion, and I call on Russell George to move amendments 1, 2, 7, 8 and 9, tabled in the name of William Graham.

*Gwelliant 1—William Graham*

*Amendment 1—William Graham*

*Cynnwys pwynt 1 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:*

*Insert as new point 1 and renumber accordingly:*

*Yn nodi gyda phryder y sylwadau a wnaed yn adroddiad blynyddol Llywodraeth Cymru gan y Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy ynghylch dealltwriaeth Llywodraeth Cymru o ddatblygu cynaliadwy, a bod 'gwendidau systemig yn y strwythurau llywodraethu presennol ar gyfer datblygu cynaliadwy' o hyd.*

*Notes with concern the comments made in the Welsh Government's annual report by the Sustainable Futures Commissioner regarding the Welsh Government's understanding of sustainable development and that there are still 'systemic weaknesses in current governance structures for sustainable development'.*

*Gwelliant 2—William Graham*

*Amendment 2—William Graham*

*Dileu ''r cynnydd a wnaed o ran hyrwyddo datblygu cynaliadwy yn 2012-13, fel y'i nodir yn'.*

*Delete 'the progress made on promoting sustainable development in 2012-13, as set out in'.*

*Gwelliant 7—William Graham*

*Amendment 7—William Graham*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at the end of the motion:*

*Yn cydnabod y cyfraniad a wnaed gan y Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy yn ei sylwadau ar yr adroddiad.*

*Acknowledges the contribution made by the Sustainable Futures Commissioner in the commentary of the report.*

*Gwelliant 8—William Graham*

*Amendment 8—William Graham*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at the end of the motion:*

*Yn cydnabod pryderon parhaus y Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy ynghylch elfennau o strwythur a chynnwys yr adroddiad.*

*Recognises the continued concerns from the Sustainable Futures Commissioner regarding aspects of the structure and content of the report.*

*Gwelliant 9—William Graham*

*Amendment 9—William Graham*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at the end of the motion:*

*Yn galw am Fil Cenedlaethau'r Dyfodol cadarn ac effeithiol i roi sylw priodol i'r pwyntiau a godwyd gan y Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy ac i'r Gweinidog ymgysylltu â phob plaid a'r gymdeithas ddinesig ehangach wrth baratoi ar gyfer y Bil hwn.*

*Calls for a strong and effective future generations Bill to properly address the points raised by the Sustainable Futures Commissioner and for the Minister to engage with all parties and wider civic society in preparation of this Bill.*

17:04

## Russell George Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. I move amendments 1, 2, 7, 8 and 9 in the name of William Graham.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Cynigiaf welliannau 1, 2, 7, 8 a 9 yn enw William Graham.

I would like to put on record my thanks to Peter Davies, Wales's Commissioner for Sustainable Futures, for his work in preparing this independent commentary for this report. This is the third occasion that he has prepared a commentary for the Welsh Government's annual report. I am sure that he, like me, as this is the third time I have led the official opposition response to the report, is becoming increasingly frustrated with what the Government has produced. While the commissioner has, once again, tried to remain positive where he can, this report, in reality, is a stinging critique of the fact that this Government has still not got to grips with embedding SD at the heart of what it does. I quote:

Hoffwn gofnodi fy niolch i Peter Davies, Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy Cymru, am ei waith wrth baratoi'r sylwebaeth annibynnol ar gyfer yr adroddiad hwn. Dyma'r trydydd tro y mae wedi paratoi sylwadau ar adroddiad blynyddol Llywodraeth Cymru. Yr wyf yn siŵr ei fod ef, fel finnau, gan mai dyma'r trydydd tro imi arwain yr ymateb swyddogol gan yr wrthblaid i'r adroddiad, yn teimlo'n fwyfwy rhwystredig â'r hyn y mae'r Llywodraeth wedi ei gynhyrchu. Er bod y comisiynydd, unwaith eto, wedi ceisio parhau i fod yn gadarnhaol pan fo'n gallu gwneud hynny, mae'r adroddiad hwn, mewn gwirionedd, yn feirniadaeth lem o'r ffaith nad yw'r Llywodraeth hon eto wedi llwyddo i roi datblygu cynaliadwy wrth wraidd yr hyn y mae'n ei wneud. Fe'i dyfynnaf:

'There is still evidence of the confusion and contradictions that exist within Government in its understanding of the concept of sustainable development, seeing it one of several competing priorities and not the central organising principle of Government'.

'Mae yna dystiolaeth o hyd bod dealltwriaeth y Llywodraeth o'r cysyniad o ddatblygu cynaliadwy yn ddryslyd ac yn anghyson. Mae'n tueddu i ystyried y pwnc yn un o nifer o flaenoriaethau sy'n cystadlu â'i gilydd yn hytrach nag yn brif egwyddor drefniadol ar gyfer y Llywodraeth'.

To quote again, there is:

I ddyfynnu eto, mae'n cyfeirio at:

'systemic weakness in the current governance structures for sustainable development and the associated reporting of progress'.

'wendid systematig yn y strwythurau llywodraethu presennol ar gyfer datblygu cynaliadwy a'r dulliau cysylltiedig o adrodd ar gynnydd '.

Peter Davies provides a list of concerns that, on the whole, demonstrate fundamental inaction on the commissioner's previous commentaries. The commissioner has again underlined his concerns about the structure and content of this report. He again emphasises the fact that content has been cherry-picked rather than there being activity that has been materially tested. Again, he draws attention to the problem of silo working with little evidence of departmental integration and, again, he stresses the need for outcome-driven actions that can be properly benchmarked to clearly show progress in achieving the longer term SD goals.

Mae Peter Davies yn darparu rhestr o bryderon, sydd ar y cyfan, yn dangos diffyg gweithredu sylfaenol ar sylwebaethau blaenorol y comisiynydd. Mae'r comisiynydd unwaith eto wedi tanlinellu ei bryderon am strwythur a chynnwys yr adroddiad hwn. Mae'n pwysleisio eto y ffaith fod y cynnwys wedi ei ddewis a'i ddethol yn hytrach na bod yma weithgarwch sydd wedi ei brofi'n sylweddol. Unwaith eto, mae'n tynnu sylw at y broblem o waith seilo gydag ychydig iawn o dystiolaeth o integreiddio adrannol ac, unwaith eto, mae'n pwysleisio'r angen am gamau gweithredu sy'n seiliedig ar ganlyniadau y gellir eu meincnodi'n briodol i ddangos yn glir y cynnydd o ran cyflawni nodau tymor hwy o ran datblygu cynaliadwy.

When you read the report, it is extremely evident that, rather than providing a well-defined narrative of progress against SD indicators, what is displayed is just a collection of, as the commissioner states, a cut and paste of variable inputs. It is nothing more than a list of activity showing that Government departments are just paying lip service to the principle of SD. The recurring problem of the lack of connectivity between SD indicators and the programme for government is of real concern. I understand that the former SD Bill was going to start to reconcile that process, but that has been delayed, and it is clearly not going to be reflected in next year's report. The detailed critique by Peter Davies again raises the question as to whether there is any policy coherence on SD. As was the case last year, the Government is looking to the future generations Bill to make everything right. However, given what the commissioner has said, I do not think that we can wait for that process to take place.

O ddarllen yr adroddiad, mae'n amlwg iawn, yn hytrach na darparu naratif sydd wedi'i ddiffinio'n dda o gynnydd yn erbyn dangosyddion Datblygu Cynaliadwy, mai'r hyn sy'n cael ei gynnig yw casgliad, fel y mae'r comisiynydd yn ei nodi, o gyfraniadau amrywiol wedi eu torri a'u gludo. Nid yw'n ddim mwy na rhestr o weithgareddau sy'n dangos nad yw adrannau'r Llywodraeth yn gwneud dim mwy nag esgus cefnogi datblygu cynaliadwy. Mae problem barhaus diffyg cysylltedd rhwng dangosyddion datblygu cynaliadwy a'r rhaglen lywodraethu yn peri pryder gwirioneddol. Rwyf yn deall mai'r bwriad oedd i'r Bil Datblygu Cynaliadwy blaenorol ddechrau cysoni'r broses honno, ond mae hynny wedi ei ohirio, ac mae'n amlwg na fydd yn cael ei adlewyrchu yn adroddiad y flwyddyn nesaf. Mae'r dadansoddiad manwl gan Peter Davies unwaith eto'n codi cwestiwn ynghylch a oes unrhyw gydlyniad polisi o ran datblygu cynaliadwy. Fel y llynedd, mae'r Llywodraeth yn bwriadu i Fil cenedlaethau'r dyfodol unioni popeth. Fodd bynnag, o ystyried yr hyn y mae'r comisiynydd wedi ei ddweud, nid wyf yn credu y gallwn aros i'r broses honno ddigwydd.

For SD to truly be the central organising principle of Government, I no longer believe that the ministerial lead can be with one specific department, because it is the lack of effective leadership that has clearly held progress back. I think that it now needs to be driven from the centre by the First Minister or perhaps his delivery unit—at least that would give it a clear purpose for existing—so that each Minister is held to account for properly embedding these principles. We also need to see this Government follow what the Scottish Government has done with financial reporting on implementing carbon assessment budgeting, which would be integral to the budget process. This would give the National Assembly and the Welsh public a clear picture of the carbon impact of every pound that the Government spends, and it would be another scrutiny tool for Members to hold you to account.

Er mwyn i ddatblygu cynaliadwy fod yn brif egwyddor drefniadol i'r Llywodraeth mewn gwirionedd, nid wyf bellach o'r farn y gall y Gweinidog sy'n ei arwain fod ynghlwm wrth un adran benodol, oherwydd diffyg arweinyddiaeth effeithiol sydd wedi arafu cynnydd, yn amlwg. Credaf fod angen ei yrru yn awr o'r canol gan y Prif Weinidog neu efallai ei uned gyflwyno—o leiaf byddai hynny'n rhoi pwrpas clir iddi dros fodoli—fel bod pob Gweinidog yn atebol am ymgorffori'r egwyddorion hyn yn iawn. Mae angen hefyd inni weld y Llywodraeth hon yn dilyn yr hyn y mae Llywodraeth yr Alban wedi ei wneud gydag adroddiadau ariannol ar weithredu'r cyllidebau asesu carbon, a fyddai'n rhan annatod o broses y gyllideb. Byddai hyn yn rhoi darlun clir o effaith carbon pob punt y mae'r Llywodraeth yn ei gwario i'r Cynulliad Cenedlaethol a'r cyhoedd yng Nghymru, a byddai'n offeryn craffu arall i Aelodau eich dal yn atebol.

Finally, in terms of the legislation, it is absolutely critical that the Welsh Government gets this Bill right, and I can see no reason why this piece of important legislation should not have cross-party support or the widest support of Welsh civic society. I am aware of the Minister's comments in his opening contribution that he accepts that approach, which I am pleased to hear.

Yn olaf, o ran y ddeddfwriaeth, mae'n gwbl hanfodol fod Llywodraeth Cymru'n sicrhau bod y Bil hwn yn iawn, ac ni allaf weld dim rheswm pam na ddylai'r darn hwn o ddeddfwriaeth bwysig gael cefnogaeth drawsbleidiol neu'r gefnogaeth ehangaf yng nghymdeithas ddinesig Cymru. Rwyf yn ymwybodol o sylwadau'r Gweinidog yn ei gyfraniad agoriadol ei fod yn derbyn yr ymagwedd honno, ac rwyf yn falch o glywed hynny.

17:09

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Galwaf ar William Powell i gynnig gwelliannau 3, 4, 5 a 6, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.

I call on William Powell to move amendments 3, 4, 5 and 6, tabled in the name of Aled Roberts.

*Gwelliant 3—Aled Roberts*

*Amendment 3—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn cydnabod y rôl ganolog y mae addysg yn ei chwarae wrth ddatblygu dyfodol cynaliadwy i Gymru ac yn croesawu adolygiad thematig Estyn o Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang er mwyn gwella ei ffocws a chanfod gwelliannau.*

*Recognises the central role that education plays in developing a sustainable future for Wales and welcomes the Estyn thematic review of Education for Sustainable Development and Global Citizenship to increase its focus and identify improvements.*

*Gwelliant 4—Aled Roberts*

*Amendment 4—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn gresynu at y gostyngiad yn lefelau caffael bwyd lleol y sector cyhoeddus, nad oedd y strategaeth 'Bwyd i Gymru, Bwyd o Gymru' bresennol yn addas i'r diben ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno cynllun labelu cynhwysfawr ar gyfer bwyd a diod o Gymru.*

*Regrets the reduction in the public sector procurement of local food, that the existing 'Food for Wales, Food from Wales' strategy was not fit for purpose and calls on the Welsh Government to introduce a comprehensive labelling scheme for Welsh food and drink.*

*Gwelliant 5—Aled Roberts*

*Amendment 5—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi mwy o flaenoriaeth i gasglu tystiolaeth gan y rheini sydd â phrofiad ymarferol wrth ffurfio polisïau datblygu cynaliadwy a'u cynnwys mewn partneriaethau cyflawni.*

*Calls on the Welsh Government to give greater priority to evidence-gathering from those with practical experience when formulating sustainable development policies and involving them in delivery partnerships.*

*Gwelliant 6—Aled Roberts*

*Amendment 6—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi adroddiad ar sut y mae polisïau yn y Rhaglen Lywodraethu yn gysylltiedig â'r Dangosyddion Datblygu Cynaliadwy ar gyfer Cymru.*

*Calls on the Welsh Government to report on how policies within the Programme for Government are linked to the Sustainable Development Indicators for Wales.*

17:09

## William Powell Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Diolch. I move amendments 3, 4, 5 and 6.

Diolch. Cynigiaf welliannau 3, 4, 5 a 6.

I would like to thank the Minister for coming to meet all but one of our amendments on this occasion. When I responded to last year's report, I stressed that for sustainable development to take root as the central organising principle through which families plan, companies operate and legislatures govern, we need to bring about a sea change in how we engage with our environment and, indeed, how we behave to one another. This is not the kind of change that we can expect to see overnight, but it is, instead, the kind that we must continue to make in small, incremental steps, as we improve our situation year on year.

Hoffwn ddiolch i'r Gweinidog am dderbyn pob un ond un o'n gwelliannau ar yr achlysur hwn. Pan ymatebais i adroddiad y llynedd, pwysleisiais, er mwyn i ddatblygu cynaliadwy fwrw gwreiddiau fel y brif egwyddor drefniadol a ddefnyddir gan deuluoedd i gynllunio, gan gwmnïau i weithredu a chan ddeddfwrfeydd i lywodraethu, fod angen inni sicrhau newid mawr yn y ffordd yr ydym yn ymgysylltu â'n hamgylchedd ac, yn wir, yn y ffordd yr ydym yn ymddwyn tuag ein gilydd. Nid yw hwn yn newid y gallwn ddisgwyl ei weld dros nos, ond, yn hytrach, mae'n newid y mae'n rhaid inni barhau i'w wneud fesul tipyn, wrth inni wella ein sefyllfa flwyddyn ar ôl blwyddyn.

For me, that is why this annual report continues to have such importance, and it is why I warmly welcome its publication—and indeed the independent commentary by the Commissioner for Sustainable Futures, Peter Davies. I join Russell George in paying tribute to the invaluable work that Peter Davies has undertaken in this area. In doing so, I would particularly like to highlight the importance of the Estyn review into the education for sustainable development and global citizenship programme. When I first started raising concerns about this aspect of the subject some 18 months ago, I was greeted by a somewhat waspish response from the then Minister. However, with the support of this very report this time last year, we were able to get the ball rolling, and we can now look forward to seeing the review completed in 2014.

I mi, dyna pam y mae'r adroddiad blynyddol hwn yn dal i fod mor bwysig, a dyna pam yr wyf yn croesawu'n fawr ei gyhoeddi—ac yn wir y sylwebaeth annibynnol gan y Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy, Peter Davies. Rwyf innau, fel Russell George, am dalu teyrnged i'r gwaith gwerthfawr y mae Peter Davies wedi ei wneud yn y maes hwn. Wrth wneud hynny hoffwn dynnu sylw penodol at bwysigrwydd adolygiad Estyn o'r rhaglen addysg datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang. Pan ddechreuais godi pryderon am yr agwedd hon ar y pwnc ryw 18 mis yn ôl, cefais ymateb braidd yn bigog gan y Gweinidog ar y pryd. Fodd bynnag, gyda chefnogaeth yr adroddiad hwn ar yr adeg hon y llynedd, bu modd inni ddechrau ar y gwaith, a gallwn yn awr edrych ymlaen at weld cwblhau'r adolygiad yn 2014.

In many ways, this shows just how important the role of the Commissioner for Sustainable Futures is in ensuring that this report is more than simply a back-slapping exercise. That is why we must all take his criticisms seriously and in the spirit in which they are meant. We must do so if we are to create a truly sustainable society in Wales. That is why I am somewhat disappointed to see that a number of his previous concerns about governance structures have needed to be repeated again this year. If sustainable development is ever going to become the central organising principle, it is clear that it will require coherent application across departments, without being stuck in or out of silos in different Government departments. I would argue that this silo culture highlights a wider problem with operations in Wales, and I would urge the Minister to make full use of the upcoming future generations Bill, and other levers, to ensure that the problems of the past are not replicated.

Mewn sawl ffordd, mae hyn yn dangos pa mor bwysig yw swyddogaeth y Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy o ran sicrhau bod yr adroddiad hwn yn fwy nag ymarfer llongyfarch yn unig. Dyna pam y mae'n rhaid inni i gyd ystyried ei feirniadaeth o ddifrif ac yn yr ysbryd a fwriadwyd. Mae'n rhaid inni wneud hynny os ydym am greu cymdeithas wirioneddol gynaliadwy yng Nghymru. Dyna pam yr wyf braidd yn siomedig o weld bod nifer o'i bryderon blaenorol am strwythurau llywodraethu wedi gorfod cael eu hailadrodd eto eleni. Os yw datblygu cynaliadwy am ddod yn brif egwyddor drefniadol, mae'n amlwg y bydd angen ei roi ar waith yn gydlynol ar draws adrannau, heb fod yn gaeth mewn seilos yng ngwahanol adrannau'r Llywodraeth. Byddwn yn dadlau bod y diwylliant seilo yn tynnu sylw at broblem ehangach o ran gweithrediadau yng Nghymru, a byddwn yn annog y Gweinidog i wneud defnydd llawn o Fil cenedlaethau'r dyfodol sydd ar y gweill, ac ysgogiadau eraill, i sicrhau nad yw problemau'r gorffennol yn cael eu hailadrodd.

When talking in terms of lessons learned, it is only appropriate to touch upon the issue of the marine environment and the previously rejected marine conservation zone proposals. For sustainable development to succeed, it is essential that the concept, however it is applied, is brought out by those that it will affect. In the past, this clearly has not always been the case, and key stakeholder groups have either been ignored or not had their expertise appropriately drawn on and respected. This is why we must give greater priority to drawing evidence from those with real practical experience of delivering the results that we seek. We must also commit ourselves to working in partnership with them to reach our shared goals. The failure of the Welsh Government to do this in the past is well illustrated, as I said earlier, by the MCZ consultation. I am pleased to hear the far more positive comments that we have had from marine stakeholders in recent months. This is to be welcomed.

Wrth siarad am y gwersi a ddysgwyd, nid yw ond yn briodol crybwyll yr amgylchedd morol a'r cynigion i greu parth cadwraeth morol a wrthodwyd yn flaenorol. Er mwyn i ddatblygu cynaliadwy lwyddo, mae'n hollbwysig fod y cysyniad, sut bynnag y mae'n cael ei gymhwyso, yn cael ei sefydlu gan y rhai y bydd yn effeithio arnynt. Yn y gorffennol, mae'n amlwg nad dyna sydd wedi digwydd bob amser, ac mae grwpiau o randdeiliaid allweddol wedi cael eu hanwybyddu neu nid yw eu harbenigedd wedi ei ddefnyddio a'i barchu'n briodol. Dyma pam y mae'n rhaid inni roi mwy o flaenoriaeth i gael tystiolaeth gan y rheini sydd â phrofiad ymarferol go iawn o ddarparu'r canlyniadau a geisiwn. Mae'n rhaid inni hefyd ymrwymo i weithio mewn partneriaeth â hwy i gyflawni ein nodau cyffredin. Gwelir methiant Llywodraeth Cymru i wneud hyn yn y gorffennol yn glir, fel y dywedais yn gynharach, yn ymgynghoriad y parth cadwraeth morol. Rwyf yn falch o glywed y sylwadau mwy cadarnhaol o lawer a gawsom gan randdeiliaid morol yn ystod y misoedd diwethaf. Dylid croesawu hynny.

Finally, I wish to highlight the critical role that the European Union plays in enabling the Welsh Government and local authorities the length and breadth of Wales in delivering sustainable development programmes through structural funds and the rural development plan. Be it the Bwcabus project in Carmarthenshire or Blaenau Gwent's learning zone, the funds that we receive in support of the EU's two cross-cutting themes of environmental sustainability and equal opportunities remain a vital resource at our disposal. As such, I am pleased to see that the report pays tribute to them, and I would urge the Minister to work closely with his colleagues to ensure that the principles of the forthcoming future generations Bill are fully integrated with, and represented in the negotiations with the EU Commission as we continue through the process of designing the 2014-20 structural funds programme for Wales.

Yn olaf, hoffwn dynnu sylw at swyddogaeth hollbwysig yr Undeb Ewropeaidd o ran galluogi Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol ar hyd a lled Cymru i ddarparu rhaglenni datblygu cynaliadwy drwy gronfeydd strwythurol a'r cynllun datblygu gwledig. Boed yn brosiect Bwcabus yn sir Gaerfyrddin neu'n barth dysgu ym Mlaenau Gwent, mae'r arian yr ydym yn ei dderbyn i gefnogi dwy thema drawsbynciol yr UE sef cynaliadwyedd amgylcheddol a chyfle cyfartal yn parhau i fod yn adnodd hanfodol sydd ar gael inni. Yn hynny o beth, rwyf yn falch o weld bod yr adroddiad yn talu teyrnged iddynt, a byddwn yn annog y Gweinidog i weithio'n agos gyda'i gydweithwyr i sicrhau bod egwyddorion Bil cenedlaethau'r dyfodol sydd i ddod yn cael eu hintegreiddio a'u cynrychioli'n llawn yn y trafodaethau â Chomisiwn yr UE wrth inni barhau â'r broses o gynllunio rhaglen cronfeydd strwythurol 2014–20 i Gymru.

17:13 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Hoffwn ddiolch i'r Gweinidog am osod yr adroddiad hwn ger ein bron heddiw, ac ategu'r diolch i Peter Davies, y Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy, am ei gyfraniad i'r drafodaeth. Os mai datblygu cynaliadwy yw prif egwyddor drefniadol Llywodraeth Cymru, dylai Bil cenedlaethau'r dyfodol roi cyfle i'r Llywodraeth hon arwain cenhedloedd y Deyrnas Unedig ar y mater hwn. Yn anffodus, rwy'n meddwl bod rhai o'r sylwadau yn peri consýrn ynglŷn â'r cyfeiriad yr ydym yn mynd tuag ato. Yn amlwg, mae'r rhethreg wedi bod yn gryf iawn o safbwynt cyflwyno Bil a fydd yn arwain ac yn arloesol. Yn ddiweddar, rwyf wedi clywed y Gweinidog yn cyfeirio at y Bil fel enghraifft ddefnyddiol. Felly, mae angen mwy o eglurder ynglŷn â uchelgais y Llywodraeth pan ddaw hi'n fater o'r hyn y bydd y Bil yn ei gyflawni.

I thank the Minister for laying this report before us today, and I endorse the thanks given to Peter Davies, the Commissioner for Sustainable Futures, for his contribution to the debate. If sustainable development is the main organising principle of the Welsh Government the future generations Bill should give this Government an opportunity to lead the nations of the United Kingdom on this issue. Unfortunately, I believe that some of the comments that we have heard cause concern in terms of our direction of travel. Obviously, the rhetoric has been strong in terms of bringing forward a Bill that will be innovative and will lead the way. I have recently heard the Minister referring to the Bill as a useful example. Therefore, we do need more clarity as to the ambition of this Government when it comes to the question of what the Bill seeks to achieve.

Mae'r comisiynydd yn feirniadol iawn yn ei sylwadau. Mae'n sôn, fel rydym wedi clywed, am wendid systematig yn y strwythurau llywodraethu presennol ar gyfer datblygu cynaliadwy. Mae'n ymddangos, fel rydym wedi clywed, fod y Llywodraeth yn gwneud yr un peth bob blwyddyn ond, rhywsut, yn disgwyl canlyniadau gwahanol. Mae angen i Lywodraeth Cymru gymryd beirniadaeth y comisiynydd o ddifrif a gweithredu i sicrhau, pan fyddwn yn cael adroddiad yn y dyfodol, y bydd cynnydd mwy sylweddol mewn datblygu cynaliadwy.

The commissioner is very critical in his comments. He mentions, as we have heard, a systematic weakness in the current governance structures for sustainable development. It appears, as we have heard, that the Government does the same thing every year, but somehow expects different outcomes. The Welsh Government needs to take the criticisms of the commissioner seriously and take action to ensure that, when we receive reports in future, more significant progress has been made in terms of sustainable development.

Mae'r comisiynydd hefyd yn dweud bod tystiolaeth o hyd bod dealltwriaeth y Llywodraeth o'r cysyniad o ddatblygu cynaliadwy yn ddryslyd ac yn anghyson. Mae hynny'n ddweud mawr. Dylai fod larymau yn canu yn ein clustiau ni i gyd. Os nad yw'r Llywodraeth yn deall y cysyniad, sut y mae disgwyl i unrhyw elfen arall o'r sector cyhoeddus ddeall y cysyniad hwnnw? Yn wir, sut y gallwn gael hyder y bydd Bil cenedlaethau'r dyfodol yn cyflawni'r nod y mae'r Llywodraeth yn dweud y mae am ei gyflawni? Oes, mae lle i gydnabod bod arferion da ar waith, ac rydym yn barod i gydnabod hynny. Ond, fel y mae'r comisiynydd yn dweud, y tueddiad yw eu bod yn bodoli ac ar waith mewn 'silos'. Mae'r comisiynydd hefyd yn dweud bod yr adroddiad yn canolbwyntio ar fewnbynnau a rhai allbynnau, ond fawr ddim ar ganlyniadau. Wel, rydym wedi clywed y thema honno gwpl o weithiau yn barod heddiw. Mae'n amlwg bod cwestiynau i'w codi ynglŷn ag 'approach' y Llywodraeth i'r hyn sy'n cael ei alw'n 'delivery'. Nid faint o wariant neu nid faint o raglenni sydd o reidrwydd yn bwysig, ond sut y mae'r gwariant a'r rhaglenni hynny'n newid arferion. Un o heriau mwyaf y Llywodraeth yw newid yr arferion sydd wedi gwreiddio'n ddwfn iawn, o ran yr angen i ddatblygu mwy ar thema datblygu cynaliadwy.

The commissioner also says that there is still evidence that the Government's understanding of the concept of sustainable development is confused and inconsistent. That is quite some statement. Alarm bells should be ringing for all of us. If the Government does not understand the concept, how is any other part of the public sector expected to understand that concept? Indeed, how can we have confidence that the future generations Bill will achieve the Government's stated aim? Yes, there is room to recognise that good practices are put in place, and we are willing to do that. However, as the commissioner says, the tendency is that they tend to happen in silos. The commissioner also says that the report concentrates on inputs and some outputs but hardly at all on outcomes. Well, we have heard that theme a couple of times today already. It is clear that there are questions to be asked of the Government's approach to what is described as delivery. It is not necessarily how many programmes you have or how much expenditure there is that is important, but how those programmes and that expenditure change habits. One of the greatest challenges facing the Government is to change those deep-rooted habits, in terms of the need to further develop the theme of sustainable development.

Consýrn arall yw'r diffyg pwyntiau meincnodi sy'n gallu dangos perfformiad mewn perthynas â dangosyddion ar gyfer cyflawni nodau hirdymor. Hanfod Bil cenedlaethau'r dyfodol yw gosod cyfeiriad strategol lefel uchel o fewn y sector cyhoeddus a fydd, o reidrwydd, yn ffocysu ar nodau tymor hir. Mae'n amlwg, felly, fod angen newid y diwylliant sy'n bodoli o fewn Llywodraeth Cymru cyn ein bod yn edrych ymhellach. Gallwn bigo lan ar ambell faes sydd wedi cael ei grybwyll—mae caffael cyhoeddus yn un ohonynt lle byddwn yn cymryd unrhyw sylwadau gan Lywodraeth Cymru â phinsiad o halen. Dim ond yn ddiweddar, codais gonsýrn ynglŷn â'r ffaith bod Llywodraeth Cymru yn defnyddio fframwaith ar gyfer gwaith monitro a gwerthuso sydd ag ond un cwmni Cymreig arno, allan o 38. Fframwaith Llywodraeth y Deyrnas Unedig yw'r fframwaith hwnnw, wrth gwrs, ac rydym yn dal i aros i glywed a yw'r Llywodraeth am fabwysiadu fframwaith Cymreig. Os yw'r Llywodraeth o ddifrif am gael economi carbon isel—maes arall y cyfeirir ato yn yr adroddiad—mae agwedd meddwl agored tuag at nwy anghonfensiynol, yn fy marn i, yn un sy'n rhedeg i gyfeiriad gwahanol iawn; felly hefyd annog twf gwyrdd ond, ar y llaw arall, bod yn barod i ystyried buddsoddiad aruthrol mewn traffordd anferth o gwmpas Casnewydd.

Another concern is the lack of benchmarking that can identify performance against indicators for achieving long-term aims. The essence of the future generations Bill is to set a high-level strategic direction within the public sector that would necessarily focus on long-term aims. It is clear, therefore, that we need to change the culture within the Welsh Government before we look further ahead. I could pick up on a few other areas that have been mentioned—public procurement is one where we will take any comments by the Welsh Government with a pinch of salt. Only recently, I raised concern about the fact that the Welsh Government was using a framework for monitoring and evaluating work on which there was only one Welsh company, out of 38. It is a UK Government framework, and we are still waiting to hear whether the Government is to adopt a Welsh framework. If the Government is serious about being a low-carbon economy—another area covered in the report—an open-minded approach to unconventional gas, in my view, runs contrary to that; as does encouraging green growth but, on the other hand, being willing to consider huge investment in a major motorway around Newport.

O ran y gwelliannau, byddwn yn cefnogi'r holl welliannau heblaw gwelliant 4. Er ein bod yn cytuno â'r consýrn sy'n bodoli ynglŷn â lefelau caffael bwyd lleol yn y sector cyhoeddus, a'r angen am labelu mwy cynhwysfawr, nid ydym yn cytuno nad oedd y strategaeth Bwyd i Gymru, Bwyd o Gymru yn addas i'r diben. Serch hynny, y peth pwysicaf yn sgîl y ddadl hon a'r adroddiad hwn yw sut y bydd Llywodraeth Cymru yn ymateb i'r sylwadau gan y comisiynydd. Ym Mhlaid Cymru, byddwn yn sicr yn craffu ar Fil cenedlaethau'r dyfodol yn fanwl ac yn cyflwyno gwelliannau er mwyn sicrhau ei fod mor gryf, clir ac effeithiol ag y bo modd. Ar dystiolaeth yr adroddiad hwn, mae'n amlwg bod gennym ni a Llywodraeth Cymru lawer o waith i'w wneud.

Turning to the amendments, we will support all amendments with the exception of amendment 4. While we agree with the concern about the level of local food procurement in the public sector and the need for more comprehensive labelling, we do not agree that the Food for Wales, Food from Wales strategy was not appropriate. However, what is most important in light of this debate and this report is how the Welsh Government responds to the commissioner's comments. We in Plaid Cymru will certainly be scrutinising the future generations Bill in detail and will be tabling amendments to ensure that it is as clear, robust and effective as possible. On the evidence of this report, it is clear that we and the Welsh Government have some work to do.

17:19

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Galwaf ar y Gweinidog i ymateb i'r ddadl.

I call the Minister to reply to the debate.

17:19

## Jeff Cuthbert [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty*

I apologise for not being immediately ready to reply—I assumed that there might be some more contributions.

Ymddiheuraf am beidio â bod yn barod i ateb ar unwaith—roeddwn yn tybio y byddai mwy o gyfraniadau.

I thank Assembly Members for the positive and helpful discussion around how we have promoted sustainable development, and the reporting arrangements for sustainable development. I can give an assurance that I will look to build on any practical recommendations that have been suggested by those Members who have spoken. Our approach to putting sustainable development at the heart of what we do is improving year on year, although I acknowledge the critical comments of the commissioner, and I welcome his independent assessment. However, we are working hard to embed this principle across the entire activities of the Welsh Government. Sustainable development has a unique status in Wales, and I appreciate that Members recognise this. We are working to rise to the challenge of progressing sustainable development more successfully across Wales, and this commitment is reflected in our work to bring forward the future generations Bill.

Hoffwn ddiolch i Aelodau'r Cynulliad am y drafodaeth gadarnhaol a defnyddiol ynghylch y ffordd yr ydym wedi hyrwyddo datblygu cynaliadwy, a'r trefniadau adrodd ar ddatblygu cynaliadwy. Gallaf roi sicrwydd y byddaf yn adeiladu ar unrhyw argymhellion ymarferol a awgrymwyd gan yr Aelodau hynny sydd wedi siarad. Mae ein dull o roi datblygu cynaliadwy wrth wraidd yr hyn a wnawn yn gwella o flwyddyn i flwyddyn, er fy mod yn cydnabod sylwadau beirniadol y comisiynydd, ac rwyf yn croesawu ei asesiad annibynnol. Fodd bynnag, rydym yn gweithio'n galed i ymgorffori'r egwyddor hon yn holl weithgareddau Llywodraeth Cymru. Mae gan ddatblygu cynaliadwy statws unigryw yng Nghymru, c mae'n dda gennyf fod yr Aelodau'n cydnabod hynny. Rydym yn gweithio i ymateb i'r her o symud datblygu cynaliadwy yn ei flaen yn fwy llwyddiannus ledled Cymru, ac mae'r ymrwymiad hwn yn cael ei adlewyrchu yn ein gwaith i gyflwyno Bil cenedlaethau'r dyfodol.

Turning to some of the specific comments made, Russell George quite rightly referred to the commissioner's comments in his commentary about not embedding sustainable development as thoroughly as we could, and there were references by other Members to the silo approach. We take that on board very seriously. We were grateful for the independent commentary—and it is just that: the commissioner has no responsibility for the policy of Welsh Government, and we welcome him putting up criticism where he feels it necessary. However, he does acknowledge that progress has been made, and we can show that the indicators that we work by at the moment—which, of course, can be reviewed like any other activity that we lead on—show that progress is indeed being made. We have not cherry-picked, I would have to say—if I were to take up one issue—the issues that we have put forward.

A throi at rai o'r sylwadau penodol a wnaed, mae'n briodol fod Russell George yn cyfeirio at sylwadau'r comisiynydd yn ei sylwebaeth am beidio ag ymgorffori datblygu cynaliadwy mor drwyadl ag y gallem, ac roedd cyfeiriadau gan Aelodau eraill at yr ymagwedd seilo. Rydym yn ystyried hynny o ddifrif. Rydym yn ddiolchgar am y sylwebaeth annibynnol—a dyna ydyw: nid oes gan y comisiynydd ddim cyfrifoldeb am bolisi Llywodraeth Cymru, ac rydym yn croesawu ei feirniadaeth lle mae'n teimlo bod angen hynny. Fodd bynnag, mae'n cydnabod bod cynnydd wedi'i wneud, a gallwn ddangos bod y dangosyddion yr ydym yn gweithio'n unol â hwy ar hyn o bryd—y gellir eu hadolygu, wrth gwrs, fel unrhyw weithgaredd arall a arweiniwn—yn dangos bod cynnydd yn digwydd yn wir. Nid ydym wedi dewis a dethol, mae'n rhaid imi ddweud—er mwyn ymateb i un pwynt —y materion yr ydym wedi'u cyflwyno.

In terms of the lead on sustainable development, that is me, as the Minister for Communities and Tackling Poverty, but I did make the point that all Ministers have a role to play as well in their portfolios. There is a commitment to that and impact assessments are done to ensure that all key decisions take proper account of the need to be sustainable.

O ran arwain ar ddatblygu cynaliadwy, fi, y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, sy'n gwneud hynny, ond nodais fod gan bob Gweinidog swyddogaeth hefyd, yn eu portffolios. Rydym wedi ymrwymo i hynny a chynhelir asesiadau o effaith i sicrhau bod pob penderfyniad allweddol yn ystyried yn briodol yr angen i fod yn gynaliadwy.

In terms of the future generations Bill, I acknowledge without hesitation that it has to be right—this was a point made by Russell George—and it must have cross-party support. Early in the new year, I will be holding meetings with party spokespeople to discuss the way forward for the Bill and the plans that we have in terms of the goals and the methodologies, for example, for the national conversations, where we will be looking very seriously to obtain opinion and evidence from groups and individuals right across Wales and, as the title suggests, from future generations in particular, for younger people to say what Wales they want for the future.

O ran Bil cenedlaethau'r dyfodol, rwyf yn cydnabod yn ddi-os fod yn rhaid iddo fod yn iawn—ac roedd hwn yn bwynt a nodwyd gan Russell George—a bod yn rhaid wrth gefnogaeth drawsbleidiol iddo. Yn gynnar yn y flwyddyn newydd, byddaf yn cynnal cyfarfodydd â llefarwyr y pleidiau i drafod y ffordd ymlaen ar gyfer y Bil a'n cynlluniau o ran y nodau a'r methodolegau, er enghraifft, ar gyfer y sgyrsiau cenedlaethol, lle y mae'n fwriad difrifol iawn gennym glywed barn a thystiolaeth gan grwpiau ac unigolion ledled Cymru, ac fel y mae'r teitl yn awgrymu, gan genedlaethau'r dyfodol yn benodol, er mwyn i bobl iau ddweud pa fath o Gymru sydd ei heisiau arnynt at y dyfodol.

William Powell, you made a number of similar comments—I will not go back over those—about the importance of a sea change in the way in which we work together, and I accept that, as we do across all departments in the Welsh Government.

William Powell, gwnaethoch nifer o sylwadau tebyg— nid wyf am fynd yn ôl dros y rhain—am bwysigrwydd sicrhau newid mawr yn y ffordd yr ydym yn gweithio gyda'n gilydd, a derbyniaf hynny, fel yr ydym yn ei wneud ym mhob adran yn Llywodraeth Cymru .

That is shared by many in the private sector and in the voluntary sector; they have signed up to the SD charter. I attended an event in Cardiff just a few weeks ago, and there was no doubt that there is great enthusiasm for the principles of sustainable development right across Wales and in all sectors. Although the future generations Bill will, of course, focus on placing a duty on the public sector, I think that we will find willing partners and associates in the third sector and in the private sector as well.

Rhennir hynny gan lawer un yn y sector preifat ac yn y sector gwirfoddol; maent wedi ymrwymo i'r siarter ddatblygu cynaliadwy. Euthum i ddigwyddiad yng Nghaerdydd ychydig wythnosau yn ôl, ac nid oedd dim amheuaeth fod brwdfrydedd mawr dros egwyddorion datblygu cynaliadwy ledled Cymru ac ym mhob sector. Er y bydd Bil cenedlaethau'r dyfodol, wrth gwrs, yn canolbwyntio ar osod dyletswydd ar y sector cyhoeddus, credaf y byddwn yn dod o hyd i bartneriaid a chydweithwyr parod yn y trydydd sector ac yn y sector preifat yn ogystal.

The commissioner will continue to have a very important role. Peter has indicated that he does not plan to apply to be the statutory commissioner; whoever it may be in the future will be a figure of enormous importance and will be listened to very carefully. You mentioned particularly the MCZ proposals in terms of marine policy, and we have learned lessons through that. I know that my colleague the Minister for Natural Resources and Food is taking those issues forward.

Bydd y comisiynydd yn parhau i chwarae rhan bwysig iawn. Mae Peter wedi nodi nad yw'n bwriadu gwneud cais i fod yn gomisiynydd statudol; bydd pwy bynnag a fydd yn y swydd yn y dyfodol yn ffigwr hynod bwysig a byddwn yn gwrando'n ofalus iawn arno neu arni. Soniasoch yn arbennig am y cynigion ar gyfer parthau cadwraeth morol o ran polisi morol, ac rydym wedi dysgu gwersi drwy hynny. Gwn fod fy nghydweithiwr y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd yn bwrw ymlaen â'r materion hynny.

I can confirm that key groups will be involved very much in the future generations Bill's development and in its continuing process of national conversations. Also, I acknowledge the important role that the European Union will continue to have in working with us on sustainable development and, indeed, in our ability then to impart our experiences back into Europe more generally.

Gallaf gadarnhau y bydd grwpiau allweddol yn rhan fawr iawn o ddatblygu Bil cenedlaethau'r dyfodol a phroses y sgyrsiau cenedlaethol sy'n parhau. Hefyd, rwyf yn cydnabod swyddogaeth bwysig yr Undeb Ewropeaidd a fydd yn parhau o ran gweithio gyda ni ar ddatblygu cynaliadwy ac, yn wir, o ran ein gallu i rannu ein profiadau ag Ewrop yn fwy cyffredinol.

Finally, Llyr Gruffydd, in terms of the future generations Bill, I do not think that I need to repeat the comments that I have already made about that, other than we treat that Bill as a very important development within Wales. We are absolutely serious; it is a commitment in the Labour manifesto and the programme for government. We will be taking the criticisms that the commissioner made and any future criticisms extremely seriously.

Yn olaf, Llyr Gruffydd, o ran Bil cenedlaethau'r dyfodol, nid wyf yn meddwl bod angen i mi ailadrodd y sylwadau yr wyf eisoes wedi'u gwneud am hynny, ac eithrio'r ffaith ein bod yn ymdrin â'r Bil fel datblygiad pwysig iawn yng Nghymru. Rydym yn gwbl o ddifrif; mae'n ymrwymiad ym maniffesto Llafur a'r rhaglen lywodraethu. Byddwn yn ystyried o ddifrif calon y feirniadaeth y mae'r comisiynydd wedi ei nodi ac unrhyw feirniadaeth yn y dyfodol.

You mentioned benchmarking and the national SD indicators. We are going to have a review of the SD indicators to make sure that they are as relevant as they can be to modern Wales so that we know that, when we benchmark, we have indicators that are robust and relevant. That will also include looking at issues around public procurement, because we certainly want that to be part of the future generations Bill in terms of working with local enterprises on the issue of food, for example, so that we can get the best deal for Welsh producers. We will also look at issues around green growth, new apprenticeships schemes and Jobs Growth Wales, for example. Sustainable development being embedded within the vocational training routes for young people coming into those new technologies will clearly need to be an important part of the Bill. I urge support for the motion.

Roeddech yn sôn am feincnodi a'r dangosyddion datblygu cynaliadwy cenedlaethol. Rydym yn bwriadu cynnal adolygiad o'r dangosyddion datblygu cynaliadwy i wneud yn siŵr eu bod mor berthnasol ag y gallant fod i Gymru fodern er mwyn sicrhau ein bod yn gwybod, pan fyddwn yn meincnodi, fod gennym ddangosyddion sy'n gadarn ac yn berthnasol. Bydd hynny hefyd yn golygu edrych ar faterion sy'n ymwneud â chaffael cyhoeddus, oherwydd rydym yn sicr am i hynny fod yn rhan o Fil cenedlaethau'r dyfodol o ran gweithio gyda mentrau lleol ar fwyd, er enghraifft, er mwyn inni allu cael y fargen orau i gynhyrchwyr Cymru. Byddwn hefyd yn edrych ar faterion yn ymwneud â thwf gwyrdd, cynlluniau prentisiaethau newydd a Thwf Swyddi Cymru, er enghraifft. Yn amlwg bydd angen i ymgorffori datblygu cynaliadwy yn y llwybrau hyfforddiant galwedigaethol i bobl ifanc sy'n dod i weithio gyda'r technolegau newydd hynny fod yn rhan bwysig o'r Bil. Galwaf arnoch i gefnogi'r cynnig.

17:26

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Y cwestiwn yw y dylid derbyn gwelliant 1. A oes unrhyw wrthwynebiad? Mae gwrthwynebiad. Gohiriaf bob pleidlais ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

The question is that amendment 1 be agreed to. Is there any objection? There is objection. Therefore, I defer all voting on this item until voting time.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

## Dadl Cyfnod 3 o dan Reol Sefydlog 26.44 ar y Bil Rheoli Ceffylau (Cymru)

## Stage 3 Standing Order 26.44 Debate on the Control of Horses (Wales) Bill

### Grŵp 1: Microsglodynnu (Gwelliannau 1, 2 a 3)

### Group 1: Microchipping (Amendments 1, 2 and 3)

17:26

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The lead amendment in the group is amendment 1. I call on Antoinette Sandbach to move amendment 1 and to speak to it and the other amendments in the group.

Gwelliant 1 yw'r prif welliant yn y grŵp. Galwaf ar Antoinette Sandbach i gynnig gwelliant 1 ac i siarad amdano ac am y gwelliannau eraill yn y grŵp.

17:26

### Antoinette Sandbach Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 1 in my name, supported by Angela Burns.

Cynigiaf welliant 1 yn fy enw i, gyda chefnogaeth Angela Burns.

First, I would like to say to the Minister that I am very grateful that he sent me a copy of the analysis of the amendments by his officials. It is important, I feel, for the microchipping amendment to go through today. The amendment has been specifically drafted to ensure that any horse born before 1 July 2009 does not need to be microchipped. The drafting of the amendment, therefore, makes it clear that, if the local authority is satisfied that the horse is required to be microchipped in accordance with the commission regulation, it has the power to do so. The Equine Identification (Wales) Regulations 2009 have frequently been reported as inadequate. Many of the consultation responses to you, Minister, are testament to this. Caerphilly County Borough Council, in relation to all the fly-grazing incidents, reported having only ever found one pony with a microchip and even that pony's change of ownership had not been reported. Vale of Glamorgan Council said in its response that it is common for an owner who regularly fly-grazes horses not to identify them in accordance with the regulations as a way to avoid enforcement action. Numerous respondents described those regulations as not fit for purpose. Surely, in the light of all these views, the benefit of including identification and making it express on the face of the Bill means that people cannot say that they were not aware of the requirements under the regulations.

Yn gyntaf, hoffwn ddweud wrth y Gweinidog fy mod yn ddiolchgar iawn ei fod wedi anfon copi o ddadansoddiad ei swyddogion o'r gwelliannau ataf. Credaf ei bod yn bwysig fod y gwelliant microsglodynnu'n cael ei dderbyn heddiw. Cafodd y gwelliant ei ddrafftio'n benodol i sicrhau nad oes angen microsglodynnu ceffylau a anwyd cyn 1 Gorffennaf 2009. Mae drafft y gwelliant, felly, yn ei gwneud yn glir, os yw'r awdurdod lleol yn fodlon bod angen i'r ceffyl gael microsglodyn yn unol â rheoliad y comisiwn, fod ganddo'r grym i wneud hynny. Dywedwyd yn aml fod Rheoliadau Adnabod Ceffylau (Cymru) 2009 yn annigonol. Mae llawer o'r ymatebion a gawsoch i'r ymgynghoriad, Weinidog, yn tystio i hynny. Dywedodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, ynglŷn â'r holl achosion o bori anghyfreithlon, mai dim ond un ferlen y mae erioed wedi dod o hyd iddi a chanddi ficrosglodyn ac nad adroddwyd am newid perchnogaeth y ferlen honno hyd yn oed. Dywedodd Bro Morgannwg yn eu hymateb ei bod yn gyffredin i berchennog sy'n pori ceffylau'n anghyfreithlon yn rheolaidd beidio â'u hadnabod yn unol â'r rheoliadau a hynny er mwyn osgoi camau gorfodi. Dywedodd llawer o ymatebwyr nad yw'r rheoliadau hynny'n addas at y diben. O ystyried yr holl safbwyntiau hyn, onid yw mantais cynnwys dull adnabod a sicrhau ei fod yn glir ar wyneb y Bil yn golygu na all pobl ddweud nad oeddent yn ymwybodol o'r gofynion o dan y rheoliadau?

I know that you are concerned that the amendments might lead to two local authorities forcing compliance and that there is confusion as to who would ensure compliance, but this statement is unfounded. While it is the responsibility of an owner to ensure that microchipping is carried out, or a keeper—and the local authority becomes a keeper when it seizes the horses—under the Equine Identification (Wales) Regulations 2009, the local authority is also the enforcement authority. Therefore, to return the horse to the owner without ensuring compliance with the Equine Identification (Wales) Regulations 2009 would be condoning, potentially, a breach of those regulations and neglecting to carry out that enforcement function.

Gwn eich bod yn pryderu y gallai'r gwelliannau beri bod dau awdurdod lleol yn gorfodi cydymffurfiaeth a bod dryswch ynghylch pwy fyddai'n sicrhau cydymffurfiaeth, ond mae'r datganiad hwnnw'n un di-sail. Er mai cyfrifoldeb y perchennog yw sicrhau bod microsglodion yn cael eu gosod, neu'r ceidwad—a'r awdurdod lleol yw'r ceidwad pan fydd yn atafaelu'r ceffylau—o dan Reoliadau Adnabod Ceffylau (Cymru) 2009, yr awdurdod lleol hefyd yw'r awdurdod gorfodi. Felly, byddai dychwelyd y ceffyl i'r perchennog heb sicrhau cydymffurfiaeth â Rheoliadau Adnabod Ceffylau (Cymru) 2009, o bosibl, yn gyfystyr â chaniatáu torri'r rheoliadau hynny a pheidio â chyflawni'r swyddogaeth orfodi honno.

It has been mentioned time and again that the lack of ability to identify horse ownership is a continual barrier to tackling fly-grazing. It leads to repeat offences, an inability to recover costs, and a lengthier process. The importance of addressing identification was highlighted in your own explanatory memorandum to the Bill, Minister, and the purpose of these amendments is to tackle this issue. These amendments allow the enforcement authority to ensure that the identification regulations are fully complied with, and are therefore essential if you want to work towards your aim and our aim. I think that it is generally agreed across this Chamber that we want a fly-grazing-free Wales.

Crybwyllwyd droeon fod y diffyg gallu i adnabod perchenogion ceffylau'n rhwystr parhaus o ran ymdrin â phori anghyfreithlon. Mae'n arwain at droseddu dro ar ôl tro, anallu i adennill costau, a phroses hwy. Rhoddwyd sylw i bwysigrwydd gwella prosesau adnabod yn eich memorandwm esboniadol chi eich hun i'r Bil, Weinidog, a diben y gwelliannau hyn yw ymdrin â'r mater hwnnw. Mae'r gwelliannau hyn yn caniatáu i'r awdurdod gorfodi sicrhau y cydymffurfir yn llawn â'r rheoliadau adnabod, ac maent yn hanfodol, felly, os ydych am weithio tuag at eich nod chi a'n nod ninnau. Credaf ein bod yn gytûn yn gyffredinol ar draws y Siambr hon yr hoffem weld Cymru heb bori anghyfreithlon.

The claims that, under these amendments, the process would be cumbersome and unnecessary also seem to be unfounded and incorrect, partly because the local authorities have the requirement to issue the passports and are the enforcing authorities, as I have previously explained. Your draft guidance, in paragraph 5.12 and 5.13, explains exactly what must be done in the event that the local authority has to, for example, sell a horse. It will be required to microchip if it is going to sell a horse. So, if it is not cumbersome and unnecessary to carry out those provisions when you are seeking a sale, then in my submission it is not cumbersome and unnecessary when returning a horse to ensure that the regulations are complied with.

Ymddengys fod yr honiadau y byddai'r broses, o dan y gwelliannau hyn, yn feichus ac yn ddiangen hefyd yn ddi-sail ac yn gyfeiliornus, yn rhannol oherwydd y gofyniad ar yr awdurdodau lleol i gyhoeddi'r pasbortau ac oherwydd mai hwy yw'r awdurdodau gorfodi, fel yr eglurais eisoes. Mae eich canllawiau drafft, ym mharagraff 5.12 a 5.13, yn egluro'n union yr hyn y mae'n rhaid ei wneud os bydd yr awdurdod lleol, er enghraifft, yn gorfod gwerthu ceffyl. Bydd yn rhaid i'r awdurdod osod microsglodyn os yw'n mynd i werthu ceffyl. Felly, os nad yw'n feichus ac yn ddiangen gwneud y darpariaethau hynny wrth geisio gwerthu, yn fy nhyb i, nid yw'n feichus nac yn ddiangen wrth ddychwelyd ceffyl er mwyn sicrhau y cydymffurfir â'r rheoliadau.

I would also like to make the argument that, whilst unnecessary claims could be made due to the presence of the microchip and the passport requirements in the guidance, we have got no assurance yet that the guidance will be statutory, and I know that that will be dealt with elsewhere.

Hoffwn hefyd ddadlau nad ydym wedi cael dim sicrwydd eto, er y gellid gwneud hawliadau diangen oherwydd presenoldeb y microsglodyn a'r gofynion pasbort yn y canllawiau, y bydd y cyfarwyddyd yn statudol; gwn y caiff hynny sylw yn rhywle arall.

Part (3) of the amendment is worded so that the cost of the microchipping will be fully recoverable by the local authority from the owner, which will mean that it will be cost-neutral. I have been calling for the inclusion of the microchipping provisions in this Bill since the first debate in October. Yesterday, the Royal Society for the Prevention of Cruelty to Animals issued a further briefing on its stance in respect of this Bill, stating that it wished to see measures which encouraged the microchipping of horses, and that microchipping horses is integral to a robust traceability process. The need for stronger identification enforcement is clear, and I urge you and other Members in this Chamber to support these amendments.

Mae rhan (3) y gwelliant wedi'i geirio er mwyn i'r awdurdod lleol allu adennill cost lawn y microsglodyn gan y perchennog, ac mae hynny'n golygu y bydd yn gost-niwtral. Rwyf wedi bod yn galw am gynnwys y darpariaethau microsglodynnu yn y Bil hwn ers y ddadl gyntaf ym mis Hydref. Ddoe, cyhoeddodd y Gymdeithas Frenhinol er Atal Creulondeb i Anifeiliaid wybodaeth bellach ar ei safbwynt o ran y Bil hwn, gan nodi ei bod yn dymuno gweld mesurau i annog microsglodynnu ceffylau, a bod gosod microsglodynnu ceffylau'n rhan annatod o broses olrhain gadarn. Mae'n amlwg bod angen gorfodi dulliau adnabod yn gryfach, ac rwyf yn eich annog chi ac Aelodau eraill yn y Siambr hon i gefnogi'r gwelliannau hyn.

Minister, I know that you have said in committee that you recognise that the issue of identification is an important one, and, really, all we are doing in these amendments is putting the requirement onto the face of the Bill and making sure that the local authority can ensure compliance and recover the costs of compliance.

Weinidog, gwn ichi ddweud yn y pwyllgor eich bod yn cydnabod bod adnabod yn fater pwysig, ac, mewn gwirionedd, y cwbl yr ydym yn ei wneud yn y gwelliannau hyn yw rhoi'r gofyniad ar wyneb y Bil a gwneud yn siŵr bod yr awdurdod lleol yn gallu sicrhau cydymffurfiaeth ac yn gallu adennill costau cydymffurfiaeth.

17:33 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Rwy'n codi i gefnogi gwelliannau 1, 2 a 3. Mae yna 'issues' sylweddol, wrth gwrs, ar fater adnabod ceffylau, ac mae yna ddiffygion yn y drefn o basborts a microsglodynnu fel y mae pethau'n sefyll. Mae angen gwaith ehangach tu hwnt i'r ddeddfwriaeth benodol hon i fynd i'r afael â hynny. Rwy'n teimlo y gall y Bil hwn, drwy dderbyn y gwelliannau arfaethedig sydd o dan sylw yn awr, gyfrannu tuag at y gwaith hwnnw. Mae cyrff lles anifeiliaid yn amlwg wedi dangos eu bod nhw'n awyddus i weld y mater hwn yn cael ei ddelio ag ef. Rwy'n deall bod cynigydd y gwelliannau wedi cael cyngor cyfreithiol y byddai gan berchennog neu geidwad yr anifail yr hawl i ficrosglodynnu, ac yng ngoleuni hynny rydym yn barod i gefnogi'r gwelliannau.

I rise to support amendments 1, 2 and 3. There are significant issues, of course, with the identification of horses, and there are deficiencies with the passport system and microchipping as things stand. Wider work beyond this specific legislation will be required to get to grips with that. I feel that this Bill, by accepting the proposed amendments that are being considered now, could contribute to that work. Animal welfare bodies have clearly shown that they are eager to see this matter being dealt with. I understand that the proposer of the amendments has received legal advice that the owner or keeper of the animal would have the right to microchip, and in that light we are ready to support the amendments.

17:34 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I would like to thank Antoinette Sandbach, and indeed Angela Burns, for bringing forward this group of amendments. My mailbag and my e-mail inbox, like those of other Members, have been overflowing in recent times with representations relating to this Bill. Although they are very positive about the broad thrust that the Bill brings with it, it is clear that nobody is arguing that it will be the panacea that will tackle all the equine problems that we have in Wales. Indeed, while it deals with the legal process behind fly-grazing, there is little in it that will address the two largest fly-grazing issues that people have contacted me about, namely identification and land damage. It is for this reason that the Welsh Liberal Democrat group will be supporting the amendments in this group, and those in group 3, given their attempt to address these central concerns.

Hoffwn ddiolch i Antoinette Sandbach, ac yn wir i Angela Burns, am gyflwyno'r grŵp hwn o welliannau. Mae fy mag post a'm blwch derbyn e-byst, fel rhai Aelodau eraill, wedi bod yn gorlifo'n ddiweddar â sylwadau ynglŷn â'r Bil hwn. Er eu bod yn gadarnhaol iawn am fyrdwn cyffredinol y Bil, mae'n amlwg nad oes neb yn dadlau y bydd yn llwyddo i ateb yr holl broblemau sydd gennym yng Nghymru o ran ceffylau. Yn wir, er ei fod yn ymdrin â'r broses gyfreithiol y tu ôl i bori anghyfreithlon, nid oes llawer ynddo a fydd yn rhoi sylw i'r ddau brif fater ynglŷn â phori anghyfreithlon y mae pobl wedi cysylltu â mi amdanynt, sef adnabod a difrod i dir. Dyna pam y bydd grŵp Democratiaid Rhyddfrydol Cymru'n cefnogi'r gwelliannau yn y grŵp hwn, a'r rhai yng ngrŵp 3, oherwydd eu bod yn ceisio ymdrin â'r pryderon canolog hyn.

Put simply, the central principle of any animal welfare legislation should be to improve the standards of animal welfare delivered on the ground. That is because, I argue, we have a responsibility to act through legislation when others do not. That is why I am supportive of the call by RSPCA members and others to take full advantage of this Bill to improve equine identification and also to not allow the burden to reside with an individual owner who, by virtue of becoming involved with the legislation, is already in breach of the very welfare standards that we hold dear.

Yn syml, dylai unrhyw ddeddfwriaeth lles anifeiliaid ganolbwyntio'n bennaf ar wella safonau lles anifeiliaid a gyflwynir ar lawr gwlad. Mae hynny, yn fy marn i, oherwydd bod gennym gyfrifoldeb i weithredu drwy ddeddfwriaeth pan nad yw eraill yn gwneud hynny. Dyna pam yr wyf yn cefnogi'r alwad gan aelodau'r RSPCA ac eraill i fanteisio i'r eithaf ar y Bil hwn er mwyn gwella dulliau adnabod ceffylau a hefyd er mwyn peidio â rhoi'r baich ar berchenogion unigol sydd, oherwydd eu hymwneud â'r ddeddfwriaeth, eisoes yn torri'r union safonau lles sy'n bwysig inni.

Having read the Government's explanation of why it disagrees with this position, I do not expect that a great deal will change this afternoon. However, while a number of the points in that explanation do not stand up to detailed scrutiny, I would suggest that others do and that more work is required in this area were this to be adopted. In subordinate terms, to address point 5 of the Government's critique, while the existing cost recovery structure and EU regulation requirements do address most of the problems outlined in the Government response, as the amendments clearly outline, there is naturally scope to further address the point of delivery so that any microchipping could be done within the desired seven-day time frame.

Ar ôl darllen eglurhad y Llywodraeth ynghylch pam y mae'n anghytuno â'r safbwynt hwnnw, nid wyf yn disgwyl y bydd rhyw lawer yn newid y prynhawn yma. Fodd bynnag, er nad yw nifer o'r pwyntiau yn yr esboniad hwnnw'n gwrthsefyll craffu manwl, byddwn yn awgrymu bod eraill yn llwyddo i wneud hynny a bod angen mwy o waith yn y maes hwn os caiff hwn ei fabwysiadu. O ran is-ddeddfwriaeth, i ymdrin â phwynt 5 beirniadaeth y Llywodraeth, er bod y strwythur presennol ar gyfer adennill costau a gofynion rheoliadau'r UE yn datrys y rhan fwyaf o'r problemau a amlinellir yn ymateb y Llywodraeth, fel y mae'r gwelliannau'n ei amlinellu'n glir, mae lle wrth gwrs i roi mwy o sylw i'r man darparu fel y gellid gosod unrhyw ficrosglodion o fewn y cyfnod saith diwrnod a ddymunir.

Taken together with the strength of public feeling on this issue, I feel that it would be wrong to rule out any identification measures, even at this late stage.

O ystyried hynny, ynghyd â chryfder teimladau'r cyhoedd am y mater hwn, rwyf o'r farn mai drwg o beth fyddai diystyru unrhyw fesurau adnabod, hyd yn oed mor hwyr â hyn.

17:36 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I rise to support amendments 1, 2 and 3.

Codaf i gefnogi gwelliannau 1, 2 a 3.

Let us be very clear, what we are trying to do here is pass a piece of animal welfare legislation that is intended to stop large-scale, organised horse trafficking in Wales. We are not talking about a person with one or two or even five ponies, we are talking about the organised crime that goes on where people have 1,000, 2,000 or even 2,500 horses underneath their control and they dump them on people's lands willy-nilly.

Gadewch inni fod yn glir iawn; yr hyn yr ydym yn ceisio ei wneud yma yw pasio darn o ddeddfwriaeth lles anifeiliaid y bwriedir iddo atal masnachu ceffylau'n anghyfreithlon ac yn gyfundrefnol ar raddfa fawr yng Nghymru. Nid ydym yn sôn am unigolyn ag un neu ddwy neu hyd yn oed bump o ferlod; rydym yn sôn am y troseddu cyfundrefnol sy'n digwydd lle mae gan bobl 1,000, 2,000 neu hyd yn oed 2,500 o geffylau dan eu rheolaeth a lle maent yn eu gadael ar diroedd pobl o fodd neu o anfodd.

The practice at the moment is that they will allow organisations such as the Government or local authorities, or land owners, to pick them up, take responsibility for them, usually feed them, sort them out, and then they either come and steal them back or somehow reacquire them. Then, those ponies go back into the chain again, get abused again, get neglected again and get starved again. Anybody who has ever seen a starving pony or horse will know how sick it makes you feel.

Yr arfer ar hyn o bryd yw y byddant yn caniatáu i sefydliadau fel y Llywodraeth neu awdurdodau lleol, neu berchnogion tir, eu casglu, cymryd cyfrifoldeb amdanynt, eu bwydo fel arfer, a rhoi trefn arnynt, ac yna byddant naill ai'n dod i'w dwyn yn ôl neu'n eu hadennill rywsut. Yna, aiff y merlod hynny'n ôl i mewn i'r gadwyn unwaith eto, i'w cam-drin eto, i'w hesgeuluso eto ac i'w llwgu eto. Bydd unrhyw un sydd erioed wedi gweld merlen neu geffyl newynog yn gwybod pa mor sâl y mae'n gwneud ichi deimlo.

The point of this amendment on microchipping is to try, in some small part, to stop that vicious cycle. I appreciate that not every pony in Wales will end up being microchipped as there are huge exemptions. This is a small part, but it is a small way of trying to stop the flood of animal cruelty that carries on. I ask Members to seriously consider that and to consider the report of the cross-party group on the horse. We have called for horses and ponies to be microchipped ever since we started this process, some two and a half years ago.

Pwynt y gwelliant hwn ynghylch gosod microsglodion yw ceisio gwneud rhywbeth bach i atal y cylch dieflig hwnnw. Gwn na fydd pob merlen yng Nghymru yn y pen draw'n cael microsglodyn gan fod eithriadau enfawr. Rhan fach yw hyn, ond mae'n ffordd fach o geisio atal y llif o greulondeb i anifeiliaid sy'n parhau. Gofynnaf i'r Aelodau ystyried hynny o ddifrif ac ystyried adroddiad y grŵp trawsbleidiol ar geffylau. Rydym yn galw am osod microsglodion ar geffylau a merlod byth ers inni ddechrau'r broses hon, tua dwy flynedd a hanner yn ôl.

I have heard the very persuasive arguments put forward by the Government and I understand a great many of the drivers about trying to get through a piece of legislation that can be enacted relatively quickly, but, nonetheless, this is a very small part of that legislation. My colleague Antoinette Sandbach clearly laid out that there is a lot of responsibility related to getting the animals microchipped if you are going to sell them, so why not microchip them before you give them back to those unscrupulous owners? We need to stop this awful trafficking of ponies and horses in Wales. I hope that Members here will review this.

Rwyf wedi clywed y dadleuon darbwyllol iawn sydd wedi'u cyflwyno gan y Llywodraeth ac rwyf yn deall llawer iawn o'r ffactorau sydd ar waith wrth geisio creu darn o ddeddfwriaeth y gellir ei roi ar waith yn gymharol gyflym, ond, serch hynny, rhan fach iawn o'r ddeddfwriaeth honno yw hyn. Dywedodd fy nghydweithiwr Antoinette Sandbach yn glir fod llawer o gyfrifoldeb yn gysylltiedig â gosod microsglodion ar yr anifeiliaid os ydych yn mynd i'w gwerthu, felly beth am osod y microsglodion cyn ichi eu rhoi'n ôl i'r perchnogion diegwyddor hynny? Mae angen inni atal yr arfer ofnadwy hwn o fasnachu merlod a cheffylau'n anghyfreithlon yng Nghymru. Rwyf yn gobeithio y bydd yr Aelodau yma'n edrych ar hyn.

17:39 **Byron Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am pleased to support the amendments outlined by Antoinette Sandbach also.

Rwyf innau'n falch o gefnogi'r gwelliannau a amlinellodd Antoinette Sandbach.

The Minister knows how seriously I take this issue and my involvement in dealing with the issue of horse abandonment and mistreatment in Gower. The Minister was kind enough to visit Gower and see the problem first hand, following my invitation. I thank him again for the real ownership that he took of that.

Mae'r Gweinidog yn gwybod pa mor ddifrifol yw'r mater hwn imi ac am fy hanes o ymdrin â materion yn ymwneud â gadael ceffylau a'u cam-drin yn y Gŵyr. Bu'r Gweinidog mor garedig ag ymweld â'r Gŵyr a gweld y broblem drosto'i hun, wedi imi ei wahodd. Rwyf yn diolch iddo eto am gymryd perchnogaeth go iawn o hynny.

One of the issues that came out of that visit and dealing with local authorities and charities is the benefits of microchipping. I support these amendments because I do not believe that the Bill will solve this problem without ensuring that horses are microchipped as a matter of course. The Equine Identification (Wales) Regulations 2009, which are currently in operation in Wales, require every horse to have a passport that has been issued by an approved passport-issuing organisation. If they do not, of course, the owner commits an offence. So, under the regulations, the Welsh Ministers are a competent authority and are responsible, along with the local authorities, for ensuring that horse owners are aware of their responsibilities. So, importantly, these amendments ensure that microchipping is a fundamental element of this process and, by having these amendments on the face of the Bill, that the awareness of these responsibilities is clear, and they will also provide clarification of how the costs incurred by this process can be recouped.

Un o'r materion a gododd o'r ymweliad hwnnw ac o ymdrin ag awdurdodau lleol ac elusennau yw manteision microsglodynnu. Rwyf yn cefnogi'r gwelliannau hyn oherwydd nid wyf yn credu y bydd y Bil yn datrys y broblem hon heb sicrhau bod ceffylau'n cael microsglodion fel mater o drefn. Mae Rheoliadau Adnabod Ceffylau (Cymru) 2009, sydd ar waith ar hyn o bryd yng Nghymru, yn ei gwneud yn ofynnol i bob ceffyl gael pasbort a gyhoeddwyd gan sefydliad cyhoeddi pasbortau cymeradwy. Os nad oes gan bob ceffyl un, wrth gwrs, mae'r perchennog yn cyflawni trosedd. Felly, o dan y rheoliadau, mae Gweinidogion Cymru'n awdurdod cymwys ac yn gyfrifol, ynghyd â'r awdurdodau lleol, am sicrhau bod perchnogion ceffylau'n gwybod am eu cyfrifoldebau. Felly, yn bwysig, mae'r gwelliannau hyn yn sicrhau bod microsglodynnu'n elfen hanfodol o'r broses hon, a bod ymwybyddiaeth glir o'r cyfrifoldebau hyn drwy roi'r diwygiadau hyn ar wyneb y Bil, a byddant hefyd yn egluro sut y caiff y costau sy'n gysylltiedig â'r broses hon eu hadennill.

We are here today with this Bill mainly because the Equine Identification (Wales) Regulations 2009 have been roundly criticised by local authorities, animal organisations and, not least, from these benches. For example, the RSPCA estimates that 70% of the horses coming into its care do not have microchips. The British Veterinary Association stated in its consultation response that the issue of equine identification is at the heart of fly-grazing and abandonment problems. Without proper enforcement of equine identification requirements, all other related legislation becomes unenforceable, as the animal cannot be linked to an owner.

Rydym yma heddiw'n trafod y Bil hwn yn bennaf oherwydd bod Rheoliadau Adnabod Ceffylau (Cymru) 2009 wedi cael eu beirniadu'n hallt gan awdurdodau lleol a sefydliadau anifeiliaid a hefyd o'r meinciau hyn. Er enghraifft, mae'r RSPCA yn amcangyfrif nad oes microsglodion ar 70% o'r ceffylau sy'n dod i'w gofal. Dywedodd Cymdeithas Milfeddygon Prydain yn ei hymateb i'r ymgynghoriad fod mater adnabod ceffylau wrth wraidd problemau pori anghyfreithlon a gadael ceffylau. Os na chaiff y gofynion adnabod ceffylau eu gorfodi'n briodol, ni fydd modd gorfodi'r holl ddeddfwriaeth gysylltiedig arall, gan na ellir cysylltu'r anifail â pherchennog.

The Cardiff School of Health Sciences at Cardiff Metropolitan University says that,

Yn ôl Ysgol Gwyddorau Iechyd Caerdydd ym Mhrifysgol Fetropolitan Caerdydd,

'Despite the requirement for every horse or pony to have a microchip inserted since 1 July 2009 many of the horses fly grazing have not been identified in this way and therefore tracing owners is very difficult.'

Er gwaethaf y gofyniad i bob ceffyl neu ferlen gael microsglodyn ers 1 Gorffennaf 2009, ni chafodd llawer o'r ceffylau sy'n pori'n anghyfreithlon eu hadnabod fel hyn, ac felly mae'n anodd iawn olrhain y perchnogion.

Finally, the Lluest Horse and Pony Trust said that no animal should ever be allowed through a sale ring without a chip and passport. I agree with it. While personal responsibility is important, the Welsh Ministers are the competent authority and are responsible for ensuring that horse owners are aware of their responsibilities. With the evidence shown from the consultation, this is clearly not happening. You must take this important opportunity to fix the problem while we all can. The only way to address this and complete your responsibility as the competent authority, I suggest, is to include these amendments.

Yn olaf, dywedodd Ymddiriedolaeth Ceffylau a Merlod Lluest na ddylid byth caniatáu i unrhyw anifail fynd drwy gylch gwerthu heb sglodyn a phasbort. Rwyf yn cytuno â hwy. Er bod cyfrifoldeb personol yn bwysig, Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod cymwys a hwy sy'n gyfrifol am sicrhau bod perchnogion ceffylau'n gwybod am eu cyfrifoldebau. Ar sail y dystiolaeth a gafwyd drwy'r ymgynghoriad, mae'n amlwg nad yw hyn yn digwydd. Rhaid ichi fanteisio ar y cyfle pwysig hwn i ddatrys y broblem tra bo modd inni i gyd wneud hynny. Yr unig ffordd o unioni hyn a chyflawni eich cyfrifoldeb fel yr awdurdod cymwys, rwyf yn awgrymu, yw cynnwys y gwelliannau hyn.

In closing, Deputy Presiding Officer, with the British Equine Veterinary Association it costs on average some £25 to microchip a horse and between £20 and £25 for a passport. This cost, as outlined in our amendments, can be recouped, so cost is a very poor excuse. Importantly, it is not a huge cost and the benefits of improving identification are significant in addressing the issue of fly-grazing. Members, I commend these amendments to you. Thank you.

I gloi, Ddirprwy Lywydd, gyda Chymdeithas Milfeddygon Ceffylau Prydain mae'n costio tua £25 ar gyfartaledd i ficrosglodynnu ceffyl a rhwng £20 a £25 am basbort. Gellir adennill y gost hon, fel yr amlinellir yn ein gwelliannau, felly mae'r gost yn esgus gwael iawn. Yn bwysig, nid yw'n gost enfawr ac mae manteision arwyddocaol i wella dulliau adnabod wrth ymdrin â phori anghyfreithlon. Aelodau, rwyf yn cymeradwyo'r gwelliannau hyn ichi. Diolch yn fawr.

17:42 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd / The Minister for Natural Resources and Food*

I would like to start by thanking Members who have contributed to the debate on this group. May I say first of all that this is not actually animal welfare legislation? This is about fly-grazing; it is about how we deal with fly-grazing before it becomes an animal welfare issue. There is already a considerable body of law that deals with animal welfare issues and we do not seek to amend that through this piece of legislation; we seek to prevent the suffering of horses that was described by Angela Burns. This is about preventing animal welfare issues, not dealing with animal welfare issues.

Hoffwn ddechrau drwy ddiolch i'r Aelodau sydd wedi cyfrannu at y ddadl yn y grŵp hwn. A gaf i ddweud yn gyntaf oll nad yw hyn mewn gwirionedd yn fater o ddeddfwriaeth lles anifeiliaid? Mater o bori anghyfreithlon ydyw; mater o sut i ymdrin â phori anghyfreithlon cyn iddo droi'n fater o les anifeiliaid. Mae corff sylweddol o gyfraith eisoes sy'n ymdrin â materion lles anifeiliaid ac nid ydym yn ceisio newid hynny drwy'r darn hwn o ddeddfwriaeth; rydym yn ceisio atal y dioddefaint i geffylau a ddisgrifiodd Angela Burns. Mae hyn yn fater o atal materion lles anifeiliaid, nid ymdrin â materion lles anifeiliaid.

May I say that I thought that Byron made the case against these amendments remarkably well? We are seeking to ensure that we underpin this legislation with a determination to create the conditions for responsible horse ownership—or responsible equine ownership, perhaps I should say. You do not do that by taking the responsibility away from owners; you do it by ensuring that owners remain within the law and that they understand their responsibilities in law.

A gaf i ddweud fy mod yn credu bod Byron wedi cyflwyno'r achos yn erbyn y gwelliannau hyn yn hynod o dda? Rydym yn ceisio sicrhau ein bod yn gosod yn sylfaen i'r ddeddfwriaeth hon benderfyniad i greu amodau ar gyfer perchnogaeth gyfrifol ar geffylau—neu efallai y dylwn ddweud perchnogaeth gyfrifol ar anifeiliaid teulu'r ceffyl. Nid drwy gymryd y cyfrifoldeb oddi ar berchnogion y mae gwneud hynny; drwy sicrhau bod perchnogion yn aros o fewn y gyfraith a'u bod yn deall eu cyfrifoldebau yn ôl y gyfraith y mae gwneud hynny.

May I say that I do not disagree with much of what has been said in this debate about the place of microchipping? I believe that we should have more robust equine identification law, and we are currently pursuing this. Byron discusses the Welsh Government as a competent authority and it is, of course, a competent authority within European law. We are currently pursuing—and have been for some months now—new equine identification legislation that will address the very real issues that have been raised by Members this afternoon. For that reason, I would ask people to reject these amendments today, because this is not about equine identification—that is not the purpose of this legislation. We will require a considerable body of new legislation to deal with the very real issues identified by Members this afternoon and this is not the place for that.

A gaf i ddweud nad wyf yn anghytuno â llawer o'r hyn a ddywedwyd yn y ddadl hon am le microsglodynnu? Rwyf yn credu y dylai fod gennym gyfraith fwy cadarn ym maes adnabod ceffylau, ac rydym ar hyn o bryd yn mynd ar drywydd hyn. Mae Byron yn trafod Llywodraeth Cymru fel awdurdod cymwys ac mae, wrth gwrs, yn awdurdod cymwys o fewn cyfraith Ewrop. Rydym yn ceisio deddfwriaeth newydd —ac rydym wedi bod yn gwneud hynny ers rhai misoedd bellach—ar gyfer adnabod ceffylau a fydd yn rhoi sylw i'r materion real iawn a godwyd gan yr Aelodau y prynhawn yma. Am y rheswm hwnnw, gofynnaf i bobl wrthod y gwelliannau hyn heddiw, oherwydd nid mater o adnabod ceffylau yw hwn—nid dyna yw diben y ddeddfwriaeth. Bydd arnom angen corff sylweddol o ddeddfwriaeth newydd i ymdrin â'r materion real iawn y mae'r Aelodau wedi'u nodi'r prynhawn yma, ac nid dyma'r lle ar gyfer hynny.

We have already heard how the regulations operate and about the need for owners to become compliant with them. May I say that any horse born before 1 July 2009, and already identified under previous equine legislation, is already deemed to be compliant with the relevant EU regulations, even if it is not microchipped? In these cases, microchipping is legally unnecessary and may even be inappropriate on welfare grounds.

Rydym eisoes wedi clywed sut y mae'r rheoliadau'n gweithredu ac wedi clywed bod angen i berchnogion gydymffurfio â hwy. A gaf i ddweud yr ystyrir bod unrhyw geffyl a anwyd cyn 1 Gorffennaf 2009, ac sydd eisoes wedi'i adnabod o dan ddeddfwriaeth ceffylau flaenorol, eisoes yn cydymffurfio â rheoliadau perthnasol yr UE, hyd yn oed os nad oes ganddo ficrosglodyn? Yn yr achosion hyn, nid oes angen eu microsglodynnu yn ôl y gyfraith, a gallai hyd yn oed fod yn amhriodol am resymau'n ymwneud â lles.

Secondly, these proposed amendments would create an added administrative and cost burden on the local authority. In addition to the costs associated with finding out and understanding the age of a horse to determine whether it requires microchipping, the local authority would also need to obtain the consent of the owner and then pay the associated costs of making the arrangements and carrying out the microchipping. Where there is an identified owner, that person is already legally responsible for ensuring that their horse is properly identified. The effect of the proposed amendment would be to shift the legal burden of the responsibility from the owner of the horse to the local authority, and that does not promote responsible horse ownership.

Yn ail, byddai'r gwelliannau arfaethedig hyn yn creu baich gweinyddol ac ariannol ychwanegol ar yr awdurdod lleol. Ar ben y costau sy'n gysylltiedig â chael gwybod a deall beth yw oedran ceffyl er mwyn penderfynu a oes angen gosod microsglodyn, byddai angen i'r awdurdod lleol hefyd gael caniatâd y perchennog ac yna dalu'r costau cysylltiedig am wneud y trefniadau a gosod y microsglodyn. Pan fo perchennog wedi'i adnabod, mae'r unigolyn hwnnw eisoes yn gyfreithiol gyfrifol am sicrhau bod ei geffyl wedi'i adnabod yn gywir. Effaith y gwelliant arfaethedig fyddai symud baich cyfreithiol y cyfrifoldeb oddi ar berchennog y ceffyl i'r awdurdod lleol, ac nid yw hynny'n hybu perchnogaeth gyfrifol ar geffylau.

Problems may well arise because of this. For example, failure to comply with the regulations is already a serious criminal offence, which can attract a custodial sentence. Accepting this amendment could well risk creating confusion and disputes about who has the legal duty to ensure legal compliance. This is particularly relevant where the local authority may be considering a prosecution of the owner. The law on identification is already clear and is understood, and we need local authorities to deliver that law and that regulation. What we do not need to do is to take that responsibility away from owners.

Efallai'n wir y bydd problemau'n codi oherwydd hyn. Er enghraifft, mae methu â chydymffurfio â'r rheoliadau eisoes yn drosedd ddifrifol, a all arwain at ddedfryd o garchar. Gallai derbyn y gwelliant hwn beri dryswch ac anghydfod ynghylch pwy sydd â'r ddyletswydd gyfreithiol i sicrhau cydymffurfiaeth gyfreithiol. Mae hyn yn arbennig o berthnasol lle gallai awdurdod lleol fod yn ystyried erlyn y perchennog. Mae'r gyfraith ar adnabod eisoes yn glir ac yn ddealledig, ac mae angen i awdurdodau lleol roi'r gyfraith honno a'r rheoleiddio hwnnw ar waith. Yr hyn nad oes angen inni ei wneud yw cymryd y cyfrifoldeb hwnnw oddi ar berchnogion.

Microchipping is only a part of this identification process. A microchip can be inserted only by a qualified veterinary surgeon, who is also required to complete the application form for a passport in respect of the markings of a horse and the microchip details. A local authority would have to arrange for a veterinary surgeon to attend the horse and then arrange for a passport-issuing organisation to obtain the application form. The local authority would then be required to forward a completed application form, which would have to be completed in conjunction with the owner, to the passport-issuing organisation for it to then issue a passport. This process can take up to 21 days, which would rack up additional costs for the local authority. It is possible that requiring local authorities to go through this process may well result in their having further difficulties in recovering costs.

Dim ond rhan o'r broses adnabod hon yw microsglodynnu. Mae angen milfeddyg cymwysedig i osod microsglodyn, a rhaid i'r milfeddyg hefyd lenwi'r ffurflen gais am basbort o ran marciau'r ceffyl a manylion y microsglodyn. Byddai'n rhaid i awdurdod lleol drefnu bod llawfeddyg milfeddygol yn gweld y ceffyl ac yna drefnu bod sefydliad cyhoeddi pasbortau'n cael y ffurflen gais. Yna, byddai gofyn i'r awdurdod lleol anfon ffurflen gais wedi ei chwblhau, y byddai'n rhaid ei chwblhau ar y cyd â'r perchennog, at y sefydliad cyhoeddi pasbortau i'r sefydliad hwnnw wedyn gyhoeddi pasbort. Gall y broses hon gymryd hyd at 21 diwrnod, a byddai hynny'n creu costau ychwanegol i'r awdurdod lleol. Drwy fynnu bod awdurdodau lleol yn mynd drwy'r broses hon, gallai fod anawsterau pellach iddynt o ran adennill costau.

Where the owner is known, their consent is required before a horse can be microchipped. Amendment 1 as drafted means that the local authority would not be able to return the horse to the owner until it is microchipped, increasing the cost to the local authority each day that it is obliged to look after it. I am sure that Antoinette will be quick to point out that all of these costs are recoverable from the owner, but why should the local authority incur them in the first place when the owner is already responsible for these matters? The more sensible solution would be to return the horse to the owner. The local authority, as the enforcement body, is then on notice of a potential criminal offence for non-conmpliance and would have the owner's details. It could require the owner to have the horse microchipped within a fixed period of time or risk the possibility of criminal prosecution, thus ensuring that we use the existing law to enforce responsible ownership.

Os gwyddys pwy yw'r perchennog, mae angen ei ganiatâd cyn y gellir microsglodynnu ceffyl. Mae gwelliant 1 fel y'i drafftiwyd yn golygu na fyddai'r awdurdod lleol yn gallu dychwelyd y ceffyl i'r perchennog hyd nes iddo gael microsglodyn, a byddai hynny'n cynyddu'r gost i'r awdurdod lleol am bob diwrnod y mae'n gorfod gofalu amdano. Rwyf yn siŵr y bydd Antoinette yn nodi'n gyflym fod modd adennill y costau hyn i gyd gan y perchennog, ond pam y dylai'r awdurdod lleol eu hysgwyddo yn y lle cyntaf pan fo'r perchennog eisoes yn gyfrifol am y materion hyn? Ateb mwy synhwyrol fyddai dychwelyd y ceffyl i'r perchennog. Byddai'r awdurdod lleol, sef y corff gorfodi, wedyn yn gwybod efallai y byddai trosedd yn cael ei chyflawni o ran peidio â chydymffurfio a byddai ganddo fanylion y perchennog. Gallai fynnu bod y perchennog yn microsglodynnu'r ceffyl o fewn cyfnod penodol neu wynebu erlyniad troseddol posibl, a byddai hynny'n sicrhau ein bod yn defnyddio'r gyfraith bresennol i orfodi perchnogaeth gyfrifol.

With respect to amendment 2, this is also an unnecessary amendment. In the absence of an identified owner, the local authority becomes the person responsible for the horse. It is inconceivable that a local authority as a public authority and the enforcement body for these regulations would then breach them by disposing of a horse other than by way of destruction without first ensuring that it was compliant with these regulations.

O ran gwelliant 2, mae hwn hefyd yn welliant diangen. Heb wybod pwy yw'r perchennog, yr awdurdod lleol yw'r sawl sy'n gyfrifol am y ceffyl. Mae amhosibl dirnad y byddai awdurdod lleol fel awdurdod cyhoeddus a'r corff gorfodi ar gyfer y rheoliadau hyn yn eu torri drwy gael gwared ar geffyl, ac eithrio drwy ei ddinistrio, heb sicrhau'n gyntaf ei fod yn cydymffurfio â'r rheoliadau hyn.

I have said previously that these amendments are unnecessary. There are practical difficulties with them and there may well be welfare considerations as to why it is inappropriate to accept them. There is existing legislation that governs the proper identification of horses and who is responsible for complying with the law. Therefore, I urge Members to reject these amendments.

Rwyf wedi dweud o'r blaen fod y gwelliannau hyn yn ddiangen. Mae anawsterau ymarferol yn gysylltiedig â hwy ac mae'n bosibl y bydd ystyriaethau lles ynghylch pam y mae'n amhriodol eu derbyn. Mae deddfwriaeth ar hyn o bryd sy'n rheoli dulliau priodol o adnabod ceffylau a phwy sy'n gyfrifol am gydymffurfio â'r gyfraith. Felly, rwyf yn annog yr Aelodau i wrthod y gwelliannau hyn.

17:48

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I call on Antoinette Sandbach to reply.

Galwaf ar Antoinette Sandbach i ymateb.

17:48

## Antoinette Sandbach [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

As Angela Burns pointed out—and she chairs the cross-party group on the horse—this is about traceability and enforcement. The whole point about these horses is that they go into a merry-go-round, and, if they are released from local authority care without being properly identifiable and microchipped, then they will turn up somewhere else and cause the same problem. Minister, I am concerned about some of the advice that you have received, because the local authority is the enforcing authority, and if it condoned the release of a non-microchipped horse, I think that it may well face problems in court if it did try to enforce, because it would, as the keeper—if it seized the horse, it is the keeper—face a problem. The keeper of a horse has a responsibility to ensure that, if it required to be tagged under the European regulations, it is tagged.

Fel y dywedodd Angela Burns—a hi yw cadeirydd y grŵp trawsbleidiol ar geffylau—mae hyn yn fater o olrhain ac o orfodi. Yr holl bwynt am y ceffylau hyn yw eu bod yn symud o un lle i'r llall, ac, os cânt eu rhyddhau o ofal awdurdod lleol heb fod modd eu hadnabod yn briodol a heb fod ganddynt ficrosglodyn, byddant yn ymddangos yn rhywle arall ac yn achosi'r un broblem. Weinidog, rwyf yn pryderu am rywfaint o'r cyngor yr ydych wedi'i gael, oherwydd yr awdurdod lleol yw'r awdurdod gorfodi, a phe bai'n caniatáu rhyddhau ceffyl heb ficrosglodyn, rwyf yn meddwl y gallai wynebu problemau yn y llys pe bai'n ceisio gorfodi, oherwydd byddai, fel ceidwad—os yw'n atafaelu'r ceffyl, yr awdurdod lleol yw'r ceidwad—yn wynebu problem. Mae'n gyfrifoldeb ar geidwad ceffyl i sicrhau, os yw'n ofynnol ei dagio o dan y rheoliadau Ewropeaidd, ei fod yn cael ei dagio.

So, I have heard what you have said, and I understand that you may be bringing forward legislation in the future, but I urge Assembly Members here to realise that we are being promised jam tomorrow, and I think that it is much better to deal with the bread today. The Minister can then bring forward regulations at his leisure. I urge you to vote for the amendments for all the reasons that have been stated. As William Powell and many others have said, the Minister's answers simply do not bear scrutiny. I urge you to vote for these amendments.

Felly, rwyf wedi clywed yr hyn yr ydych wedi'i ddweud, ac rwyf yn deall y gallech gyflwyno deddfwriaeth yn y dyfodol, ond galwaf ar Aelodau'r Cynulliad yma i sylweddoli ein bod yn cael addewid o jam yfory, ac rwyf yn meddwl ei bod yn well o lawer rhoi sylw i'r bara heddiw. Yna, gall y Gweinidog gyflwyno rheoliadau yn ei amser ei hun. Rwyf yn eich annog i bleidleisio o blaid y gwelliannau am yr holl resymau sydd wedi eu nodi. Fel y dywedodd William Powell a llawer un arall, nid yw atebion y Gweinidog yn gwrthsefyll craffu. Rwyf yn eich annog i bleidleisio o blaid y gwelliannau hyn.

17:50

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

The question is that amendment 1 be agreed to. Does any Member object? There is objection, so we will proceed to an electronic vote.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 1. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad, felly awn ymlaen at bleidlais electronig.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 1.](#)

[Result of the vote on amendment 1.](#)

*Gwrthodwyd gwelliant 1: O blaid 28, Yn erbyn 28, Ymatal 0.*

*Amendment 1 not agreed: For 28, Against 28, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20 the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

## Grŵp 2: Gwaredu Ceffylau sydd wedi eu Cadw (Gwelliant 4)

## Group 2: Disposal of Impounded Horses (Amendment 4)

17:51

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The lead amendment in the group is amendment 4. I call on the Minister to move amendment 4 and to speak to it.

Y prif welliant yn y grŵp yw gwelliant 4. Galwaf ar y Gweinidog i gynnig gwelliant 4 ac i siarad amdano.

17:51

### Alun Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 4 in my name.

Cynigiaf welliant 4 yn fy enw i.

I will not detain Members unduly with this amendment. This Government amendment to section 5 is simply a technical amendment that is intended to provide clarity and consistency with the drafting approach taken elsewhere in the Bill. It provides for better drafting and clarity, making it crystal clear that a local authority would consider disposing of a horse under section 5 of the Bill only after a horse has been seized under section 2.

Ni chadwaf yr Aelodau'n rhy hir â'r gwelliant hwn. Dim ond gwelliant technegol ydyw gan y Llywodraeth i adran 5 er mwyn darparu eglurder a chysondeb â'r dull drafftio a ddefnyddiwyd mewn mannau eraill yn y Bil. Mae'n darparu ar gyfer gwell drafftio ac eglurder, gan ei gwneud yn hollol glir mai dim ond ar ôl atafaelu ceffyl o dan adran 2 y Bil y byddai awdurdod lleol yn ystyried cael gwared arno o dan adran 5.

17:51

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have no indication of any Member wishing to speak. The question is that amendment 4 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, so amendment 4 is agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Nid roddwyd dim arwydd imi fod unrhyw Aelod yn dymuno siarad. Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 4. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiadau, felly mae gwelliant 4 wedi'i dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd gwelliant 4 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 4 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

17:52

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Antoinette Sandbach to move amendment 2.

Galwaf ar Antoinette Sandbach i gynnig gwelliant 2.

17:52

### Antoinette Sandbach Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 2 in my name, supported by Angela Burns.

Cynigiaf welliant 2 yn fy enw i, gyda chefnogaeth Angela Burns.

17:52

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 2 be agreed to. Does any Member object? There is objection, so we will proceed to an electronic vote.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 2. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad, felly awn ymlaen i bleidlais electronig.

Canlyniad y bleidlais ar welliant 2.

Result of the vote on amendment 2.

*Gwrthodwyd gwelliant 2: O blaid 28, Yn erbyn 28, Ymatal 0.*

*Amendment 2 not agreed: For 28, Against 28, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20 the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

## Grŵp 3: Costau a Dynnir gan Drydydd Partïon (Gwelliannau 9 a 10)

## Group 3: Costs Incurred by Third Parties (Amendments 9 and 10)

17:52 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The lead amendment in the group is amendment 9. I call on Antoinette Sandbach to move amendment 9 and to speak to it and the other amendments in the group.

Gwelliant 9 yw'r prif welliant yn y grŵp. Galwaf ar Antoinette Sandbach i gynnig gwelliant 9 ac i siarad amdano ac am y gwelliannau eraill yn y grŵp.

17:52 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 9 in my name, supported by Angela Burns.

Cynigiaf welliant 9 yn fy enw i, gyda chefnogaeth Angela Burns.

These amendments have been put forward to deal with one of the matters raised as one of the key aims of the Bill, which is to protect the public and the environment from the nuisance caused by fly-grazing. Innocent members of the public can quite suddenly find their land instantly taken over by the large groups of horses that Angela Burns has already described—2,000 or 3,000 horses. It causes a huge amount of damage to that environment, as well as to the horses when the food on that land runs out. Numerous examples have been cited, and I will just give you a few of them.

Mae'r gwelliannau hyn wedi eu cyflwyno i ymdrin ag un o'r materion a godwyd fel un o brif amcanion y Bil, sef amddiffyn y cyhoedd a'r amgylchedd rhag y niwsans a achosir gan bori anghyfreithlon. Gall aelodau diniwed o'r cyhoedd weld yn sydyn iawn fod y grwpiau mawr o geffylau y mae Angela Burns eisoes wedi eu disgrifio—2,000 neu 3,000 o geffylau—wedi meddiannu eu tir. Mae'n achosi llawer iawn o ddifrod i'r amgylchedd, yn ogystal ag i'r ceffylau, pan ddaw'r bwyd ar y tir hwnnw i ben. Mae nifer o enghreifftiau wedi'u cynnig, a rhoddaf ambell un ichi.

In the Vale of Glamorgan, 100 horses appeared overnight on land set aside for wintering lambs, and consumed £350 of the food store for those lambs. There was also considerable damage to an area of approximately 90 acres, and the cost of putting the ground right to a satisfactory standard was approximately £1,000. The Woodland Trust has experienced destruction of an area of planting, with bark being stripped and the grass eaten bare. That was because the horses were starving, but, nevertheless, £60,000-worth of damage to planting was caused in that incident. Torfaen County Borough Council has spoken of repeated incursions of fly-grazed horses onto a local nature reserve, causing regular damage there.

Ym Mro Morgannwg, ymddangosodd 100 o geffylau dros nos ar dir sydd wedi'i neilltuo ar gyfer ŵyn sy'n gaeafu, gan fwyta gwerth £350 o stôr fwyd yr ŵyn hynny. Roedd cryn ddifrod hefyd i ardal o tua 90 erw, a chostiodd tua £1,000 i adfer y tir at safon foddhaol. Mae Coed Cadw wedi gweld ardal blannu'n cael ei dinistrio, lle cafodd rhisgl ei dynnu a'r glaswellt ei fwyta i'r byw. Roedd hynny oherwydd bod y ceffylau'n newynu, ond, serch hynny, achoswyd gwerth £60,000 o ddifrod i blaniadau yn yr achos hwnnw. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen wedi sôn bod ceffylau sy'n pori'n anghyfreithlon yn ymddangos dro ar ôl tro mewn gwarchodfa natur leol, gan achosi difrod yno'n rheolaidd.

The Minister has claimed that there is an existing law that deals with landowners who wish to seek compensation for that. Minister, you are right, but the complaint made to the cross-party group on the horse and many others was that that legislation—the Animals Act 1971—is cumbersome, time-consuming and burdensome. It incurs great expense, and all at the effort of an innocent landowner who is a victim in these circumstances. A number of consultation responses pointed out that current legislation is completely ineffective in cases where ownership cannot be identified. As you yourself mentioned in your statement on 7 November, the animals involved are, in the main, unidentified in terms of ownership. In essence, the lack of identification currently remains one of the biggest hurdles to get over with regard to remedies that will allow people to take action under the Animals Act 1971.

Mae'r Gweinidog wedi honni bod cyfraith ar hyn o bryd sy'n ymdrin â thirfeddianwyr sy'n dymuno ceisio iawndal am hynny. Weinidog, rydych yn iawn, ond y gŵyn a wnaethpwyd i'r grŵp trawsbleidiol ar geffylau ac i lawer o rai eraill oedd bod y ddeddfwriaeth honno—Deddf Anifeiliaid 1971—yn drafferthus, yn cymryd llawer o amser ac yn feichus. Mae costau mawr ynghlwm â hi, ynghyd ag ymdrech i dirfeddiannwr diniwed sy'n ddioddefwr yn yr amgylchiadau hyn. Roedd nifer o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn tynnu sylw at y ffaith bod y ddeddfwriaeth bresennol yn hollol aneffeithiol mewn achosion lle na ellir adnabod perchnogion. Fel y dywedasoch chi eich hun yn eich datganiad ar 7 Tachwedd, mi wyddys pwy yw perchnogion yr anifeiliaid dan sylw, ar y cyfan. Yn y bôn, y diffyg adnabod hwn yw un o'r rhwystrau mwyaf i'w goresgyn ar hyn o bryd o ran atebion a fydd yn galluogi pobl i gymryd camau o dan Ddeddf Anifeiliaid 1971.

I appreciate that it is going to be rarely that a local authority will have excess funds in its hands due to the sale of the horses that it may have seized, particularly because I know that the costs of keeping those horses securely are very high. However, the real problem is that data protection law prevents local authorities from releasing the identity of the owner to the victim, whether that is the council itself, for example, in the case of Torfaen, whose nature reserve was damaged, whether it is the Woodland Trust, or whether it is an individual landowner.

Gwn mai anaml y bydd gan awdurdod lleol arian dros ben oherwydd iddo werthu'r ceffylau y gall fod wedi'u hatafaelu, yn enwedig gan fy mod yn gwybod bod costau cadw'r ceffylau hynny'n ddiogel yn uchel iawn. Fodd bynnag, y broblem mewn gwirionedd yw bod cyfraith diogelu data'n atal awdurdodau lleol rhag datgelu i'r dioddefwr pwy yw'r perchennog, boed y cyngor ei hun, er enghraifft, yn achos Torfaen, lle cafodd ei warchodfa natur ei difrodi, Coed Cadw, neu dirfeddiannwr unigol.

This amendment has been tabled to allow those who have been the victims, if—and only if—there is an excess of funds in the hands of the local authority, the opportunity to get back some of the cost to them, of what is, as you have already identified, Minister, criminal behaviour against which it is very difficult to get any kind of other enforcement. That is why these amendments have been tabled and I hope that the Assembly will support these amendments.

Mae'r gwelliant hwn wedi'i gyflwyno i sicrhau bod y rhai sydd wedi dioddef, os—a dim ond os—oes arian dros ben gan yr awdurdod lleol, yn cael cyfle i adennill rhywfaint o gost yr hyn sydd, fel yr ydych eisoes wedi'i nodi, Weinidog, yn ymddygiad troseddol y mae'n anodd iawn cymryd unrhyw fath o gamau gorfodi eraill yn ei erbyn. Dyna pam y mae'r gwelliannau hyn wedi eu cyflwyno ac rwyf yn gobeithio y bydd y Cynulliad yn cefnogi'r gwelliannau.

17:56

## Llyr Gruffydd Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Rwy'n codi i gefnogi gwelliannau 9 a 10. Mae'r memorandwm esboniadol yn cydnabod y difrod sylweddol a all gael ei achosi gan bori anghyfreithlon: difrod i eiddo, gatiau, ffensys, gwrychoedd, a difrod amgylcheddol ehangach yn sgîl hynny, i ardaloedd cadwraeth arbennig, ac, fel rydym wedi ei glywed, y potensial o golli tir pori sydd ag oblygiadau i stoc meddianwyr tir.

I rise to support amendments 9 and 10. The explanatory memorandum acknowledges the significant damage that can be caused by fly-grazing: damage to property, gates, fences, hedges, and wider environmental damage following that, to special areas of conservation, and, as we have heard, the potential loss of grazing land, which has implications for landowners.

Mae asesiad effeithiau yn y memorandwm esboniadol yn cydnabod

The impacts assessment in the explanatory memorandum acknowledges

'y difrod a achosir ar dir amaethyddol yng nghefn gwlad, lle mae ffermio'n hollbwysig i'r gymuned, ond yn methu ag ymdopi â'r costau a wynebir.'

'the damage caused to agricultural land where farming is at the heart of the community and cannot sustain the costs incurred.'

Mae hefyd yn cydnabod difrod amgylcheddol, trwy ddweud ynglŷn â phori anghyfreithlon:

It also acknowledges the environmental damage, by stating in relation to fly-grazing:

'Gall effaith hyn fod yn andwyol ar dir na ellir ei adfer yn hawdd ar ôl ei bori yn ddi-reolaeth ar yr adegau anghywir. Gall hynny achosi difrod sylweddol a rhwystro defnyddio'r tir at y diben a fwriedid.'

'This can have a devastating effect on land that cannot easily recover from ill-timed and unmanaged grazing and which causes substantial damage, preventing the land being used for the purpose for which it was intended.'

Un ffordd i fynd peth o'r ffordd i gwrdd â'r gost hwnnw yw trwy gefnogi'r gwelliannau hyn. Rwy'n diolch i'r Gweinidog am gytuno, yn ystod trafodaethau Cyfnod 2 y Bil hwn, yn dilyn gwelliant gan Blaid Cymru, i baratoi adroddiad erbyn diwedd 2014 ar y costau a dynnwyd gan unigolion a sefydliadau heblaw am awdurdodau lleol o ganlyniad i bori anghyfreithlon. Bydd y cyrff trydydd partïon hynny'n cynnwys nid yn unig meddianwyr tir, wrth gwrs, ond hefyd elusennau lles anifeiliaid ceffylaidd hefyd.

One way of going some way towards meeting that cost is by supporting these amendments. I thank the Minister for agreeing, during Stage 2 discussions on this Bill, following an amendment by Plaid Cymru, to prepare a report by the end of 2014 on the costs incurred by individuals and organisations other than local authorities as a result of fly-grazing. Those third parties will include not only landowners, of course, but equine animal welfare charities.

Mae'n gwbl resymol mai'r awdurdod lleol sy'n cael ei ddigolledu am ei gostau am gadw'r anifail yn y lle cyntaf, ond, os oes rhywbeth dros ben, mae'n deg hefyd, yn fy marn i, i eraill cael eu digolledu.

It is entirely reasonable that the local authority should be compensated for its costs in keeping the animal in the first instance, but, if there are funds outstanding, it is also fair, in my view, that others should be compensated too.

17:58 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I take the point made by Antoinette Sandbach that it is highly unlikely that there will be many instances when there are excess funds. However, we are not simply talking about farmers here who have large areas of poached lands after herds of horses have been trampling up and down on them, or some of the big institutions, such as the National Trust or the Woodland Trust. Nor are we necessarily talking about other departments within local authorities, for example, those responsible for playgrounds that have had horses gallop through them and whose equipment, which has usually been saved up for by some hardworking parent-teacher association, has been completely ruined. I particularly want to focus my contribution on supporting these amendments on the individual.

Weinidog, derbyniaf y pwynt a wnaeth Antoinette Sandbach ei bod yn annhebygol iawn y bydd arian dros ben mewn llawer o achosion. Fodd bynnag, nid ydym yn siarad yn unig yma am ffermwyr sydd â darnau mawr o dir wedi'i botsio ar ôl i yrroedd o geffylau fod yn sathru i fyny ac i lawr arnynt, neu am rai o'r sefydliadau mawr, megis yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol neu Coed Cadw. Nid ydym ychwaith o reidrwydd yn sôn am adrannau eraill o fewn awdurdodau lleol, er enghraifft, y rhai sy'n gyfrifol am feysydd chwarae y mae ceffylau wedi carlamu drwyddynt gan ddifetha'r offer yn llwyr, ar ôl i ryw gymdeithas rhieni ac athrawon weithio'n galed i gynilo arian i'w prynu. Rwyf yn arbennig o awyddus i roi sylw yn fy nghyfraniad i gefnogi'r gwelliannau hyn i unigolion.

I want to cite very briefly a case of a very elderly couple who have the unfortunate luck to live in a field that is constantly taken over by fly-grazed ponies from various communities. Nobody claims any responsibility and there is nothing that can be done about these ponies, yet they have broken down that couple's fence about six or seven times now. This elderly couple are having to fork out to replace that fencing time and again, plus all of the other costs that come with the fact of having to deal, when you are in your 70s, with a pony standing on your patio looking in through your dining room window and having to try to sort all of that out. Therefore, it would be a really useful thing for ordinary people to be able to say, on the rare occasions when we do have extra funds, 'You shouldn't have to go through any number of hoops, you shouldn't have to fill in hundreds and thousands of forms, you shouldn't have to know the regulations inside out and back to front.' There should be a really simple mechanism for councils to be able to say, 'We've made some money here. We've recovered all of our costs, and you can have the balance to put right the damage that has been done.' Minister, I hope that you will reconsider your opposition to this amendment.

Rwyf am gyfeirio'n fyr iawn at achos pâr oedrannus iawn sy'n ddigon anffodus i fyw mewn cae sy'n cael ei feddiannu'n gyson gan ferlod sy'n pori'n anghyfreithlon o wahanol gymunedau. Nid oes neb yn hawlio cyfrifoldeb ac nid oes dim y gellir ei wneud am y merlod hyn, ac eto maent wedi torri ffens y cwpl tua chwech neu saith o weithiau. Mae'r pâr oedrannus hwn yn gorfod talu am ffens newydd dro ar ôl tro, yn ogystal â'r holl gostau eraill sy'n gysylltiedig â gorfod gweld merlen yn sefyll ar eich patio yn edrych i mewn drwy ffenestr eich ystafell fwyta, pan ydych yn eich 70au, a gorfod ceisio rhoi trefn ar hynny i gyd. Felly, byddai'n dda iawn o beth i bobl gyffredin pe gallem ddweud, ar yr achlysuron prin pan fydd gennym arian ychwanegol, 'Ni ddylai fod raid ichi neidio drwy gylchoedd, ni ddylai fod raid ichi lenwi cannoedd ar filoedd o ffurflenni, ni ddylai fod raid ichi wybod y rheoliadau'n drylwyr.' Dylai fod mecanwaith syml iawn i gynghorau allu dweud, 'Rydym wedi gwneud rhywfaint o arian yma. Rydym wedi adennill ein holl gostau, a chewch chi'r gweddill i drwsio'r difrod sydd wedi cael ei wneud.' Weinidog, rwyf yn gobeithio y byddwch yn ailystyried eich gwrthwynebiad i'r gwelliant hwn.

18:00 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call the Minister.

Galwaf ar y Gweinidog.

18:00 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

May I say that I recognise the descriptions that have been given to us today by Angela and by others in this debate? Amendments 9 and 10, which are proposed in this group, will require local authorities to pay the costs incurred by occupiers of land from which horses are seized from any excess proceeds arising out of the disposal of a seized or impounded horses. If I may, I will gently remind Members that this is a matter that we have already dealt with in quite some detail in committee, and I made the case there, I felt, that this is not a Bill for compensating landowners; it is a Bill that seeks to achieve a vision of a fly-grazing-free Wales by providing a consistent and robust national approach. Having said that, I recognise the description that has been given to Members this afternoon.

A gaf i ddweud fy mod yn gyfarwydd â'r disgrifiadau sydd wedi eu rhoi inni heddiw gan Angela a chan eraill yn y ddadl hon? Bydd gwelliannau 9 a 10, sydd wedi'u cynnig yn y grŵp hwn, yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol dalu costau deiliaid tir y caiff ceffylau eu hatafaelu oddi arno o unrhyw elw dros ben sy'n deillio o gael gwared ar geffylau y maent wedi'u hatafaelu neu eu corlannu. A gaf i atgoffa'r Aelodau'n garedig ein bod eisoes wedi rhoi sylw eithaf manwl i'r mater hwn yn y pwyllgor, a dywedais yno, roeddwn yn teimlo, nad Bil i ddigolledu perchnogion tir yw hwn; mae'n Fil sy'n ceisio gwireddu gweledigaeth o Gymru heb bori anghyfreithlon drwy ddarparu dull gweithredu cenedlaethol cyson a chadarn. Wedi dweud hynny, rwyf yn gyfarwydd â'r disgrifiad a roddwyd i'r Aelodau y prynhawn yma.

Occupiers of land are treated with parity under this Bill. For example, there is no provision in this Bill for a local authority to recover any costs from the owner for damage that his or her horse has caused to the local authority land by horses either by way of fly-grazing there or in the operation of seizing such horses. Local authorities are in exactly the same position as private landowners in terms of recovering costs in these circumstances. The local authority may only recover costs that it has reasonably incurred in relation to seizing, impounding, feeding and maintaining the horse and, if applicable, in the disposal of the horse.

Caiff deiliaid tir eu trin yn gyfartal dan y Bil hwn. Er enghraifft, nid oes darpariaeth yn y Bil hwn i awdurdod lleol adennill dim costau gan y perchennog am ddifrod y mae ei geffyl wedi ei achosi i dir yr awdurdod lleol naill ai drwy bori'n anghyfreithlon yno neu wrth atafaelu ceffylau o'r fath. Mae awdurdodau lleol yn yr un sefyllfa'n union â thirfeddianwyr preifat o ran adennill costau dan yr amgylchiadau hyn. Yr unig gostau y gall yr awdurdod lleol eu hadennill yw'r rhai a achoswyd yn rhesymol drwy atafaelu, corlannu, bwydo a chynnal y ceffyl ac, os yw'n berthnasol, wrth gael gwared ar y ceffyl.

Existing law provides at least two avenues that are, potentially, open to landowners who wish to seek recompense for any costs that they have incurred as a result of being the victim of fly-grazing horses on their land. There is a provision under the Animals Act 1971 for expenses reasonably incurred by the landowner to be claimed from the owner where known. If the owner is not known, the landowner may, under the same Act, sell the animal that has strayed onto their land after 14 days and gain recompense in that way. Further information on these options is provided in the guidance to the Bill that Members have already seen.

Mae'r gyfraith ar hyn o bryd yn darparu o leiaf ddau ddewis sydd, o bosibl, ar gael i dirfeddianwyr sy'n dymuno gwneud cais am iawndal am unrhyw gostau a achoswyd iddynt oherwydd bod ceffylau'n pori'n anghyfreithlon ar eu tir. Ceir darpariaeth o dan Ddeddf Anifeiliaid 1971 i dirfeddiannwr hawlio costau a achoswyd yn rhesymol iddo oddi wrth y perchennog os gwyddys pwy yw'r perchennog. Os na wyddys pwy yw'r perchennog, caiff y tirfeddiannwr, o dan yr un Ddeddf, werthu'r anifail sydd wedi crwydro ar ei dir ar ôl 14 diwrnod a sicrhau iawn ariannol yn y ffordd honno. Mae rhagor o wybodaeth am yr opsiynau hyn yn y canllawiau i'r Bil y mae'r Aelodau eisoes wedi'u gweld.

The important point to note here is that existing law is not being changed in this respect, so any remedies that landowners have now will continue to be available to them, either by statute or in common law. Landowners who find themselves to be the victims of fly-grazing will have two choices: they can ask the local authority to deal with the problem for them, free of charge, or they can decide to deal with the problem themselves, by using the Animals Act to sell the fly-grazing horses and obtain compensation in that way. Therefore, there are existing avenues in general law available to those who are seeking reparation for damage caused to them by fly-grazing horses.

Y pwynt pwysig i'w nodi yma yw nad yw'r gyfraith fel ag y mae ar hyn o bryd yn cael ei newid yn hyn o beth, felly bydd unrhyw rwymedi sydd ar gael i dirfeddianwyr yn awr yn dal i fod ar gael iddynt, naill ai drwy statud neu mewn cyfraith gyffredin. Bydd dau ddewis i dirfeddianwyr sy'n dioddef pori anghyfreithlon: gallant ofyn i'r awdurdod lleol ymdrin â'r broblem drostynt, yn rhad ac am ddim, neu gallant benderfynu ymdrin â'r broblem eu hunain, gan ddefnyddio'r Ddeddf Anifeiliaid i werthu'r ceffylau sy'n pori'n anghyfreithlon a chael iawndal yn y ffordd honno. Felly, mae dewisiadau eisoes ar gael mewn cyfraith gyffredinol i bobl sy'n ceisio iawn am ddifrod a achoswyd iddynt gan geffylau'n pori'n anghyfreithlon.

It is the Welsh Government's intention to seek to provide all local authorities in Wales with the consistent and necessary powers to deal with the problem of fly-grazing in order to protect the public and the environment. I have said many times during the passage of this Bill that this is designed to be a simple, straightforward Bill to give local authorities adequate and consistent tools across the whole of Wales to assist them in achieving the vision, on which I think that we all agree, of a fly-grazing-free Wales. It is not intended to be a Bill that is a vehicle for any other purpose. I therefore urge Members to reject these amendments.

Bwriad Llywodraeth Cymru yw ceisio darparu i bob awdurdod lleol yng Nghymru bwerau cyson ac angenrheidiol i ymdrin â phroblem pori anghyfreithlon er mwyn diogelu'r cyhoedd a'r amgylchedd. Rwyf wedi dweud sawl gwaith yn ystod hynt y Bil hwn ei fod yn Fil sydd wedi'i gynllunio i fod yn syml er mwyn rhoi modd digonol a chyson i awdurdodau lleol ledled Cymru gyfan i wireddu'r weledigaeth, y credaf ein bod i gyd yn cytuno â hi, o Gymru heb ddim pori anghyfreithlon. Ni fwriedir iddo fod yn Fil sy'n gyfrwng at ddim un diben arall. Felly, anogaf yr Aelodau i wrthod y gwelliannau hyn.

18:04

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Antoinette Sandbach to reply.

Galwaf ar Antoinette Sandbach i ymateb.

18:04 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

As Angela said, this is a very simple amendment and it deals with the fact that the local authority, when it has the horses, cannot disclose under the Data Protection Act who their owner is, and, therefore, the landowner cannot possibly act under the Animals Act, because they do not know who the owner is and the local authority is prevented from making that disclosure, which effectively removes the remedy that you are talking about under the Animals Act. Minister, if that 14-day period when landowners can seize horses on their land and sell them were effective, we would not be sitting here discussing this legislation today. The fact is that they get intimidated by criminal gangs and that the horses are removed after day 13 only to then come back onto the land.

Fel y dywedodd Angela, gwelliant syml iawn yw hwn ac mae'n ymdrin â'r ffaith na all yr awdurdod lleol, pan fo'r ceffylau ganddo, ddatgelu pwy yw'r perchennog o dan y Ddeddf Diogelu Data, ac, felly, nad yw'n bosibl i'r tirfeddiannwr weithredu'n unol â'r Ddeddf Anifeiliaid, gan nad yw'n gwybod pwy yw'r perchennog a gan fod yr awdurdod lleol yn cael ei atal rhag datgelu hynny, sydd i bob diben yn dileu'r rhwymedi yr ydych yn sôn amdani o dan y Ddeddf Anifeiliaid. Weinidog, pe bai'r cyfnod 14 diwrnod pan gaiff tirfeddianwyr atafaelu ceffylau ar eu tir a'u gwerthu yn effeithiol, ni fyddem yn eistedd yma'n trafod y ddeddfwriaeth hon heddiw. Y gwir yw eu bod yn cael eu dychryn gan gangiau troseddol a bod y ceffylau'n cael eu symud ar ôl diwrnod 13 ac yn dod yn ôl ar y tir yn ddiweddarach.

All of that evidence came to your officials and you were aware of that as part of the evidence that came to the cross-party group on the horse, of which I was a member. We heard why that was ineffective, and that is why this amendment has been tabled. It is a great shame, Minister, that you will not see that, effectively, what has caused the issue of fly-grazing is the fact that those remedies are not available to the victims of it. Those victims are the ones who bear the costs of restoring the environment after the damage has been done.

Cyflwynwyd y dystiolaeth honno i gyd i'ch swyddogion ac roeddech yn ymwybodol o hynny fel rhan o'r dystiolaeth a roddwyd i'r grŵp trawsbleidiol ar geffylau yr oeddwn yn aelod ohono. Clywsom pam yr oedd hynny'n aneffeithiol, a dyna pam y mae'r gwelliant hwn wedi'i gyflwyno. Mae'n drueni mawr, Weinidog, na allwch weld mai'r hyn sydd wedi achosi pori anghyfreithlon, i bob pwrpas, yw'r ffaith nad yw'r rhwymedïau hynny ar gael i'r dioddefwyr. Y dioddefwyr hynny yw'r bobl sy'n wynebu costau adfer yr amgylchedd ar ôl i'r difrod gael ei wneud.

18:05 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

If amendment 9 is not agreed, amendment 10 will fall. The question is that amendment 9 be agreed to. Does any Member object? There is objection, therefore we will have an electronic vote.

Os na chaiff gwelliant 9 ei dderbyn, bydd gwelliant 10 yn methu. Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 9. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad, felly cawn bleidlais electronig.

Canlyniad y bleidlais ar welliant 9.

Result of the vote on amendment 9.

*Gwrthodwyd gwelliant 9: O blaid 28, Yn erbyn 28, Ymatal 0.*

*Amendment 9 not agreed: For 28, Against 28, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20 the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

*Methodd gwelliant 10.*

*Amendment 10 fell.*

## Grŵp 4: Person Penodedig ar gyfer Anghydfod (Gwelliannau 6 a 7)

## Group 4: Appointed Person for Disputes (Amendments 6 and 7)

18:06 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The lead amendment in the group is amendment 6. I call on Antoinette Sandbach to move and speak to the lead amendment and the other amendment in the group.

Gwelliant 6 yw'r prif welliant yn y grŵp. Galwaf ar Antoinette Sandbach i gynnig y prif welliant a'r gwelliant arall yn y grŵp, a siarad amdanynt.

18:06 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 6 in my name, supported by Angela Burns.

Cynigiaf welliant 6 yn fy enw i, gyda chefnogaeth Angela Burns.

These amendments have been tabled in order to ensure that there is independent and quick dispute resolution. The amount of money that could be payable or under dispute has the potential to be quite significant, as the Minister knows. Some local authorities have detailed costs of around £1.2 million to deal with fly-grazing horses in the last two years, which indicates the scale of the problem. I know that you are very busy, Minister, but this would enable an independent person to be appointed and would describe how the decision-making could be taken under section 7. I appreciate that you did make amendments to section 7 during Stage 2.

Mae'r gwelliannau hyn wedi eu cyflwyno er mwyn sicrhau bod anghydfodau'n cael eu datrys yn annibynnol ac yn gyflym. Gallai'r swm o arian a allai fod yn daladwy neu dan anghydfod fod yn eithaf sylweddol, fel y gŵyr y Gweinidog. Mae rhai awdurdodau lleol wedi nodi costau o tua £1.2 miliwn yn y ddwy flynedd diwethaf i ymdrin â cheffylau sy'n pori'n anghyfreithlon, sy'n dangos maint y broblem. Gwn eich bod yn brysur iawn, Weinidog, ond byddai hyn yn golygu bod modd penodi rhywun annibynnol ac yn disgrifio sut y gellid gwneud penderfyniadau dan adran 7. Gwn eich bod wedi gwneud gwelliannau i adran 7 yn ystod Cyfnod 2.

The draft guidance note issued last week by you, Minister, indicated that you would make a determination on a dispute as soon as practically possible, and that this decision would be binding. As soon as practically possible does not provide a time frame to the local authority on when an answer can be expected. Given your diary, and the potential that you may not be around, this amendment is designed to ensure that there is a procedure by which you would get independent advice and someone would be quickly nominated and a fair procedure would be put in place for independent review. That is why we have tabled this amendment.

Roedd y nodyn cyfarwyddyd drafft a gyhoeddwyd gennych yr wythnos diwethaf, Weinidog, yn nodi y byddech yn gwneud penderfyniad ynghylch anghydfod cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl, ac y byddai'r penderfyniad hwnnw'n un rhwymol. Nid yw cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl yn rhoi amserlen i'r awdurdod lleol o ran pryd y gall ddisgwyl ateb. Ac ystyried eich dyddiadur, a'r posibilrwydd na fyddwch o gwmpas, bwriedir i'r gwelliant hwn sicrhau bod gweithdrefn ar waith i gael cyngor annibynnol ac i sicrhau y caiff rhywun ei enwebu'n gyflym ac y caiff trefn deg ei rhoi ar waith ar gyfer adolygiad annibynnol. Dyna pam yr ydym wedi cynnig y gwelliant hwn.

There are other examples of this type of process being adopted. It has been used under the Marine Licensing (Appeals Against Licensing Decisions) (Wales) Regulations 2011, and a similar type of procedure—although it is a panel of three rather than one—exists under the Agricultural Subsidies and Grants Schemes (Appeals) (Wales) Regulations 2006. In the interest of quick, fair and independent decision-making for all of those in the cost dispute process, in effect, Minister, what we are doing is to detail the appeals process on the face of the Bill so that people know that it will be in place when this Bill passes, and that it will be quick and speedy.

Ceir enghreifftiau eraill o fabwysiadu'r math hwn o broses. Cafodd ei defnyddio o dan Reoliadau Trwyddedu Morol (Apeliadau yn Erbyn Penderfyniadau Trwyddedu) (Cymru) 2011, ac mae math tebyg o weithdrefn—er mai panel o dri ydyw, yn hytrach nag un—yn bodoli o dan Reoliadau Cynlluniau Cymorthdaliadau a Grantiau Amaethyddol (Apeliadau) (Cymru) 2006. Er mwyn gwneud penderfyniadau cyflym, teg ac annibynnol i bawb sy'n rhan o'r broses anghydfod ynghylch costau, mewn gwirionedd, Weinidog, yr hyn yr ydym yn ei wneud yw rhoi manylion y broses apelio ar wyneb y Bil fel bod pobl yn gwybod y bydd ar waith pan gaiff y Bil hwn ei basio, ac y bydd yn gyflym ac yn chwim.

18:09

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Galwaf ar Llyr Gruffydd.

I call on Llyr Gruffydd.

18:09

## Llyr Gruffydd [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Byddai creu rôl newydd neu berson penodedig i ystyried unrhyw anghydfod yn ormodol, yn fy marn i. Y perygl yw y byddai hynny'n arwain at fwy o gost a mwy o fiwrocratiaeth. Gallech ddefnyddio'r llysoedd barn fel cyfrwng apêl, neu, fel mae'r Gweinidog yn y Bil diwygiedig yn ei gynnig, gallech apelio drwy Weinidogion Cymru. Er nad wyf i wastad yn gyfforddus â chanoli mwy a mwy o rym gyda Gweinidogion, o gofio bod y Gweinidog eisoes yn dyfarnu ar anghydfodau sy'n ymwneud, er enghraifft, â thaliadau trwy'r polisi amaethyddol cyffredin, byddai hyn o leiaf yn cynnig elfen o gysondeb. Felly, ni fydd Plaid Cymru yn cefnogi gwelliannau 6 a 7.

Creating a new role or a specified person to consider any dispute would be a step too far, in my view. The danger is that it would lead to greater cost and bureaucracy. You could use the law courts as a means for appeal or, as the Minister proposes in the amended Bill, you could appeal through Welsh Ministers. Even though I am not entirely comfortable with centralising greater power with Ministers, and bearing in mind that the Minister is already judging on disputes in relation to payments through the common agricultural policy, for example, this would at least offer an element of consistency. So, Plaid Cymru will not be supporting amendments 6 and 7.

18:09

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I call on the Minister to respond.

Galwaf ar y Gweinidog i ymateb.

18:09 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Amendment 6 would not only force Welsh Ministers to appoint a person to consider a dispute resolution, but it would also ensure that, before making a determination under section 6, there would be regard to the appointed person's recommendation. This, I believe, adds unnecessary bureaucracy to what is intended to be an efficient and effective process. I agree very much with the conclusions reached by Llyr Huws Gruffydd in this matter.

Yn ogystal â gorfodi Gweinidogion Cymru i benodi rhywun i ystyried achos o ddatrys anghydfod, byddai gwelliant 6 yn sicrhau y câi argymhelliad y person penodedig ei ystyried cyn gwneud penderfyniad o dan adran 6. Mae hyn, yn fy marn i, yn ychwanegu biwrocratiaeth ddiangen at broses y bwriedir iddi fod yn effeithlon ac yn effeithiol. Cytunaf yn gryf â'r casgliadau a ffurfiodd Llyr Huws Gruffydd am y mater hwn.

The effect of amendment 7 is to add time and cost to a dispute resolution process by requiring Welsh Ministers to appoint an appropriate person to consider the dispute, and to potentially have to pay that person for their time. During the time that the appointed person may be considering the dispute—and this amendment places no time limit on that appointed person carrying out that function—the horse may still be in the care of the local authority, where costs will be increasing by the day. Those increasing costs will fall to either the local authority or to the horse owner. If a dispute resolution is undertaken by Welsh Ministers, they will be under an obligation to resolve it as soon as possible.

Effaith gwelliant 7 yw ychwanegu amser a chost at y broses datrys anghydfodau drwy ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru benodi unigolyn priodol i ystyried yr anghydfod, ac o bosibl orfod talu'r unigolyn hwnnw am ei amser. Yn ystod yr amser y gall yr unigolyn penodedig fod wrthi'n ystyried yr anghydfod—ac nid yw'r gwelliant hwn yn rhoi terfyn amser i'r unigolyn a benodwyd gyflawni'r swyddogaeth honno—gallai'r ceffyl fod yng ngofal yr awdurdod lleol o hyd, a'r costau'n cynyddu bob dydd. Bydd naill ai'r awdurdod lleol neu berchennog y ceffyl yn gorfod talu'r costau ychwanegol hynny. Os yw Gweinidogion Cymru'n mynd ati i ddatrys anghydfod, byddant dan rwymedigaeth i wneud hynny cyn gynted ag y bo modd.

18:10 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I call on Antoinette Sandbach to reply.

Galwaf ar Antoinette Sandbach i ymateb.

18:10 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I heard what Llyr Huws Gruffydd said about the Plaid response. However, in fact, this is modelled on the mechanism that is used, for example, in disputes, particularly when there is an appeal. You will be aware that it goes to an independent panel of three appointed people, who then make a recommendation to the Minister. This models that process. That is what the Agricultural Subsidies and Grants Schemes (Appeals) (Wales) Regulations 2006 set up, and that is why we tabled this amendment. It makes the process clear. I do not agree that the Minister has set a timescale. 'As soon as is reasonably practical' is not a timescale for you either, Minister, in the way that it is currently drafted. However, I call on Members to support this amendment.

Clywais yr hyn a ddywedodd Llyr Huws Gruffydd am ymateb Plaid Cymru. Fodd bynnag, mewn gwirionedd, mae hyn wedi'i fodelu ar y mecanwaith a ddefnyddir, er enghraifft, mewn anghydfodau, yn enwedig pan fo apêl. Byddwch yn ymwybodol y bydd yn mynd at banel annibynnol o dri o bobl a benodwyd, sydd wedyn yn gwneud argymhelliad i'r Gweinidog. Mae'r broses hon yn seiliedig ar y model hwnnw. Dyna a sefydlwyd gan Reoliadau Cynlluniau Cymorthdaliadau a Grantiau Amaethyddol (Apeliadau) (Cymru) 2006, a dyna pam y cyflwynasom y gwelliant hwn. Mae'n gwneud y broses yn glir. Nid wyf yn cytuno bod y Gweinidog wedi pennu amserlen. Nid yw 'cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol' yn amserlen i chi ychwaith, Weinidog, fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd. Fodd bynnag, galwaf ar yr Aelodau i gefnogi'r gwelliant hwn.

18:11 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

The question is that amendment 6 be agreed to. Does any Member object? There is objection, so we will have an electronic vote.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 6. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad, felly cawn bleidlais electronig.

Canlyniad y bleidlais ar welliant 6.

Result of the vote on amendment 6.

*Gwrthodwyd gwelliant 6: O blaid 12, Yn erbyn 44, Ymatal 0.*

*Amendment 6 not agreed: For 12, Against 44, Abstain 0.*

### Grŵp 5: Canllawiau (Gwelliannau 5 a 8)

### Group 5: Guidance (Amendments 5 and 8)

18:12 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The lead amendment in the group is amendment 5. I call on Llyr Gruffydd to move and speak to the lead amendment, and to the other amendment in the group.

Gwelliant 5 yw'r prif welliant yn y grŵp. Galwaf ar Llyr Gruffydd i gynnig y prif welliant a siarad amdano, ac am y gwelliant arall yn y grŵp.

18:12 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Cynigiaf welliant 5 yn fy enw i.

I move amendment 5 in my name.

Rwyf yn falch iawn o gynnig gwelliant 5, a byddwn hefyd yn cefnogi gwelliant 8. Un o'r rhesymau sydd wedi gyrru'r holl ddeddfwriaeth hon yw'r angen i gyflwyno mwy o gysondeb ar draws Cymru o ran deddfwriaeth. Mae Deddfau lleol yn bodoli, fel yr ydym yn gwybod, mewn tair ardal, ond mae rhannau helaeth o Gymru heb unrhyw ddarpariaeth benodol yn y maes hwn. Bydd pawb yn croesawu'r angen i sicrhau pwerau cyson ledled Cymru, a bod gan bob awdurdod lleol yr un offerynnau—y 'tools'—i daclo pori anghyfreithlon. Mae'r Llywodraeth yn iawn i ddweud yn y memorandwm esboniadol mai,

I am very pleased to propose amendment 5, and we will also be supporting amendment 8. One of the drivers of this legislation is the need to introduce greater consistency across Wales in terms of legislation. Local Acts exist, as we know, in relation to three areas, but vast areas of Wales are without any specific provision in this area. Everyone will of course welcome the need to ensure consistent powers across Wales, and that every local authority has the same tools to tackle fly-grazing. The Government is right to say in the explanatory memorandum that,

'dull gweithredu cyson ledled Cymru'

'a clear consistent approach on an all Wales basis'

yw'r hyn sydd ei angen i gael y maen i'r wal. Dyna y bydd y gwelliant hwn yn helpu i'w sicrhau.

is what is needed to deliver. That is what this amendment will help to ensure.

Er y bydd gennym bwerau cyson ar draws holl awdurdodau lleol Cymru, nod y gwelliant hwn yw sicrhau y bydd y pwerau hynny'n cael eu defnyddio'n gyson ar draws Cymru. Rwyf yn cydnabod bod y Llywodraeth yn gweithio ar set o ganllawiau ar hyn o bryd, a diolchaf i'r Gweinidog am rannu copi drafft o'r canllawiau hynny gyda'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, fel bod cyfle inni fynegi ein barn. Yr hyn y mae canllawiau anstatudol yn ei wneud yw darparu gwybodaeth ar arfer da. Fy ngofid i yw y bydd rhai ardaloedd yn rhoi mwy o bwys ar rhai agweddau ar hyn, ac y bydd eraill yn rhoi llai o bwys arnynt, gyda'r perygl o anghysondebau yn codi.

Although we will have consistent powers across all local authorities in Wales, the aim of this amendment is to ensure that those powers will be used consistently across Wales. I acknowledge that the Government is working on guidance at present, and I thank the Minister for sharing a draft copy of that guidance with the Environment and Sustainability Committee, so that we have had an opportunity to express our views. What the non-statutory guidance does is to provide information on good practice. My concern is that some areas will put greater emphasis on certain aspects, and others will put less emphasis on them, and the danger is that inconsistencies will arise.

Nid yw canllawiau statudol yn golygu nad oes unrhyw ddisgresiwn. Fodd bynnag, yn fy marn i, byddant yn tynhau'r cysondeb hwnnw, o ran y modd y bydd y Ddeddf yn cael ei gweithredu. Mae'r penderfyniad, er enghraifft, i adennill costau yn un dewisol. Mae enghraifft yn y memorandwm esboniadol o awdurdod yn peidio ag adennill costau gan blentyn 16 oed, sef yr oed cyfreithiol ieuengaf o dan y Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 i fod yn berchennog cyfreithiol ar anifail. Rydym yn syth yn gweld sefyllfa lle gallai perchenogion anghyfrifol fod yn trosglwyddo perchenogaeth ceffylau i'w plant, os ydynt yn 16 oed, ac yn gadael iddynt bori mewn ardal lle nad yw'r awdurdod lleol wedi adhawlio costau gan berson ifanc yn y gorffennol. Mae'r Gweinidog yn siŵr o ddweud nad yw awdurdodau lleol wedi gofyn am ganllawiau statudol. Wel, fydden nhw ddim, na fydden nhw, mewn gwirionedd? Nid oedd hwnnw'n gwestiwn penodol a ofynnwyd yn yr ymgynghoriad. Wrth gwrs, nid ymgynghoriad ar y Bil oedd yr ymgynghoriad hwnnw, ychwaith, ond ar ddatrysiadau ehangach i bori anghyfreithlon a cheffylau yn cael eu gadael. Ond, hyd yn oed wedyn, fe alwodd rhai o'r rhanddeiliaid am ganllawiau statudol—galwad yr ydym ni'n ei chefnogi yn y gwelliant hwn. Fel y dywedais, rydym hefyd yn hapus i gefnogi gwelliant 8; yr unig wahaniaeth yw bod gwelliant 8 yn cyfeirio'n benodol at gyflwyno canllawiau statudol o fewn cyfnod o dri mis. Rwy'n teimlo bod gwelliant Plaid Cymru yn addas ond, yn sicr, nid oes gennym wrthwynebiad i welliant rhif 8.

Statutory guidance does not mean that there is no discretion. However, in my opinion, it would tighten consistency in terms of the way in which the Act will be implemented. The decision to reclaim costs, for example, is optional. There is an example in the explanatory memorandum of an authority not reclaiming costs from a 16-year-old child, which is the youngest legal age at which a child can be a legal owner of an animal under the Animal Welfare Act 2006. We can immediately see a situation where irresponsible owners could transfer ownership of horses to their children, if they are 16 years old, and allow those horses to fly-graze in areas where the local authorities have not reclaimed costs from young people in the past. The Minister is sure to say that local authorities have not asked for statutory guidance. Well, they wouldn't, would they, truth be told? That was not a specific question in the consultation. Of course, that consultation was not a consultation on the Bill either, but on wider solutions to fly-grazing and the abandonment of horses. However, even then, some of the stakeholders called for statutory guidance—a call that we support in this amendment. As I have said, we are also content to support amendment 8; the only difference is that amendment 8 refers specifically to the introduction of statutory guidance within a period of three months. I feel that the Plaid Cymru amendment is appropriate, but we certainly do not have any opposition to amendment 8.

18:15

## Angela Burns Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I rise to support the amendment tabled in my name, supported by Antoinette Sandbach, and to support the amendment tabled by Llyr Huws Gruffydd. He is absolutely right: I think that the Plaid amendment does the job equally well. To be frank, Minister, I would not mind, as long as you pass one of them.

Codaf i gefnogi'r gwelliant a gyflwynwyd yn fy enw i, gyda chefnogaeth Antoinette Sandbach, ac i gefnogi'r gwelliant a gyflwynwyd gan Llyr Huws Gruffydd. Mae'n hollol gywir: rwyf yn meddwl bod gwelliant Plaid Cymru'n gwneud y gwaith lawn cystal. A dweud y gwir, Weinidog, nid wyf yn malio, cyhyd â'ch bod yn pasio un ohonynt.

This is an issue that the cross-party group on the horse felt incredibly strongly about. I think that it stems from the years that the members of that group struggled to manage and deal with the fly-grazing problem in Wales. They had been small charities in the main, some smaller groups, and one or two absolutely outstanding local authorities, which have really got to grips with this problem and have tried to sort it out. However, they fought an uphill battle and felt very much isolated against a number of other statutory bodies that have not shown any inclination to help. At times—and I will name and shame a few—it ranges from the police all the way to neighbouring local authorities.

Mae hwn yn fater y mae'r grŵp trawsbleidiol ar geffylau'n teimlo'n hynod gryf yn ei gylch. Rwyf yn meddwl ei fod yn deillio o'r blynyddoedd y bu aelodau'r grŵp yn brwydro i reoli problem pori anghyfreithlon ac i ymdrin â hi yng Nghymru. Elusennau bach oeddent yn bennaf, rhai grwpiau llai, ac un neu ddau o awdurdodau lleol cwbl eithriadol, a roddodd sylw da iawn i'r broblem hon i geisio'i datrys. Fodd bynnag, roedd yn dalcen caled ac roeddent yn teimlo'n ynysig iawn yn erbyn nifer o gyrff statudol eraill nad ydynt wedi dangos unrhyw awydd i helpu. Ar adegau —ac rwyf am enwi a chodi cywilydd ar rai—maent amrywio o'r heddlu yr holl ffordd i awdurdodau lleol cyfagos.

The point of this exercise here is to try to make sure that, at a time of dwindling resources, and at a time of great pressure on local authorities, once we have, hopefully, passed this lovely Bill, with all of its bits and pieces, this does not just end up sitting on a shelf and not being implemented in full. It is of great concern, because, throughout Wales at the moment, the issue of fly-grazing is on the increase. If you drive in the areas that I represent, and you go from Pembrokeshire all the way to Cardiff, there are areas where there used to be fields in which there were a small number of horses, and this is escalating rapidly. There is a real pressure out there to deal with the equine side of it, and we believe that unless this is made statutory, people will simply choose to look the other way when they have other calls on the time and budget of the chief executive and the leader of any council. It is only discretionary, and I am going to quote our adviser, my lawyer, because I think that they have put it so well:

'Local authorities will have a power, and therefore a discretion, to seize horses. The guidance will be of considerable use to local authorities in exercising that discretion, but it is a matter of judgment for Assembly Members whether that discretion is sufficiently significant to justify being the subject of statutory guidance.'

I am asking you, Assembly Members, to think long and hard about that and whether or not you think that the legislation, the action plan—which is a very good action plan—and the draft guidance are actually going to be strong enough to enforce the legislation throughout all local authorities in Wales. Llyr Huws Gruffydd made a very good point about the fact that we are seeking consistency here; one of the key drivers for going ahead with this fly-grazing legislation, Minister. I remember meeting you and you were trying to get rid of this little raft of small bye-laws, to put them into one comprehensive package so that everybody would know where they are. I appreciate the Welsh Government's view that you have that on the face of the Bill and that you believe that the Bill is descriptive enough to ensure that people will do what they are supposed to do. I remain unconvinced. We here in the Chamber have seen time and again where other statutory bodies have failed in other areas of public life to do what you have asked them to do, or what a law has asked them to do, and I would ask the Members here to vote to make this statutory, so that we are not back here in a couple of years' time talking about making it statutory because it has not been implemented properly by all local authorities in all the areas of Wales.

Pwynt yr ymarfer hwn yw ceisio gwneud yn siŵr, ar adeg pan fo adnoddau'n prinhau, ac ar adeg pan fo pwysau mawr ar awdurdodau lleol, ar ôl inni basio'r Bil hyfryd hwn, rwyf yn gobeithio, gyda'i holl rannau, na fydd yn y pen draw'n eistedd ar silff heb gael ei roi ar waith yn llawn. Mae'n peri pryder mawr, oherwydd, ledled Cymru ar hyn o bryd, mae pori anghyfreithlon ar gynnydd. Os gyrrwch yn yr ardaloedd yr wyf yn eu cynrychioli, ac os ewch o sir Benfro yr holl ffordd i Gaerdydd, mae ardaloedd lle'r oedd caeau'n arfer bod a nifer bach o geffylau ynddynt, ac mae hyn yn cynyddu'n gyflym. Mae pwysau go iawn i ymdrin â cheffylau yn hyn o beth, ac rydym yn credu, oni chaiff hyn ei wneud yn statudol, y bydd pobl yn dewis esgus peidio â gweld pan fydd galwadau eraill ar amser a chyllideb prif weithredwr ac arweinydd cyngor. Mae hyn yn ddewisol, ac rwyf am ddyfynnu ein cynghorydd, fy nghyfreithiwr, oherwydd credaf ei fod wedi ei fynegi'n dda iawn:

Bydd gan awdurdodau lleol bŵer, ac felly ddisgresiwn, i atafaelu ceffylau. Bydd y canllawiau'n ddefnyddiol iawn i awdurdodau lleol wrth arfer y disgresiwn hwnnw, ond mae'n fater o farn i Aelodau'r Cynulliad a yw'r disgresiwn hwnnw'n ddigonol i gyfiawnhau bod yn destun canllawiau statudol.

Gofynnaf ichi, Aelodau'r Cynulliad, feddwl o ddifrif am hynny ac a ydych yn credu bod y ddeddfwriaeth, y cynllun gweithredu—sy'n gynllun gweithredu da iawn—a'r canllawiau drafft mewn gwirionedd yn mynd i fod yn ddigon cryf i orfodi'r ddeddfwriaeth ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru. Gwnaeth Llyr Huws Gruffydd bwynt da iawn am y ffaith ein bod yn ceisio cysondeb yma, sef un o'r sbardunau allweddol ar gyfer bwrw ymlaen â'r ddeddfwriaeth pori anghyfreithlon hon, Weinidog. Rwyf yn cofio cwrdd â chi pan oeddech yn ceisio cael gwared ar y llu hwn o is-ddeddfau mân, er mwyn eu rhoi mewn un pecyn cynhwysfawr fel y byddai pawb yn gwybod ble y maent. Rwyf yn cydnabod barn Llywodraeth Cymru am gael hynny ar wyneb y Bil a'ch bod yn credu bod y Bil yn ddigon disgrifiadol i sicrhau y bydd pobl yn gwneud yr hyn y maent i fod i'w wneud. Nid wyf wedi fy argyhoeddi. Rydym ni yma yn y Siambr wedi gweld cyrff statudol eraill dro ar ôl tro mewn meysydd eraill o fywyd cyhoeddus yn methu â gwneud yr hyn yr ydych yn gofyn iddynt ei wneud, neu'r hyn y mae'r gyfraith yn gofyn iddynt ei wneud, a byddwn yn gofyn i'r Aelodau bleidleisio i wneud hyn yn statudol, fel na fyddwn yn ôl yma ymhen blwyddyn neu ddwy yn siarad am ei wneud yn statudol am nad yw wedi cael ei roi ar waith yn briodol gan bob awdurdod lleol ym mhob rhan o Gymru.

18:19 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Throughout this process, it has been clear that adequate guidance was always going to be essential to ensure that this legislation is enacted quickly and effectively in Wales's worst affected areas. As such, I was very pleased to see the Minister make a draft version of this guidance available to us at the Environment and Sustainability Committee just last Wednesday, and I join Llyr Gruffydd in thanking him for that. Also, I think that this is my final opportunity in this debate to thank the Minister and, indeed, his officials for their appearances before the Environment and Sustainability Committee previously regarding this Bill throughout the term, and to remark that it is a much more interactive and constructive process than has characterised some earlier legislation.

Drwy gydol y broses hon, mae wedi bod yn amlwg y bydd yn rhaid wrth ganllawiau digonol er mwyn sicrhau bod y ddeddfwriaeth hon yn cael ei rhoi ar waith yn gyflym ac yn effeithiol yn yr ardaloedd yr effeithir arnynt waethaf yng Nghymru. Felly, roeddwn yn falch iawn o weld y Gweinidog yn sicrhau bod fersiwn drafft o'r canllawiau hyn ar gael inni yn y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ddydd Mercher diwethaf, ac rwyf innau, fel Llyr Gruffydd, yn diolch iddo am hynny. Hefyd, credaf mai dyma fy nghyfle olaf yn y ddadl hon i ddiolch i'r Gweinidog ac, yn wir, i'w swyddogion am eu hymddangosiadau gerbron y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd o ran y Bil hwn drwy gydol y tymor, ac i ddatgan ei bod yn broses lawer mwy rhyngweithiol ac adeiladol nag a nodweddodd rhai darnau o ddeddfwriaeth gynharach.

When dealing with guidance, it is clear that a balance has to be struck between affording local authorities the necessary flexibility that they require to meet their own needs and circumstances with the necessity to provide a level playing field across the whole of Wales. Given this, I am reassured by the desire to revisist the guidance on an annual basis to ensure that it remains fit for purpose and tested against the experience on the ground. When the Bill was first placed before us in October, I emphasised the need to ensure that legislation is enacted in Wales in a way that makes sure that the local authorities that are most adversely affected do not simply end up having the problem displaced to other areas, such as parts of Carmarthenshire, Pembrokeshire and Powys. They presently do not have the resources and expertise in human or financial terms to respond appropriately. While I would agree that such issues would not be addressed on the face of the Bill, necessarily, I would argue that guidance can play a substantial role in ensuring that specific local authorities are not caught off-guard by a sudden and seasonal increase in fly-grazing within their boundaries.

Wrth ymdrin â chanllawiau, mae'n amlwg bod yn rhaid cadw'r ddysgl yn wastad rhwng caniatáu'r hyblygrwydd sydd ei angen ar awdurdodau lleol i ddiwallu eu hanghenion a'u hamgylchiadau eu hunain a'r angen i drin pob rhan o Gymru yn yr un ffordd. Ac ystyried hyn, mae'r awydd i ailedrych ar y canllawiau'n flynyddol i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn addas at eu diben ac wedi'u profi'n unol â phrofiad ar lawr gwlad yn destun calondid imi. Pan roddwyd y Bil ger ein bron am y tro cyntaf ym mis Hydref, pwysleisiais fod angen sicrhau bod deddfwriaeth yn cael ei rhoi ar waith yng Nghymru mewn ffordd sy'n gwneud yn siŵr nad yw'r awdurdodau lleol sy'n teimlo'r effaith fwyaf andwyol yn peri yn y pen draw i'r broblem symud i ardaloedd eraill, megis rhannau o sir Gaerfyrddin, sir Benfro a Phowys. Ar hyn o bryd, nid oes ganddynt yr adnoddau na'r arbenigedd dynol nac ariannol i ymateb yn briodol. Er y byddwn yn cytuno na fyddai materion o'r fath, o reidrwydd, yn cael sylw ar wyneb y Bil, byddwn yn dadlau y gall canllawiau chwarae rhan sylweddol o safbwynt sicrhau nad yw awdurdodau lleol penodol yn gweld cynnydd annisgwyl sydyn a thymhorol mewn pori anghyfreithlon o fewn eu ffiniau.

As this is the final group, I shall be ending by confirming our strong support for this piece of legislation. As we go into the new year, I am hopeful that, once passed, the Bill will go some way towards combating this distressing form of what Angela Burns has correctly described as organised criminality, and that it will do a lot more than simply move the problem down to fresh pasture.

Gan mai hwn yw'r grŵp olaf, rwyf am ddirwyn i ben drwy gadarnhau ein cefnogaeth gref i'r darn hwn o ddeddfwriaeth. Ar drothwy'r flwyddyn newydd, rwyf yn gobeithio, ar ôl ei basio, y bydd y Bil yn mynd rywfaint o'r ffordd tuag at frwydro yn erbyn y math trallodus hwn o'r hyn y mae Angela Burns wedi'i ddisgrifio'n gywir fel troseddu cyfundrefnol, ac y bydd yn gwneud mwy o lawer na dim ond symud y broblem i borfeydd mwy gwelltog.

18:22 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I would like to support the amendments tabled by Llyr Huws Gruffydd and Angela Burns. Llyr Huws Gruffydd, in his contribution, pointed out that the Minister had said during the Stage 2 committee proceedings that no response to the consultation asked for statutory guidance to local authorities. I think that it is important that that is corrected on the record, because there were specific requests. I think that 445 responses specifically requested statutory guidance and conditions for local authorities to aid enforcement. This was a campaign, and the request was made as part of a response circulated via social media. A lot of people who engaged with you, Minister, and responded to the consultation specifically requested statutory guidance. I would ask the Welsh Government to look at delivering that, precisely because you have said that you want a consistent and robust approach. I share Angela Burns's concerns about the matter that she has raised today in that there may be a lack of consistent approach if the guidance is not made statutory.

Hoffwn gefnogi'r gwelliannau a gyflwynwyd gan Llyr Huws Gruffydd ac Angela Burns. Tynnodd Llyr Huws Gruffydd sylw yn ei gyfraniad at y ffaith bod y Gweinidog wedi dweud yn ystod trafodion Cyfnod 2 y pwyllgor nad oedd yr un ymateb i'r ymgynghoriad yn gofyn am ganllawiau statudol i awdurdodau lleol. Credaf ei bod yn bwysig cywiro hynny ar gofnod, oherwydd cafwyd ceisiadau penodol. Credaf fod 445 o ymatebion wedi gofyn yn benodol am ganllawiau ac amodau statudol i awdurdodau lleol i gynorthwyo gorfodaeth. Roedd yn ymgyrch, a gwnaethpwyd y cais fel rhan o ymateb a gylchredwyd drwy'r cyfryngau cymdeithasol. Roedd llawer o'r bobl a ymgysylltodd â chi, Weinidog, ac a ymatebodd i'r ymgynghoriad, yn gofyn yn benodol am ganllawiau statudol. Byddwn yn gofyn i Lywodraeth Cymru ystyried cyflwyno hynny, a hynny oherwydd ichi ddweud eich bod am gael ymagwedd gyson a chadarn. Rwyf yn rhannu pryderon Angela Burns am y mater a godwyd ganddi heddiw, sef y gallai fod diffyg ymagwedd gyson oni chaiff y canllawiau eu gwneud yn statudol.

I echo my thanks to you for providing copies of the draft guidance to the committee that scrutinises the Bill, but that is not enough. It needs to be statutory guidance and that is why I support both amendments—the amendment tabled by Plaid Cymru and the amendment tabled by Angela Burns. With all the effort that has gone into the Bill, Minister, and the work that has been undertaken to maximise the likelihood of its success and the undeniable need to unify all local authorities in their approach to fly-grazing, why would you want the guidance to be non-statutory? It would weaken the Bill and would effectively allow that discrepancy and that discretion to creep into the approach that has been taken. Minister, when the RSPCA and others have called on you to have a consistent way of dealing with it and have specifically requested statutory guidance, I would ask you to listen to what your stakeholders have been saying to you and to support these amendments.

Ategaf fy niolch ichi am ddarparu copïau o'r canllawiau drafft i'r pwyllgor sy'n craffu ar y Bil, ond nid yw hynny'n ddigon. Mae angen canllawiau statudol, a dyna pam yr wyf yn cefnogi'r ddau welliant—y gwelliant a gyflwynwyd gan Blaid Cymru a'r gwelliant a gyflwynwyd gan Angela Burns. Wedi'r holl ymdrech a wnaethpwyd i baratoi'r Bil, Weinidog, a'r gwaith sydd wedi ei wneud i hybu'r tebygolrwydd y bydd yn llwyddo a'r angen diamheuol i uno pob awdurdod lleol yn eu hymagwedd at bori anghyfreithlon, pam y byddech am i'r canllawiau fod yn anstatudol? Byddai'n gwanhau'r Bil a byddai i bob diben yn caniatáu i'r anghysondeb a'r disgresiwn hwnnw ymlusgo yn ôl i'r ymagwedd a gymerwyd. Weinidog, pan fo'r RSPCA ac eraill wedi galw arnoch i ddewis ffordd gyson o ymdrin â'r mater ac wedi gofyn yn benodol am ganllawiau statudol, gofynnaf ichi wrando ar yr hyn y mae eich rhanddeiliaid wedi bod yn ei ddweud wrthych a chefnogi'r gwelliannau hyn.

18:24 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I think that we have been listening to what stakeholders have been telling us, in the last few months and for some time before that. The Bill does not place a new duty on local authorities; it gives permissive powers for local authorities to use as and when they see fit in accordance with local needs and local demands. We are trying to find a balance between the consistency that I think we all agree that we want to see and an element of flexibility that enables local authorities to react to the circumstances that they face in their areas at different times. We have had a good debate, I feel, about these matters in the committee. I made draft guidance available to the Environment and Sustainability Committee for its scrutiny, and I met with it last Wednesday to answer some questions on it. I will be pleased to receive its written comments in due course.

Rwyf yn meddwl ein bod wedi bod yn gwrando ar yr hyn y mae rhanddeiliaid wedi bod yn ei ddweud wrthym, yn ystod y misoedd diwethaf ac am gryn dipyn o amser cyn hynny. Nid yw'r Bil yn rhoi dyletswydd newydd i awdurdodau lleol; mae'n rhoi pwerau caniataol i awdurdodau lleol eu defnyddio mewn ffordd ac ar adeg sydd, yn eu barn hwy, yn addas yn unol ag anghenion lleol a galw lleol. Rydym yn ceisio dod o hyd i gydbwysedd rhwng y cysondeb yr wyf yn credu ein bod i gyd yn cytuno ein bod am ei weld ac elfen o hyblygrwydd sy'n galluogi awdurdodau lleol i ymateb i'r amgylchiadau sy'n eu hwynebu yn eu hardaloedd ar wahanol adegau. Cawsom ddadl dda, yn fy marn i, am y materion hyn yn y pwyllgor. Darperais ganllawiau drafft i aelodau Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd gael craffu arnynt, a chyfarfûm â hwy ddydd Mercher diwethaf i ateb rhai cwestiynau amdanynt. Byddaf yn falch o dderbyn eu sylwadau ysgrifenedig maes o law.

At the request of our partners and stakeholders, the Government proposes non-statutory guidance, which has been drafted with the expertise and extensive experience of the local authorities themselves, together with equine charities such as Redwings horse sanctuary and the RSPCA. Those people have actually contributed to the guidance that the committee itself has had an opportunity to scrutinise. I have given a commitment to committee that I will review the guidance and its operation within the law, and if there is a requirement for us to revise, change or review that guidance, then we will do so. We will also accept amendments from the committee if the committee wishes to make those proposals to us.

Ar gais ein partneriaid a'n rhanddeiliaid, mae'r Llywodraeth yn cynnig canllawiau anstatudol, sydd wedi eu drafftio ag arbenigedd a phrofiad helaeth yr awdurdodau lleol eu hunain, ynghyd ag elusennau ceffylau megis llloches ceffylau Redwings a'r RSPCA. Mae'r bobl hynny mewn gwirionedd wedi cyfrannu at y canllawiau y mae'r pwyllgor ei hun wedi cael cyfle i graffu arnynt. Rwyf wedi rhoi ymrwymiad i'r pwyllgor y byddaf yn adolygu'r canllawiau a'u gweithrediad o fewn y gyfraith, ac os bydd gofyn inni ddiwygio, newid neu adolygu'r canllawiau hynny, byddwn yn gwneud hynny. Byddwn hefyd yn derbyn gwelliannau gan y pwyllgor os yw'r pwyllgor yn dymuno gwneud y cynigion hynny inni.

Deputy Presiding Officer, this is generic guidance. It is not aimed simply at local authorities. It is good and common practice for new legislation to be accompanied by guidance for those enforcing authorities and those who have to abide by it. All have a role to play in ensuring the new law works effectively. We do not believe that it is necessary for a guidance section to be added to the face of the Bill, although I will say that I sympathise greatly with the ambition behind these amendments. I sympathise greatly with what the amendments are seeking to achieve, but I say to the Members who have proposed the amendments, 'Please let us give guidance to people to enable them to deliver the law according to local circumstances, but not place them in a straitjacket that will not enable them to make the different approaches necessary in different circumstances'. The examples that have been quoted during this debate, both from the Gower and the Vale of Glamorgan, demonstrate the need for guidance and for flexibility, because those example of fly-grazing were very different circumstances and required a different response from enforcement agencies. We have this guidance available to us, and I hope that it will be improved by the committee. I very much welcome the committee's opportunity to look at the guidance.

Ddirprwy Lywydd, canllawiau generig yw'r rhain. Nid ydynt wedi'u hanelu at awdurdodau lleol yn unig. Mae'n arfer da a chyffredin i ddeddfwriaeth newydd gynnwys canllawiau i'r awdurdodau gorfodi a'r rhai sy'n gorfod cadw at y ddeddfwriaeth. Mae gan bob un ohonynt ran i'w chwarae i sicrhau bod y gyfraith newydd yn gweithio'n effeithiol. Nid ydym yn credu bod angen ychwanegu adran canllawiau at wyneb y Bil, er bod yn rhaid imi ddweud fy mod yn cydymdeimlo'n fawr â'r uchelgais y tu ôl i'r gwelliannau hyn. Rwyf yn cydymdeimlo'n fawr â'r hyn y mae'r gwelliannau'n ceisio ei gyflawni, ond dywedaf wrth yr Aelodau sydd wedi cynnig y gwelliannau, 'Gadewch inni roi arweiniad i bobl i'w galluogi i gyflwyno'r gyfraith yn unol ag amgylchiadau lleol, ond heb eu rhoi mewn gwasgod gaeth a fydd yn eu hatal rhag defnyddio gwahanol ddulliau dan wahanol amgylchiadau'. Mae'r enghreifftiau sydd wedi'u cynnig yn ystod y ddadl hon, o'r Gŵyr ac o Fro Morgannwg, yn dangos bod angen arweiniad a hyblygrwydd, oherwydd roedd amgylchiadau gwahanol iawn i'r enghreifftiau hynny o bori anghyfreithlon ac roeddent yn gofyn am ymateb gwahanol gan asiantaethau gorfodi. Mae'r canllawiau hyn ar gael inni, ac rwyf yn gobeithio y bydd y pwyllgor yn eu gwella. Rwyf yn croesawu'n fawr iawn y cyfle i'r pwyllgor edrych ar y canllawiau.

The Bill seeks to enable people to deal with this problem. I hope that the non-statutory guidance that we are providing here will provide a flexibility to react quickly, and provide the consistency so that we know that the law is being delivered in all parts of Wales. That was one of the key objectives for this legislation, exactly as Angela Burns has described: so that we no longer have different law in Blaenau Gwent and Carmarthen West, and different law in Conwy and Cardiff. We have consistent law, but locally delivered—and that is where the people of Wales are, and certainly, I believe, where most stakeholders in this debate are at the moment.

Mae'r Bil yn ceisio galluogi pobl i ymdrin â'r broblem hon. Rwyf yn gobeithio y bydd y canllawiau anstatudol yr ydym yn eu darparu yma'n rhoi hyblygrwydd i ymateb yn gyflym, ac yn rhoi'r cysondeb er mwyn inni wybod bod y gyfraith yn cael ei chyflwyno ym mhob rhan o Gymru. Dyna oedd un o amcanion allweddol y ddeddfwriaeth hon, yn union fel y disgrifiodd Angela Burns: fel na fydd gennym mwyach gyfraith wahanol ym Mlaenau Gwent a Gorllewin Caerfyrddin, a chyfraith wahanol yng Nghonwy a Chaerdydd. Mae gennym gyfraith gyson, ond wedi'i chyflwyno'n lleol—a dyna lle mae pobl Cymru a lle, yn sicr, yn fy marn i, y mae'r rhan fwyaf o randdeiliaid yn y ddadl hon ar hyn o bryd.

18:28

## Llyr Gruffydd [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Hoffwn ddiolch i bawb am eu sylwadau. Ie, pwerau cyson, deddfwriaeth gyson, ond rwy'n teimlo bod gweithrediad cyson y ddeddfwriaeth honno yn bwysig iawn. Rwy'n diolch i Angela Burns am ein hatgoffa ni yr ategwyd cefnogaeth y grŵp pob plaid ar geffylau i'r mater hwn. Hefyd, fel mae Antoinette Sandbach wedi ein hatgoffa, mae nifer fawr o randdeiliaid wedi galw am ganllawiau statudol, ac mae'n bwysig cydnabod hynny. Fel rwy'n dweud, pwerau cyson ar draws Cymru sy'n bwysig, ond mae angen gweithredu'r rheini'n gyson hefyd.

I thank everyone for their comments. Yes, consistent powers and consistent legislation, but I feel that the consistent implementation of that legislation is very important. I thank Angela Burns for reminding us that this matter had the support of the cross-party group on the horse. Also, as Antoinette Sandbach reminded us, a great many stakeholders called for statutory guidance, and it is important to acknowledge that point. As I have said, consistent powers across Wales are important, but their application needs to be consistent.

Nid wyf yn teimlo y byddai canllawiau statudol o reidrwydd yn golygu y byddai'r broses yn arafach. Nid wyf yn meddwl y byddai'n golygu nad oes unrhyw ddisgresiwn ychwaith. Yr hyn y byddai'n sicrhau yn fy marn i yw mwy o gysondeb a llai o debygrwydd y bydd y broblem yn cael ei symud o'r naill ardal i'r llall, sef yr union beth y mae'r Bil hwn yn trio ei gyflawni.

I do not think that statutory guidance would necessarily slow down this process, and nor do I think that it would mean a lack of discretion. What it would ensure in my opinion is greater consistency and less of a tendency to move the problem from one area to the next, which is exactly what this Bill tries to achieve.

18:29

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

If amendment 5 is agreed, amendment 8 falls. The question is that amendment 5 be agreed to. Does any Member object? There is objection, therefore we will have an electronic vote.

Os derbynnir gwelliant 5, mae gwelliant 8 yn methu. Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 5. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad, felly cawn bleidlais electronig.

Canlyniad y bleidlais ar welliant 5

Result of the vote on amendment 5

*Gwrthodwyd gwelliant 5: O blaid 28, Yn erbyn 29, Ymatal 0.*

*Amendment 5 not agreed: For 28, Against 29, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20 the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

18:30

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I call on Antoinette Sandbach to move amendment 7.

Galwaf ar Antoinette Sandbach i gynnig gwelliant 7.

18:30

## Antoinette Sandbach Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I move amendment 7 in my name.

Cynigiaf welliant 7 yn fy enw.

18:30

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

The question is that amendment 7 be agreed to. Does any Member object? There is objection; therefore we will have an electronic vote.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 7. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad, felly cawn bleidlais electronig.

Canlyniad y bleidlais ar welliant 7.

Result of the vote on amendment 7.

*Gwrthodwyd gwelliant 7: O blaid 12, Yn erbyn 44, Ymatal 0.*

*Amendment 7 not agreed: For 12, Against 44, Abstain 0.*

18:30

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I call on Angela Burns to move amendment 8.

Galwaf ar Angela Burns i gynnig gwelliant 8.

18:30

## Angela Burns Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I move amendment 8 in my name.

Cynigiaf welliant 8 yn fy enw.

18:30

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

The question is that amendment 8 be agreed to. Does any Member object? There is objection; therefore we will have an electronic vote.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 8. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad, felly cawn bleidlais electronig.

Canlyniad y bleidlais ar welliant 8.

Result of the vote on amendment 8.

*Gwrthodwyd gwelliant 8: O blaid 28, Yn erbyn 29, Ymatal 0.*

*Amendment 8 not agreed: For 28, Against 29, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20 the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

18:31

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Antoinette Sandbach to move amendment 3.

Galwaf ar Antoinette Sandbach i gynnig gwelliant 3.

18:31

## Antoinette Sandbach Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 3 in my name.

Cynigiaf welliant 3 yn fy enw.

18:31

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 3 be agreed to. Does any Member object? There is objection; therefore we will have an electronic vote.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 3. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad, felly cawn bleidlais electronig.

Canlyniad y bleidlais ar welliant 3.

Result of the vote on amendment 3.

*Gwrthodwyd gwelliant 3: O blaid 28, Yn erbyn 29, Ymatal 0.*

*Amendment 3 not agreed: For 28, Against 29, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20 the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

18:31

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We have reached the end of our Stage 3 consideration of the Control of Horses (Wales) Bill. I declare that all sections of and Schedules to the Bill are deemed agreed. That concludes Stage 3 proceedings.

Rydym wedi cyrraedd diwedd ein hystyriaeth Cyfnod 3 o Fil Rheoli Ceffylau (Cymru). Datganaf y bernir bod pob adran o'r Bil a phob Atodlen iddo wedi'u derbyn. Dyna ddiwedd trafodion Cyfnod 3.

# Cynnig Cyfnod 4 o dan Reol Sefydlog 26.47 i Gymeradwyo'r Bil Rheoli Ceffylau (Cymru)

# Stage 4 Standing Order 26.47 Motion to Approve the Control of Horses (Wales) Bill

Cynnig

Motion

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 26.47, yn cymeradwyo'r Bil Rheoli Ceffylau (Cymru).

The National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order No. 26.47, approves the Control of Horses (Wales) Bill.

18:31

## Alun Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd / The Minister for Natural Resources and Food*

I move the motion.

Cynigiaf y cynnig.

I thank Members for the way in which we have debated these matters over the past few months. I thank all Members from all sides of the Chamber for the contributions that they have made to, I hope, scrutinising and improving the legislation.

Rwyf am ddiolch i'r Aelodau am y ffordd yr ydym wedi trafod y materion hyn dros yr ychydig fisoedd diwethaf. Rwyf am ddiolch i'r holl Aelodau o bob ochr i'r Siambr am y cyfraniadau y maent wedi eu gwneud, rwyf yn gobeithio, at graffu ar y ddeddfwriaeth a'i gwella.

There has been a common vision on all sides of the Chamber about how we deal with fly-grazing. I know that Members from across the country have been appalled at some of the sights that we have seen, either on our television screens or in our constituencies, regions, towns and communities. When the First Minister asked me to co-ordinate the Government's response to fly-grazing, I sought to bring people together—local authorities, charities, enforcement agencies and the police. We sought to work together in order to rid Wales of this fly-grazing epidemic.

Bu gweledigaeth gyffredin ar bob ochr i'r Siambr ynglŷn â'r ffordd yr ydym yn ymdrin â phori anghyfreithlon. Gwn fod Aelodau o bob rhan o'r wlad wedi eu brawychu o weld rhai o'r golygfeydd yr ydym wedi'u gweld, naill ai ar ein sgriniau teledu neu yn ein hetholaethau, ein rhanbarthau, ein trefi a'n cymunedau. Pan ofynnodd y Prif Weinidog imi gydlynu ymateb y Llywodraeth i bori anghyfreithlon, ceisiais ddod â phobl at ei gilydd—awdurdodau lleol, elusennau, asiantaethau gorfodi a'r heddlu. Ein bwriad oedd cydweithio i ddileu'r epidemig pori anghyfreithlon hwn yng Nghymru.

Together, we developed an action plan that came from a debate that was held across the country. The action plan demonstrated the need for legislation and a legislative vehicle that would provide the consistent and robust approach that we believe is required—and is also believed across the equine community in Wales—to deliver the sort of response that we need to deal with this.

Gyda'n gilydd, datblygasom gynllun gweithredu a ddeilliodd o drafodaeth a gynhaliwyd ledled y wlad. Roedd y cynllun gweithredu'n dangos bod angen deddfwriaeth a chyfrwng deddfwriaethol a fyddai'n darparu'r ymagwedd gyson a chadarn sydd ei hangen yn ein tyb ni—a hefyd yn nhyb y gymuned geffylau gyfan yng Nghymru—i gyflwyno'r math o ymateb sydd ei angen arnom i ymdrin â hyn.

I want to take the opportunity this afternoon to thank the Welsh Government officials who dealt with all these matters and worked extremely hard to ensure that we have the legislation in place, and also that we have the approach and the action plan that I hope will help us address fly-grazing. I would also like to thank the Environment and Sustainability Committee for the time it has taken to address these matters and the other Assembly committees that have, within a relatively short period of time, taken the opportunity to scrutinise the legislation. I believe that the legislation is better as a consequence of that scrutiny.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle y prynhawn yma i ddiolch i swyddogion Llywodraeth Cymru a fu'n ymdrin â'r holl faterion hyn ac yn gweithio'n galed iawn i sicrhau bod y ddeddfwriaeth ar gael inni, a hefyd fod gennym yr ymagwedd a'r cynllun gweithredu a fydd, rwyf yn gobeithio, yn ein helpu i fynd i'r afael â phori anghyfreithlon. Hoffwn hefyd ddiolch i Bwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd am yr amser a roddodd i roi sylw i'r materion hyn ac i bwyllgorau eraill y Cynulliad sydd, mewn cyfnod cymharol fyr, wedi manteisio ar y cyfle i graffu ar y ddeddfwriaeth. Credaf fod y ddeddfwriaeth yn well o ganlyniad i'r gwaith craffu hwnnw.

This is not a Bill that the Government had planned to bring forward. This is a Bill that was brought forward in response to events that simply cannot be allowed to continue. The Bill is part of the Government's response to stakeholders' demand for action. Fly-grazing is a practice that creates social, economic and environmental harm and harm to horses and it is an action that threatens public safety.

Nid yw hwn yn Fil yr oedd y Llywodraeth wedi bwriadu ei gyflwyno. Mae hwn yn Fil a ddygwyd ymlaen mewn ymateb i ddigwyddiadau na ellir caniatáu iddynt barhau. Mae'r Bil yn rhan o ymateb y Llywodraeth i alwad rhanddeiliaid am weithredu. Mae pori anghyfreithlon yn arfer sy'n creu niwed cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol a niwed i geffylau, ac mae'n arfer sy'n bygwth diogelwch y cyhoedd.

We believe that this legislation will provide local authorities with the necessary tools to deliver a clear, consistent and robust approach to tackle fly-grazing, alongside a loud and clear message that this behaviour will simply not be tolerated in Wales.

Rydym o'r farn y bydd y ddeddfwriaeth hon yn rhoi'r arfau angenrheidiol i awdurdodau lleol i ddarparu ymagwedd glir, gyson a chadarn i fynd i'r afael â phori anghyfreithlon, law yn llaw â neges glir a syml iawn, sef na chaiff yr ymddygiad hwn ei oddef yng Nghymru.

I have seen at first hand the horror that fly-grazing creates across Wales. I have seen the suffering of horses in different parts of the country and have seen the impact on my own constituency.

Rwyf wedi gweld drosof fy hun yr arswyd y mae pori anghyfreithlon yn ei greu ledled Cymru. Rwyf wedi gweld dioddefaint ceffylau mewn gwahanol rannau o'r wlad ac wedi gweld yr effaith ar fy etholaeth fy hun.

It is something that I hope we can now ensure will be dealt with, and dealt with in a robust fashion. The appalling incidence that we have seen all too often across different parts of Wales in recent years must now be dealt with. We now have the tools in every part of Wales to deal with this issue. I hope that we will now go forward together from this Chamber with this new legislation as part of a much wider action plan to deal with and eradicate fly-grazing from Wales.

Mae'n rhywbeth yr wyf yn gobeithio y gallwn yn awr sicrhau yr ymdrinnir ag ef, a hynny mewn modd cadarn. Mae'n rhaid ymdrin â'r achosion ofnadwy yr ydym wedi'u gweld yn rhy aml mewn gwahanol rannau o Gymru yn y blynyddoedd diwethaf. Yn awr, mae gennym fodd ym mhob rhan o Gymru i ymdrin â'r mater hwn. Rwyf yn gobeithio y byddwn yn awr yn symud ymlaen gyda'n gilydd o'r Siambr hon â'r ddeddfwriaeth newydd hon fel rhan o gynllun gweithredu ehangach o lawer i ymdrin â phori anghyfreithlon a chael gwared arno o Gymru.

18:35 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I think that you did my colleague Angela Burns a great disservice by not thanking her for her work, together with the cross-party group on the horse. I know that you have previously acknowledged the work that my predecessor, Brynle Williams, did on the cross-party group on the horse in relation to the issue of fly-grazing. As you know, this issue goes very far back, and Angela and those who are part of that group have been working on this for over two and a half years. This legislation has come through the Assembly, and I am thrilled at that and glad that there is cross-party consensus on it, but it is clear that it has not dealt with a number of issues, the main one being microchipping. It looks likely that we will be dealing with that again in the future.

Weinidog, credaf eich bod wedi gwneud anghymwynas fawr â'm cydweithiwr Angela Burns drwy beidio â diolch iddi am ei gwaith, ynghyd â'r grŵp trawsbleidiol ar geffylau. Gwn eich bod eisoes wedi cydnabod y gwaith a wnaeth fy rhagflaenydd, Brynle Williams, ar y grŵp trawsbleidiol ar geffylau ynglŷn â phori anghyfreithlon. Fel y gwyddoch, mae'r mater hwn yn mynd yn bell iawn yn ôl, ac mae Angela ac aelodau'r grŵp hwnnw yn gweithio ar hyn ers dros ddwy flynedd a hanner. Mae'r ddeddfwriaeth hon wedi dod drwy'r Cynulliad, ac rwyf wrth fy modd â hynny ac yn falch bod consensws trawsbleidiol arni, ond mae'n amlwg bod nifer o faterion nad yw'n ymdrin â hwy, ac mai'r prif fater yn hynny o beth yw microsglodynnu. Mae'n edrych yn debygol y byddwn yn ymdrin â hynny eto yn y dyfodol.

However, I am delighted because I think that we are united across this Chamber in our views on the welfare issues that accompany the animals that are put out to fly-graze, such as the intimidation in some cases, and the really nasty incidents of damage, sometimes done deliberately, to property in order to stop landowners taking action. I think that this Bill sends out a message to those criminal elements who fly-graze their horses that this will not be tolerated in Wales.

Fodd bynnag, rwyf wrth fy modd oherwydd credaf ein bod yn unfryd ar draws y Siambr hon ynghylch y materion lles sy'n gysylltiedig â'r anifeiliaid sy'n cael eu rhoi allan i bori'n anghyfreithlon, megis codi ofn mewn rhai achosion, a'r achosion gwirioneddol gas o wneud difrod i eiddo, yn fwriadol ar adegau, er mwyn atal tirfeddianwyr rhag gweithredu. Credaf fod y Bil hwn yn anfon neges i'r elfennau troseddol hynny sy'n pori eu ceffylau'n anghyfreithlon na chaiff hyn ei oddef yng Nghymru.

18:37 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I support this legislation, and I hope that we will reach the stage where we will never again see such terrible scenes of suffering as the Minister has described. However, I want to make the point, as we come to the end of the proceedings, that this Bill will have a disproportionate impact on people in the Gypsy and Traveller community who have always kept horses. Many of them are not literate, and I think that we are uncertain about whether they are aware of the implications of this Bill. I am pleased that the Minister has met members of the community, and I hope that those meetings will be followed up by further meetings with officers, and that meaningful discussion will take place with the Gypsy and Traveller community so that they understand the implications of this Bill. I think that it is very important that the Government and local authorities agree to support Gypsy/Travellers to find suitable grazing, if they do not have it already, and that this should be done at an early stage. There are examples of Gypsies and Travellers who have grazed their horses without formal agreement for many years—up to 20 years, in fact, we were told—sometimes on local authority land where no formal permission has been given, and where custom and practice has existed for a very long time. So, I am hoping that this sort of situation will be addressed when this Bill is enacted and that, as the guidance is developed, we will be able to look at those particular issues. So, I thank the Minister for taking into account the needs of this particular community where there is a long-standing tradition of caring for horses.

Rwyf yn cefnogi'r ddeddfwriaeth hon, ac yn gobeithio y byddwn yn cyrraedd man lle na welwn byth eto'r dioddef arswydus a ddisgrifiwyd gan y Gweinidog. Fodd bynnag, hoffwn wneud y pwynt, wrth inni ddod at ddiwedd y trafodion, y bydd y Bil hwn yn cael effaith anghymesur ar bobl yn y gymuned Sipsiwn a Theithwyr sydd wedi cadw ceffylau erioed. Mae llawer ohonynt yn anllythrennog, a chredaf ein bod yn ansicr a ydynt yn ymwybodol o oblygiadau'r Bil hwn. Rwyf yn falch bod y Gweinidog wedi cwrdd ag aelodau o'r gymuned, ac rwyf yn gobeithio y caiff y cyfarfodydd hynny eu dilyn gan gyfarfodydd pellach â swyddogion, ac y ceir trafodaeth ystyrlon â'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr er mwyn iddynt ddeall goblygiadau'r Bil hwn. Credaf ei bod yn bwysig iawn fod y Llywodraeth ac awdurdodau lleol yn cytuno i gynorthwyo Sipsiwn a Theithwyr i ddod o hyd i fannau pori addas, os nad oes ganddynt rai eisoes, ac y dylid gwneud hyn yn gynnar. Mae enghreifftiau o Sipsiwn a Theithwyr sydd wedi pori eu ceffylau heb gytundeb ffurfiol ers blynyddoedd lawer—hyd at 20 mlynedd, yn wir, cawsom wybod—weithiau ar dir yr awdurdod lleol lle nad oes caniatâd ffurfiol wedi ei roi, a lle mae arfer ac ymarfer ar waith ers amser maith. Felly, rwyf yn gobeithio y caiff y math hwn o sefyllfa sylw pan gaiff y Bil hwn ei roi ar waith ac, wrth i'r canllawiau gael eu datblygu, y gallwn edrych ar y materion penodol hynny. Felly, rwyf yn diolch i'r Gweinidog am ystyried anghenion y gymuned benodol hon lle ceir traddodiad hirsefydlog o ofalu am geffylau.

18:38 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Hoffwn innau ategu'r diolchiadau i'r Gweinidog a'i swyddogion am y modd y maent wedi gweithio gyda llefarwyr y pleidiau gwahanol, y pwyllgor amgylchedd a grwpiau pob plaid—nifer o grwpiau pob plaid a dweud y gwir—ar y mater hwn. Nid oedd defnyddio'r broses frys yn ddelfrydol, a byddai rhai'n dweud efallai y dylai'r Llywodraeth fod wedi rhagweld yr angen am y Bil hwn yn gynharach, ond yn wyneb y bygythiad difrifol i les ceffylau, gwnaeth nifer ohonom gydsynio i hynny. Rhaid i mi ddweud fy mod i wedi dysgu gwersi o hynny, ac rwy'n gobeithio bod y Llywodraeth wedi dysgu gwersi hefyd, oherwydd, os bydd sefyllfa debyg yn codi yn y dyfodol, mae'n debyg y bydd fy agwedd ati yn wahanol iawn.

I would like to endorse the thanks to the Minister and his officials for the way in which they have worked with party spokespeople, the environment committee and cross-party groups—a number of different cross-party groups in fact—on this issue. Using the emergency procedure was not ideal, and some would say that the Government should perhaps have foreseen the need for this Bill sooner, but in light of the serious threat to the welfare of horses, a number of us agreed to go along with this. I must say that I have learned lessons from that, as I hope has the Government, because if a similar situation were to arise again, I am sure that my attitude would be very different.

Wedi dweud hynny, mae'r Bil yn un angenrheidiol, ac yn un a fydd yn mynd peth o'r ffordd at daclo'r pla o bori anghyfreithlon, a thrwy hynny, gobeithio, osgoi rhai o'r golygfeydd difrifol o geffylau yn dioddef a welwyd dros yr wythnosau a'r misoedd diwethaf.

Having said that, there is a need for this Bill, and it will go some way to dealing with the scourge of fly-grazing, and hopefully lead to an end to some of the terrible scenes of horses suffering that have been seen over the last few weeks and months.

Hoffwn ddiolch hefyd i'r Gweinidog am gytuno i greu adroddiad ar gostau trydydd parti. Bydd hynny efallai'n help i wneud yr achos dros ddigolledu tirfeddianwyr ac elusennau lles anifeiliaid sy'n cario baich cost sylweddol yn sgîl pori anghyfreithlon. Rwy'n edrych ymlaen at gydsyniad brenhinol yn fuan, fel bod modd i'r Ddeddf gael ei gweithredu cyn gynted ag y bo modd.

I would also like to thank the Minister for agreeing to prepare a report on third-party costs. That will perhaps help make the case for compensating landowners and animal welfare charities that carry a heavy financial burden as a result of fly-grazing. I look forward to the granting of early royal assent, so that the Act can be implemented as soon as is possible.

18:40 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I rise to speak as chair of the cross-party group on the equine and to tell you that there will be quiet cheers tonight. Minister, I would like to thank you, personally, and previous incumbents, Carl Sargent, John Griffiths and other Ministers. I would like to thank Antoinette Sandbach, Llyr Gruffydd and William Powell for being prepared to work together to pass this Bill in such a speedy way. The cross-party group has been working on this for the past two and a half years. It is a terrible problem out there. I would like to reassure Julie Morgan that the intention of our aim has always been to stop wanton cruelty towards large numbers of animals by completely indifferent owners. It is not to pick upon those who are not educated in the ways of looking after a horse appropriately. The charities that belong to the cross-party group on the horse work in those areas to ensure that people understand what they need to do.

Codaf i siarad fel cadeirydd y grŵp trawsbleidiol ar geffylau ac i ddweud wrthych y bydd llawenhau tawel heno. Weinidog, hoffwn ddiolch i chi, yn bersonol, ac i'r deiliaid blaenorol, Carl Sargent, John Griffiths a Gweinidogion eraill. Hoffwn ddiolch i Antoinette Sandbach, Llyr Gruffydd a William Powell am fod yn barod i gydweithio i basio'r Bil hwn mewn ffordd mor gyflym. Mae'r grŵp trawsbleidiol wedi bod yn gweithio ar hyn dros y ddwy flynedd a hanner ddiwethaf. Mae'n broblem ofnadwy ar lawr gwlad. Hoffwn dawelu meddwl Julie Morgan mai ein bwriad erioed fu atal creulondeb di-hid tuag at niferoedd mawr o anifeiliaid gan berchnogion cwbl ddifater. Nid yw'n fwriad gennym bigo ar bobl nad ydynt wedi eu dysgu sut i ofalu'n briodol am geffylau. Mae'r elusennau sy'n perthyn i'r grŵp trawsbleidiol ar geffylau'n gweithio yn yr ardaloedd hynny i sicrhau bod pobl yn deall yr hyn y mae angen ei wneud.

This is not a perfect Bill, but it is a start. Our fervent hope is that it will make a huge difference to beleaguered communities, overstretched charities and hard-pressed animal welfare officers. It is also a very clear direction for our local authorities and police forces that they need to step up to the mark and start delivering on this ministerial promise, the Bill and the commitment of the Welsh Government. Above all, it is a very clear shot across the bows of those totally irresponsible individuals and organised crime; I do not use that expression lightly, but we have seen it. We have seen the evidence and it is organised crime. Above all, Members, it is a huge step forward in the lives of an awful lot of our little ponies and horses all over Wales. For them, I thank you.

Nid yw hwn yn Fil perffaith, ond mae'n fan cychwyn. Ein gobaith mawr yw y bydd yn gwneud gwahaniaeth enfawr i gymunedau sydd dan warchae, elusennau sydd wedi'u gorymestyn a swyddogion lles anifeiliaid dydd dan bwysau. Mae hefyd yn gyfarwyddyd clir iawn i'n hawdurdodau lleol a'n heddluoedd fod angen iddynt ateb yr alwad a dechrau rhoi'r addewid gweinidogol hwn, y Bil ac ymrwymiad Llywodraeth Cymru ar waith. Yn anad dim, mae'n rhybudd clir iawn i'r unigolion cwbl anghyfrifol hynny ac i droseddwyr cyfundrefnol; nid wyf yn defnyddio'r ymadrodd hwnnw'n ysgafn, ond rydym wedi gweld hynny. Rydym wedi gweld y dystiolaeth a throseddu cyfundrefnol yw hyn. Yn anad dim, Aelodau, mae'n gam mawr ymlaen ym mywydau llawer iawn o'n merlod bach a'n ceffylau ar hyd a lled Cymru. Drostynt hwy, rwyf yn diolch ichi.

18:42 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I will give the undertaking for which Julie Morgan asked and we will ensure that all parts of the Welsh community, including Gypsy and Traveller groups and the community as a whole, will be a part of how we take this Bill forward.

Rhoddaf yr ymrwymiad y gofynnodd Julie Morgan amdano a byddwn yn sicrhau y bydd pob rhan o gymuned Cymru, gan gynnwys grwpiau Sipsiwn a Theithwyr a'r gymuned yn gyffredinol, yn rhan o'r ffordd yr ydym yn bwrw ymlaen â'r Bil hwn.

I would like to thank all Members who have taken part in the debate this afternoon and in previous debates. I thank those Members who have worked hard, both within all-party groups and as individuals, on improving this legislation and ensuring that we reach a point today whereby we introduce legislation and make law that will change profoundly the face of animal welfare in Wales. We will ensure that we have the structures in place and the legal vehicle in place that will mean that we will not tolerate fly-grazing anywhere in Wales again. I thank Members for their contributions.

Hoffwn ddiolch i'r holl Aelodau sydd wedi cymryd rhan yn y ddadl y prynhawn yma ac mewn dadleuon blaenorol. Diolch i'r Aelodau hynny sydd wedi gweithio'n galed, o fewn grwpiau pob plaid ac fel unigolion, i wella'r ddeddfwriaeth hon ac i sicrhau ein bod yn cyrraedd pwynt heddiw lle'r ydym yn cyflwyno deddfwriaeth ac yn gwneud cyfraith a fydd yn gweddnewid lles anifeiliaid yng Nghymru. Byddwn yn sicrhau bod y strwythurau ar waith a'r cyfrwng cyfreithiol ar gael inni a fydd yn golygu na fyddwn yn goddef pori anghyfreithlon yn unman yng Nghymru eto. Diolch i'r Aelodau am eu cyfraniadau.

18:43 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that the Control of Horses (Wales) Bill be passed. Does any Member object? There are no objections. Therefore, the Bill is passed in accordance with Standing Order 12.36.

Y cwestiwn yw a ddylid pasio Bil Rheoli Ceffylau (Cymru). A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad. Felly, mae'r Bil wedi'i basio yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

We now proceed to voting time. Before I commence the votes, are there three Members who wish the bell to be rung? There are not.

Trown yn awr at y cyfnod pleidleisio. Cyn imi gychwyn y pleidleisiau, a oes tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu? Nac oes.

## Cyfnod Pleidleisio

## Voting Time

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5382.

Result of the vote on motion NDM5382.

*Derbyniwyd y cynnig: O blaid 28, Yn erbyn 12, Ymatal 16.*

*Motion agreed: For 28, Against 12, Abstain 16.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 1 i gynnig NDM5381.

Result of the vote on amendment 1 to motion NDM5381.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 56, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Amendmend agreed: For 56, Against 0, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 2 i gynnig NDM5381.

Result of the vote on amendment 2 to motion NDM5381.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 28, Yn erbyn 28, Ymatal 0.*

*Amendmend not agreed: For 28, Against 28 Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog Rhif 6.20, defnyddiodd y Diprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order No. 6.20 the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 3 i gynnig NDM5381.

Result of the vote on amendment 3 to motion NDM5381.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 55, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 55, Against 0, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 4 i gynnig NDM5381.

Result of the vote on amendment 4 to motion NDM5381.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 17, Yn erbyn 28, Ymatal 11.*

*Amendment not agreed: For 17, Against 28, Abstain 11.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 5 i gynnig NDM5381.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 56, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 6 i gynnig NDM5381.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 56, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 7 i gynnig NDM5381.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 56, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 8 i gynnig NDM5381.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 55, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 9 i gynnig NDM5381.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 56, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

Cynnig NDM5381 fel y'i diwygiwyd:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi gyda phryder y sylwadau a wnaed yn adroddiad blynyddol Llywodraeth Cymru gan y Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy ynghylch dealltwriaeth Llywodraeth Cymru o ddatblygu cynaliadwy, a bod 'gwendidau systemig yn y strwythurau llywodraethu presennol ar gyfer datblygu cynaliadwy' o hyd.

2. Yn nodi'r cynnydd a wnaed o ran hyrwyddo datblygu cynaliadwy yn 2012-13, fel y'i nodir yn Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru ar y Cynllun Datblygu Cynaliadwy, a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 3 Rhagfyr 2013.

3. Yn cydnabod y rôl ganolog y mae addysg yn ei chwarae wrth ddatblygu dyfodol cynaliadwy i Gymru ac yn croesawu adolygiad thematig Estyn o Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang er mwyn gwella ei ffocws a chanfod gwelliannau.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi mwy o flaenoriaeth i gasglu tystiolaeth gan y rheini sydd â phrofiad ymarferol wrth ffurfio polisïau datblygu cynaliadwy a'u cynnwys mewn partneriaethau cyflawni.

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi adroddiad ar sut y mae polisïau yn y Rhaglen Lywodraethu yn gysylltiedig â'r Dangosyddion Datblygu Cynaliadwy ar gyfer Cymru.

6. Yn cydnabod y cyfraniad a wnaed gan y Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy yn ei sylwadau ar yr adroddiad.

7. Yn cydnabod pryderon parhaus y Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy ynghylch elfennau o strwythur a chynnwys yr adroddiad.

Result of the vote on amendment 5 to motion NDM5381.

*Amendment agreed: For 56, Against 0, Abstain 0.*

Result of the vote on amendment 6 to motion NDM5381.

*Amendment agreed: For 56, Against 0, Abstain 0.*

Result of the vote on amendment 7 to motion NDM5381.

*Amendment agreed: For 56, Against 0, Abstain 0.*

Result of the vote on amendment 8 to motion NDM5381.

*Amendment agreed: For 55, Against 0, Abstain 0.*

Result of the vote on amendment 9 to motion NDM5381.

*Amendment agreed: For 56, Against 0, Abstain 0.*

Motion NDM5381 as amended:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Notes with concern the comments made in the Welsh Government's annual report by the Sustainable Futures Commissioner regarding the Welsh Government's understanding of sustainable development and that there are still 'systemic weaknesses in current` governance structures for sustainable development'.

2. Notes the progress made on promoting sustainable development in 2012-13, as set out in the Welsh Government's Annual Report of the Sustainable Development Scheme, which was laid before the National Assembly for Wales on 3 December 2013.

3. Recognises the central role that education plays in developing a sustainable future for Wales and welcomes the Estyn thematic review of Education for Sustainable Development and Global Citizenship to increase its focus and identify improvements.

4. Calls on the Welsh Government to give greater priority to evidence-gathering from those with practical experience when formulating sustainable development policies and involving them in delivery partnerships.

5. Calls on the Welsh Government to report on how policies within the Programme for Government are linked to the Sustainable Development Indicators for Wales.

6. Acknowledges the contribution made by the Sustainable Futures Commissioner in the commentary of the report.

7. Recognises the continued concerns from the Sustainable Futures Commissioner regarding aspects of the structure and content of the report.

8. Yn galw am Fil Cenedlaethau'r Dyfodol cadarn ac effeithiol i roi sylw priodol i'r pwyntiau a godwyd gan y Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy ac i'r Gweinidog ymgysylltu â phob plaid a'r gymdeithas ddinesig ehangach wrth baratoi ar gyfer y Bil hwn.

8. Calls for a strong and effective future generations Bill to properly address the points raised by the Sustainable Futures Commissioner and for the Minister to engage with all parties and wider civic society in preparation of this Bill.

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5381 fel y'i diwygiwyd.

Result of the vote on motion NDM5381 as amended.

*Derbyniwyd cynnig NDM5381 fel y'i diwygiwyd: O blaid 44, Yn erbyn 12, Ymatal 0.*

*Motion NDM5381 as amended agreed: For 44, Against 12, Abstain 0.*

18:47

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

That concludes today's business.

Dyna ddiwedd ein trafodion heddiw.

*Daeth y cyfarfod i ben am 18:47.*

*The meeting ended at 18:47.*